

**Bangor University**

## **DOETHUR MEWN ATHRONIAETH**

Caffaeliad Plant Ifanc Dwyieithog o'r System Ateb yn y Gymraeg

Lloyd-Williams, Siân

*Award date:*  
2016

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 22. Jan. 2025

**Caffaeliad Plant Ifanc Dwyieithog o'r  
System Ateb yn y Gymraeg**

**Siân Wynn Lloyd-Williams**

**PhD**

**Ionawr 2016**

**Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor**

# Datganiad a Chaniatâd

## Manylion y Gwaith

Rwyf trwy hyn yn cytuno i osod yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan Brifysgol Bangor ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall yr awdurdodir ei defnyddio gan Brifysgol Bangor.

**Enw'r Awdur:** Siân Wynn Lloyd-Williams.

**Teitl:** Caffaeliad plant ifanc dwyieithog o'r system ateb yn y Gymraeg.

**Goruchwyliwr/Adran:** Yr Athro Enlli Thomas, Adran Addysg

**Corff cyllido (os oes):** Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Cymhwyster/gradd a enillwyd:** PhD

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun ac mae'n dod o dan y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith". Mae'n union yr un fath o ran cynnwys â'r eitem a osodwyd yn y Llyfrgell, yn amodol ar bwynt 4 isod.

## Hawliau Anghyfyngol

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol trwy'r cytundeb hwn yn gwbl anghyfyngol. Rydw i'n rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu mewn fersiynau i ddod mewn man arall.

Cytunaf y gall Prifysgol Bangor gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Prifysgol Bangor o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

## Cadwrfa Ddigidol Prifysgol Bangor

Deallaf y bydd y gwaith a osodir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, yn cynnwys asiantau a pheiriannau chwilio awtomataidd trwy'r We Fyd Eang.

Deallaf unwaith y gosodir y Gwaith, y gellir ymgorffori'r eitem a'i metadata yn y catalogau neu'r gwasanaethau mynediad cyhoeddus, cronfeydd data cenedlaethol theses a thraethodau hir electronig megis EthOS y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y bydd y Gwaith ar gael trwy Wasanaeth Theses Electronig Ar-Lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan y telerau a'r amodau defnydd a ddatganwyd (<http://www.llgc.org.uk/index.php?id=4676>). Cytunaf fel rhan o'r gwasanaeth hwn y

gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru gadw ar ffurf electronig, copïo neu drosi'r Gwaith i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at bwrpas ei gadw a mynd ato yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu ddyraniadau y cadwyd ef ynddynt yn wreiddiol.

### **Datganiad 1:**

Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd onid fel y cytunwyd gan y Brifysgol ar gyfer cymwysterau deuol cymeradwy.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 2:**

Canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae maint a natur y cywiriad wedi'i nodi'n glir mewn troednodyn/troednodiadau.

Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth ynghlwm.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

### **Datganiad 3:**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo, ar gyfer benthyciad rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ac i'r teitl a'r crynodeb fod ar gael i sefydliadau allanol.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

**ON:** Dylai ymgeiswyr y mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad ar eu rhan, ddefnyddio'r fersiwn canlynol o **Ddatganiad 3:**

**Datganiad 3 (gwaharddiad):**

Rhoddaf ganiatâd drwy hyn i'm thesis, os caiff ei dderbyn, fod ar gael ar gyfer llungopïo ac ar gyfer benthyciadau rhynglyfrgellol ac i'w gadw'n electronig (yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau fel y nodir yn natganiad 4), ar ôl i waharddiad ar fynediad ato ddod i ben.

Llofnod ..... (ymgeisydd)

Dyddiad .....

**Datganiad 4:**

DEWISWCH **un** o blith y dewisiadau isod

a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, a lle bo angen wedi cael y caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	
a)	Cytunaf i osod copi electronig o'm thesis (y Gwaith) yng Nghadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig, ac/neu mewn unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, pan fydd y <b>gwaharddiad ar fynediad</b> cymeradwy wedi ei godi.	
c)	Cytunaf i gyflwyno fy thesis (y Gwaith) yn electronig trwy gyfrwng system e-gyflwyno Prifysgol Bangor ond rydw i'n <b>dewis peidio</b> â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ddigidol Sefydliadol Prifysgol Bangor, system ETHOS y Llyfrgell Brydeinig ac/neu unrhyw gadwrfa arall y rhoddwyd awdurdod i Brifysgol Bangor ei defnyddio, oherwydd na chafwyd caniatâd i ddefnyddio deunydd trydydd parti.	

*Dylid defnyddio Dewis B dim ond os yw'r Brifysgol wedi cymeradwyo gwaharddiad ar fynediad.*

**Yn ogystal â'r uchod rydw i hefyd yn cytuno â'r canlynol:**

- (3) Mai myfi yw'r awdur neu wedi cael awdurdod yr awdur(on) i ddod i'r cytundeb hwn a fy mod i felly'n rhoi'r hawl i Brifysgol Bangor i sicrhau bod y Gwaith ar gael yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod.
- (4) Bod y copi electronig o'r Gwaith a gadwyd yn y gadwrfa ddigidol ac sydd o dan y cytundeb hwn, yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r copi papur o'r Gwaith a osodwyd yn Llyfrgell Prifysgol Bangor, yn amodol ar bwynt 4 isod.
- (5) Fy mod i wedi cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol a, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad yw'n torri unrhyw gyfreithiau – yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â difenwi, enllib a hawlfraint.
- (6) Fy mod i mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron eraill neu ddeiliaid hawlfraint wedi ei gynnwys yn y Gwaith, a lle bo'n briodol, wedi cael caniatâd eglur i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn ffurf electronig y Gwaith fel y ceir mynediad ato trwy'r gadwrfa ddigidol mynediad agored, *neu* fy mod i wedi canfod ac wedi dileu'r deunydd hwn na roddwyd caniatâd digonol a phriodol ar ei gyfer ac na fydd modd mynd ato trwy'r gadwrfa ddigidol.

- (7) Nad oes unrhyw ymrwymiad gan Brifysgol Bangor i gymryd camau cyfreithiol ar ran y sawl sy'n cyflwyno'r gwaith, neu ddeiliaid hawliau eraill, os digwydd bod hawliau eiddo deallusol yn cael eu torri, neu unrhyw hawl arall yn y deunydd a gedwir.
- (8) Y byddaf yn indemnio ac yn cadw wedi ei indemnio Prifysgol Bangor a Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhag ac yn erbyn unrhyw golled, atebolrwydd, hawl neu ddifrod, gan gynnwys yn ddigyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a chostau llys cysylltiedig (ar sail indemniad llawn), sy'n gysylltiedig ar unrhyw achos lle'r ydw i wedi torri unrhyw amod yn y cytundeb hwn.

Llofnod: ..... Dyddiad : .....

# Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, eu hamynedd a'u haelioni wrth i mi gwblhau'r gwaith hwn. Yn gyntaf oll mae rhaid cydnabod arweiniad a chefnogaeth cyson fy ngoruchwylwraig Dr Enlli Môn Thomas drwy gydol y cyfnod hwn. Diolch yn fawr i ti am dy adborth gwerthfawr a diymdroi ac yn enwedig am ymateb i'r holl bryderon (bach a mawr) oedd genna i cyn cyflwyno'r gwaith. Yn ogystal, diolch i ti mwy na dim am dy gyfeillgarwch gan obeithio y cawn y cyfle i gydweithio yn aml yn ystod y blynyddoedd nesaf. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Bob Morris Jones ac i'r Dr Peredur Glyn Cwyfan Davies am eu hadborth gwerthfawr ac am arweiniad pellach.

Diolch arbennig hefyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ariannu'r gwaith hwn ac am roi'r cyfle i mi ddatblygu'n sgiliau darlithio yn ogystal a'm sgiliau ymchwilio ymhellach. Mae'r cyfle i wneud hyn yn oll drwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig, nid yn unig er mwyn sicrhau cynhaliaeth a thwf y Gymraeg o fewn cyd-destunau academiaidd ond i mi fel Cymraes balch hefyd.

Yn dilyn hyn hoffwn ddiolch i staff yr Adran Addysg ym Mangor am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Diolch arbennig i Gwyn Lewis ac i Jean Ware am eu hadborth dechreuol a chadarnhaol ar briodweddau'r gwaith, ac i Dave Lane am ei gymorth wrth ddatblygu'r prawf cyfrifiadurol. Diolch hefyd i'm ffrind arbennig, Ivan Kennedy am y cwmni, y sgysiau, y paneidiau a'r chwerthin dros y blynyddoedd: Ivan – Thank you! Diolch hefyd i staff yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Aberystwyth am eu cefnogaeth brwd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac am roi'r amser angenrheidiol i mi gwblhau'r gwaith.

Yn ogystal, mae rhaid cydnabod cyfraniad hanfodol yr holl ysgolion, athrawon, rhieni a phlant sydd yn rhan annatod o'r ymchwil hwn. Heb eich cydweithrediad parod ni fyddai'r ymchwil hwn yn bosib felly diolch enfawr i chi i gyd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'm ffrindiau ac i'n nheulu oll am bopeth. Diolch arbennig iawn i Mam a Dad am yn annog i a fy ngalluogi i, nid yn unig i gwblhau'r gwaith hwn ond i astudio a dilyn gradd pellach-gan nad oedd un yn ddigon! Diolch hefyd i Catrin, Dyfan, Rhys, Siôn, Betsan, Eben, Deio, Nain Siwgr, Nain Byngalo a phawb arall am eu cefnogaeth cyson dros y cyfnod hwn. Diolch anferthol i Iwan am fod yn graig ac yn gariad drwy bob dim, faswn i ddim wedi gallu gwneud hyn hebdo ti. Yn bwysicaf oll, diolch i Begw a Siwan am roi gwên ar wyneb mam bob bore a'i hatgoffa fod yna bethau pwysicach na PhD!

**Diolch o galon i chi i gyd!**

**XXXXX**



# Cynnwys

---

<b>RHESTR O DABLAU .....</b>	<b>XII</b>
<b>RHESTR O DALFYRIADAU GRAMADEGOL.....</b>	<b>XIX</b>
<b>CRYNODEB .....</b>	<b>XX</b>
<b>PENNOD 1 : CYFLWYNIAD I'R YMCHWIL .....</b>	<b>1</b>
<b>PENNOD 2 : SYSTEMAU ATEB.....</b>	<b>5</b>
<b>2.1 Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
<b>2.2 Y System Ateb yn y Gymraeg .....</b>	<b>6</b>
2.2.1 System Adleisio (System Berfol) .....	7
2.2.2 System Adleisiol - Ystyriaethau Pellach .....	13
2.2.3 System adleisiol - I gloi.....	17
<b>2.3 System di-adlais (Trefn Gymysg).....</b>	<b>19</b>
2.3.1 Ffuriau <i>le a Nage</i> .....	19
2.3.2 Ffuriau Gorffennol Byr: <i>Do a Naddo</i> .....	21
2.3.3 System di-adlais – I gloi .....	22
<b>2.4 Tagiau.....</b>	<b>22</b>
2.4.1 Tagiau a thalfyriadau .....	24
<b>2.5 Casgliad o nodweddion y system .....</b>	<b>25</b>
<b>2.6 Mwy am Ffuriau 'bod' .....</b>	<b>26</b>
2.6.1 Ffuriau Amherffaith a Dyfodol <i>bod: Oedd a Bydd</i> .....	28
2.6.2 Ffuriau presennol <i>bod</i> .....	29
2.6.3 Ffuriau Negyddol <i>bod</i> – amrywiadau pellach.....	32
2.6.4 Digwyddiadau o'r ffuriau <i>bod</i> ar lafar ac yn ysgrifenedig.....	34
<b>2.7 Swyddogaeth disgysiol (discourse) ymatebolion Cymraeg .....</b>	<b>38</b>
2.7.1 Ymatebion .....	38
<b>2.8 Systemau Ateb Ieithoedd Eraill.....</b>	<b>39</b>
2.8.1 Esiamlau o ieithoedd lle adleisir y ferf.....	41
<b>2.9 I gloi.....</b>	<b>43</b>
<b>PENNOD 3 –CAFFAEL IAITH A DAMCANIAETHAU CAFFAEL IAITH .....</b>	<b>45</b>
<b>3.1 Cyflwyniad i Bennod 3 .....</b>	<b>45</b>

<b>3.2</b>	<b>Caffaeliad o iaith gan Blant</b> .....	<b>46</b>
3.2.1	Caffaeliad iaith: Datblygiad uniaith a Datblygiad dwyieithog.....	46
3.2.2	Gwahaniaethau rhwng unigolion dwyieithog ag unigolion gydag un iaith .....	52
3.2.3	Effaith amlygiad a mewnbwn ieithyddol .....	54
3.2.4	Ffactorau pwysig mewn amlygiad iaith .....	54
<b>3.3</b>	<b>Ciwiau</b> .....	<b>64</b>
<b>3.4</b>	<b>Damcaniaethau Datblygiad iaith</b> .....	<b>69</b>
3.4.1	Y Prif damcaniaethau: Cynhenidol a Gwybyddol.....	69
3.4.2	I gloi - Y Ddamcaniaeth Cynenidol.....	76
3.4.3	Damcaniaethau Gwybyddol .....	77
3.4.4	I gloi – Y Ddamcaniaeth Wybyddol.....	83
3.4.5	Modelau Caffael iaith .....	84
<b>3.5</b>	<b>Cwestiynau Ymchwil</b> .....	<b>87</b>
<b>PENNOD 4 - METHODOLEG</b> .....		<b>88</b>
<b>4.1</b>	<b>Cyflwyniad: Y rhesymeg tu ôl i'r fethodoleg</b> .....	<b>88</b>
<b>4.2</b>	<b>Methodoleg Cyffredinol</b> .....	<b>90</b>
4.2.1	Cynllun yr arbrawf .....	90
4.2.2	Dewis Profion .....	91
4.2.3	Dewis Ysgogiadau (Stimiwli) .....	91
4.2.4	Dewis Newidynnau .....	92
<b>4.3</b>	<b>Y Profion</b> .....	<b>110</b>
4.3.1	Eitemau Rheoli.....	110
4.3.2	Prawf Barnu ar Lafar .....	111
4.3.3	Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig.....	118
4.3.4	Prawf Cynhyrchu Llafar.....	121
4.3.5	Profion ychwanegol .....	123
4.3.6	Trefn profi terfynol .....	124
<b>4.4</b>	<b>I Gloi</b> .....	<b>125</b>
<b>PENNOD 5 : CANLYNIADAU</b> .....		<b>126</b>
<b>5.1</b>	<b>Amlinelliad o'r Cynnwys</b> .....	<b>126</b>
<b>5.2</b>	<b>Profion Cefndirol</b> .....	<b>128</b>
<b>5.3</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>128</b>
5.3.1	Plant.....	128
5.3.2	Canlyniadau Profion Cefndirol.....	128
5.3.3	Sgorau Crai Profion Geirfa .....	129
5.3.4	Sgorau Safonol Profion Geirfa .....	131
5.3.5	Profion Geirfa – I gloi.....	132
5.3.6	I Gloi – Profion Cefndirol .....	134

<b>5.4</b>	<b>Eitemau Rheoli .....</b>	<b>134</b>
5.4.1	Sgorau Cyfunol.....	135
5.4.2	Eitemau Rheoli Profion Unigol.....	137
<b>5.5</b>	<b>Trafodaeth : Dadansoddiadau cefndirol .....</b>	<b>138</b>

## **PENNOD 6 : CANLYNIADAU SGORAU CYFUNOL..... 141**

<b>6.1</b>	<b>Dadansoddi eitemau profi .....</b>	<b>141</b>
6.1.1	Sgorio'r profion.....	141
6.1.2	Sgorio eitemau profi yn ôl newidynnau.....	142
6.1.3	Dadansoddiad cyfunol: Oed ac Iaith y Cartref.....	143
6.1.4	Iaith gyda theulu a ffrindiau – Amllder defnydd .....	144
6.1.5	Eitemau Cadarnhaol a Negyddol .....	146
6.1.6	Ciwiau .....	150
6.1.7	Cymariaethau rhwng newidynnau .....	155
6.1.8	Dadansoddiad o eitemau penodol .....	168
6.1.9	I Gloi – Crynodeb o'r sgorau cyfunol a gafwyd .....	173
6.1.10	Casgliadau .....	175

## **PENNOD 7 : CANLYNIADAU PROFION UNIGOL .....** 178

<b>7.1</b>	<b>Sgorio eitemau fesul prawf.....</b>	<b>178</b>
<b>7.2</b>	<b>Dadansoddiad o'r profion ar wahân .....</b>	<b>179</b>
7.2.1	Effaith defnydd iaith: rhieni, brodyr/chwirydd, a ffrindiau .....	183
7.2.2	Eitemau Cadarnhaol a Negyddol – Profion Unigol .....	187
7.2.3	Crynodeb Cad vs Neg.....	194
7.2.4	Nifer o Giwiau – Profion Unigol .....	195
7.2.5	Eitemau Cyfatebol ac Anghyfatebol - Profion Unigol .....	199
<b>7.3</b>	<b>Cyfuniadau Newidynnol fesul prawf.....</b>	<b>201</b>
7.3.1	Prawf Barnu ar Lafar .....	202
7.3.2	Prawf Cynhyrchu Llafar.....	204
7.3.3	Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig.....	205
7.3.4	Crynodeb – Dadansoddiad o eitemau penodol.....	209
7.3.5	I Gloi – Crynodeb o'r sgorau unigol .....	209

## **PENNOD 8 : FFURFIAU UNIGOL O'R FERF..... 214**

<b>8.1</b>	<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>214</b>
<b>8.2</b>	<b>Dadansoddiad o Ffurf y Ferf ac Iaith y Cartref.....</b>	<b>214</b>
8.2.1	Grŵp Cymraeg .....	217
8.2.2	Grŵp Saesneg .....	218
8.2.3	Grŵp Cymysg.....	219
8.2.4	Casgliad – Ffurf y Ferf ac Iaith y Cartref.....	220
<b>8.3</b>	<b>Ffurf y Ferf a Gwahanol Newidynnau.....</b>	<b>221</b>

8.3.1	Cadarnhaol vs Negyddol .....	221
8.3.2	1 Ciw vs 2 Giw .....	225
8.3.3	Cyfatebol vs Anghyfatebol.....	228
8.3.4	Crynodeb – Dadansoddiad o ffurfiau’r ferf .....	230
<b>PENNOD 9 : EITEMAU CYNTAF AC OLAF A PHRAWF YMYRRAETH .....</b>		<b>232</b>
<b>9.1</b>	<b>Eitemau cychwynnol ynteu olaf.....</b>	<b>233</b>
9.1.1	Cefndir iaith .....	234
9.1.2	Casgliad.....	236
<b>9.2</b>	<b>Prawf Ymyrraeth .....</b>	<b>237</b>
9.2.1	Strwythur y Prawf.....	237
9.2.2	Canlyniadau: Prawf Ymyrraeth.....	241
9.2.3	Crynodeb – Prawf Ymyrraeth .....	243
<b>PENNOD 10 :TRAFODAETH.....</b>		<b>244</b>
<b>10.1</b>	<b>Cyflwyniad i’r bennod .....</b>	<b>244</b>
<b>10.2</b>	<b>Cwestiynau Ymchwil .....</b>	<b>245</b>
<b>10.3</b>	<b>Trafodaeth o’r Canlyniadau.....</b>	<b>246</b>
10.3.1	Cwestiwn Ymchwil 1: Pa mor bwysig ydy amlygiad ieithyddol i gaffaeliad plant ifanc o’r system ateb yn y Gymraeg? .....	247
10.3.2	Cwestiwn 2: Oes tystiolaeth i awgrymu fod elfennau o drosglwyddiad ieithyddol i’w gweld yn ymatebion y plant? H.y. Ydy siaradwyr ail iaith Saesneg yn dueddol o fapio’r wybodaeth sydd ganddynt o’r system ateb syml sy’n bodoli yn Saesneg ar y system llawer mwy cymhleth a geir yn y Gymraeg?.....	271
10.3.3	Cwestiwn 3: I ba raddau mae’r modelau a’r damcaniaethau caffael iaith drafodwyd (Pennod 3) gyda’r gallu i esbonio darganfyddiadau’r ymchwil presennol? .....	272
10.3.4	I Gloi – Cwestiynau ymchwil .....	275
<b>10.4</b>	<b>Goblygiadau Addysgol.....</b>	<b>276</b>
<b>10.5</b>	<b>Ystyriaethau Methodolegol ac Ymchwil Pellach .....</b>	<b>282</b>
<b>10.6</b>	<b>Casgliad.....</b>	<b>285</b>
<b>CYFEIRNODAU .....</b>		<b>286</b>
<b>ATODIADAU.....</b>		<b>304</b>
	Atodiad 1a – Caniatâd Cymraeg.....	305
	Atodiad 1b – Caniatâd Saesneg .....	306
	Atodiad 2- Caniatâd yr ysgol .....	307
	Atodiad 3a – Holiadur Cymraeg.....	308
	Atodiad 3b – Holiadur Saesneg.....	312
	Atodiad 4 - Eitemau Rheoli .....	316
	Atodiad 5 - Lleoliadau’r prawf barnu .....	322
	Atodiadau 6 a 7– Sgriptiau a Chodau’r Prawf Barnu .....	324

Atodiad 8 – Cwestiynau Ymarfer ar gyfer y prawf Barnu.....	363
Atodiad 9 – Y Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig.....	366
Atodiad 10 – Y Prawf Cynhyrchu ar Lafar .....	376
Atodiad 11 – Y Manylion Methodolegol .....	383
Atodiad 12 – Esiampl o eitemau a’r system godio.....	400
Atodiad 13– Prawf Ymyrraeth ar Lafar ac yn Ysgrifenedig .....	405
Atodiad 14– Prawf Ymyrraeth ar Lafar ac yn Ysgrifenedig .....	411
Atodiad 15.....	417
Cwestiynau Unigol a ddefnyddiwyd ar gyfer y Prawf Ymyrraeth yn ystod Wythnos 2.....	417
Atodiad 16.....	424
Cwestiynau Unigol a ddefnyddiwyd ar gyfer y Prawf Ymyrraeth yn ystod Wythnos 3.....	424
Atodiad 17.....	431
Ymatebion Unigol a ddefnyddiwyd ar gyfer y Prawf Ymyrraeth yn ystod Wythnos 2 a 3 .....	431

## Rhestr o Dablau

Tabl 1 - Rhestr o'r berfau cryno ac enghreifftiau posib lle mae rhaid adleisio'r ferf (addaswyd o Thomas, 1996) .....	8
Tabl 2 – Defnydd o adleisio berfol cyflawn a dirprwyol gyda'r berfau dod a mynd (addaswyd o Thomas 1996). .....	10
Tabl 3 - Esiampl o ffurfiau rhagenwol gwahanol a geir ar gyfer ffurfiau ymatebol unigol a lluosog y ferf gallu. ....	14
Tabl 4 – Esiampl o Dabl 2 o rai gwahaniaethau tafodieithol a geir ar gyfer ffurfiau ymatebol y ferf gallu. ....	16
Tabl 5 – Ffurfiau ysgrifenedig a'r opsiynau eraill a geir ar lafar o'r ffurf amherffaith o'r ferf bod. ....	16
Tabl 6 - Rhestr o'r ffurfiau ymateb a geir yn ôl nifer ar gyfer amser amherffaith y ferf mynd (addaswyd o Lewis, 2013 a Thorne, 2000). ....	17
Tabl 7 - Esiampl o rai tagiau a ddefnyddir ar lafar er mwyn ysgogi ateb positif neu negatiff (Addaswyd o Jones 1999). ....	23
Tabl 8– Rhestr o'r ymatebion Cadarnhaol a Negyddol posib ar lafar (ac efallai y gellid ychwanegu mwy eto), yn cynnwys amrywiadau tafodieithol a lle defnyddir talfyriadau, yn ôl Person a Nifer yn yr amseroedd presennol, dyfodol, amodol, amherffaith ac amhendiant o'r ferf <i>bod</i> (Casglwyd o lyfrau Lewis, 2013; Griffiths a Jones, 2008; Jones, 1999; Thomas, 1996; Thorne, 2000). ....	27
Tabl 9 – Rhestr o'r ffurfiau ymatebol a ddefnyddir ar gyfer ymatebion berfol presennol bod.....	29
Tabl 10 - Rhestr o'r ffurfiau berfol negyddol d- a ddefnyddir ar gyfer cwestiynau presennol bod. ....	32
Tabl 11 – Rhestr o'r ffurfiau berfol negyddol d- a ddefnyddir ar gyfer cwestiynau amherffaith bod. ....	32
Tabl 12 - Niferoedd y ffurfiau adleisiol gwahanol fel a gyfrifwyd yn y Corpws Siarad (460,000 o eiriau). ....	36
Tabl 13 - Niferoedd y ffurfiau adleisiol gwahanol fel a gyfrifwyd gan Corpws CEG (1,079,032 o eiriau). ....	36
Tabl 14- Niferoedd y ffurfiau di-adlais gwahanol fel a gyfrifwyd yn Nghorpws Siarad (460,000 o eiriau). ....	37
Tabl 15- Niferoedd y ffurfiau di-adlais gwahanol fel a gyfrifwyd gan Corpws CEG(1,079,032 o eiriau). ....	37
Tabl 16– Sbardunau ieithyddol a'i hymatebion cyfatebol yn ôl ffurfiau ad leisiol neu di-adlais (Addaswyd o Jones, 1999). ....	38
Tabl 17 - Nifer o gyfranwyr yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref. ....	90
Tabl 18 - Atebion adleisiol a ddefnyddiwyd yn y profion.....	92
Tabl 19 - Atebion di-adlais a ddefnyddiwyd yn y profion .....	92
Tabl 20 - Ffurfiau posib o ffurf presennol bod yn unig.....	97
Tabl 21 – Ffurfiau dyfodol ac amherffaith o'r ferf bod .....	99

Tabl 22– Ffurfiâu amhendant o’r ferf bod .....	101
Tabl 23– Ffurfiâu di-adlais gorffennol perffaith.....	104
Tabl 24 – Ffurfiâu di-adlais, cwestiynau pwysleisiol .....	106
Tabl 25 - Y nifer o’r pum math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cywir, Cwestiwn) a geir yn y prawf barnu ar lafar yn ôl ffurf y ferf (Ffurf Presennol, Dyfodol ac Amherffaith, $N=32*3=96$ ; Amhendant, $N=32$ a Di-adlais, $N=36 =$ Cyfanswm o $N=164$ ).....	113
Tabl 26 - Allwedd i’r codau a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhaglen gyfrifiadurol.....	113
Tabl 27– Allwedd ar gyfer codio symudiadau’r cymeriadau yn y prawf Barnu ar Lafar. ....	114
Tabl 28 – Y nifer o eitemau profi a geir o’r pedwar math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cwestiwn) a geir yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn ôl ffurf y ferf (Ffurf Presennol, $N=16$ ; Dyfodol, Amherffaith ac Amhendant, $N=8*3 = 24$ a Di-adlais, $N=14$ ).....	119
Tabl 29 – Y nifer o’r pedwar math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cwestiwn) a geir yn y prawf cynhyrchu llafar yn ôl ffurf y ferf (Ffurf Presennol, $N=16$ , Dyfodol ac Amherffaith, $N=8*2 = 16$ ; Amhendant, $N=16$ a Di-adlais, $N=18$ Cyfanswm o $N=66$ ). ....	121
Tabl 30 - Nifer o blant yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref.....	128
Tabl 31 - Nifer o gyfranwyr yn ôl cefndir addysgol y rhieni. ....	133
Tabl 32 - Ystadegau cefndirol ar gyfer sgorau cyfartalog unigolion ar yr eitemau cyfunol, profi a rheoli.....	136
Tabl 33 - Nifer o blant ar gyfer y dadansoddiad cyfunol yn ôl oed ac iaith y cartref. ....	141
Tabl 34 – Sgorau canrannol (%) unigolion ar yr eitemau profi cyfunol yn ôl iaith a siaredir gyda’r fam, dad, brodyr/chwiorydd a ffrindiau. ....	144
Tabl 35 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) yn ôl y math o eitem (negyddol neu gadarnhaol) a’r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau. ..	148
Tabl 36 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog oed (Grŵp lau= $7;1-9;8$ ; Grŵp Hÿn = $9;9-11;9$ ) yn ôl y math o eitem (negyddol neu gadarnhaol) a’r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau. ....	149
Tabl 37 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2) a’r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau. ....	152
Tabl 38 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp lau = $7;1 - 9;8$ ; Grŵp Hÿn = $9;9 - 11;9$ ) yn ôl y math o eitemau a geir (cyfatebol neu anghyfatebol) a’r gwahaniaethau a welir yn y sgorau.....	154
Tabl 39 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp lau = $7;1 - 9;8$ ; Grŵp Hÿn = $9;9 - 11;9$ ) yn ôl y math o eitemau a geir (cyfatebol neu anghyfatebol). ....	154
Tabl 40 – Rhestr o’r dadansoddiadau wnaethpwyd er mwyn cymharu ar draws newidynnau .....	155

Tabl 41- Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cadarnhaol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2 giw) a'r gwahaniaeth a geir o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.....	159
Tabl 42 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cadarnhaol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2).....	159
Tabl 43 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol a'r gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.....	164
Tabl 44- Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol.....	164
Tabl 45 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau anghyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol a'r gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.....	166
Tabl 46 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau anghyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol.....	167
Tabl 47 – Yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol).....	168
Tabl 48- Sgorau cyfartalog plant yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grŵp iaith (Cymraeg; Saesneg a Cymysg) ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol).....	170
Tabl 49/Tabl 66 – Sgorau cyfartalog plant yn ôl grŵp oed Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn= 9;9 - 11;9) a grŵp iaith (Cymraeg; Saesneg a Cymysg) ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol). Mae * yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol.....	171
Tabl 50 – Sgorau plant ar yr cymariaethau rhwng yr sgorau agosaf a gafwyd ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol). Mae * yn nodi lle ceir gwahaniaeth arwyddocaol.....	172
Tabl 51- Nifer o blant yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref.....	179
Tabl 52 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9) yn ôl y math o brawf a gafwyd (barnu ar lafar, cynhyrchu ysgrifenedig, cynhyrchu ar lafar) a'r gwahaniaethau a welir yn y sgorau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed. ....	181
Tabl 53 Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9) yn ôl y math o brawf a gafwyd (barnu ar lafar, cynhyrchu ysgrifenedig, cynhyrchu ar lafar). Nodir cyfeiriad gwahaniaeth gyda saethau ↓ = gostyngiad yn y gwahaniaeth rhwng grwpiau iaith a ↑ = cynydd yn y gwahaniaeth rhwng grwpiau iaith). ....	182
Tabl 54– Allwedd yn cynnwys y lliwiau cyfatebol ar gyfer Ffigyrau 19, 20, 21 ac 22 isod.....	184



Tabl 55 – Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog unigolion ar eitemau negyddol y profion unigol yn ôl grŵp oed a'r gwahaniaeth a gafwyd rhwng grwpiau oed.....	190
Tabl 56 – Yr wyth math o gyfuniadau a gafwyd o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol). .....	201
Tabl 57 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog eitemau penodol ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9). .....	207
Tabl 58 – Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda *.	215
Tabl 59 – Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar y grŵp Cymraeg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda *.	217
Tabl 60– Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar y grŵp Saesneg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda *.	218
Tabl 61– Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar gyfer y grŵp Cymysg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda *.	219
Tabl 62 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau negyddol vs cadarnhaol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).....	222
Tabl 63 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd ar gyfer oed ar eitemau negyddol vs cadarnhaol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). .....	223
Tabl 64 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau pan gafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).....	226
Tabl 65 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau pan gafwyd un ai eitem cyfatebol neu anghyfatebol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).....	229
Tabl 66 - Nifer o eitemau cychwynnol ac olaf ym mhob prawf (prawf cynhyrchu llafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar). .....	233
Tabl 67 - Nifer o gyfranwyr a geir yn ôl yr ymyrraeth a dderbyniwyd ac iaith y cartref. ....	237

## Rhestr o Ffigyrau

Ffigwr 1 - Esiampl o'r hyn a welwyd ar y sgrin yn y prawf Barnu, yn y ffurf presennol o'r ffurf bod. Mae'r tri chymeriad yn eistedd o gwmpas y bwrdd yn y gegin yn trafod bwydydd gwahanol. ....	112
Ffigwr 2 - Enghraifft o'r tudalen cyntaf lle mae'r unigolyn yn nodi ei h/enw a'r ddechrau'r prawf. ....	115
Ffigwr 3 - Enghraifft o'r botymau sy'n ymddangos wedi pob cyfuniad o gwestiwn ac ateb a gafwyd yn y prawf Barnu. Yma gweler llun o'r prawf ffurf dyfodol a leolir yn yr eisteddfod. ....	115
Ffigwr 4 - Esiampl o lun o'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig. Rhoddwyd cefndir pwrpasol i gyd-fynd gyda phob llun. Yma nodwyd 'Mae'r eliffant yma wedi neidio i mewn i'r dŵr'. ....	118
Ffigwr 5 - Y llun a rhai o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitemau ymarfer yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig. ....	120
Ffigwr 6 - Sgorau crai ar y Prawf Geirfa Cymraeg a'r BPVS yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg, neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).....	131
Ffigwr 7 - Sgorau canrannol ar yr eitemau profi a rheoli yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymraeg a Saesneg) a grwpiau oed (Grŵp Oed Iau=7;1-9;8; Grŵp Oed Hŷn = 9;9-11;9). ....	136
Ffigwr 8 - Sgorau canrannol ar gyfer cyfuniad y profion ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9). ....	143
Ffigwr 9 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau negyddol ac eitemau cadarnhaol ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn= 9;9-11;9). ....	147
Ffigwr 10 - Sgorau canrannol ar gyfer nifer o giwiau (1 ciw neu 2 giw) yn ôl oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....	151
Ffigwr 11 - Sgorau canrannol ar gyfer y math o giw (ciw cyfatebol neu giw anghyfatebol) yn ôl oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....	153
Ffigwr 12 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau negyddol a cadarnhaol a nifer o giwiau.....	157
Ffigwr 13 - Sgorau canrannol ar gyfer math (cyfatebol/anghyfatebol) a nifer o giwiau (1 ciw neu 2 giw) yn ôl grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....	161
Ffigwr 14 – Sgorau canrannol ar gyfer math (cyfatebol/anghyfatebol) ac un ai ymatebion cadarnhaol neu negyddol yn ôl grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymraeg a Saesneg). ....	163
Ffigwr 15 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw). ....	169
Ffigwr 16 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer eitem 1 ac eitem 8 sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (eitem 1 = Cadarnhaol, 1 Ciw ac Anghyfatebol; eitem 8 = Negyddol, 2 Giw ac Cyfatebol). ....	173
Ffigwr 17 - Sgorau canrannol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a prawf cynhyrchu llafar ar y system ateb yn y Gymraeg. ....	180

<b>Ffigwr 18 - Sgorau canrannol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a prawf cynhyrchu llafar ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).....</b>	<b>181</b>
<b>Ffigwr 19 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y fam (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.....</b>	<b>184</b>
<b>Ffigwr 20 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y tad (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.....</b>	<b>184</b>
<b>Ffigwr 21 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith brodyr a chwiorydd (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.....</b>	<b>185</b>
<b>Ffigwr 22– Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y ffrindiau (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol. ....</b>	<b>186</b>
<b>Ffigwr 23 - Sgorau canrannol negyddol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).....</b>	<b>189</b>
<b>Ffigwr 24 - Defnydd canrannol Na yn unig vs Na + Berf ar gyfer y prawf cynhyrchu llafar a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).....</b>	<b>192</b>
<b>Ffigwr 25 - Sgorau canrannol cadarnhaol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).....</b>	<b>193</b>
<b>Ffigwr 26 - Sgorau canrannol cadarnhaol a negyddol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). Fel y disgwylir ac fel y gweler yn Ffigwr 26 mae'r sgorau ar yr eitemau cadarnhaol ar y tri phrawf yn is na'r sgorau a gafwyd ar yr eitemau negyddol. ....</b>	<b>194</b>
<b>Ffigwr 27 - Sgorau canrannol lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....</b>	<b>196</b>
<b>Ffigwr 28 - Sgorau canrannol lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar gyfer y prawf ysgrifennu yn unig yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....</b>	<b>197</b>
<b>Ffigwr 29 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau cyfatebol ac anghyfatebol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) .....</b>	<b>199</b>
<b>Ffigwr 30 - Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tri newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf barnu ar lafar yn unig.....</b>	<b>203</b>
<b>Ffigwr 31– Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf cynhyrchu llafar yn unig.....</b>	<b>205</b>
<b>Ffigwr 32 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tri newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn unig.....</b>	<b>206</b>
<b>Ffigwr 33 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf gwahanol o'r ferf 'bod' (Presennol, Dyfodol, Amherffraith, Amhendant, Di-Adlais).....</b>	<b>215</b>

Ffigwr 34 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf Gymraeg (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais) yn ôl iaith y cartref (Saesneg, Cymraeg a Cymysg).....	216
Ffigwr 35 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Cymraeg yn unig. ....	217
Ffigwr 36 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Saesneg yn unig. ....	219
Ffigwr 37 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Cymysg yn unig. ....	220
Ffigwr 38- Sgorau canrannol ar gyfer eitemau Cadarnhaol a Negyddol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais) yn ôl oed (Grŵp lau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9).....	223
Ffigwr 39 - Sgorau canrannol pan gafwyd un ai eitem negyddol neu cadarnhaol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-adlais) ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg). ....	224
Ffigwr 40 - Sgorau canrannol yn ôl oed (Grŵp lau= 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y ffurf Dyfodol yn unig.....	227
Ffigwr 41- Sgorau canrannol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y ffurfiau di-adlais ac Amhendant yn unig.....	228
Ffigwr 42- Sgorau canrannol ar gyfer ffurfiau Dyfodol ac Amherffaith pan geir eitemau Cyfatebol neu Anghyfatebol yn ôl oed(Grŵp lau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9). ....	230
Ffigwr 43 – Sgorau canrannol y plant ar yr holl eitemau wedi ei ymrannu i un ai eitem cychwynnol neu olaf ym mhob prawf (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar). Nodir gwahaniaeth arwyddocaol gyda *.....	233
Ffigwr 44 – Sgorau canrannol y plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf yn y cyfuniad o'r profion (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar)yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).....	235
Ffigwr 45 – Sgorau canrannol y plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf yn y profion unigol ar wahân (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar)yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).....	236
Ffigwr 46 – Sgorau crai y cyfranwyr ar y profion ymyrraeth gwahanol (Llafar ac Ysgrifenedig) yn Wythnos 1 (W1LLAFAR a W1YSGRIFEN) ac yn wythnos 4 (W4LLAFAR a W4YSGRIFEN) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg neu Saesneg).....	242
Ffigwr 47– Sgorau crai y cyfranwyr ar y profion ymyrraeth gwahanol (Llafar ac Ysgrifenedig) yn Wythnos 1 (W1LLAFAR a W1YSGRIFEN) ac yn wythnos 4 (W4LLAFAR a W4YSGRIFEN) ac yn ôl y grwpiau oedd un ai yn derbyn neu ddim yn derbyn ymyrraeth. ....	243

## Rhestr o Dalfyriadau Gramadegol

Gweler esiampl o dalfyriad gramadegol ar gyfer ymateb penodol isod:

Cwestiwn	<b>Wyt ti'n hoffi cawl?</b> Bod.2U.Pres
Ymateb	<b>Ydw/Nac Ydw</b> Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Manylir ar y talfyriadau hyn isod:

Rhan 1 – Cyfeiria'r rhan gyntaf at y math o ferf e.e. *bod, cael dylai, gwneud* ayyb

Rhan 2 – Noda'r ail ran y person (person cyntaf(1), ail berson (2) neu trydydd person (3)) a'r nifer (un ai unigol (U) NEU Lluosog (LL))

Rhan 3 – Noda'r rhan olaf amser y ferf:]

Pres	=	Presennol
Dyf	=	Dyfodol
Amh	=	Amherffaith
Amht	=	Amhendant
Gorff	=	Gorffennol

Yn ogystal defnyddir NEG i nodi geiryn negyddol e.e. *Na, Nac* a'r ffurf Neg i ddynodi ffurf berfol negyddol e.e.

Cwestiwn	<b>Tydy Siwan ddim yn y swyddfa?</b> Bod.3U.Pres.Neg
----------	---

## Crynodeb

Pwrpas yr ymchwil hwn oedd mesur dealltwriaeth plant dwyieithog rhwng 7;7 a 11;9 mlwydd oed o'r system ateb yn y Gymraeg. Mae nifer o ymchwilwyr wedi adnabod pwysigrwydd amlygiad ieithyddol digonol i'r broses o gaffael iaith ac o gaffael strwythurau cymhleth yn enwedig (e.e., Gathercole a Thomas, 2005). Gobeithir y bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o bwysigrwydd amlygiad digonol wrth gaffael dwy iaith ac y bydd yn cyfrannu at y drafodaeth sy'n edrych ar lunio strategaethau addysgol priodol fyddai'n cynorthwyo plant wrth geisio dysgu systemau cymhleth.

Mae i'r system ateb amryw o nodweddion gwahanol sy'n cynnwys elfennau adlesiol lle adleisir y ferf gryno (e.e., *Wyt ti'n hoffi coffi?* Bod.2U.PRES lle ymatebir gyda'r ffurf *Ydw* Bod.1U.PRES), yn ogystal â ffurfiau di-adlais lle mae'n bosib i ffurf gystrawennol y frawddeg fod yn giw (e.e., *Ai ti bia'r bêl yne?* lle yr ymatebir gyda'r ffurf ymatebol *Ie*). Er fod yr amrywiadau hyn yn awgrymu fod y system yn un cymhleth ar yr olwg gyntaf, mae iddi hefyd nifer o reolau cyson (neu giwiau).

Crëwyd 3 o dasgau newydd i 134 o blant o dri chefnidir ieithyddol gwahanol: Un ai Cymraeg, Saesneg neu Gymraeg a Saesneg yn y cartref. Roedd y profion hyn yn cynnwys prawf barnu ar lafar a phrofion cynhyrchu ar lafar ac yn ysgrifenedig. Awgryma'r canlyniadau fod amllder y mewnbwn a thryloywder unrhyw eitem phenodol yn hollbwysig, gyda'r plant o gartrefi Cymraeg yn sgorio'n uwch na'r grwpiau eraill ar bron bob eitem ar gyfartaledd. Cyfranna'r ymchwil hwn at ein dealltwriaeth o bwysigrwydd amllder y mewnbwn, ciwiau cystrawennol, a'r angen i adnabod rheolau wrth gaffael strwythurau penodol. Yn unol â'r datganiad hwn, mae i'r canlyniadau yma oblygiadau tu hwnt i'r system hon, ac thu hwnt i'r iaith Gymraeg, a

trafodir goblygiadau addysgol posib y canlyniadau a'r ystyriaeth sydd angen ei roi i ymchwil pellach.

# Pennod 1: Cyflwyniad i'r Ymchwil

Nod yr ymchwil hwn yw edrych ar gaffaeliad plant ifanc dwyieithog yng Nghymru o'r system ateb yn y Gymraeg. Yn benodol, drwy ofyn i blant ifanc gwblhau amryw o dasgau yn ymwneud â'r system, ceisiwyd mesur yr hyn mae plant ifanc yn ei wybod am y system a sut mae'r wybodaeth hon yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r system yn effeithiol ac yn gywir. Yn yr astudiaeth hon, defnyddir 'cywir' fel term sy'n seiliedig ar sylwadau disgrifiadol, gwrthrychol (y dull disgrifiadol) ac nid fel term rhagnodol, beirniadol sy'n seiliedig ar ramadegau traddodiadol sy'n edrych yn bennaf ar yr iaith ysgrifenedig ffurfiol (y dull rhagnodol). Defnyddir y termau 'anghywir' a 'cywirdeb' yn yr un modd. Ystyriwyd rhai o'r cwestiynau a welir isod ac fe nodir rhai cwestiynau penodol o ddiddordeb ar ddiwedd pennod 3:

- A yw plant yn gwneud defnydd o, neu yn dilyn y rheolau pendant sydd ynghlwm â'r system hon wrth ymateb?
- Oes gwahaniaeth i'w weld ym mherfformiad plant yn ôl amllder y mewnbwn ieithyddol a gafwyd h.y. y iaith a siaradwyd yn y cartref? a
- Oes angen cymorth ychwanegol ar blant ifanc i sicrhau eu bod yn defnyddio'r system yn gywir?

Mae'r cwestiynau uchod yn hollbwysig wrth ystyried defnydd plant ifanc o'r Gymraeg, ac yn cyfrannu at y llenyddiaeth rhyngwladol sy'n ceisio darganfod sut mae plant dwyieithog yn caffael (os o gwbl) systemau cymhleth<sup>1</sup>, yn enwedig o dan amgylchiadau ble

<sup>1</sup> Yng nghyd-destun yr ymchwil hwn cyfeiria'r term systemau cymhleth at systemau lle mae'r broses o fapio'r ffurfiau swyddogaethol yn afloyw h.y. systemau lle nad oes perthynas amlwg rhwng ffurf gair a'i statws gramadegol, megis ffurf yr enw a'i genedl ramadegol yn y Gymraeg, neu ble ceir nifer helaeth o amrywiadau



mae'r iaith dan sylw yn iaith leiafrifol. Wedi'r canlyniadau siomedig a gafwyd yn y cyfrifiad yn 2011, lle roedd y nifer o siaradwyr Cymraeg i'w weld yn gostwng (Llywodraeth Cymru, 2012), rhaid ystyried yr angen i ailedrych ar sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei dysgu a'i haddysgu yn ein hysgolion. Cyfeirir yma at y Gymraeg nid yn unig fel cyfrwng yr addysgu, lle mae'r niferoedd yn parhau i ffynnu, ond fel pwnc ar wahân o fewn y cwricwlwm. Cwestiwn arall sydd rhaid ei ystyried, yng nghyd destun y Gymraeg fel iaith leiafrifol, yw'r elfen o ddirywiad ieithyddol. Oes angen i'r system addysgu a dysgu ystyried yr angen ar gyfer ymyrraeth cynharach wrth ymdrin â systemau cymhleth yn yr iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau seiliau cadarn i'r broses o gaffael y strwythurau hynny, a sicrhau fod siaradwyr yn hyderus i ddefnyddio'r iaith?

Un o nodweddion amlyca'r system yw'r arfer o ddefnyddio'r ferf, ac yn benodol yr arfer o adleisio'r ferf yn y cwestiwn, wrth ymateb – e.e.

(1) Cwestiwn: **Ydy hi'n braf heddiw?**

Ateb: **Ydy** neu **Nac Ydy**

(Mae **Na** hefyd yn dderbyniol wrth ymateb yn negyddol).

Yn ogystal mae'r ateb yn gallu bod yn ddibynnol ar ffurf y cwestiwn lle na wneir defnydd o ferfau wrth ymateb (gelwir y rhain yn ffurfiau di-adlais yn yr ymchwil hwn), e.e.

(2) Cwestiwn: **Ai ti bia'r siocled yma?**

Ateb: **Ie** neu **Na(ci)**

Fe geir esboniad llawn o'r system ateb ym Mhennod 2.

Ym Mhennod 3 fe ystyrir a thrafodir yn gryno y prif ddamcaniaethau sy'n ceisio esbonio sut mae plant ifanc yn mynd ati i gaffael strwythurau cymhleth ac edrychir yn

---

yn y ffurfiau a ddefnyddir i gyfleu agwedd ramadegol heb fod yna giwiau amlwg bob amser i nodi pa ffurf i'w defnyddio megis ffurfiau lluosogi enwau.

benodol ar batrymau caffael iaith plant dwyieithog. Rhaid hefyd ystyried y gwahaniaethau posib ym mhatrymau dysgu plant o gartrefi di-Gymraeg wrth gaffael strwythurau cymhleth mewn ail iaith (yn enwedig pan fo honno'n iaith leiafrifol). Ceir cytundeb eithaf cyson ymysg ymchwilwyr heddiw fod mewnbwn ieithyddol ac amllder y mewnbwn ieithyddol yn hollbwysig wrth gaffael iaith. Felly, beth yw goblygiadau hyn ar gyfer plant ail iaith? Beth am amllder strwythurau/eitemau penodol o fewn yr iaith?

Fodd bynnag, er fod y system ateb yn y Gymraeg yn ymddangos yn un cymhleth ar yr olwg gyntaf mae iddi reolau penodol mae posib eu dilyn (gweler Pennod 2). Felly, er nad yn amlwg bob amser, ac yn wahanol i systemau cymhleth eraill yn yr iaith Gymraeg megis y system genedl enwau (e.e. Gathercole Thomas a Laporte, 2001; Gathercole a Thomas 2005), mae ciw, ac yn aml mwy nag un ciw, i'w cael i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i ddewis yr ymateb cywir. Mae gweld a yw'r plentyn yn ymwybodol o neu yn gwneud defnydd o'r ciwiau hyn yn gwestiwn y ceisiwyd mynd i'r afael ag o yn yr ymchwil hwn. Edrychwyd felly ymhellach yn Mhennod 3 ar ymchwil sy'n edrych ar ddilysrwydd a dibynadwyedd ciwiau a sut mae hyn yn gallu effeithio ar drefn caffael iaith.

Rhodddwyd amryw o dasgau i blant ifanc dwyieithog Cymraeg/Saesneg er mwyn profi eu gwybodaeth o'r system ateb yn y Gymraeg. Roedd y profion hyn yn rhai gwreiddiol a chynhwysfawr a grëwyd ar gyfer yr ymchwil hwn ac roeddynt yn cynnwys profion cynhyrchu llafar ac ysgrifenedig a phrawf barnu ar lafar. Yn ogystal fe gwblhaodd y plant brofion ychwanegol er mwyn cyfrifo eu cyniferydd deallusrwydd (IQ) a'u gwybodaeth o eirfa yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Trafodir y profion hyn, y broses o greu'r profion, o ddewis yr eitemau penodol a'r dull o gasglu'r data ym Mhennod 4 ac Atodiad 11. Yn y penodau sy'n dilyn (Pennod 5 – 9) trafodir y canlyniadau gan ddechrau gyda chanlyniadau'r profion

cefndirol (cyniferydd deallusrwydd a phrofion geirfa) cyn trafod canlyniadau'r plant ar y profion oedd yn mynd ati i fesur dealltwriaeth y plant o'r system ateb yn gyffredinol yn gyntaf, ac mewn mwy o fanylder wrth edrych ar newidynnau penodol oedd o bwys wedi hynny.

Yn olaf ym Mhennod 10 trafodir rhai o oblygiadau canlyniadau'r ymchwil hwn: Ydy'r canlyniadau yn awgrymu bod angen newid y modd yr addysgir systemau cymhleth yn yr iaith Gymraeg? H.y. Oes lle i addasu'r dulliau cyfredol o addysgu er mwyn canolbwyntio ar adnabod patrymau penodol a gwneud defnydd amlycach o'r rheolau a geir wrth gaffael strwythurau cymhleth? Oes gwahaniaethau amlwg i'w gweld rhwng plant a ddaw o gartrefi Cymraeg o'i gymharu â phlant a ddaw o gartrefi di-Gymraeg ac beth am y plant hynny ddaw o gartrefi lle siaredir y ddwy iaith? Oes angen mynd i'r afael â, a gwneud plant yn ymwybodol o'r rheolau sydd ar gael yn gynharach er mwyn iddynt gyflawni eu llawn potensial wrth gaffael strwythurau cymhleth yr iaith? Ydy'r canlyniadau yn awgrymu bod angen mewnbwn o amllder ac ansawdd ddigonol ar adeg benodol mewn bywyd er mwyn caffael strwythurau cymhleth yn effeithlon?

Mae'r gwaith hwn yn edrych o'r newydd ar strwythur diddorol yn y Gymraeg na astudiwyd o ochr seico-ieithyddol o'r blaen. Er yn system ag iddi lawer o reolau, mae ciwiau niferus ar gael i gynorthwyo plant wrth lunio ymatebion. Y gobaith yw bod darganfyddiadau'r ymchwil hwn yn ehangu ar ein dealltwriaeth o sut mae plant dwyieithog yn caffael systemau cymhleth o dan amgylchiadau iaith leiafrifol, gan gyfrannu at y maes yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol, drwy gynnig arweiniad i addysgwyr ar yr hyn gellid ei wneud i gynorthwyo plant wrth ddewis ymateb cywir.

# Pennod 2: Systemau Ateb

---

## 2.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon rhoir disgrifiad o nodweddion strwythur benodol sy'n ffocws i'r gwaith hwn sef y system ateb yn y Gymraeg. Mae'r disgrifiad â'r ymdriniaeth yma yn ceisio bod mor gynhwysfawr â phosib wrth drafod y nodweddion hynny all achosi anhawster i unigolion dwyieithog Cymraeg/Saesneg (plant ifanc yn enwedig) wrth gaffael y system ateb yn ei chyfanrwydd. Gwneir defnydd o amryw o esiamplau wrth esbonio nodweddion gwahanol y system hon a cheisir defnyddir esiamplau sy'n adlewyrchu tafodiaith yr ardaloedd lle gwblhawyd yr ymchwil<sup>2</sup>.

---

<sup>2</sup> Oherwydd bod yr esiamplau a ddefnyddir yn adlewyrchu'r hyn a wneir ar lafar yn hytrach na iaith ffurfiol mae'n bosib na ddefnyddir yr esiamplau hyn gan bawb gan fod yr iaith a ddefnyddir yn gallu amrywio o unigolyn i unigolyn.

## 2.2 Y System Ateb yn y Gymraeg

Trafodir ymateb ieithyddol yn aml yn nhermau'r berthynas rhwng ymadrodd gan un siaradwr ac ymateb gan siaradwr arall e.e. sefyllfa cwestiwn/ateb (Jones, 1999). Yn y Gymraeg ceir system ateb sy'n gyfuniad o system adleisiol (*echo*) yn ogystal â system ddi-adlais (*nonecho*) (Jones, 1999). Nodir yma brif nodweddion y system ateb yn y Gymraeg; system sydd ag iddi lawer o elfennau gwahanol. Dechreuir drwy ystyried cymhlethdod y system ac yna trafodir rhannau o'r system ar wahân gan ddechrau gyda'r system adleisio ac yna'r system ddi-adlais. Drwy gydol y bennod hon ystyrir rhai o'r rheolau hynny sy'n debygol o (neu a ddisgwylir i) ysgogi dewis o ymateb penodol o blith y nifer o bosibiliadau a geir ar yr edrychiad cyntaf.

Oherwydd natur y system, lle mae elfennau o'r system yn ymofyn yr angen i allu adnabod patrymau mewn iaith, mae'n dilyn y bydd angen i blant allu adeiladu brawddegau a defnyddio cystrawen iaith yn effeithiol yn gyntaf. Mi fydd yr wybodaeth yma am gystrawen iaith yn eu cynorthwyo, yn y pen draw, i wahaniaethu yn effeithiol rhwng ymatebion adleisiol ac ymatebion di-adlais. Yn ogystal, mae berfau yn chwarae rhan allweddol yn y system ateb yn y Gymraeg ac mae angen i blant allu wneud defnydd o'r system ferfol wrth ddewis ymateb adleisiol yn benodol. Fodd bynnag, er fod yr ymchwil hwn yn adnabod yr angen ar gyfer gwybodaeth flaenorol am gystrawen iaith, nid yw'n mynd i'r afael a'r elfen yma o ddatblygiad ieithyddol yn benodol. Yn hytrach, yn y rhannau dilynol, trafodir rhai o rinweddau'r system adleisio, a'r system di-adlais i ddilyn, gan nodi'r rhan mae berfau yn chwarae yn y system hon. Yn ogystal, mae morffoleg y ferf yn Gymraeg yn eithaf cymhleth gan ei fod yn gallu arddangos amser, person a rhif llawer mwy na'r iaith Saesneg

ac oherwydd hyn, mae angen i blant fod yn gyfarwydd a'r system ferfol er mwyn ateb cwestiynau. Mi fydd manylion ynglŷn â morffoleg y ferf yn codi yn yr adrannau dilynol.

## 2.2.1 System Adleisio (System Berfol)

### 2.2.1.1 *Berfau Cryno (Meidrol)*

Yn gyffredinol mae'r system ateb yn y Gymraeg yn un adleisiol, (gellir cyfeirio ati hefyd fel system berfol) a'r system adleisiol yma sy'n gyfrifol am drefn 'normal' ymatebion. Mae'n ddibynnol, yn bennaf, ar ferfau cryno (gelwir hefyd yn ferfau meidrol neu "*finite*" yn Saesneg). Defnyddir berfau cryno fel pwynt cychwynnol, neu sail sy'n cynorthwyo'r siaradwr wrth ddewis ymateb priodol a chywir i gwestiwn (cyfeirir at ferf gryno o fewn datganiad neu gwestiwn fel "y targed" gan rai ymchwilwyr, gan mai dyma'r elfen i'w adleisio yn yr ateb e.e. Jones, 1999). Yn gryno, mae'r ateb a gynhyrchir yn ddibynnol ar strwythur y cymal gofynnol, ac felly "bydd yr ateb yn ailadrodd yn rhannol y ffurf ferfol sy'n sylweddoli'r traethiedydd yn y cymal gofynnol, h.y. yr un amser sydd i'r ffurf ferfol yn y cwestiwn ac yn yr ateb, ond bod amodau'r ateb yn peri cymhwyso rhif a pherson y ferf" (Thorne, 1996:353).

Fel arfer defnyddir ffurfiau cryno i ymateb i gymalau cryno lle ceir y drefn eiriol gyffredin ar gyfer cwestiynau yn Gymraeg h.y. trefn berf yn gyntaf e.e.

(3) Cwestiwn	<b><i>Bydd Siân yn chwarae'r delyn heno?</i></b> (bod.3U.Dyf)
Ymateb	<b><i>Bydd / Na Fydd</i></b> (bod.3U.Dyf / NEG bod.3U.Dyf)
(4) Cwestiwn	<b><i>(W)nei di banad plîs?</i></b> (gwneud.2U.Dyf)
Ymateb	<b><i>(Gw)naf/ Na (w)naf</i></b> (gwneud.1U.Dyf / NEG gwneud.1BU.Dyf)
(5) Cwestiwn	<b><i>Wyt ti'n mynd i'r gwely?</i></b> (bod.2U.Pres)

Ymateb

**Ydw / Nac Ydw**

(bod.1U.Pres / NEG bod.1U.Pres)

Fel mae'r rheolau uchod yn nodi gall cwestiwn yn y Gymraeg gynnwys berf gryno a allai ragddynodi yn ogystal â chyfyngu'r math o ymateb y gellid ei ddisgwyl neu ei ddefnyddio yn y cyd-destun hwnnw. Yn Nhabl 1 isod gweler rhestr o rai o'r berfau penodol sy'n cynnwys *bod, gallu, medru, cael, dylai* (a *gwybod* i rai unigolion) lle adleisir y ferf gryno a rhai enghreifftiau o gwestiynau ac atebion lle mae rhaid cytuno â'r gofynion a nodir gan Thorne (1996) (nodir manylion ffurf y berfau a ddefnyddir yn yr esiamplau yn y rhesi isod yn ogystal).

**Tabl 1 - Rhestr o'r berfau cryno ac enghreifftiau posib lle mae rhaid adleisio'r ferf (addaswyd o Thomas, 1996)**

Berf	Cwestiwn posib	Atebion	
		Cadarnhaol	Negyddol
<i>bod</i>	<b><i>Oedden</i></b> <i>nhw'n hapus?</i>	<i>Oedden</i>	<i>Nac Oedden</i>
	Bod.3LL.Amh	Bod.3LL.Amh	NEG Bod.3LL.Amh
<i>cael</i>	<b><i>Gawn</i></b> <i>nhw fynd i ginio?</i>	<i>Cawn</i>	<i>Na chawn</i>
	Cael.3U.Pres	Cael.3U.PRES	NEG Cael.3U.Pres
<i>dylwn</i>	(A) <b><i>Ddyle</i></b> <i>o gael diod arall?</i>	<i>Dyle</i>	<i>Na ddyle</i>
	Dylai.3U.Amh	Dylai.3U.Amh	NEG Dylai.3U.Amh
<i>gallu</i>	<b><i>Ellith</i></b> <i>hi ganu?</i>	<i>Gall</i>	<i>Na all</i>
	Gallu.3U.Pres	Gallu.3U.Pres	NEG Gallu.3U.Pres
<i>gwybod</i>	<b><i>W(yddo)</i></b> <i>nhw pwy 'di hon?</i>	<i>Gwyddon</i>	<i>Na Wyddon</i>
	Gwybod.3LL.Pres	Gwybod.3LL.Pres	NEG Gwybod.3LL.Pres
<i>medru</i>	<b><i>Fedrith</i></b> <i>Tomos ddreifio?</i>	<i>Medrith</i>	<i>Na fedrith</i>
	Medru.3U.Pres	Medru.3U.Pres	NEG Medru.3U.Pres

Wrth gwrs, enghreifftiau yn unig a geir uchod; mae'r amrediad eang o ymatebion posib yn llawer ehangach na'r chwech esiampl yn Nhabl 1 (gweler Jones, 1999; King, 2003; Thomas, 1996; a Thorne, 1996 am enghreifftiau eraill a thrafodaeth o ymatebion posib). Deillia hyn o'r ffaith fod modd i bob amser berfol, lle mae posib ymateb gyda'r ffurf gryno, gynnwys

llawer o ffurfiau ymatebol gwahanol (gweler adran 2.2.1.4 sy'n trafod 'Gwahaniaethau person' am fanylion pellach).

### 2.2.1.2 *Berf Dirprwyol 'Gwneud'*

Fodd bynnag nid yw tabl 1 yn crynhoi'r holl amrywiadau adleisiol posib sydd gan siaradwyr wrth ymateb. Yn hytrach, gallir rhannu ymatebion berfol i'r tri categori isod.

i. Ffurfiâu Adleisiol cyflawn e.e. Ffurfiâu 'bod'

(6) Cwestiwn	<b>Ydy hi'n braf heddiw?</b> Bod.3S.Pres
Ymateb	<b>Ydy/Nac Ydy</b> Bod.3S.Pres / NEG Bod.3S.Pres

(gweler diwedd y bennod hon am fanylion pellach)

ii. Ffurfiâu 'gwneud' – (gellid defnyddio gwneud gyda'r mwyafrif o ferfau) e.e.

(7) Cwestiwn	<b>Ysgrifenni di draethawd?</b> Ysgrifennu.2S.Dyf
Ffurf Ddirprwyol	<b>Gwnaf/Na wnaif</b> Gwneud.1S.Dyf / NEG Bod.3S.Dyf
NID	
Ffurf Cyflawn	<b>Ysgrifennaf/Na ysgrifennaf</b> Ysgrifennu.1S.Dyf / NEG Ysgrifennu.1S.Dyf

iii. Ffurfiâu adleisiol cyflawn neu 'gwneud' – *dod, mynd, cael*.

Mae posib i siaradwyr ymateb i nifer fach o ffurfiau berfol (e.e. *dod, mynd* a *cael*) wrth ddefnyddio un ai ffurf briodol gyflawn o'r ferf neu ffurf o'r ferf *gwneud* pan yn ymateb i ferfau an-orffennol e.e.

(8) Cwestiwn	<b>Ddoi di i'r ffair heno?</b> Dod.2U.Pres
Ymateb Cyflawn	<b>Dof</b> Dod.1U.Pres
NEU	
Ymateb Dirprwyol	<b>Gwna(f)</b> Gwneud.1U.Pres



Yn enghraifft (7) uchod defnyddir *gwneud* yn lle ffurf o'r ferf wreiddiol *ysgrifennu* er mwyn ymateb i'r cwestiwn, ond sylwer hefyd fod rheolau ar gyfer y defnydd o ffurfiau cryno'r ferf e.e. amser/person/lluosog yn parhau i aros yr un fath. Mae hyn yn gyffredin iawn heddiw ac yn anaml iawn y gwneir defnydd o'r berfau cryno cyflawn ar gyfer pob ymateb e.e. *Ysgrifennaf/Na Ysgrifennaf*, hyd yn oed mewn ffurfiau llenyddol mwy ffurfiol fel y Beibl Cymraeg Newydd.

Yn ôl Jones (1999) defnyddir y ferf *gwneud* fel berf ddirprwyol oherwydd y'i defnyddir fel berf gynorthwyol/atodol yn aml. Fodd bynnag, nid yw'n bosib defnyddio *gwneud* pan mae'r cymal gofynnol yn cynnwys y berfau a restrwyd eisoes: *bod, gallu, medru, cael, dylai* (a *gwybod* i rai unigolion), a lle mae posib defnyddio'r ffurfiau cryno wrth ymateb i'r berfau hynny e.e.

(9) Cwestiwn	<b><i>Gei di fynd allan heno?</i></b> Cael.2U.Pres
Ymateb Cywir	<b><i>Caf/ Na Chaf</i></b> Cael.1U.Pres /NEG Cael.1U.Pres
NID	
Ymateb Dirprwyol	<b><i>*Gwnaf/Na Wnaf</i></b> Gwneud.1U.Pres /NEG Gwneud.1U.Pres

Ar y llaw arall, gellid defnyddio *gwneud* fel berf ddirprwyol gyda amryw o ferfau gydag amserau an-orffennol e.e. berfau *dod* a *mynd* (gweler Tabl 2).

Tabl 2 – Defnydd o adleisio berfol cyflawn a dirprwyol gyda'r berfau *dod* a *mynd* (addaswyd o Thomas 1996).

Berf	Cwestiwn	Atebion	
		Adleisiol Cyflawn	Adleisiol Ddirprwyol
dod	(A) <i>ddaw hi gyda chi?</i>	<b><i>Daw/Na ddaw</i></b>	<b><i>Gwnaiff/Na wnaiff</i></b>
	Dod.3U.Dyf	Dod.3U.Dyf / NEG Dod.3U.Dyf	Gwneud.3U.Dyf / NEG Gwneud.3U.Dyf
mynd	<i>Awn ni yn ôl heno?</i>	<b><i>Awn/Na awn</i></b>	<b><i>Gwnawn/Na wnawn</i></b>
	Mynd.1LL.Dyf	Mynd.1LL.Dyf / NEG Mynd.1LL.Dyf	Gwneud.1LL.Dyf NEG Gwneud.1LL.Dyf

Defnyddir y ffurf amnewidiol o *gwneud* yn aml yn y gogledd, er nad yw o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio fel berf yn y frawddeg ofynnol. Felly mewn cymhariaeth â Chymraeg ysgrifenedig mae'r defnydd o'r ffurfiau ar lafar yn llawer mwy tebygol o gynnwys ffurf o'r ferf *gwneud* wrth ymateb e.e.

(10) Cwestiwn	<b><i>Ddaw hi fory?</i></b> Dod.3U.Pres
Ymateb Dirprwyol	<b><i>Neith/na neith</i></b> Gwneud.2S.Pres / NEG Gwneud.2S.Pres
NID	
Ymateb Cyflawn	<b><i>Daw/na ddaw</i></b> Dod.3U.Pres / NEG Dod.3U.Pres

Cyfeirir yn aml at y ffurfiau *daw/na ddaw* o ferfau cryno yn esiampl (10) fel 'ymateb adleisiol cyflawn' e.e. defnyddio ffurfiau ymateb *daw* neu *na ddaw* yn hytrach na ffurf y ferf ddirprwyol fel *gwneud* e.e. *(gw)naf* neu *na (w)naf*.

### **2.2.1.3 Negyddu berfau cryno mewn atebion**

Os oes gofyn am ymateb cadarnhaol, ailadroddir y ffurf gryno yn unig gan y siaradwr pan yn ateb. Fodd bynnag, os oes angen ymateb negyddol rhoddir geiryn negyddol –e.e. *Na* – o flaen y ffurf gryno sy'n cael ei hailadrodd. Gan amlaf defnyddir y geiryn negyddol *Nac* neu *Nag* o flaen llafariad a *Na* o flaen cytseiniaid (Jones, 1999). Mae hyn hefyd yn achosi un ai treigladd laes ar gytseiniaid dechreuol /p t k / (p, t, c) –e.e. *Na Chawn* –neu dreigladd meddal ar y cytseiniaid dechreuol /b d g t r m/ (b, d, g ll, rh, m)–e.e. *Na faswn* neu *Na ddylai*. Fodd bynnag, mae yna duedd i ddefnyddio'r geiryn *Na* yn unig wrth negyddu yn y Gymraeg (mae hyn yn wir am y system di-adlais yn ogystal), yn enwedig ar lafar: “*For negative responses, the form na by itself emerges as a general responsive in place of all types of responsives*” (Jones, 1999: 237) (gweler adran 2.3 am fwy o fanylion ac enghreifftiau penodol).

### 2.2.1.4 Gwahaniaethau Person

Fel y cyfeiriwyd ato eisoes mae adleisio berfau cryno hefyd yn gallu bod yn ddibynnol ar amser (*tense*), agwedd (*aspect*) a'r math (*type*) o ferf cryno a ddefnyddir. Felly, mae "rhaid i'r ateb gytuno o ran rhif a pherson â'r enw sy'n sylweddoli'r goddrych" (Thorne, 1996: 354). Wrth edrych ar rai esiamplau penodol mae posib adnabod rhai patrymau yn y system wrth edrych ar ymatebion trydydd person (unigol neu lluosog) yn benodol, oherwydd bod yr ymatebion hyn yn ymofyn ymateb union (neu bron yn union heblaw am anghenion treiglo, amrywiadau tafodieithol ac achosion lle defnyddir talfyriadau) o'r ferf gychwynnol a ddefnyddir e.e.

(11) Cwestiwn	<b><i>Dyle</i></b> <i>Siôn dalu am unrhyw gostau?</i> Dylai.3U.Amh
Ymateb	<b><i>Dyle/Na Ddyle</i></b> Dylai.3U.Amh/NEG Dylai.3U.Amh
(12) Cwestiwn	<b><i>Byddan</i></b> <i>nhw'n dod i ginio heno?</i> Bod.3LL.Dyf
Ymateb	<b><i>Byddan/Na Fyddan</i></b> Bod.3LL.Dyf/NEG Bod.3LL.Dyf
(13) Cwestiwn	<b><i>Ydy'r</i></b> <i>bwyd yn flasus?</i> Bod.3U.Pres
Ymateb	<b><i>Ydy/Nac Ydy</i></b> Bod.3U.Pres/NEG Bod.3U.Pres

Ar y llaw arall, nid yw'r un patrwm yn bodoli ar gyfer ffurfiau person cyntaf ac ail berson gan y bydd yr ymatebion hyn yn cyfnewid yn naturiol rhwng cwestiwn ac ymateb (King, 2003) lle "*addesir rhif a pherson berf yr ateb i adlewyrchu rhif a pherson yr atebwr*" (Thomas, 1996: 524). Felly pan geir cwestiwn yn ffurf y person cyntaf ceir ymateb yn ffurf yr ail berson ond pan geir cwestiwn yn ffurf yr ail berson ceir ymateb yn ffurf y person cyntaf,

gyda'r nifer (unigol neu luosog) a'r amser (Dyfodol *bod* yn yr esiamplau isod) yn aros yr un peth e.e.

#### Ffurfiâu Unigol

(14) Cwestiwn ***Byddi di'n hoffi mynd i'r capel?***  
Bod.2U.Dyf

Ymateb ***Bydda(f)/Na F(y)dda(f)***  
Bod.1U.Dyf

#### NEU

(15) Cwestiwn ***Bydda i'n hoffi mynd i'r capel?***  
Bod.1U.Dyf

Ymateb ***Byddi/Na Fyddi***  
Bod.2U.Dyf

## 2.2.2 System Adleisiol - Ystyriaethau Pellach

### 2.2.2.1 Defnydd o ragenwau lluosog: chi ffurfiol a ni cynhwysol neu anghynhwysol

Mae'r esiamplau isod yn cynnwys ymatebion posib eraill sydd yn gallu bod yn ddibynnol ar ystyr (*ni* cynhwysol neu anghynhwysol, gweler esiampl 16); ffurfioldeb (*chi* unigol neu luosog) yn ogystal â pherson (person 1af ac 2ail berson, gweler esiampl 17):

(16) Cwestiwn ***Ellwn ni sglefrio?***  
Gallu.1LL.Pres (cynhwysol neu anghynhwysol yn ddibynnol ar ystyr)

Ymateb Cynhwysol ***Gallwn(an)/Na (A)llwn (allan)***  
Gallu.1LL.Pres / NEG Gallu.1LL.Pres

Ymateb Anghynhwysol ***Gallwch(ech) / Na (A)llwch(llech)***  
Gallu.3LL.Pres / NEG Gallu.3LL.Pres

#### NEU

(17) Cwestiwn ***Ellwch chi sglefrio?***  
Gallu.2LL.Pres (lluosog) neu Gallu.1U.Pres (unigol)

Ymateb

**Gallwn(an)/Na (A)llwn (llan)**

Gallu.1LL.Pres / NEG Gallu.1LL.Pres

Fel y gweler yn yr esiamplau uchod ac yn nhabl 3 isod mae cymhlethdodau pellach yn codi oherwydd y gwahaniaeth yn y defnydd o ragenwau cyfarch ffurfiol ac anffurfiol – e.e. ffurf ail berson sengl lle defnyddir *ti/di* yn anffurfiol neu *chi* ar gyfer cyfarchion ffurfiol. Mae'r defnydd o'r ffurfiau hyn yn amrywio o unigolyn i unigolyn ac o ardal i ardal ond fe ellir defnyddio'r ffurf *chi* i gyfeirio at nid yn unig grŵp o bobl (2LL) ond hefyd wrth gyfeirio at unigolion (fel 2U), yn enwedig unigolion o statws lle ceir perthynas anghyfartal, pobl hŷn ac hyd yn oed, ar adegau, eu mam neu eu tad (gweler Thomas, 1996: 244 am drafodaeth pellach).

Tabl 3 - Esiampl o ffurfiau rhagenwol gwahanol a geir ar gyfer ffurfiau ymatebol unigol a lluosog y ferf gallu.

Berf	Cwestiwn posib	Unigol	Lluosog
gallu	<b>Allwch(ech) chi ganu?</b>	<i>Galla/Na (A)lla</i>	<i>Gallwn(allen)/ Na (a)llwn(llen)</i>
	Gallu.2LL.Pres (unigol) NEU Gallu.1U.Pres lluosog)	Gallu.1U.Pres / NEG Gallu.1U.Pres	Gallu.1LL.Pres / NEG Gallu.1LL.Pres

Felly (fel a nodwyd yn Nhabl 3) mae posib i'r frawddeg '**Allwch(ech) chi ganu?**' gyfeirio at un ai un unigolyn yn unig neu fwy nag un unigolyn ac nid oes modd nodi'r ymateb cywir heb fod yn ymwybodol o gyd-destun y frawddeg honno. Mae hyn â'r gallu i beri anawsterau pellach i'r dysgwr iaith ac i blant sy'n ceisio caffael y system oherwydd bod angen profiad o glywed a defnyddio'r ffurfiau rhagenwol o fewn cyd-destunau penodol er mwyn defnyddio'r ffurfiau ymatebol gwahanol yn effeithlon (trafodir bwysigrwydd amlygiad i strwythurau penodol yn y bennod nesaf). Fodd bynnag mae'n bosib bod y duedd yma i wahaniaethu rhwng ffurfiau anffurfiol a ffurfiol yn newid (Thomas, 1996) (gyda hoffter ar

gyfer y ffurf 2U) ac nid yw'n glir i ba raddau mae plant ifanc yn parhau i arddangos unrhyw wahaniaethau yn y ffurfiau rhagenwol.

### **2.2.2.2 Talfyriadau**

Yn ogystal, mae yna hefyd dueddiad i hepgor neu dalfyrri'r ffurf berfol a ddefnyddir ar ddechrau'r frawddeg (gwelir enghreifftiau 18 a 19 isod) (digwyddir hyn mewn esiamplau gyda thag yn ogystal (gweler adran 2.4 am drafodaeth pellach).

(18)	Cwestiwn	<i>'s gen ti gar coch?</i> Bod.3U.Amht x2
	Ymateb	<b>Oes / Nac Oes</b> Bod.3U.Amht / NEG Bod.3U.Amht
(19)	Cwestiwn	<i>'ti'n hoffi canu?</i> Bod.2U.Pres x 2
	Ymateb	<b>Ydw / Nac ydw</b> Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Fodd bynnag (fel y gwelir yn yr esiamplau uchod), er fod modd talfyrri'r ferf yn y cwestiwn mae rhaid ymateb gan ddefnyddio'r ffurf llawn. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r unigolyn fod yn ymwybodol ac yn gyfarwydd gyda'r defnydd o dalfyriadau (sy'n gyffredin iawn ar lafar).

### **2.2.2.3 Amrywiadau Tafodieithol ac Arddull**

Mae'n bwysig nodi (fel a welir yn Nhabl 4) fod modd i ffurf yr ymatebion newid yn ddibynnol ar dafodiaith neu wahaniaethau yng ynganiadau unigolion (yn ogystal, fe ellid ynganu'r ymateb cadarnhaol yn Nhabl 4 fel *'ella/falle* ar lafar).

Tabl 4– Esiampl o Dabl 2 o rai gwahaniaethau tafodieithol a geir ar gyfer ffurfiau ymatebol y ferf gallu.

Berf	Cwestiwn posib	Atebion	
		Cadarnhaol	Negyddol
gallu	<i>E/Alli di ganu?</i>	<i>Galla(f)/Gella</i>	<i>Na (a)lla(f)/Na (e)lla</i>
	Gallu.2U.Pres	Gallu.1U.Pres	NEG Gallu.1U.Pres

Fe all hyn achosi anawsterau oherwydd bod rhaid i'r dysgwr iaith fod yn gyfarwydd gyda'r holl amrywiadau tafodieithol posib wrth ddehongli cwestiwn ac ynganu'r ferf, yn enwedig gan fod modd i 'ella gael ei ddehongli yn anghywir fel *wrach* h.y. *efallai* (sydd hefyd yn ymateb posib yn y cyd-destun hwn).

Yn gysylltiedig â'r ystyriaethau hyn mae yna duedd (ond nid bob amser) i glywed ffurfiau byrrach lle diddymir rhai synau ar lafar – e.e. ffurf amherffaith o'r ferf bod (gweler Tabl 5 isod).

Tabl 5– Ffurfiau ysgrifenedig a'r opsiynau eraill a geir ar lafar o'r ffurf amherffaith o'r ferf bod.

Person	Unigol		Lluosog	
	Ysgrifenedig	Ar lafar	Ysgrifenedig	Ar lafar
1	<i>Oeddwn</i>	<i>O'n/O(e)n</i>	<i>O(e)dden/O(e)ddan</i>	<i>O'n</i>
2	<i>Oeddet/Oeddat</i>	<i>O't</i>	<i>O(e)ddech/O(e)ddach</i>	<i>O'ch</i>
3	<i>Oedd</i>	<i>O'dd</i>	<i>O(e)dden/O(e)ddan</i>	<i>O'n</i>

Unwaith eto gellid adnabod rhai elfennau yn y Tabl uchod a all achosi problemau i blant wrth gaffael y system hon (yn benodol ffurfiau 1U/1LL a 3LL) lle mae posib gwneud defnydd o'r union un talfyriad *O'n* ar lafar wrth ddefnyddio ffurf amherffaith *bod*. Defnyddir rhai ffurfiau tebyg yn ysgrifenedig yn ogystal, lle gellid ymateb yn gywir gyda un ai *Oedden* neu *Oeddan* i'r ffurfiau 1LL a 3LL.

Fel a nodir uchod ceir amrywiadau rhwng yr hyn a wneir ar lafar (yn cynnwys tafodiaith) a'r hyn a wneir yn ysgrifenedig (a rhwng ysgrifennu ffurfiol ac anffurfiol) e.e. gellir gwneud defnydd o *aiff*, eith neu *eiff* ar lafar ac mewn ysgrifennu anffurfiol yn y 3U ar gyfer y ferf *mynd* (Thorne, 2000). Yn ogystal wrth edrych ar ffurf amherffaith y berfau *mynd*, *dod*, *cael* a *gwneud* mae posib gwneud defnydd o'r bonau *-l*, *-s-*, *-th-* ar lafar (gweler Tabl 6 isod).

Tabl 6 - Rhestr o'r ffurfiau ymateb a geir yn ôl nifer ar gyfer amser amherffaith y ferf mynd (addaswyd o Lewis, 2013 a Thorne, 2000).

<b>Amser Amherffaith Mynd Lluosog</b>				
<b>Person</b>	<b>Ffurfiol</b>	<b>-l-</b>	<b>-s-</b>	<b>-th-</b>
1	<i>awn</i>	<i>elen</i>	<i>esen</i>	<i>ethen</i>
2	<i>ait</i>	<i>elet</i>	<i>eset</i>	<i>ethet</i>
3	<i>âi</i>	<i>elen</i>	<i>esen</i>	<i>ethen</i>

Mae'r holl ffactorau hyn gyda'r gallu i achosi anawsterau ychwanegol i blant wrth gaffael y system hon, anawsterau nad oes rhaid i blant uniaith Saesneg nac ychwaith plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg orfod eu hystyried wrth gaffael y system ateb yn Saesneg.

### 2.2.3 System adleisiol - I gloi

Wrth ystyried rhai o brif nodweddion y system adleisiol uchod, mae'r system i'w weld yn un gymhleth ar yr olwg gyntaf, lle y ceir nifer fawr o opsiynau posib. Yn ogystal, mae'r gallu i wneud defnydd effeithiol o'r system adleisio yn ddibynnol ar allu'r unigolyn i ddeall a defnyddio y system ferfol yn Gymraeg, o ochr morffonolegol a semantegol. Fodd bynnag, fe geir rhai patrymau cyson yn yr ymatebion sy'n cynnwys y canlynol:

1. Gwahaniaethau person:
  - Y defnydd o'r union yr un ffurf ar gyfer y trydydd person mewn cwestiwn ac ateb e.e.



(20) Cwestiwn ***Bydd Gronw yn canu heno?***  
Bod.3U.Dyf

Ymateb ***Bydd***  
Bod.3U.Dyf

- Y cyfnewid cyson o ymatebion person cyntaf ac ail berson rhwng cwestiwn ac ateb e.e.

(21) Cwestiwn ***Byddi di'n mynd i'r sioe?***  
Bod.2U.Dyf

Ymateb ***Bydda***  
Bod.1U.Dyf

2. Y defnydd posib o'r ferf *gwneud* fel berf ddirprwyol wrth ymateb gyda'r mwyafrif o ferfau e.e.

(22) Cwestiwn ***Ddoi di draw am baned?***  
Dod.2U.Pres

Ymateb ***(Gw)naf***  
Gwneud.1S.Pres

3. Yr angen i ddefnyddio'r negyddion *Na/Nac neu Nag* o flaen ffurfiau adleisiol pan geir ymateb negyddol e.e.

(23) Cwestiwn ***Wyt ti'n mynd i'r siop?***  
(bod.2U.Pres)

Ymateb ***Nac Ydw***  
(bod.1U.Pres / NEG bod.1U.Pres)

Yn ychwanegol i'r ystyriaethau uchod mae angen i'r unigolyn fod yn gyfarwydd gyda rheolau cyfarch (ffurfiol ac anffurfiol), amrywiadau tafodieithol ac arddull wrth ystyried ymateb ac mae'n bosib y gall hyn oll achosi penbleth ac ansicrwydd ymysg rhai dysgwyr wrth ddefnyddio'r system. Yn y rhan nesaf trafodir y system ddi-adlais, system sydd â nifer llai o opsiynau na'r hyn a welir yn y system adleisiol, ac sydd â chiwiau mwy amlwg i amlygu'r ffurfiau priodol fel ymateb.

## 2.3 System di-adlais (Trefn Gymysg)

### 2.3.1 Ffurfiau *Ie* a *Nage*

Fel arfer (er ddim bob tro) defnyddir ffurfiau di-adlais er mwyn ymateb i gymalau cryno lle na cheir trefn arferol berf yn gyntaf ( BERF / GODDRYCH/ GWRTHRYCH ) ond yn hytrach lle ceir trefn berf yn ail ( GODDRYCH / BERF / GWRTHRYCH ) e.e.,

(24)	Cwestiwn	<i>Siân <b>oedd</b> ar y ffôn?</i> Bod.3U.Amh
	Ymateb Di-adlais	<b><i>Ie</i></b> neu <b><i>la / Nage</i></b> neu <b><i>Naci</i></b> Cadarnhaol / Negyddol
NID	Ymateb Adleisiol	<b>*<i>Oedd / Nac Oedd</i></b> Bod.3U.Amh /NEG Bod.3U.Amh

Ar y llaw arall os y defnyddir y drefn gyffredin (fel y trafodwyd eisoes), y ffurf berfol (***Oedd /***

***Nac Oedd*** yn yr achos yma) yw'r ymateb cywir e.e.

(25)	Cwestiwn	<b><i>Oedd Siân ar y ffôn?</i></b> Bod.3U.Amh
	Ymateb Adleisiol	<b><i>Oedd / Nac Oedd</i></b> Bod.3U.Amh /NEG Bod.3U.Amh
NID	Ymateb Di-adlais	<b>*<i>Ie</i></b> neu <b><i>la / Nage</i></b> neu <b><i>Naci</i></b> Cadarnhaol / Negyddol

Yn yr iaith ffurfiol, ac weithiau yn yr iaith anffurfiol dechreuir y cymal gofynnol gydag un ai *ai* neu *onid* sy'n tanlinellu y gellir ateb yn gadarnhaol drwy ddefnyddio *ie* neu *ia* ac yn negyddol gyda *nage* neu *naci* ac nid drwy ailadrodd y ferf e.e.

(26)	Cwestiwn	<b><i>Ai ti ysgrifennodd hwn?</i></b> Ysgrifennu.3U.Gorff
	Ymateb Di-adlais	<b><i>Ie /Nage</i></b> Cadarnhaol/Negyddol
NID	Ymateb adleisiol	<b>*<i>Ysgrifennais / Na Ysgrifennais</i></b> Ysgrifennu.1U.Gorff /NEG Ysgrifennu.1U.Gorff

(27)	Cwestiwn	<b>(Onid)</b> y chi <b>anfonodd</b> y llythyr? Anfon.3U.Gorff
	Ymateb Di-adlais	<b>le /Nage</b> Cadarnhaol/Negyddol
NID	Ymateb adleisiol	<b>*Anfonais / Na Anfonais</b> Anfon.1U.Gorff /NEG Anfon.1U.Gorff

Yn ogystal gellid defnyddio geiriau negyddol *nid/nit*, *dim*, a *nage/nage* ar ddechrau'r cwestiwn neu ddatganiad e.e.

(28)	Cwestiynau /Datganiad	<b>Nid Rhys pia hwn?</b> <b>Dim Rhys brynodd hwn?</b> (Gogledd) <b>Nage Rhys sy'n arwain y gymanfa yfory?</b> (De)
	Ymateb	<b>le /Nage</b> Cadarnhaol/Negyddol

Defnyddir ffurfiau di-adlais hefyd er mwyn ymateb i ferfau arddangosol (demonstrative) megis *dyna*, *dyma*, *dacw*, ac nid ymatebion sy'n cynnwys berfau cryno e.e.

(29)	Cwestiwn	<b>Dyna'r cwrs wyt ti'n ei hoffi?</b> Arddangosol + Bod.2U.Pres + Hoffi
	Ymateb	<b>le / Nage</b> Cadarnhaol / Negyddol
NID	Ymateb Adleisiol	<b>*Ydw / Nac ydw</b> Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

NAC ychwaith (er yn annhebygol)

**\*Hoffaf / Na hoffaf**  
Hoffi.1U.Pres /NEG Hoffi.1U.Pres

Er fod yr esiampl olaf yn annhebygol iawn, gan bod modd adleisio'r ferf *hoffi* ar rai adegau mae'n bosib mai *dyma'r* math o gamgymeriadau posib a wneir gan blant ifanc a dysgwyr iaith wrth gaffael y system ateb yn Gymraeg yn ei gyfanrwydd.

## 2.3.2 Ffurfiâu Gorffennol Byr: *Do a Naddo*

Er fod ffurfiâu *do* a *naddo* yn adleisio'r amser gramadegol (gorffennol perffaith) ychwanegir y ffurfiâu hyn yn y rhan di-adlais gan eu bod yn ymdebygu i *ie* a *nage* o ran ffurf h.y. un ffurf sydd i bopeth (nid oes gwahaniaeth o ran person a nifer). Mae defnyddio *do* a *naddo* yn ddibynnol ar drefn y geiriau (berf yn gyntaf) ac os yw'r cymal gofynnol yn cynnwys berf yn yr amser gorffennol perffaith (past perfect) e.e.

(30) Cwestiwn ***Fuest di allan neithiwr?***  
Bod.2U.Gorff

Ymateb ***Do/Naddo***  
Cadarnhaol/Negyddol

Atebir felly drwy ddefnyddio'r ffurfiâu *do* yn gadarnhaol a *naddo* yn negyddol (gyda nifer fach o ferfau mae posib adleisio'r ferf yma hefyd er mai *do* a *naddo* yw'r ffurfiâu mwyaf cyffredin, yn enwedig ar lafar (Jones, 1999; Thorne, 2000)). Yn ogystal, gellir defnyddio *do* a *naddo* pan ddefnyddir *wedi* gyda'r amser presennol er mai ffurfiâu *do* a *naddo* yw'r ffurfiâu mwyaf cyffredin heddiw e.e.

(31) Cwestiwn/Targed ***Wyt ti wedi gweld Siân?***  
Bod.2U.Pres

Ymateb Adleisiol ***Ydw / Nac Ydw***  
Bod.1U.Pres/NEG Bod.1U.Pres

Ymateb Gorff Perffaith ***Do/Naddo***  
Cadarnhaol/Negyddol

Fodd bynnag ni ddefnyddir atebion perffaith os yw'r amser yn wahanol i'r presennol e.e.

(32) Cwestiwn ***Fyddi di wedi gorffen erbyn wyth?***  
Bod.2U.Dyf

Ymateb Adleisiol ***Bydda(f) / Na Fydda(f)***  
Bod.1U.Dyf /NEG Bod.1U.Dyf

NID

Ymateb Gorff Perffaith ***\*Do / Naddo***  
Cadarnhaol / Negyddol

### 2.3.3 System di-adlais – I gloi

Oherwydd y nifer llai o opsiynau a geir wrth ddefnyddio ymatebion di-adlais, mae posib adnabod rhai patrymau cyson yn y modd y defnyddir yr ymatebion hyn:

1. Defnyddir ffurf *ie/na* lle ceir trefn brawddegol berf yn ail (e.e. GODDRYCH / BERF / GWRTHRYCH). Amlygir hyn pan dechreuir cymal gydag *Ai /Onid*.
2. Gellid ymateb gyda'r ffurfiau *Ie/Na* pan ddefnyddir y ffurfiau dangosol *dyna, dyma, dacw*.
3. Os yw'r cymal gofynnol yn cynnwys *bod* yn yr amser presennol a *wedi*, gellir ateb drwy ddefnyddio'r ffurfiau *do* a *naddo*.

## 2.4 Tagiau<sup>3</sup>

Gellid defnyddio'r ffurfiau (negyddol a chadarnhaol) a ddefnyddir fel atebion hefyd fel cwestiynau tag (Jones, 1999). Yma, ailadroddir yr union ffurf berfol a geir ar ddechrau'r cwestiwn, fel arfer mewn ffurfiau lle adleisir y ferf gryno e.e.

(33) Cwestiwn                      ***Wyt ti am ddod i'r sinema, wyt?***  
Bod.2U.Pres x2

Ymateb                                ***Ydw / Nac Ydw***  
Bod.1U.Pres / NEG Bod.2U.Pres

Er fod y ffurfiau di-adlais yn dilyn yr un patrwm (ac fe drafodir mwy am y rhain yn y man) nid yw'r tag yn adleisio'r ferf ond yn hytrach yn cynrychioli'r union ffurf ymatebol a ddisgwylir fel ymateb e.e.

(34) Cwestiwn                      ***Es di i'r llyfrgell ddoe, do?***  
Mynd.2U.Gorff

---

<sup>3</sup> Yng nghyd-destun yr ymchwil hwn, ni aethpwyd ar ôl natur y tag yn benodol (gwelir "Tag Questions in Welsh", Kevin J. Rottet & Rex A. Sprouse, *Diachronica*, 2008, 25:1 am fanylion pellach). Yn hytrach, canolbwyntir ar ffurf y tag, sef pa un ai bod y tag yn union yr un fath neu'n wahanol i'r ferf ym môn y frawddeg.

Ymateb	<b>Do / Naddo</b> Cadarnhaol/Negyddol
(35) Cwestiwn	Dim Jac bia'r car coch, <b>Nage?</b>

Ymateb	<b>Ie / Nage</b> Cadarnhaol/Negyddol
--------	---

Yn ogystal (fel mae esiamplau 34 a 35 uchod yn awgrymu), os disgwylir ymateb positif mae'r siaradwr yn fwy tebygol o ddefnyddio tag cadarnhaol ond ar y llaw arall os disgwylir ymateb negatif mae'r siaradwr yn fwy tebygol o ddefnyddio tag negyddol (gweler Tabl 7).

**Tabl 7 - Esiampl o rai tagiau a ddefnyddir ar lafar er mwyn ysgogi ateb positif neu negatif (Addaswyd o Jones 1999).**

	<b>Cwestiwn</b>		<b>Math o Ymateb sydd angen</b>	<b>Tagiau</b>
Adleisiol Cyflawn	Cadarnhaol	Ydy Iwan acw?	Berf	Ydy
	Negyddol	Tydy Iwan ddim acw?	Na + Berf	Nac Ydy (Na'dy)
Adleisiol Dirprwyol	Cadarnhaol	Ddaw hi allan heno?	Berf neu Gwneud	Daw neu (Gw)neith
	Negyddol	Ddaw hi ddim allan heno?	Na + Berf neu Na + Gwneud	Na Ddaw neu Na Wneith
Di - adlais	Cadarnhaol	Wyt ti wedi mwynhau'r ffair?	Gorffennol Byr	Do
	Negyddol	Dwyt ti ddim wedi mwynhau'r ffair?	Na Gorffennol Byr	Naddo
Di-adlais	Cadarnhaol	Ti bia hwnne?	Di – adlais (cwestiwn pwysleisiol)	Ie
	Negyddol	Dim tia pia hwnne?		Nage/Naci

Felly, gellid rhagdybio fod y defnydd o dagiau gyda'r gallu i gynorthwyo plant a dysgwyr iaith i ddewis yr ymateb cywir oherwydd bod modd i ffurf (er nid o reidrwydd yr union un ffurf ac o ran person a rhif) o'r ferf ymatebol (mewn ffurfiau adleisiol) gael ei ailadrodd fwy nag unwaith yn y cwestiwn e.e.

(36) Cwestiwn	<b>Oes gen ti gar coch, oes?</b>
---------------	----------------------------------

Bod.3U.Amht x2

Ymateb

**Oes / Nac Oes**

Bod.3U.Amht / NEG Bod.3U.Amht

(37) Cwestiwn

**Wyt ti'n hoffi canu, wyt?**

Bod.2U.Pres x 2

Ymateb

**Ydw / Nac ydw**

Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

## 2.4.1 Tagiau a thalfyriadau

Fel a nodwyd yn flaenorol mae yna hefyd dueddiad i hepgor neu dalfyrru'r ffurf berfol a ddefnyddir ar ddechrau'r frawddeg e.e. gweler newidiadau i esiamplau (36) a (37) isod yn esiamplau (38) a (39),

(38) Cwestiwn

**'s gen ti gar coch, oes?**

Bod.3U.Amht x2

Ymateb

**Oes / Nac Oes**

Bod.3U.Amht / NEG Bod.3U.Amht

(39) Cwestiwn

**' ti'n hoffi canu, wyt?**

Bod.2U.Pres x 2

Ymateb

**Ydw / Nac ydw**

Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Felly, mae posib i gwestiwn berfol lle mae angen ymateb adleisiol gynnwys :

Un ffurf ferfol (gweler 38 a 39 uchod a 40 a 41 isod):

(40) Cwestiwn

**Oes gen ti gar coch?**

Bod.3U.Amht

Ymateb

**Oes / Nac Oes**

Bod.3U.Amht / NEG Bod.3U.Amht

(41) Cwestiwn

**Wyt ti'n hoffi canu?**

Bod.2U.Pres

Ymateb

**Ydw / Nac ydw**

Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Dau ffurf berfol (gweler esiamplau 36 a 37 uchod)

Neu yr un (gweler esiamplau 42 a 43 isod).

(42) Cwestiwn

*'s gen ti gar coch?*

Ffurf rhannol Bod.3U.Amht

Ymateb

**Oes / Nac Oes**

Bod.3U.Pres / NEG Bod.3U.Amht

(43) Cwestiwn

*' ti'n hoffi canu?*

(Bod.2U.Pres)

Ymateb

**Ydw / Nac ydw**

Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Oherwydd yr amrywiadau a geir uchod (yn enwedig ar lafar ar gyfer esiamplau 38, 39 a 42, 43 uchod) rhaid i blant sy'n caffael y strwythurau hyn fod â'r gallu i adnabod y ffurfiau lle ceir patrymau cyflawn ac anghyflawn ar adegau e.e. pan gaiff berf ei hepgor neu ei thalfyrro. Fodd bynnag, mae posib y gall plant wneud defnydd o batrymau eraill i'w cynorthwyo megis patrymau yn ôl gwahaniaethau person (gweler is-adran 2.2.1.4).

## 2.5 Casgliad o nodweddion y system

Cafwyd disgrifiad syml a chryno uchod sy'n ceisio cwmpasu'r agweddau gwahanol sydd ynghlwm â'r system ateb yn y Gymraeg. Mae'n system gymhleth ac felly yn system sy'n cynnig her i blant wrth iddynt geisio ei deall a'i chaffael yn ei chyfanrwydd. Mae'n bosib bod eu caffaeliad o'r system hon yn ddibynnol i raddau ar eu hamlygiad iddi – y maint o fewnbwn ieithyddol yn ogystal â chysondeb y mewnbwn a geir – ac fe drafodir hyn mewn manylder ym Mhennod 3. Oherwydd maint y system o ran nifer yr atebion posib i wahanol fathau o gwestiynau, penderfynwyd canolbwyntio ar rai agweddau yn unig o'r system yn yr ymchwil hwn. Isod, cynigir disgrifiad o'r ffurfiau ymatebol penodol a geir o'r ferf *bod* fydd



yn rhan ganolog o'r esiamplau a ddefnyddir yn yr ymchwil hwn (heblaw am y rhai lle y defnyddir *do* a *naddo*).

## 2.6 Mwy am Ffurfiâu 'bod'

Mae'r defnydd cyffredin o ffurfiâu afreolaidd megis y ffurfiâu gwahanol o ymatebion *bod* (gweler Tabl 8) yn cymhlethu'r system ateb ymhellach. Er na nodir yr holl ymatebion posib yn Nabl 8, ceir nifer fwy o rediadau i'r ffurf *bod* nac i unrhyw ferf arall: naw i *bod*; wyth i *adnabod*; saith i grŵp *mynd* a *cael* i'w cymharu a chwech i ferfau rheolaidd (Thomas, 1996). Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod rhai amseroedd yn llawer mwy tebygol o gael eu defnyddio nac eraill fel ymatebion ac felly yn fwy cyffredin yn y mewnbwn ieithyddol e.e. y ffurfiâu presennol, amhendant, dyfodol ac amherffaith a nodir yn Nhabl 8. Oherwydd y cymhlethdodau a'r amrywiadau o ran ymatebion a geir gyda'r ferf *bod*, penderfynwyd ganolbwyntio ar ffurfiâu o'r ferf *bod* ar gyfer yr ymchwil hwn. Trafodir rhai o nodweddion penodol a'r amrywiadau a geir yn ffurfiâu ymatebol *bod* isod.

Tabl 8– Rhestr o’r ymatebion Cadarnhaol a Negyddol posib ar lafar (ac efallai y gellid ychwanegu mwy eto), yn cynnwys amrywiadau tafodieithol a lle defnyddir talfyriadau, yn ôl Person a Nifer yn yr amseroedd presennol, dyfodol, amodol, amherffaith ac amhendant o’r ferf *bod* (Casglwyd o lyfrau Lewis, 2013; Griffiths a Jones, 2008; Jones, 1999; Thomas, 1996; Thorne, 2000).

	Presennol		Dyfodol		Amodol		Amherffaith		Amhendant (Presennol)
Person	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog	
1	<i>Ydw</i>	<i>Ydan/ Ydyn</i>	<i>Bydda(f)/ Byddwn</i>	<i>Byddwn/ Byddan</i>	<i>Baswn/ Byswn/Buaswn</i>	<i>Basen /Bysen /</i>	<i>Oeddwn/ O’n</i>	<i>Oedden/ Oeddan/O’n</i>	Oes
2	<i>Wyt</i>	<i>Ydych/Ych</i>	<i>Byddi/ Bydde</i>	<i>Byddwch/ Byddach(ech)</i>	<i>Baset / Byset/ Buaset</i>	<i>Basech / Bysech</i>	<i>Oeddet/ Oeddit/O’t</i>	<i>Oeddech/ Oeddach/O’ch</i>	
3	<i>Ydy</i>	<i>Ŷn/Ydyn</i>	<i>Bydd</i>	<i>Byddan(t)/ Bydden(t)</i>	<i>Basa(i )/ Bysa(i)</i>	<i>Basen / Bysen</i>	<i>Oedd/ Oedden(t)/ Oeddyn(t)/ O’n</i>		
<b>Negyddol</b>	<i>Na neu ...</i>		<i>Na neu ...</i>		<i>Na neu...</i>		<i>Na neu...</i>		<i>Na neu...</i>
1	<i>Nac ydw/ Na(c) (y)dw/ Nach dw</i>	<i>Nac ydy / Na’ dyn / Na dan / Nach dan(en)</i>	<i>Na f(y)dda</i>	<i>Na fyddwn / Na f(y)ddwn / Na fyddan / Na f(y)ddan</i>	<i>Na faswn Na f’swn / Na ‘swn /</i>	<i>Na fasen / Na f’sen / Na ‘sen /</i>	<i>Nac/g oeddwn / Nac/g o’n</i>	<i>Nac/g Oedden / Nac/g o’n</i>	Nac/g Oes
2	<i>Nac wyt/ Nag wyt / Nach dwyt</i>	<i>Nac ydych / Nag ydych / Na dech</i>	<i>Na fyddi / Na f(y)ddi</i>	<i>Na fyddwch / Na f(y)ddwch / Na fyddach(ech) / Na f’ddach/ech</i>	<i>Na f’set / Na ‘set / Na fyset / Na fuasit</i>	<i>Na fasech / Na ‘sech / Na f’sech /</i>	<i>Nac/g oeddet/ Nac/g ‘ddet/ Nac/g o’t</i>	<i>Nac/g oeddech / Nac/g o’ch</i>	
3	<i>Nac ydy /Nag ydy</i>	<i>Nac (y)dynt / Na den / Nach den</i>	<i>Na fydd / Na fy(dd)</i>	<i>Na fyddan(en)/ Na f(y)ddan(en)</i>	<i>Na fasai/ Na f’se/ Na ‘se</i>	<i>Na fasen / Na f’sen / Na ‘sen</i>	<i>Nac/g oedd/ Nac/g oedd</i>	<i>Nac/g oedden / Nac/g ‘dden / Nac/g o’n</i>	

## 2.6.1 Ffurfiâu Amherffaith a Dyfodol *bod: Oedd a Bydd*

Yn yr amser dyfodol ac amherffaith ychwanegir ôl-ddodiad i fonau berfol, (gweler tabl 8). Er y defnyddir ffurfiâu o'r un ferf gryno i ymateb i'r cwestiwn yn yr amseroedd penodol, nid yw'r ymatebion yn gopiâu pur o'r hyn a gafwyd yn y cwestiwn bob tro. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a welir gyda llawer o ferfau eraill lle y gwneir defnydd o ffurfiâu unfath (fel y ffurfiâu berfol eraill ) pan ceir ffurfiâu trydydd person e.e. *Oedden* ac *Oedden* (Bod.3LL.Amh x 2) (gweler esiamplau 44 a 45). Yn ogystal, gwelir yr un patrwm â'r ferfau eraill gyda ffurfiâu person cyntaf ac ail berson (fel a nodir yn Nhabl 8 ac esiamplau 46 a 47) lle mae'r ffurfiâu person cyntaf ac ail berson yn cyfnewid rhwng cwestiwn ac ymateb e.e. *Oeddēt* (Bod.2U.Amh) ac *Oeddwn* (Bod.1U.Amh) (Gwelir Adran 2.2.1.4 Gwahaniaethau person am drafodaeth pellach).

Ymatebion unfath (lle ceir yr union un ffurf):

(44)	Cwestiwn	<b>Oedden</b> nhw wedi cofrestru? Bod.3LL.Amh
	Ymateb	<b>Oedden/Nac oedden</b> Bod.3LL.Amh / NEG Bod.3LL.Amh
(45)	Cwestiwn	<b>Fydd</b> Elen yn y 'steddfod fory? Bod.3U.Dyf
	Ymateb	<b>Bydd/Na fydd</b> Bod.3U.Dyf / NEG Bod.3U.Dyf

Ymatebion gwahanol (lle y defnyddir ffurfiâu gwahanol):

(46)	Cwestiwn	<b>Oeddēt</b> ti ym Mangor neithiwr? Bod.2U.Amh
	Ymateb	<b>Oeddwn/Nac oeddwn</b> Bod.1U.Amh / NEG Bod.1U.Amh

(47) Cwestiwn ***Fyddwch chi'n mynd ar eich gwyliau eleni?***  
Bod.2LL.Dyf

Ymateb ***Byddwn/Na Fyddwn***  
Bod.1LL.Dyf / NEG Bod.1LL.Dyf

(Noder hefyd ar y newid yn y ffurf negyddol o'r ffurf dyfodol *Na fydd, Na Fyddwn* NID *\*Na bydd, \*Na byddwn*).

## 2.6.2 Ffurfiâu presennol *bod*

Y ffurf presennol *bod* yw'r ffurf mwyaf amrywiol yn y Gymraeg (Thomas, 1996) (gweler tabl 9). Tybir bod yr amrywioldeb yma yn gysylltiedig gyda diffyg bôn berfol clir i'w cymharu â'r ffurfiâu amherffaith a dyfodol a drafodwyd uchod.

Tabl 9— Rhestr o'r ffurfiâu ymatebol a ddefnyddir ar gyfer ymatebion berfol presennol bod

Ffurfiâu <i>bod</i>		
Amser Presennol		
Person	Unigol	Lluosog
1	<i>ydw</i>	<i>ydyn/ydan</i>
2	<i>wyt</i>	<i>ych/ydych</i>
3	<i>ydy</i>	<i>ynt/ydynt</i>

Yn ogystal â'r amrywiaethau hyn, ceir amrywiaethau yn y ffurfiâu negyddol wrth gwestiynu (ond ddim wrth ymateb).

### 2.6.2.1 Ffurfiâu Trydydd Person Amser Presennol *bod*

Nid oes modd ymateb gyda ffurfiâu presennol *mae* (Bod.3U.Pres ) o'r ferf *bod* h.y. *mae, maent, ma'n* ayyb. Yn hytrach, pan ddefnyddir ffurfiâu *m-* ar ddechrau datganiad cadarnhaol ymatebir drwy adleisio ffurfiâu cyfatebol y ferf (gwelir Jones, 1999) e.e.

Goddrych pendant

(48) Datganiad ***Mae'r hosan yn y fasedg olchi***  
Bod.3U.Pres

Ymateb ***Ydy/Nac Ydy***

Bod.3U.Pres /NEG Bod. 3U.Pres

(49) Datganiad ***Ma'n nhw'n aros***  
Bod.3U.Pres

Ymateb ***Ydyn/Nac Ydyn***  
Bod.3LL.Pres / NEG Bod. 3LL.Pres

Goddrych amhendant e.e.

(50) Datganiad ***Mae (yna) hosan yn y fasged olchi***  
Bod. 3U.Pres

Ymateb ***Oes/Nac Oes***  
Bod.Amh / NEG Bod.Amh

Nid yw'r ffurfiau *mae* yn cael eu hadleisio yn yr union ffurf a ymddangosir yn y cwestiwn nac yn cael eu defnyddio mewn atebion neu mewn ffurfiau gofynnol (interrogative), ac ni ddylid eu cael mewn strwythurau negyddol chwaith. Fodd bynnag, nodai Jones (1988) fod plant ysgol yn dueddol o roi *mae* mewn cymalau negyddol ar brydiau (gwelir esiampl o ffurf anghywir isod).

(51) Datganiad ***\*Mae Begw ddim mynd i gwely heno, na?***  
Bod.3U.Pres + NEG

(Data Personol)

Er fod ffurf amhendant *oes* a *nac oes* yn enghraifft o ffurf adleisiol, mae'n ymdebygu i ffurfiau di-adlais gan na cheir ffurfiau gwahanol i nodi person (mae *oes* yn drydydd person bob tro) a nifer (gweler tabl 8). Yn ogystal, gan nad yw'r ffurf *oes* yn amrywio mae posibil rhagdybio bod y ffurf hwn yn haws i'w defnyddio a'i gaffael yn y pen draw (gwelir y bennod nesaf am drafodaeth ynglŷn â arwyddocâd cymhlethdodau ieithyddol wrth gaffael iaith) . Felly, pan mae'r goddrych yn amhendant a'r amser gramadegol yn bresennol mae rhaid defnyddio *oes* yn y cwestiwn ac fel adlais yn yr ymateb e.e.

(52) Cwestiwn ***Oes yna ddisco yn yr ysgol heno?***  
Bod.3U.Amht

Ymateb

**Oes / Nac oes**

Bod.3U.Amht /NEG Bod.3U.Amht

Yn ogystal pan gyfeirir at enwau amhenodol neu ragenwol megis *neb, rhai, rhywun, rhywrai, rhywbeth*, yn ffurf presennol y ferf gwmpasog gellid ond defnyddio'r ffurf gryno penodol yma i ymateb yn gywir i'r targed yn Gymraeg (Thorne, 2000) e.e.

(53) Cwestiwn

**Oes gan rywun ffôn?**

Bod.3U.Amht

Ymateb

**Oes / Nac oes**

Bod.3U.Amht /NEG Bod.3U.Amht

Fodd bynnag, pan fo ffurfiau presennol o'r ferf *bod* yn cael eu defnyddio gyda'r ffurf *eisiau* mewn cwestiwn mae yna ddewis o'r ffurfiau adleisiol cyflawn (ffurfiau y-) (54a) neu ffurf amhendant *oes* fel ateb cyffredinol hefyd (54b) e.e.

(54) Cwestiwn

**Ydw i eisiau/isio torri' ngwallt?**

Bod.1U.Pres

(a) Ymateb Adleisiol Cyflawn

**Wyt/Nac Wyt**

Bod.2U.Pres /NEG Bod.2U.Pres

NEU

(b) Ymateb Adleisiol Oes

**Oes/Nac Oes**

Bod.Amht / NEG Bod.Amht

(Addaswyd o Jones, 1999)

Ceir hyn hefyd pan yn ymdrin â ffurfiau lluosog ac unigol eraill, ac mae'r defnydd yma o'r ffurf *Oes* yn adlewyrchu'r defnydd cyffredin o'r ferf *bod* ar lafar heddiw. Yn ei dro mae hyn yn bwysig wrth gysidro'r mewnbwn ieithyddol a roddir i blentyn unwaith eto wrth geisio penderfynu ar y ffurf cywir o'r ferf i ddefnyddio wrth ymateb i gwestiwn penodol.

## 2.6.3 Ffurfiâu Negyddol *bod* – amrywiadau pellach

Pan geir cwestiynau negyddol yn defnyddio'r ffurf *bod* fe ychwanegir *d*-neu *t*- i ddechrau berfau sy'n cychwyn gyda llafariad. Mae hyn yn cynnwys y ffurfiâu presennol ac amherffaith (gweler tabl 10 ac 11<sup>4</sup>) yn ogystal â'r ffurf amhendant *oes* = *does* (ymhob achos).

Tabl 10 Rhestr o'r ffurfiâu berfol negyddol *d*- a ddefnyddir ar gyfer cwestiynau presennol *bod*.

Ffurfiâu <i>bod</i>		
Amser Presennol		
Person	Unigol	Lluosog
1	<i>dydw</i>	<i>dydan</i>
2	<i>dwyt</i>	<i>dŷch</i>
3	<i>dydy</i>	<i>dŷnt/dydynt</i>

Tabl 11 – Rhestr o'r ffurfiâu berfol negyddol *d*- a ddefnyddir ar gyfer cwestiynau amherffaith *bod*.

Ffurfiâu <i>bod</i>		
Amser Amherffaith		
Person	Unigol	Lluosog
1	<i>doeddwn</i>	<i>doedden</i>
2	<i>doeddit/doeddet</i>	<i>doeddech</i>
3	<i>doedden</i>	<i>doeddyn(t)/doeddent</i>

Fodd bynnag nid oes modd ymateb gyda'r ffurfiâu negyddol hyn. Yn hytrach fe'u defnyddir yn y cwestiynau yn unig ac fe ymatebir yn negyddol drwy ychwanegu *Nac* neu *Nag* i ddechrau'r ferf gryno e.e. *Nac Ydy*, *Nac (?d)wyt*, *Nac oes*, *Nac (oe)ddet* (gweler Tabl 8 am enghreifftiau pellach). Felly yn yr achos yma, a phan geir cwestiwn negyddol, nid yw hyd yn oed ffurf y trydydd person yn ymateb union o'r berf a geir yn y cwestiwn e.e.

<sup>4</sup> Dilynir yr un patrwm gyda ffurfiâu *t*- e.e. *toes*, *tydy*, *tydym*, *toeddwn* ayyb.

Fel a nodwyd ar ddechrau'r bennod hon mae'r amrywiadau hyn yn ddibynnol ar y gwahaniaethau mewn defnydd iaith rhwng unigolion, tafodiaith ac arddull.

- (55) Cwestiwn ***Tydy Carys ddim yn dod allan i chwarae?***  
Bod.3U.Pres.Neg
- Ymateb ***Ydy/Nac Ydy***  
Bod.3U.Pres /NEG Bod.3U.Pres
- (56) Cwestiwn ***Does gynnoch chi ddim coffi?***  
Bod.3LL.Amht.Neg
- Ymateb ***Oes/Nac Oes***  
Bod.3LL.Amht / Bod.3LL.Amht / NEG

Ar y llaw arall, os y ceir tag ar ddiwedd cwestiwn negyddol, mi fydd ffurfiau trydydd person yn parhau i aros yr un fath (gweler esiamp 57) ond nid (fel y gwelwyd eisoes) ar gyfer ffurfiau person cyntaf ac ail berson (gweler esiamp 58).

- (57) Cwestiwn ***Doedd Cadi ddim yn y siop ddoe, nac oedd?***  
Bod.3U.Amh.Neg + NEG Bod.3U.Amh
- Ymateb ***Oedd/Nac Oedd***  
Bod.3U.Amh + NEG Bod.3U.Amh
- (58) Cwestiwn ***Dydych chi ddim am ddod i'r sioe heno, nac ydych?***  
Bod.2LL.Pres.Neg + NEG Bod.2LL.Pres
- Ymateb ***Ydan/Nac Ydan***  
Bod.1LL.Pres / NEG Bod.1LL.Pres

Mae hyn, yn ogystal â'r amrywiadau eraill a geir, yn tanlinellu cymhlethdod y system adleisiol wrth ystyried yr amrywiadau yn y mewnbwn ieithyddol sy'n bwydo dealltwriaeth y plentyn, gan fod rhaid i'r plentyn allu adnabod a oes angen ailadrodd ffurf y ferf yn hollol wahanol, yn union, neu yn rhannol. Yn dilyn hyn, os yw'r ffurf sydd ei angen yn wahanol neu yn rhannol wahanol mae rhaid adnabod yr amser, person, nifer a gwneud defnydd cywir o dreigladau mewn rhai atebion negyddol e.e. *Na Fydd* yn hytrach na *Na Bydd*.



## 2.6.4 Digwyddiadau o'r ffurfiau *bod* ar lafar ac yn ysgrifenedig

Oherwydd y defnyddir y ferf *bod* ar gyfer yr ymchwil presennol hwn fe benderfynwyd amcangyfrif y defnydd o'r ffurfiau *bod* drwy gyfrifo'r nifer o esiamplau o ffurfiau penodol a geir ar lafar ac yn ysgrifenedig . Gwnaethpwyd hyn drwy wneud defnydd o gorpws Siarad a Cronfa Electroneg o'r Gymraeg (CEG) Mae'r corpws Siarad yn fas data o Gymraeg llafar sy'n cynnwys 460,000 o eiriau; 69 o recordiadau a thrawsgrifiadau; dros 40 awr o sgysiau naturiol gyda 151 o siaradwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg (Deuchar, Davies, Herring, Parafita Couto, a Carter, yn y wasg gweler hefyd y wefan <http://bangortalk.org.uk/speakers.php?c=siarad>). Ar y llaw arall, disgrifir cronfa CEG fel "...dadansoddiad amllder geiriau o 1,079,032 o eiriau o ryddiaith Gymraeg ysgrifenedig, a seiliwyd ar 500 o samplau o tua 2000 o eiriau yr un. Fe'u detholwyd o ystod gynrychioliadol o destunau rhyddiaith Gymraeg gyfoes (o 1970 ymlaen yn bennaf" (Ellis, O'Dochartaigh, Hicks, Morgan a Laporte, 2001). Felly mae Corpws Siarad yn nodi defnydd o iaith ar lafar tra mae CEG yn nodi amllder y strwythurau yn ysgrifenedig.

Oherwydd bod y niferoedd yn wahanol ym mhob prawf nid oedd modd cael cymhariaeth union o'r ffurfiau a ddefnyddir. Fodd bynnag, gan fod y corpws Siarad yn cynnwys oddeutu hanner y nifer o eiriau a geir yn y Corpws CEG, mae posib amcangyfrif a chael syniad bras o'r niferoedd tebyg ac annhebyg a geir yn y ddau gorpws. Er mwyn cyfrifo'r niferoedd a geir yn Nhablau 12 a 14 ar gyfer y Corpws Siarad defnyddiwyd chwiliad geiriol am amrywiadau o'r ffurfiau gwahanol drwy ddefnyddio raglen CLAN (gweler MacWhinney, 2010 am fanylion pellach) e.e. wrth chwilio am y ffurf *wyt* chwiliwyd hefyd am y ffurfiau *dwyt*, *twyt*, *yn dwyt* ac *ydwyt* ac yna cyfuno'r niferoedd ar gyfer yr holl amrywiadau posib. Yna cyfrifwyd amllder yr union un ffurfiau yn y rhestr o eiriau a geir yng

Nghorpws CEG (gweler tablau 13 a 15) er mwyn sicrhau cymhariaeth dilys a theg. Yn ogystal, oherwydd bod y ffurfiau 3ydd person lluosog e.e. *oedden nhw* a person 1af lluosog e.e. *oedden ni* yn defnyddio'r un ffurf yn y ffurfiau adleisiol a brofwyd, cyfunwyd y sgorau ar gyfer y ffurfiau hyn ac ymrannu'r niferoedd rhwng y ddau ffurf gan nad yw'n glir ym mha gyd-destun ac felly i ba 'berson' mae'r ymatebion hyn yn perthyn.

Amlyga Tablau 12 a 13 sy'n rhestru'r niferoedd adleisiol ac Tablau 14 a 15 sy'n rhestru'r niferoedd di-adlais fod amrywiaeth rhwng y ddau gorpws. Mae hyn yn awgrymu bod gwahaniaeth i'w gael yn amllder y ffurfiau a ddefnyddir ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r tablau hyn yn awgrymu bod yna dueddiad i ddefnyddio llawer mwy o ffurfiau presennol a di-adlais ar lafar (Corpws Siarad) nac yn ysgrifenedig (Corpws CEG). Gwelir amrywiadau pellach yn y niferoedd a gafwyd ar gyfer y ffurfiau eraill yn ogystal e.e. ffurfiau amherffraith. Fodd bynnag, ar y cyfan mae'r niferoedd i'w gweld yn eithaf cyson ar draws y ffurfiau ac o bosib, yn adlewyrchu defnydd cyffredinol y ffurfiau gwahanol yn y mewnbwn ieithyddol. Mae'n bwysig felly cadw'r niferoedd hyn mewn golwg wrth drin a thrafod unrhyw ganlyniadau a geir o'r ymchwil presennol.

Tabl 12 - Niferoedd y ffurfiau adleisiol gwahanol fel a gyfrifwyd yn y Corpws Siarad (460,000 o eiriau).

<b>Ffurfiâu Adleisiol</b>									
	<b>Presennol</b>		<b>Dyfodol</b>		<b>Amherffaith</b>		<b>Amhendant (Presennol)</b>		<b>Nag/Nac</b>
<b>Person</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	
<b>1</b>	<b>365</b>	<b>265</b>	<b>199</b>	<b>76</b>	<b>69</b>	<b>395</b>	<b>1789</b>		<b>1005</b>
<b>2</b>	<b>557</b>	<b>123</b>	<b>28</b>	<b>24</b>	<b>47</b>	<b>98</b>			
<b>3</b>	<b>4206</b>	<b>265</b>	<b>856</b>	<b>76</b>	<b>6833</b>	<b>395</b>			
<b>Cyf</b>	<b>5785</b>		<b>1259</b>		<b>8627</b>		<b>1789</b>		<b>1005</b>

Tabl 13 - Niferoedd y ffurfiau adleisiol gwahanol fel a gyfrifwyd gan Corpws CEG (1,079,032 o eiriau).

<b>Ffurfiâu Adleisiol</b>									
	<b>Presennol</b>		<b>Dyfodol</b>		<b>Amherffaith</b>		<b>Amhendant (Presennol)</b>		<b>Nag/Nac</b>
<b>Person</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	<b>Unigol</b>	<b>Lluosog</b>	
<b>1</b>	<b>365</b>	<b>199</b>	<b>183</b>	<b>164</b>	<b>320</b>	<b>212</b>	<b>1333</b>		<b>782</b>
<b>2</b>	<b>370</b>	<b>251</b>	<b>63</b>	<b>172</b>	<b>11</b>	<b>28</b>			
<b>3</b>	<b>861</b>	<b>199</b>	<b>1881</b>	<b>164</b>	<b>10,759</b>	<b>212</b>			
<b>Cyf</b>	<b>2245</b>		<b>2626</b>		<b>11,542</b>		<b>1333</b>		<b>782</b>

Tabl 14- Niferoedd y ffurfiau di-adlais gwahanol fel a gyfrifwyd yn Nghorpws Siarad (460,000 o eiriau).

<b>Ffurfiâu di-adlais</b>				
<b>Gorffennol Perffaith</b>		<b>Ie/Nage</b>		<b>Na</b>
<b>Do</b>	<b>Naddo</b>	<b>Ie/Ia</b>	<b>Nage/Naci</b>	
<b>1174</b>	<b>176</b>	<b>5089</b>	<b>178</b>	<b>3813</b>

Tabl 15- Niferoedd y ffurfiau di-adlais gwahanol fel a gyfrifwyd gan Gorpws CEG(1,079,032 o eiriau).

<b>Ffurfiâu di-adlais</b>				
<b>Gorffennol Perffaith</b>		<b>Ie/Nage</b>		<b>Na</b>
<b>Do</b>	<b>Naddo</b>	<b>Ie/Ia</b>	<b>Nage/Naci</b>	
<b>68</b>	<b>30</b>	<b>183</b>	<b>76</b>	<b>3023</b>

## 2.7 Swyddogaeth disgyrsiol (discourse) ymatebolion Cymraeg

Adnabu gwaith ymchwil gan Jones (1987/88 a 1999) bum swyddogaeth ddisgyrsiol y gellid eu cyflawni drwy ddefnyddio ymatebion mewn sgysiau plant pum mlwydd oed. Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

- I. Ateb
- II. Cytuno neu anghytuno
- III. Cwestiynau ymatebol
- IV. Cydnabod
- V. Cywiro

Nodai Jones (1999) bod y swyddogaethau hyn yn ddibynnol ar y rhyngweithiadau a geir rhwng siaradwyr a'r cwestiynau/targedau amrywiol a ymatebir iddynt. Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar yr ymatebion a geir ac yn benodol cwestiynau ie/na. Cwestiynau yw'r rhain lle mae rhaid ymateb yn negatiff neu bositiff e.e.

(59) Cwestiwn: **Wyt ti'n neud paned?**  
 Ymateb: **Ydw neu Nac Ydw**  
 Cadarnhaol neu Negyddol

### 2.7.1 Ymatebion

Mewn nifer o ryngweithiadau iaith rhwng dau siaradwr, ysgogir ateb oddi wrth un siaradwr fel ymateb i ymadrodd y siaradwr arall. Mae ffurfiau ateb ia/na yn berthnasol fel ymateb i nifer o ymadroddion, fel a nodir yn Nhabl 16 isod.

Tabl 16– Sbardunau ieithyddol a'i hymatebion cyfatebol yn ôl ffurfiau ad leisiol neu di-adlais (Addaswyd o Jones, 1999).

	Sbardyn	Ymatebolion
i	sefyllfaol (situational)	di-adlais
ii	darn o destun (text chunk)	di-adlais

<b>iii</b>	cymal cryno, cyffredin (finite clause, normal)	adleisiol
<b>iv</b>	cymal cryno, blaen (finite clause, fronted)	di-adlais
<b>v</b>	ymddangosiadol (demonstrative)	di-adlais
<b>vi</b>	cymal adferfol (adverbial clause)	di-adlais
<b>vii</b>	tamaid , di adferfol (fragment, auxiliaryless)	di-adlais neu adennill ffurf llawn
<b>viii</b>	tamiad , diferf (fragment, verbless)	di-adlais neu adennill ffurf llawn
<b>ix</b>	ymatebol, di-adlais (responsive, nonecho)	di-adlais
<b>x</b>	ymatebol ad leisiol (responsive, echo)	adleisol
<b>xi</b>	ymatebol, <i>na</i> (responsive <i>na</i> )	<i>na</i> neu adennill ffurf llawn
<b>xii</b>	cwestiwn, awgrym (question, suggestion)	di-adlais
<b>xiii</b>	cwestiwn, ad leisiol (question, echo)	di-adlais
<b>xiv</b>	cwestiwn pardwn (question, pardon)	ailadrodd ymatebolyn gwreiddiol
<b>xv</b>	gorchmynnol (imperative)	di-adlais neu adlais negatif

Fodd bynnag nid yw'n glir sut a phryd mae plentyn dwyieithog Cymraeg/Saesneg sy'n ceisio caffael y system ateb yn Gymraeg yn ymwybodol o ac gyda'r gallu i wahaniaethu rhwng y ffurfiau amrywiol o gwestiynau/datganiadau ayb sy'n ymfyn ymateb yn ogystal â'r nifer o ymatebion posib. Mae tabl 16 yn awgrymu bod y nifer eang o ffurfiau sy'n sbarduno ymatebolion yn gwneud y system yn un cymhleth ar yr olwg gyntaf sydd ar gallu i beri anawsterau i blant (a dysgwyr ail iaith) wrth iddynt ddod yn gyfarwydd â nodweddion y system yn ei chyfanrwydd. Yn yr adran nesaf felly, ystyrir pa reolau (os y ceir rhai) sydd yn ymdebygu i'r systemau a geir mewn ieithoedd eraill..

## 2.8 Systemau Ateb Ieithoedd Eraill

Gellir cael 3 prif system wahanol wrth ymateb yn ôl Hakulinen (2001); Yn gyntaf cyfeiria at y system *Ie/Na* mewn ieithoedd megis Saesneg, sy'n gwneud defnydd o eiryn penodol er mwyn ymateb – megis *yes* yn gadarnhaol neu *no* yn negyddol (Holmberg, 2012).

Yn yr achos yma mae'r atebion yn gallu dilyn y patrwm isod yn Saesneg:

(60) Cwestiwn: *Did you go to the cinema?*  
 Gwneud.2U.Gorff  
 Es di i'r sinema?

Ateb Cadarnhaol	<b>Yes</b> (I did) Geiryn Cadarnhaol (Gwneud.1U.GORFF) Ie, (mi es)
Ateb Negyddol	<b>No</b> (I didn't) Geiryn Negyddol (Gwneud.1U.GORFF.NEG) Na, (es i ddim)

Nodir y datganiadau ychwanegol mewn cromfachau gan nad yw'r rhain yn ddatganiadau sydd rhaid eu defnyddio wrth ymateb. Fodd bynnag, rhaid nodi fod posibil ymateb drwy adleisio'r ffurfiau berfol ddefnyddir yn y cwestiwn yn unig hefyd e.e.

(61) Cwestiwn:	<b><i>Did you go to the cinema?</i></b> Gwneud.2U.GORFF Es di i'r sinema?
Ateb Cadarnhaol	<b>(Yes) I did</b> (Geiryn Cadarnhaol) Gwneud.1U.GORFF (Ie) Mi es
Ateb Negyddol	<b>(No) I didn't</b> (Geiryn Negyddol) Gwneud.1U.GORFF.NEG (Na) Es i ddim

Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwahaniaethu rhwng y systemau hyn a'r systemau adleisiol drafodir isod ydy'r ffaith fod gan y siaradwr ddewis i ymateb gyda un ai *Yes/No* yn unig neu i adleisio'r ferf wrth ymateb. Ceir systemau tebyg yn ieithoedd megis Norwyeg, Iseldireg a Hebraeg. Yr ail system cyfeiria Hakulinen (2001) ati yw'r systemau Cytuno/Anghytuno megis Tsiapaneaeg lle defnyddir geiryn cadarnhaol os yw'r ateb yn cytuno gyda pholaredd y cwestiwn, ac geiryn negyddol os yw'r ateb yn anghytuno gyda pholaredd y cwestiwn (gweler Akiyama (1979) am gymhariaeth o ddatblygiad y ddwy system uchod). Yn olaf cyfeiria Hakulinen (2001) at systemau ad-leisiol fel a geir yn y Gymraeg, sy'n adleisio'r ferf wrth ymateb. Mae'r ieithoedd hyn yn cynnwys ieithoedd Celtaidd (e.e. Gaeleg, Gwyddeleg, Llydaweg); ieithoedd Ewropeaidd (e.e. Ffinneg, Portiwgaleg, Tsieceg); ac ieithoedd gwledydd

eraill (e.e. Cantoneg, Mandarin, a'r iaith Thai)(Jones, 1999). Ceir esiamplau o rai o'r ieithoedd hyn isod.

## 2.8.1 Esiamplau o ieithoedd lle adleisir y ferf

Noda Jones (1999) fod ailadrodd berfau cryno yn nodwedd gyffredin mewn ieithoedd Celtaidd (gweler esiamplau o Lydaweg a Gwyddeleg isod):

### Llydaweg

(62) Cwestiwn *ha dônt a reot?*  
gwneud.2LL.Dyf.Ategol  
Wnei di ddod?

Ymateb *dônt a rin*  
gwneud.1U.Dyf.Ategol  
Gwnaf

(Addaswyd o Press, 1986: 109-110)

(63) Cwestiwn *n'ema ket ar bara war an daol?*  
Bod. Lleoliadaol.3U.Pres  
Tydy'r bara ddim ar y bwrdd?

Ymateb *ema*  
Bod. Lleoliadaol.3U.Pres

(Gros, 1974, 193-198, addaswyd o Jones 1999:29)

### Gwyddeleg

(64) Cwestiwn *Beidh muid anseo amáireach*  
Tá.Dyf  
Byddwn ni yma yfory

Ymateb *Beidh/Ni beidh*  
Tá.Dyf / NEG Tá.Dyf  
Byddwn / Na fyddwn

(Addaswyd o O' Siadhail a Hughes, 1998: 45)

(65) Cwestiwn *ar bhrissé an fhuinneog?*  
Torri  
Torrodd o'r ffenest?



Ymateb	<b><i>bhris /níor bhris</i></b> Torri / Neg Torri Torrodd / Na Dorrodd (Addaswyd o Jones, 1999: 29)
--------	--

Ond mae'r nodwedd adleisiol hwn i'w cael mewn ieithoedd eraill yn ogystal e.e.

### **Ffinneg**

(66) Cwestiwn	<b><i>Onko Liisa Kotona?</i></b> Ydy Lissa adre?
---------------	---

Ymateb	<b><i>On/Ei(ole)</i></b> Ydy/Nac Ydy (Addaswyd o Holmberg, 2001)
--------	--

Fodd bynnag gwneir defnydd o lawer mwy o ffurfiau adleisiol yn Ffinneg, sy'n cynnwys nifer fwy o eitemau na'r hyn a geir yn Gymraeg (Jones, 1999), lle adleisir y ffurf a bwysleisir yn y cwestiwn e.e.

(67) Datganiad	<i>hän tulee</i> fo dod mae o'n dod
NEU	
Cwestiwn	<i>tuleeko hän</i> dod.geiryn gofynnol fo Ydy o'n dod?
Ymateb	<i>tulee/hän</i> dod/ y fo
NEU	
Cwestiwn	<i>hänkö tulee?</i> ai y fo sy'n dod
(68) Datganiad	<i>hän ei tule</i> fo NEG.Berfenwol dod tydy o ddim yn dod
NEU	
Cwestiwn	<i>eikö hän tule</i> NEG.Berfenwol.Geiryn Gofynnol Tydy o'm yn dod?
Ymateb	<i>ei tule / ei</i> NEG.Berfenwol dod / NEG.Berfenwol

Ceir yr un math o batrwm yn yr iaith Maleaidd (gweler Dodds, 1977, am drafodaeth pellach). Yn anffodus, er fod modd disgrifio'r systemau hyn er mwyn adnabod patrymau adleisiol tebyg i'r Gymraeg, prin iawn yw unrhyw ymchwil sy'n nodi caffaeliad plant o'r systemau cymhleth a diddorol hyn. Mae'r ymchwil presennol, felly, yn llenwi bwlch enfawr yn y llyfryddiaeth hwn, tra ar yr un pryd yn cyfrannu data gwreiddiol a newydd at gwestiynau ymchwil yn y maes caffael iaith yn fwy cyffredinol.

Fel y gwelir yn yr esiamplau a nodir uchod, nid yw rhai o'r nodweddion adleisiol sy'n rhan o'r system ateb yn y Gymraeg yn rhai unigryw. Fodd bynnag mae posib i rai o gymhlethdodau'r system hon beri anawsterau i blant dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn enwedig gan fod y system ateb yn Saesneg i'w weld yn hawdd mewn cymhariaeth (un ai *yes* neu *no*).

## 2.9 I gloi

Yn y bennod hon ceisir mynd i'r afael a rhai o brif nodweddion y system ateb yn y Gymraeg. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys y defnydd o ddwy system ymatebol, system adleisiol (system ferfol) a'r system di-adlais (trefn gymysg). Gwneir defnydd o ferfau cryno wrth ymateb wrth ddefnyddio'r ffurfiau adleisiol. Fodd bynnag ceir amrywiadau niferus i'r ymatebion a geir yn y ffurfiau adleisiol oherwydd, y defnydd o ferfau dirprwyol (*gwneud* fel arfer); y gwahaniaethau a geir yn ôl person (1af, 2il a 3ydd); y broses o negyddu berfau cryno (y defnydd o *nac/nag* o flaen ymatebion a'r angen i dreiglo ar adegau); y defnydd o ragenwau ffurfiol ac anffurfiol (*ti/chi*); talfyriadau (e.e. *oes* – 's); amrywiadau tafodieithol ac arddull. Mae'r system di-adlais ar y llaw arall i'w gweld yn haws i'w caffael ar yr olwg gyntaf gan na adleisir y ferf ac felly ni cheir defnydd o ferfau dirprwyol, gwahaniaethau person, gwahaniaethau wrth negyddu nac ychwaith cymhlethdodau sy'n gysylltiedig gyda'r defnydd

o ragenwau ffurfiol ac anffurfiol neu amrywiadau tafodieithol ac arddull. Fodd bynnag, er mwyn defnyddio'r system hon yn gywir ac effeithlon mae angen i'r dysgwr iaith fod yn ymwybodol o phryd i'w defnyddio e.e. pan geir gwahaniaethau mewn trefn brawddegau (*ie* a nage) ac amser y ferf (*do* a *naddo*). Cysidrwyd yma hefyd sut y gallai siaradwr ddefnyddio tagiau wrth chwilio am ymateb ac sut mae posib i dag gymryd yr union ffurf berfol a ddisgwylir fel ymateb neu ffurf wahanol sy'n amrywio yn ôl person (Adran 2.4).

Yn ogystal, cynigwyd edrychiad mwy manwl ar amrywiadau'r ferf *bod* gan mae *bod* fydd prif ffocws yr astudiaeth hon. Ceir tabl cynhwysfawr yn nhabl 8 sy'n trafod rhai o ddigwyddiadau prif ffurfiau *bod* ac fe ellid gweld amrywiadau o'r ffurfiau hyn yn cael eu defnyddio yn y profion (gwelir pennod 4 ac atodiad 11). Yn ogystal, trafodir yn gryno swyddogaeth disgyrsiol ymatebolion a'r pwyslais ar ymatebion *ie/na* yn yr astudiaeth hon. Yn olaf, cynigir esiamplau o systemau ateb ieithoedd eraill sydd yn ymdebygu i'r hyn a wneir yn y system ateb yn y Gymraeg. Mae rhai o'r ieithoedd a drafodir yn adleisio'r ferf yn yr un modd, ond nid yw'r gwaith hwn yn trafod y rheolau hynny a all fod yn unigryw i bob iaith ac a all gynnwys bob math o amrywiadau.

Mae'r holl amrywiadau a nodwyd sy'n rhan o nodweddion y system ateb yn y Gymraeg yn pwysleisio'r angen ar gyfer mewnbwn ieithyddol ddigonol (yn y ddwy iaith mewn unigolion dwyieithog - yn enwedig yn yr iaith leiafrifol) i alluogi plant (Cymraeg/Saesneg) i ddefnyddio'r strwythurau yn effeithiol. Trafodir pwysigrwydd mewnbwn ieithyddol a threfn caffael iaith plant ifanc yn y bennod nesaf.

# Pennod 3–Caffael Iaith a Damcaniaethau Caffael iaith

---

## 3.1 Cyflwyniad i Bennod 3

Wrth edrych ar gaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg rhaid yn gyntaf ystyried ac adnabod y ffaith fod y plant yn yr astudiaeth hon (ar wahanol raddfa), yn unigolion sy'n caffael dwy iaith ar yr un pryd. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried y gwahanol ffactorau a all effeithio ar gaffaeliad plant dwyieithog o strwythurau penodol ac sut mae'n disgwyliadau o ran caffael iaith yn gallu amrywio rhwng plant dwyieithog a phlant sy'n caffael un iaith yn unig.

Yn rhan gyntaf y bennod hon felly trafodir ymchwil sydd wedi cymharu datblygiad plant dwyieithog a phlant uniaith ar amrediad o sgiliau ieithyddol gan ganolbwyntio ar sut mae amllder y mewnbwn ieithyddol a geir yn gallu effeithio ar raddfa'r datblygiad hwnnw. Yn ogystal edrychir ar bwysigrwydd ciwiau ieithyddol i blant wrth gaffael iaith ac i ba raddau mae plant yn gwneud defnydd o'r ciwiau sydd ar gael er mwyn caffael iaith yn effeithlon. Yn yr ail ran edrychir ar y prif damcaniaethau sy'n ceisio esbonio gaffaeliad plant o iaith a pherthnasedd y rhain yng nghyd-destun datblygiad dwyieithog.

## 3.2 Caffaeliad o Iaith gan Blant

### 3.2.1 Caffaeliad iaith: Datblygiad uniaith a Datblygiad dwyieithog

Dengys ymchwil fod plant ifanc, fel arfer, yn caffael iaith yn rhwydd a didrafferth, “Any relatively normal child born into a relatively normal-using community will, even without formal education, develop the ability to use that community’s language” (Shatz, 2007, p.3). Ceir llawer o gwestiynau sy’n deillio o gymharu gaffaeliad dwy iaith gyda chaffaeliad un iaith (Francis, 2012). Pwnc cyson a chyfredol felly, o fewn maes datblygiad dwyieithrwydd, yw’r cwestiwn sut/os o gwbl mae datblygiad ieithyddol plant sy’n caffael dwy neu fwy o ieithoedd yn wahanol i’r hyn a welir mewn plant sydd yn caffael un iaith yn unig (gweler Genesse a Nicoladis, 2007 am drosolwg o’r maes). Mae hyn yn hollbwysig yng nghyd destun y byd sydd ohoni heddiw lle mae datblygu’n ddwyieithog (neu hyd yn oed yn amlieithog) yn rhan annatod o fywydau nifer fawr o bobol (Cook, 2002; Wierzbicka, 2004) lle yr ystyrir dwyieithrwydd yn beth cyffredin a datblygiad un iaith yn eithriad, ac felly, yn beth anghyffredin (Grosjean, 2010).

#### 3.2.1.1 *Datblygiad Dwy iaith vs. Un*

Cytuna llawer o ymchwilwyr fod unigolion dwyieithog yn caffael nodweddion iaith benodol yn gynnar yn ystod datblygiad iaith a’u bod yn arddangos yr un patrwm â’r hyn a geir mewn plant sy’n caffael un iaith yn unig (de Houwer, 1990, 2005, 2009; Deuchar a Quay, 2000; gweler hefyd de Houwer 1995; Genesse, 2001; Meisel 2001 am adolygiadau). Noda ymchwilwyr eraill fod plant yn dechrau prosesu lleferydd mewn modd sy’n unigryw i iaith mor gynnar a 6 mis oed (e.e. Hoff, 2005). Mae amseriad hyn yn hollbwysig wrth gysidro

fod ymchwil blaenorol yn awgrymu fod plant yn arddangos y gallu i wahaniaethu rhwng ieithoedd rhwng 4 a 5 mis oed (Bosch a Sebastián- Gallés, 1997; Bosch a Sebastián- Gallés, 2001; Sebastián- Gallés, 2010).

Yn ogystal dangosai ymchwil fod plant newydd anedig gyda'r gallu i wahaniaethu rhwng mydryddiaeth gwahanol ieithoedd (Christophe & Morton, 1998; DeCasper & Spence, 1986; Hesketh, Christophe, a Dehaene-Lambertz, 1997) ond gweler gostyngiad yn y gallu i wahaniaethu pan maent oddeutu 6-8 mis oed, lle maent yn dechrau arbenigo yn yr iaith/ieithoedd a glywir yn ddyddiol (e.e. Werker a Tees, 1984; McMurray a Aslin, 2005; Kuhl, Stevens, Hayashi, Deguchi, Kiritani a Iverson, 2006). Awgryma astudiaeth bellach gan Oller, Eilers, Urbano & Cobo-Lewis (1997) fod babanod dwyieithog yn cynhyrchu baldorddi ailadroddus (*canonical babbling*) yn ystod yr un cyfnod ac ar yr un raddfa â babanod uniaith. Yn dilyn hyn mae plant dwyieithog yn cynhyrchu eu geiriau cyntaf, ar gyfartaledd, pan maent yn flwydd oed, yr un pryd â phlant uniaith (Genesee, 2003; Patterson a Pearson, 2004) ac mae patrymau geirfaol plant dwyieithog – h.y. y patrwm dosbarthu geirfaol a welir fel enwau, berfau, ansoddeiriau ayyb – hefyd yn debyg iawn i'r hyn a welir gan blant uniaith (Nicoladis, 2001). Yn ystod yr un cyfnod ceir beth a elwir yn 'ffrwydrad geirfaol' (vocabulary spurt) lle mae'r stôr o eirfa yn cynyddu i 100 a mwy o eiriau erbyn i'r plentyn gyrraedd ei ben-blwydd yn ddwy oed. Noda Pearson, Fernandez ac Oller (1993) a Pearson a Fernandez (1994) oedd yn edrych ar ddatblygiad ieithyddol ymysg plant dwyieithog a siaradai Sbaeneg a Saesneg, fod y ffrwydrad geirfaol – 'Word Spurt' – yn ymddangos oddeutu'r un adeg (o gwmpas 18 mis) mewn plant uniaith a dwyieithog.

Rhwng 18 a 24 mis oed mae plant uniaith a dwyieithog yn datblygu'r gallu i gyfuno dau air ystyrllon e.e. *pêl mam* ond nid o reidrwydd yn yr un trefn bob amser e.e. *mam pêl*. Rhaid pwysleisio fod yr amrediad yma o 6 mis (18-24 mis) yn adlewyrchiad o'r

gwahaniaethau rhwng unigolion sydd yr un peth ar gyfer plant dwyieithog a phlant sydd yn caffael un iaith yn unig (Patterson, 1998). Wrth gyfuno geiriau mae plant yn creu brawddegau syml sy'n cyfuno dau air gan amlaf ac yn cael ei adnabod fel iaith telegraffig gan fod yr elfennau hynny sydd ddim yn hanfodol ar goll e.e. gall blant hepgor y ferf, y fannod a'r adferf wrth cynhyrchu *ci bwyta* yn lle *mae'r ci yn bwyta*. Erbyn hyn felly mae'r plentyn â'r gallu i ymrannu sgysiau i rannau a geiriau ystyrion gan gymryd sylw o giwiau a roir gan y siaradwyr e.e. sylw i wrthrych benodol e.e. *Ti isio'r bêl?* neu disgrifio gweithred a wneir e.e. *Ti'n taflu'r bêl?* (gweler Tomasello a Tomasello, 2009 am drafodaeth pellach). Ond yn ogystal mae'r plentyn yn dilyn trefn ddyddiol lle y gellid cysylltu ymadrodd penodol gyda'r amser penodol e.e. *Amser gwely*. Yn gyffredinol, disgwylir i unigolion sy'n datblygu un iaith neu dwy neu fwy o ieithoedd allu siarad yn eithaf da erbyn iddynt gyrraedd 5 mlwydd oed (de Houwer, 2009).

### **3.2.1.2 Cymysgu Ieithoedd**

Un nodwedd unigryw am ymddygiad y plentyn dwyieithog yw'r ffaith bod posib gwneud defnydd o'r naill iaith a'r llall o fewn yr un ynganiad. Nodai Genesee (1989) bod cymysgu ieithoedd gan blant dwyieithog yn rywbeth derbynol ac mae termau amrywiol wedi eu bathu i ddisgrifio'r broses yma megis 'cyfnewid cod' (*code switching*), 'cymysgu cod' (*code mixing*) ac adegau lle mae unigolion yn 'benthyg' geiriau unigol (*borrowings*). Mae'r esboniadau a geir ar gyfer tueddiad yr unigolyn dwyieithog i gymysgu ieithoedd hefyd yn amrywio ac fe all y rhain gynnwys esboniadau gramadegol (e.e. Paradis, Nicoladis a Genesee, 2000, Vihman, 1988) a chymdeithasol (e.e. Comeau, Genesee, a Lapaquette, 2003; Deuchar a Quay, 2000), i nodi rhai. Mae Genesee (1989) yn awgrymu fod gan blant y gallu i wahaniaethu yn gynnar iawn rhwng eu hieithoedd oherwydd eu bod yn gallu defnyddio eu

dwy iaith ar gyfer swyddogaethau gwahanol sy'n eu galluogi i fod yn sensitif i gyd-destunau gwahanol yn ogystal. Dangosai hyn, yn ôl Genesse (1989), bod plant yn dangos y gallu i wahaniaethu rhwng y ddwy iaith mewn modd effeithiol a phenodol iawn. Mae'n bosib hefyd i'r raddfa yma o gyfnewid neu fenthyg fod yn ddibynnol ar y mewnbwn neu gyfnewid ieithyddol a geir o'r amgylchedd (gweler hefyd Vihman, 1985). Hynny ydi, os yw'r siaradwyr o amgylch y plentyn yn arfer benthyg geiriau yn gyson, y tebyg yw y bydd y plentyn bach sy'n datblygu'n ddwyieithog yn gwneud hynny yn yr un modd. Awgryma'r enghreifftiau niferus a geir o gyfnewid iaith hefyd fod unigolion dwyieithog neu amlieithog yn defnyddio eu hieithoedd yn wybodus ac yn effeithiol wrth iddynt ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddynt (Mesthrie, Swann, Deumert a Leap, 2000). Fodd bynnag, nid yw'n glir os yw'r tueddiad hyn i gymysgu iaith yn gysylltiedig gyda achosion o drosglwyddiad ieithyddol.

### **3.2.1.3 Trosglwyddiad Trawsieithyddol**

Mae ymchwil gydag unigolion dwyieithog yn arddangos tystiolaeth o drosglwyddiad trawsieithyddol (crosslinguistic transfer) h.y. trosglwyddo gwybodaeth am un iaith (tebyg neu annhebyg) tra'n gwneud defnydd o'r iaith arall (e.e. Döpke, 2000; Hulk a van der Linden, 1996; Müller, 1998; Nicoladis 2002/2003; Paradis a Navarro, 2003; Yip a Matthews, 2000). Fel a nodwyd eisoes, awgryma ymchwil fod plant yn gwneud defnydd o'r holl adnoddau ieithyddol sydd ar gael iddynt, "In production, children are mainly concerned with being understood and they will use whatever they have available" (Lieven a Tomasello, 2009: 190) a bod hyn, wedyn, yn arwain at gymysgu rheolau ar draws eu dwy iaith. Cysidrir esiamplau o drosglwyddo ieithyddol mewn enwau cyfansawdd gan blant dwyieithog Ffrangeg/Saesneg gan Nicoladis (2002) lle rhoir esiampl o'r defnydd o'r strwythur Ffrangeg yn y Saesneg e.e. y defnydd o '*paper toilet*' yn lle '*toilet paper*'. Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r hyn all ddigwydd yn



y Gymraeg gyda unigolion dwyieithog Cymraeg/Saesneg e.e. *'toiled papur'* yn hytrach na *'papur toiled'*. Esiaml arall o drosglwyddiad trawsieithyddol posib gellid cyfeirio ato mewn unigolion dwyieithog Cymraeg/Saesneg yw trefn enwau ac ansoddeiriau, lle mae'r drefn Saesneg yn cael ei ddefnyddio yn y Gymraeg e.e. *'du ci'* yn hytrach na *'ci du'*.

Roedd tueddiad i drosglwyddiad ieithyddol gael ei ystyried yn rhywbeth negyddol (gweler Jarvis a Pavlenko, 2012 am drafodaeth) lle ystyriwyd achosion o drosglwyddiad ieithyddol yn brawf o allu ymenyddol isel e.e. profion ieithyddol ar mewnfudwyr i'r Amerig yn nechrau'r ugeinfed ganrif (gweler Hakuta, 1986 am fanylion pellach). Mae'r syniad o drosglwyddo iaith yn hollbwysig wrth gysidro caffaeliad plant dwyieithog Cymraeg/ Saesneg o'r system ateb yn y Gymraeg gan nad oes system tebyg i'w chael yn yr iaith Saesneg. Yn hytrach gellid ymateb un ai yn gadarnhaol gyda *Yes* neu yn negyddol gyda *No* wrth ymateb yn Saesneg heb orfod dewis y ferf cywir nac ychwaith reoli ar gyfer person, amser a nifer. Noda Meisel (1994) fod cymysgu iaith yn fwy tebygol o ddigwydd yn yr iaith wanaf ac felly gellid damcaniaethu felly bod posib i strwythurau yn yr iaith gryfa (Saesneg yn achos llawer) i arddangos effaith o drosglwyddiad ieithyddol i'r iaith wanaf (Cymraeg yn achos y rhai gydag amlygiad isel i'r iaith) (gweler hefyd ymchwil gan Döpke, 1998; Yip a Matthews, 2000). Ychwanega Meisel (2001) fod effaith un iaith ar y llall yn fwy tebygol o ddigwydd mewn siaradwyr dwyieithog dilynol na siaradwyr dwyieithog cydamserol sy'n awgrymu unwaith eto y byddai disgwyl i'r rhai sydd yn caffael yr iaith Gymraeg fel ail iaith arddangos mwy o nodweddion o drosglwyddiad ieithyddol na'r rhai sydd â Chymraeg fel iaith gyntaf neu sydd wedi caffael Cymraeg a Saesneg ar yr un pryd. Yn dilyn y darganfyddiadau hyn mae posib damcaniaethu y bydd plant sy'n caffael Cymraeg fel ail iaith yn ceisio trosglwyddo'r wybodaeth am y system ateb yn Saesneg i'r system ateb fwy cymhleth a geir yn Gymraeg (trafodir hyn ymhellach yn y bennod olaf).

Fodd bynnag nodar Jarvis a Pavlenko (2012) fod ymchwil yn awgrymu fod trosglwyddiad yn fwy tebygol pan mae'r dysgwr iaith yn gallu adnabod patrymau tebyg yn yr ieithoedd sy'n cael eu caffael. Lle mae posib i drosglwyddiad trawsieithyddol fodoli, gall effeithio ar drywydd ac amseriad y dysgu. Yn ôl Jarvis a Pavlenko (2012:11) gall "...effect not only the rate and ultimate success of learners' second language acquisition; it can also affect the route of their acquisition-or the stages and sequences they pass through as they acquire proficiency in the target language". Yn ogystal mae'r awduron yn adnabod pedair ffactor sy'n cael effaith ar sut mae dysgwyr yn newid neu ailstrwythuro cysyniadau hen a newydd er mwyn cyfathrebu'n effeithlon yn yr iaith darged. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Tryloywder ieithyddol (linguistic transparency) – Y gwahaniaeth yn nhryloywder y systemau cyfatebol mewn ieithoedd.
2. Amlygrwydd y Cysyniad (Concept salience) – pa mor aml mae cysyniadau gramadegol/geirfaol penodol yn ymddangos mewn sgysiau a gallu'r dysgwr i fapio'r wybodaeth honno i'w canfyddiad synhwyrol o'r amgylchedd.
3. Cyfraniad i ymarferion cyfathrebol (Participation in Communicative practice) – lle mae'r unigolyn yn derbyn ac yn cael ei amlygu i gysyniadau ieithyddol penodol mewn sgysiau dyddiol.
4. Asiantaeth (Agency) – Y dysgwr fel dysgwr gweithredol sydd â'r gallu i ddewis un ai y strwythurau ieithyddol maent yn eu caffael mewn iaith newydd neu i aros gyda strwythurau'r iaith gyntaf.

Trafodir pwysigrwydd ystyried tryloywder neu diffyg thryloywder y systemau ieithyddol yn ogystal â phwysigrwydd amlygiad ieithyddol digonol yn yr adrannau dilynol. Yn ychwanegol fe bwysleisir yma rôl y dysgwr fel dysgwr gweithredol sydd â'r hawl i dderbyn neu wrthod strwythurau gwahanol. Mae hyn yn gysylltiedig gydag agweddau positif/negatif y dysgwr

tuag at yr iaith a'u cymhelliant i ddysgu'r iaith, (gweler Baker, 1992). Ni thrafodir agwedd ieithyddol mewn manylder yn y gwaith hwn ond mae'n bwysig nodi y gall hyn effeithio ar gaffaeliad neu diffyg caffaeliad iaith i ryw raddau (Kennedy, 2012; Rhys a Thomas, 2013). Yn dilyn y trafodaethau hyn ar gyfnewid iaith ac effeithiad trosglwyddiad iaith rhaid ystyried sut mae datblygiad ieithyddol plant dwyieithog yn wahanol i'r hyn a geir wrth arsylwi plant sy'n caffael un iaith yn unig.

### **3.2.2 Gwahaniaethau rhwng unigolion dwyieithog ag unigiolion gydag un iaith**

Camsyniadau cyffredin erbyn hyn yw fod unigolion dwyieithog gyda'r un gallu yn union yn y ddwy iaith (Grosjean a Li, 2013) ac ei bod hi'n bosib cymharu unigolion dwyieithog i alluoedd unigolion gydag un iaith yn unig. Yn ôl ymchwilwyr, "Bilingual acquisition can and needs to be studied in its own right" (de Houwer, 2009:328). Felly, er yr arddangosir trefn datblygiadol eithaf tebyg wrth edrych ar gaffaeliad iaith unigolion dwyieithog a'r rheini sy'n caffael un iaith yn unig nid yw amseriad datblygiadau o reidrwydd yn union yr un fath (gweler de Houwer, 2009; Grosjean 2010; Yip, 2013 am drafodaethau cyfredol o'r maes). Trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn yr adrannau dilynol.

Noda Gathercole a Thomas (2005) fod yna dair ffactor penodol a all effeithio ar berfformiad ieithyddol plant dwyieithog. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys amllder yr amlygiad a geir i'r iaith yn y cartref, amllder yr amlygiad a geir i'r iaith yn yr ysgol, a statws economaidd – gymdeithasol (Socio-Economic Status, SES) (gweler hefyd Oller a Eilers, 2002; Gathercole, 2002a/2002b; Hoff a Elledge, 2005; Gathercole, Thomas a Laporte, 2001). Mae diffyg amlygiad ieithyddol yn fater pwysig ym maes dwyieithrwydd gan mai ond canran o'u mewnbyn ieithyddol mae unigolion dwyieithog yn derbyn yn eu hieithoedd unigol (o'i

gymharu ag unigolyn gydag un iaith sy'n derbyn 100% o'i mewnbwn mewn un iaith (Yip, 2013)). Adlewyrchir hyn mewn astudiaethau sydd wedi edrych ar gaffaeliad geirfa plant dwyieithog lle dangoswyd eu bod yn cynhyrchu llai o eiriau na phlant uniaith wrth edrych ar eu geirfa yn eu hieithoedd ar-wahân (Ben-Zeev, 1977; Umbel, Pearson, Fernandez, & Oller 1992). Awgryma Oller (2005) fod posib esbonio'r diffyg geirfa ymysg siaradwyr dwyieithog i raddau yn ôl 'nodwedd dosrannol (*'distributed characteristic'*) y siaradwr dwyieithog, sef y ffaith fod adnabyddiaeth plant dwyieithog o eirfa wedi ei ddosrannu ar draws dwy iaith. O ganlyniad, mae siaradwyr dwyieithog wedi caffael rhai geiriau mewn un iaith ond nid o reidrwydd wedi caffael eu cyfieithiadau cyffelyb (*"translation equivalent"*) yn yr iaith arall. Ar y cyfan, fodd bynnag, wrth gyfrifo'r ddwy iaith mae'r unigolyn dwyieithog wedi caffael nifer fwy o eiriau yn y ddwy iaith na phlentyn sydd yn caffael geirfa mewn un iaith yn unig (Oller, 2005). Mae hyn, unwaith eto, yn dangos bod angen bod yn ofalus wrth gymharu perfformiad unigolion dwyieithog gydag unigolion sy'n siarad un iaith yn unig (gweler Grosjean, 2007 am bethau i'w ystyried wrth gynnal ymchwil gyda unigolion dwyieithog). Yn ogystal noda Hoff, Core, Place, Rumiche, Señor a Parra (2012: 24) "...it is perfectly normal for bilingually developing children to lag behind monolingual children in the rate at which they acquire each of their languages". Fodd bynnag oherwydd nad oes unigolion sy'n siarad Cymraeg yn unig yn bodoli heddiw (heblaw efallai am fabanod ifanc iawn) mae'r unigolion yn yr ymchwil hwn i gyd yn ddwyieithog (er fod eu gallu yn y ddwy iaith yn amrywio). Yn yr adran nesaf trafodir peth o'r ymchwil sydd wedi edrych ar bwysigrwydd y mewnbwn ieithyddol ac amlygiad digonol i iaith/ieithoedd a geir wrth gaffael dwy iaith.

### 3.2.3 Effaith amlygiad a mewnbwn ieithyddol

Ystyrir mewnbwn ieithyddol yn hollbwysig wrth gaffael iaith/ieithoedd: "...input affects the order of acquisition... in that children cannot acquire what they do not hear in the input" (Gathercole a Hoff, 2007:114). Mae ffurfiau strwythurol penodol felly, yn cael eu caffael gan, ac yn ddibynnol ar, y mewnbwn a geir (Goldberg a Casenhiser, 2009:197). Yn ogystal, os yw'r plentyn yn clywed ffurf benodol yn aml mae'n fwy tebygol o'i gaffael ynghynt (e.e. Naigles a Hoff-Ginsberg, 1998; Theakston, 2004). Pwysleisia eraill bwysigrwydd cysondeb y mewnbwn ieithyddol a geir dros gyfnod o amser (Ambridge, Theakston, Lieven a Tomasello, 2006). Fodd bynnag gan fod y plentyn dwyieithog ond yn derbyn oddeutu hanner y mewnbwn mewn un iaith benodol (o'i gymharu ag unigolion gydag un iaith yn unig) mae diffyg mewnbwn ieithyddol digonol yn gallu effeithio ar gaffaeliad strwythurau ieithyddol, yn enwedig pan geir strwythurau cymhleth (e.e. Gathercole, 2002a/2002b; Paradis, Nicoladis a Crago, 2007; Schelletter, 2007). Atgyfnerthir hyn gan ymchwil sy'n arddangos sut mae amrywiaeth yn y mewnbwn ieithyddol yn cyd-fynd gyda'r amrywiaeth a geir yn y defnydd o eiriau a berfau ymysg plant ifanc (Naigles a Hoff Ginsberg, 1998; Tardiff, Shatz a Naigles, 1997).

### 3.2.4 Ffactorau pwysig mewn amlygiad iaith

#### 3.2.4.1 *Iaith y cartref*

Mae rhai ymchwilwyr wedi canolbwyntio ar rôl y rhieni mewn amlygiad iaith ac sut mae'r iaith a siaradir yn y cartref yn gallu effeithio ar gaffaeliad plant ifanc dwyieithog o strwythurau penodol yn eu hieithoedd (e.e., Gathercole, 2002a/2002b; Oller a Eilers, 2002; Rodina a Westergaard, 2013). Pwysleisir bwysigrwydd yr amgylchedd teuluol gan Williams a

Morris (2000), sy'n nodi fod teuluoedd yn gyfrifol am gyfeirio gweithgareddau plentyndod a all effeithio'r defnydd a'r math o fewnbwn ieithyddol a brofir gan y plentyn. Ychwanega astudiaeth gan Place a Hoff (2011) fod gwahaniaethau i'w gweld yn natblygiad plant dwyieithog wrth gysidro'r math o fewnbwn ieithyddol a geir gan deuluoedd h.y. ydy'r rhieni yn siaradwyr brodorol o'r iaith ai peidio.

Awgryma rhai o'r astudiaethau ar blant dwyieithog Sbaeneg/Saesneg (Gathercole , 2002a/2002b; Oller a Eilers, 2002) fod amlygiad digonol i'r ieithoedd a gaffaelir yn hollbwysig er mwyn sicrhau perfformiad da ar brofion ieithyddol. Yn yr astudiaethau hyn roedd plant oedd yn derbyn Sbaeneg yn unig yn y cartref yn perfformio'n well ar brofion Sbaeneg i'w cymharu â phlant dwyieithog eraill ac yn yr un modd, roedd plant oedd yn derbyn Saesneg yn unig yn y cartref yn sgorio'n well nac eraill ar y profion Saesneg. Yn ogystal darganfu Gathercole (2002a a 2002b) fod iaith yr ysgol yn gallu effeithio ar gaffaeliad plant ifanc o'r strwythur cenedl enwi yn Sbaeneg. Awgryma'r astudiaeth fod plant 7 mlwydd oed, oedd yn derbyn addysg Sbaeneg yn unig, yn perfformio'n well na'r rhai oedd yn mynychu ysgolion oedd yn cynnig addysg drochi a dwyieithog ar brofion o genedl enwi yn Sbaeneg. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau hyn yn lleihau gydag oed, gydag unigolion dwyieithog yn perfformio'n debyg i'r hyn a welir gan unigolion uniaith erbyn iddynt gyrraedd 10 mlwydd oed. Ychwanega Hoff ac Elledge (2005) fod sgorau plant ifanc dwyieithog Sbaeneg/Saesneg ar brofion gramadeg a geirfa mewn iaith benodol yn gysylltiedig gyda'u hamlygiad neu ganran o fewnbwn a gafwyd yn yr iaith arall hefyd h.y. y mwyaf oedd y mewnbwn ieithyddol mewn un iaith (Sbaeneg) y gwanaf oedd y sgôr ar y profion yn yr iaith arall (Saesneg).

Atgyfnerthir y canfyddiadau hyn gan astudiaeth ddiweddar gan Rodina a Westergaard (2013) oedd yn edrych ar gaffaeliad plant dwyieithog Norwyeg/Rwsieg o

genedl enwi yn eu hieithoedd gwahanol. Darganfuwyd fod mewnbwn digonol gan rieni (yn enwedig yn yr iaith leiafrifol) yn cael effaith ar gaffaeliad o genedl enwi ac felly, os oedd rhieni plant dwyieithog yn siarad â hwy yn yr iaith leiafrifol (Rwsieg) roedd eu perfformiad ar genedl-enwi yn Rwsieg yn debyg i blant oedd yn siarad Rwsieg yn unig. Ni welwyd gwahaniaethau rhwng plant dwyieithog oedd yn derbyn mewnbwn gan un rhiant neu'r ddau riant yn Rwsieg ar y system Norwyeg, ac ni chafwyd perfformiad da iawn gan y plant oedd yn siarad Norwyeg yn unig ychwaith (er y gweler patrwm gwahanol yn y math o orgyffredinoliadau a wnaed). Fodd bynnag rhaid nodi fod y plant yn y grwpiau ieithyddol yn cynnwys nifer fechan o gyfranwyr gydag amrediad eang o oed (i geisio rheoli ar gyfer y canran o fewnbwn ieithyddol a geir roedd oed y plant gydag un iaith yn unig yn llawer is ar gyfartaledd), ac felly efallai nad yw hyn yn gymhariaeth deg o alluoedd yr unigolion (yn enwedig y plant ifanc iawn yn y grŵp sydd yn caffael Norwyeg yn unig). Rhaid hefyd ystyried y gwahaniaethau a geir yn y systemau cenedl enwi yn yr ieithoedd gwahanol gan fod Rwsieg yn dilyn rheolau morffo-ffonolegol eithaf tryloyw tra fod Norwyeg yn system llawer mwy cymhleth lle mae'r broses o genedl enwi i'w weld yn fympwyol gan mae ond nifer fechan o giwiau dibynadwy a geir (gweler papurau Rodina a Westergaard, 2012; Rodina a Westergaard, 2013 am fanylion pellach). Coda hyn y cwestiwn o bwysigrwydd amlygiad ieithyddol mewn perthynas a thryloywder neu afloywder y system dan sylw. Felly wrth gysidro caffaeliad plant ifanc o strwythurau penodol efallai bod angen ystyried a oes perthynas glir i'w canfod rhwng y mewnbwn ieithyddol a geir a thryloywder neu diffyg tryloywder y system o dan sylw.

### ***3.2.4.2 Amlygiad ieithyddol a thryloywder y system***

Mae llawer o ymchwilyr wedi nodi fod cynhyrchu ffurfiau morffolegol mewn ieithoedd sy'n gyfoethog mewn ffurfiau anghyffredin yn anodd iawn i blant dwyieithog yn

ystod caffaeliad iaith/ieithoedd (e.e. Gathercole 2002a/2002b; Paradis, Nicoladis a Crago, 2007) ac fod angen beth a elwir yn ‘*màs critigol*’ (‘critical mass’) o amlygiad i’r strwythur penodol o dan sylw er mwyn galluogi’r unigolyn i ddefnyddio’r strwythur hwnnw’n effeithiol (Conti-Ramsden a Jones, 1997; Gathercole a Hoff, 2007). Er enghraifft, efallai nad yw clywed y ffurf *y gath* 10 gwaith yn ddigon i ddysgu’r rheol sy’n nodi fod angen treiglo’n fenywaidd ar ôl y fannod (neu ym meddwl y plentyn bod y defnydd o *y* yn newid *cath* i *gath*) ond os clywir *y gath* 80 o weithiau ella bod hyn yn ddigon. Ar y llaw arall os clywir cymysgedd e.e. *y gath*, *y cath*, *the cat* efallai fod angen clywed y ffurf 200 o weithiau er mwyn cyfrifo canran digon uchel o un neu’r llall er mwyn gwneud penderfyniad a gwneud defnydd cywir o’r ffurfiau. Yn ôl rhai o’r ymchwilyr uchod mae system tryloyw megis cenedl enwi yn Sbaeneg<sup>5</sup> angen *màs critigol* llai (Cain, Weber-Olsen a Smith, 1987) o’i gymharu a strwythurau afloyw megis cenedl-enwi yn Gymraeg, (Gathercole, Thomas a Laporte, 2001; Gathercole a Thomas 2005; Thomas a Gathercole, 2007). Yn ogystal nodir bod amlygiad uchel i strwythur penodol yn cynorthwyo’r plentyn i’w gaffael ynghynt: “More input means more rapid development”(Gathercole a Hoff, 2007: 117). Awgryma Gathercole a Hoff (2007) fod diffyg amlygiad digonol ac felly anallu’r unigolyn i gyrraedd y lefel angenrheidiol o *fàs critigol* yn gallu achosi caffaeliad anghyflawn neu hyd yn oed dim caffaeliad o gwbl mewn rhai achosion (gweler Montrul, 2008 am drafodaeth pellach). Darganfu ymchwil yng Nghanada gan Paradis, Nicoladis a Crago (2007) fod plant ifanc dwyieithog cyfnod cyn-ysgol Ffrangeg/Saesneg neu Saesneg/Ffrangeg (yn ddibynnol ar eu cryfder yn yr ieithoedd) a phlant oedd yn caffael Ffrangeg yn unig i’w gweld yn perfformio’n well ar ferfau tryloyw na berfau afloyw yn Ffrangeg. Yn ogystal, roedd plant uniaith Ffrangeg yn gwneud yn llawer

---

<sup>5</sup> Yn gyffredinol, mae dros 90% o enwau sy’n gorffen efo –a yn fenywaidd yn Sbaeneg a’r rhai sy’n gorffen hefo –o yn wrywaidd gweler Teschner & Russell, 1984 am fwy o fanylion.



gwell na phlant dwyieithog ar brofion ieithyddol cyn-ysgol a geir (yn enwedig wrth gymharu'r ffurfiau afloyw) ac felly, mewn peryg o syrthio i'r categori o anhawster ieithyddol yn ddiangen. Yn dilyn hyn cyniga'r ymchwilyr fod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio profion ieithyddol gyda phlant ifanc dwyieithog gan nad ydynt wedi gallu caffael y mas critigol o eiriau angenrheidiol ar gyfer y ffurfiau afloyw mor gynnar yn eu datblygiad (hyn oherwydd iddynt dderbyn mewnbwn ieithyddol yn ddwy iaith) i'w cymharu a unigolion uniaith. Mae'r syniad yma o'r angen i blant gyfrifo mas critigol digonol o strwythurau penodol yn eu hiaith/hieithoedd ynghlwm ac amllder y mewnbwn ieithyddol a geir ac fe drafodir hyn isod.

### **3.2.4.3 Amllder y Mewnbwn**

Cysyllta'r ymchwil ar ffurfiau tryloyw ac afloyw gyda amllder y strwythur a gaffaelir yn y mewnbwn ieithyddol, lle mae strwythur sy'n ymddangos yn aml yn y mewnbwn yn fwy tebygol o gael ei gaffael ynghynt (Naigles a Hoff-Ginsberg, 1998; Theakston, 2004; Schelletter, 2007, fel a gofnodwyd yn Schwartz, Kozminsky a Leikin, 2009) . Cynhaliwyd ymchwil gan Schwartz, Kozminsky a Leikin (2009) ar gaffaeliad unigolion dwyieithog Rwsieg/Hebraeg o ffurfiau lluosog yn Hebraeg. Mae enwau Hebraeg yn cynnwys dwy nodwedd benodol lle ceir y gwraidd cytseiniol a phatrwm geiriol: ffurfir geiriau drwy ychwanegu gwraidd i batrwm geiriol. Yn ogystal gwneir defnydd o ôl-ddodiaid i farcio ffurfiau lluosog, nifer a chenedl ac o fewn hyn ceir ffurfiau cyffredin ac anghyffredin. Awgryma'r canlyniadau fod caffael strwythurau anghyffredin yn gallu bod yn sialens i unigolion dwyieithog Rwsieg/Hebraeg i'w cymharu ag unigolion oedd yn caffael Hebraeg yn unig, oherwydd diffyg amllder y strwythurau hynny yn y mewnbwn ieithyddol. Ategir hyn gan ymchwil Schelletter (2007) oedd am ddarganfod a oedd cysylltiad rhwng gaffaeliad plant

dwyeithog Saesneg/Almaeneg ac plant oedd yn caffael un iaith yn unig gyda morffoleg anghyffredin a'r nifer/maint o batrymau amlwg a geir yn y ddwy iaith. Noda'r canlyniadau fod plant dwyeithog yn gwneud mwy o gamgymeriadau na'r plant oedd yn caffael un iaith yn unig er fod y ddau grŵp yn arddangos lefelau uchel o orgyffredinoliadau wrth gynhyrchu berfau afreolaidd yn Saesneg. Yn ogystal roedd y plant i gyd yn arddangos gallu uchel (dros 90%) ar enwau morffolegol rheolaidd. Felly, er fod y niferoedd yn yr astudiaeth hon yn isel iawn ac yn cynnwys ieithoedd oedd gyda strwythur ieithyddol tebyg (Almaeneg a Saesneg) mae'r ymchwil yn cyd-fynd gyda'r darganfyddiadau'r ymchwil dilynol (Schwartz, Kozminsky a Leikin, 2009) oedd yn edrych ar ieithoedd teipolegol wahanol (Hebraeg/Rwsieg) lle mae unigolion dwyeithog yn arddangos mwy o anawsterau wrth gaffael strwythurau cymhleth. Cyniga Schwartz, Kozminsky a Leikin (2009) fod angen cysidro awyrgylch dwyeithog a chefnidir addysgol yr unigolyn dwyeithog ac ychwanega Bybee (2009) fod angen i'r amlygiad a gaiff y plentyn dwyeithog i'r ail iaith yn yr ystafell ddosbarth adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd naturiol/cyffredin er mwyn sicrhau fod amllder y mewnbwn a dderbynnir yn aros yn gyson ac yn angori strwythurau morffolegol cyffredin.

Cynhaliwyd astudiaeth hir dymor gan Golberg, Paradis, a Crago (2008) ar 19 o blant oedd oddeutu 5 mlwydd oed ar ddechrau'r ymchwil, oedd yn caffael o amryw o ieithoedd gwahanol fel iaith gyntaf ac yn caffael Saesneg fel ail iaith yng Nghanada. Cafodd y plant eu harsylwi am gyfnod o 2 flynedd a'u profi bob chwe mis ar eu geirfa a'u gallu sgysiol yn Saesneg. Edrychwyd yn benodol ar ddefnydd y plant o ferfau llenwi bwlch (GAP verbs), term sy'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at y tueddiad i ddefnyddio un ferf a ddefnyddir yn aml i ddisgrifio gweithred yn hytrach na berf mwy penodol. Er enghraifft, yn yr astudiaeth hon edrychwyd ar y defnydd (neu ôr-ddefnydd yn benodol) o'r ferf *gwneud*; *He do ribbit, ribbit* yn lle *he said ribbit, ribbit*. Mae'n bosib bod modd cymharu'r tueddiad yma i'r defnydd a

wneir o'r system ateb yn y Gymraeg, sydd ei hun wedi ei seilio ar ferfau meidrol. Yn y system ateb yn y Gymraeg gwneir defnydd amlwg o ffurfiau berfol amrywiol gyda defnydd cyffredin o ffurfiau fel *bod* a *gwneud*, ond i ba raddau mae unigolion yn gwneud defnydd o ferf mwy cyffredin e.e. ffurfiau amhendant *bod* – *Oes* wrth ymateb yn lle'r ffurf berfol cywir sydd efallai yn fwy anghyffredin e.e. ffurfiau gorffennol *bod* – *oeddet*, *oeddynt*, *oeddech* ayyb. Mae'r berfau llenwi bwlch yma, berfau gyda amlder uchel (high frequency verbs), yn cyfeirio tuag at y berfau a ddefnyddir amlaf o fewn iaith gan siaradwyr yr iaith honno, "*It is reasonable to assume that L2 children would have a greater proportion of their productive vocabularies comprising high-frequency verbs than same-aged native speakers because their more frequent appearance in the input would facilitate their acquisition*" Golberg, Paradis, a Crago, (2008: 43). Yn nghyd-destun y system ateb Cymraeg, mae'n bosib rhagdybio felly y bydd plant sydd a Chymraeg fel ail iaith yn defnyddio mwy o eiriau gyda amlder uchel ar y dechrau fel y rhai ffurfiau o'r ferf *bod* (trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn y bennod olaf).

Erbyn diwedd y cyfnod profi darganfu Golberg, Paradis, a Crago (2008) fod llawer o'r plant wedi cyrraedd lefel disgwylidig yn ôl y normau uniaith a geir yng Nghanada ar gyfer datblygiad geirfa ac roedd yr angen i ddefnyddio berfau i lenwi bwlch hefyd wedi gostwng. Darganfuwyd hefyd fod gwahaniaethau o fewn unigolion gyda'r gallu i ragfynegi perfformiad unigolion ar brofion geirfa, gyda plant gydag oed caffael iaith hŷn a phlant gyda mam oedd â lefel addysgol uwch yn gwneud yn well ar y profion na phlant oedd ag oed caffael oed iau a mam gyda lefel addysgol is. Awgryma'r astudiaeth hon hefyd fod y plant oedd yn caffael Saesneg fel ail iaith yn caffael geirfa Saesneg yn gyflym oherwydd mai Saesneg oedd yr iaith fwyafrifol ac y diffyg defnydd ac amlygiad i'r iaith leiafrifol (eu hiaith cyntaf) yn yr ardal, ac felly roedd yn hollol angenrheidiol iddynt gaffael Saesneg yn gyflym ac effeithiol. Mae'r sylwadau hyn yn bwysig i'r astudiaeth bresennol wrth gysidro'r angen ar cymhelliad i gaffael

Cymraeg a strwythurau gwahanol o fewn yr iaith gan y bydd yn ddibynnol i raddau ar yr ardal, agwedd a defnydd o'r Gymraeg a wneir yn yr ysgol, cartref a'r gymuned yn gyffredinol (Baker, 1992). Ni ddarganfuwyd unrhyw berthynas rhwng y defnydd o Saesneg yn y cartref a datblygiad yr iaith Saesneg, ac felly mae hyn y awgrymu nad yw safon y Saesneg yn y cartref (pan gaiff ei ddefnyddio) yn tarfu ar ddatblygiad y plant o'r Saesneg, sy'n dyst pellach fod y mas critigol ar gael ar gyfer Saesneg yn y gymuned, yn llawer mwy nag ar gyfer yr iaith leiafrifol dan sylw. Fodd bynnag roedd gwahaniaethau i'w cael yn ôl statws economaidd-gymdeithasol y plant ac fe drafodir hyn yn fyr isod.

### **3.2.4.4 Statws Economaidd Gymdeithasol (SEG)**

Fel yn yr astudiaeth gan Goldberg, Paradis a Crago (2007) nodir nifer o astudiaethau (e.e. Hoff ac Elledge, 2005; Thomas a Gathercole, 2005) bod angen ystyried statws economaidd gymdeithasol (Socio-economic status, SES) yr unigolion dwyieithog a bod tueddiad i unigolion dwyieithog o gefndir SEG uchel berfformio'n well mewn profion geirfa i'w cymharu â phlant o gefndir SEG isel. Edrycha astudiaeth Hoff ac Elledge (2005) ar allu gramadegol a geirfaol plant dwyieithog (1;4 – 2;6 mlwydd oed) cafodd eu hamlygu i ddwy iaith (Saesneg/Sbaeneg yn bennaf) yn y cartref a'u cymharu â 63 o blant Saesneg gydag un iaith yn unig. Darganfuwyd fod perthynas rhwng lefel addysg/gweithiol y Fam a'r perfformiad ar y profion, gyda'r mamau oedd â chefnidir addysgol o lefel uwch neu mewn swydd eithaf llewyrchus yn cael effaith positif ar ddatblygiad gramadegol a geirfaol eu plant dwyieithog yn Saesneg. Mae'r canlyniadau hyn felly yn awgrymu ei fod yn bwysig ystyried a rheoli ar gyfer statws economaidd gymdeithasol wrth edrych ar gaffaeliad iaith mewn plant dwyieithog (gweler hefyd Grosjean, 2009). Er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethau a geir yn yr ymchwil presennol yn gallu cael eu hesbonio gan wahaniaethau yn ôl statws

economaidd gymdeithasol fe sicrhawyd fod cwestiynau penodol am statws economaidd gymdeithasol yn cael eu cynnwys yn yr holiadur a roddwyd i'r rhieni (gweler atodiadau 3a a 3b).

### **3.2.4.5 Ymchwil ar amlygiad a'r iaith Gymraeg**

Ceir felly amryw o astudiaethau yn edrych ar ddatblygiad dwyieithog mewn ieithoedd gwahanol ac mae ychydig hefyd wedi eu wneud yn benodol ar gaffaeliad plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg o strwythurau penodol yn yr iaith Gymraeg (gweler Thomas a Mayr, 2010 am drosolwg). Yn ogystal mae llawer o'r ymchwil ar siaradwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn canolbwyntio ar bwysigrwydd iaith y cartref wrth gaffael strwythurau penodol ac sut y gall amlygiad uchel i'r iaith Gymraeg yn y cartref wella ymatebion y plant wrth ddefnyddio rhai strwythurau Cymraeg e.e. defnydd o genedl enwi a threigladau. Mae ymchwil gan Gathercole, Thomas a Laporte (2001) yn atgyfnerthu'r syniad fod iaith y cartref yn bwysig. Yn yr ymchwil hwn darganfuwyd fod cydberthyniad uchel rhwng lefel yr amlygiad derbyniodd y plant i'r iaith Gymraeg a'u perfformiad ar brofion ieithyddol Cymraeg: Po fwyaf oedd yr amlygiad, y gorau oedd eu sgôr ar y profion.

Yn ogystal darganfu ymchwil pellach (Thomas a Gathercole, 2005; Gathercole a Thomas, 2009) fod iaith y gymuned yn hollbwysig (h.y. faint o Gymraeg/Saesneg a ddefnyddir yn y gymuned) gan fod hyn â'r gallu i effeithio ar allu plant i gaffael strwythurau ieithyddol penodol (yn benodol yn yr iaith Gymraeg -yr iaith lleiafrifol) ac bod, unwaith eto, amlygiad digonol i'r iaith Gymraeg yn hanfodol. Trafodir yma hefyd y gwahaniaethau a geir yn y mewnbwn ieithyddol wrth drafod ieithoedd mwyafrifol (Saesneg) a lleiafrifol (Cymraeg) mewn mwy o fanylder. Yr iaith Gymraeg yw iaith y lleiafrif ers degawdau bellach, gyda chwymp graddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers y cyfrifiad cyntaf i nodi gallu ieithyddol

Cymraeg yn 1891 (tudalennau archif Bwrdd yr Iaith Gymraeg<sup>6</sup>). Mae pwysau'r iaith fwyafrifol ar siaradwyr Cymraeg yn un cyson a chryf, nid yn unig oherwydd mai dyma yw iaith y mwyafrif yn y gymuned erbyn hyn, ond fel yr iaith mwyaf cyffredin a glywir ym myd y cyfryngau a hyd yn oed gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, darganfu ymchwil Gathercole a Thomas (2005) fod caffaeliad strwythurau cymhleth yn yr iaith Gymraeg yn ddibynnol iawn ar amlygiad i'r iaith Gymraeg yn y cartref ac iaith addysgu yn ogystal. Ategir hyn gan de Houwer (2007) sy'n nodi fod caffael iaith fwyafrifol, fel arfer, yn hawdd, ond mewn sefyllfa lle ceir iaith leiafrifol, ei fod yn hollbwysig i'r plentyn dderbyn mewnbwn ieithyddol yn yr iaith leiafrifol gan y ddau riant os yn bosib. Mae hyn yn cyd-fynd gyda chanlyniadau ymchwil Gathercole a Thomas (2005) wrth edrych ar sgorau plant ifanc ar strwythurau cenedl enwi yn Gymraeg. Cysidrir y system o genedl-enwi yn Gymraeg yn un cymhleth ac afloyw (Thomas a Gathercole, 2007) lle mae rhai enwau unigol benywaidd a gwrywaidd yn arddangos treigladau morffo-ffonolegol e.e. ffurfiau meddiannol gwrywaidd '*ei gi*' neu ffurfiau meddiannol benywaidd '*ei chi*'. Darganfu Gathercole a Thomas (2005) fod perfformiad plant ar strwythurau meddiannol, lle na cheir newidiadau treiglo, bron a bod yn berffaith. Fodd bynnag, ar y strwythurau hynny lle roedd rhaid treiglo darganfuwyd fod y plant o gartrefi Cymraeg yn unig (2 riant yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn) yn gwneud yn well na'r plant hynny oedd yn derbyn un ai Cymraeg a Saesneg neu Saesneg yn unig yn y cartref.

Yn dilyn y darganfyddiadau uchod, mae posib rhagdybio y bydd amllder yr amlygiad yn y cartref/ysgol/gymuned yn cael effaith ar gaffaeliad plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg o'r system ateb yn y Gymraeg yn ogystal. Ond cyn ceisio mynd i'r afael â'r arsylwad hyn rhaid

---

<sup>6</sup> Mae Bwrdd yr Iaith bellach wedi'w ddiymu gyda chyfridoldeb am y Gymraeg yn cael ei drosglwyddo i Gomisynnydd y Gymraeg. Fodd bynnag mae'r gwybodaeth gyfoethog sydd oedd ar gael ar wefan bwrdd yr iaith wedi ei archifo ac ar gael o'r cyfeiriad canlynol:  
(<http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20081121145022/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/yriaithgymraeg/Pages/HanesyGymraeg.aspx>).

ceisio mynd i'r afael â'r ymchwil sy'n cyfeirio at y strategaethau gwahanol mae plant yn eu defnyddio wrth gaffael strwythurau cymhleth yn eu hiaith/hieithoedd penodol. Un ffactor sydd wedi cael llawer o sylw yn y maes ydy defnydd plant o giwiau a geir yn y mewnbwn i gynorthwyo gyda datblygiad iaith (e.e. Mintz, 2003; Shady a Gerken, 1999; St Clair, Monaghan a Christiansen, 2010). Felly, beth ydy 'ciw' ac lle yn y mewnbwn ieithyddol mae'r ciwiau hyn yn ymddangos?

### 3.3 Ciwiau

“In order to begin to learn a language young children must be able to locate and distinguish linguistic units in the speech they hear. A number of cues in the speech stream may aid them in this task. Some cues, such as frequently occurring grammatical morphemes and prosodic changes at linguistic boundaries are inherent in the language. Other cues such as short utterance length and placement of key words in utterance final position are not integral to the grammar of the language but are characteristically provided by caregivers... previous studies suggest that even infants are sensitive to many of these cues...”

(Shady a Gerken, 1999: 163).

Noda Ellis a Robinson (2009) fod patrymau i'w canfod hyd yn oed mewn strwythurau ieithyddol cymhleth. Deillia hyn o'r ddadl gwybyddol (disgrifir y ddamcaniaeth hon mewn manylder yn yr adran nesaf) lle disgrifir unedau mwyaf sylfaenol sy'n cynrychioli iaith yn gyfres o luniadau neu strwythurau ffurfiau gweithredol (form-function mappings) sydd yn cael eu caffael gan y mewnbwn ieithyddol a geir (gweler ail ran y bennod hon am ddisgrifiad manwl). Yn ôl y ddadl hon, mae plant angen dysgu'r lluniadau hyn er mwyn deall a

chynhyrchu iaith: "...language consists of a network of learned, interrelated form-function correspondences"(Goldberg a Casenhiser, 2009: 197). Mae hyn yn gysylltiedig â phapur Saffran & Thiessen (2007) ar ddefnydd unigolion o strwythurau dysgu ystadegol lle mae unigolion yn sensitif i giwiau dosrannol neu ddigwyddiadau /nodweddion cyffredin yn yr amgylchedd h.y. y gallu i adnabod patrymau ar gyfer nodweddion penodol ac i gofnodi eu defnydd cydamserol gyda nodweddion eraill. Noda Saffran & Thiessen (2007) fod posib i alluoedd dysgu parth penodol gynnwys nodweddion cynhenid a datblygiadol sydd yn cynorthwyo plant gyda sgiliau penodol e.e. (yng nghyd destun ieithyddol) y gallu i gynorthwyo plant i adnabod categorïau cystrawennol (Naigles & Hoff-Ginsberg, 1995) neu gynorthwyo plant ac oedolion i adnabod ffiniau rhwng geiriau (Saffran, Aslin & Newport, 1996). Felly yn ôl y syniad hwn mae plant yn meddu ar alluoedd dysgu cyffredinol sydd yn eu cynorthwyo i adnabod ciwiau dosrannol (nodweddion penodol) yn y mewnbwn ieithyddol a geir. Ond beth yw'r ciwiau hyn ac sut mae plant yn gwneud defnydd ohonynt wrth gaffael iaith?

Awgryma St Clair, Monaghan a Christiansen (2010) mai un o'r elfennau mwyaf defnyddiol yn yr amgylchedd yw beth a elwir yn 'ffrâm hyblyg' (*flexible frame*). Yn ôl yr ymchwilwyr hyn mae'r ffrâm hyblyg hwn yn amgylchynu'r gair ac yn galluogi'r dysgwr iaith i ddefnyddio gwybodaeth o'r gair blaenorol NEU o'r gair dilynol i gynorthwyo gyda chategoreiddio gramadegol. Er enghraifft y gair *Ci* yn y ffurf 'BANNOD ENW ANSODDAIR' yn Gymraeg, lle gellid defnyddio'r fannod **y ci** neu'r ansoddair *ci* **coch** i gynorthwyo'r plentyn i adnabod *ci* fel ENW. Deillia hyn o syniad Mintz (2003) o 'ffrâm gyson' (*frequent-frame*) lle mae'n rhaid gwneud defnydd o'r gair blaenorol a'r gair dilynol ar gyfer categoreiddio gramadegol e.e. **y ci coch**. Fodd bynnag, er fod hyn yn ddefnyddiol wrth gaffael categorïau gramadegol, nid yw'n glir i ba raddau mae'r strategaethau hyn yn berthnasol i gaffaeliad



plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg lle gellid cynhyrchu un gair yn unig wrth ymateb ac lle nad oes ciwiau cyfagos (naill ochr a'r llall) i'w cael bob amser. Oes yna felly giwiau/patrymau penodol i'w cael yn y cwestiwn all gynorthwyo plant wrth ddewis ymateb cywir? Ar achosion lle mae angen i blentyn adleisio'r ferf mae'n rhaid i'r plentyn reoli ar gyfer person, amser ac nifer e.e. mi fysai cwestiwn sy'n dechrau gydag *Wyt* (Berf bod person cyntaf, presennol, unigol) fel arfer yn gofyn am un o'r ymatebion canlynol *Ydw/(Nac) Ydw* /*(NEG)* (Berf 'bod' ail berson, presennol, unigol) (weithiau gellid ateb gyda'r ffurf amhendant *oes*). Beth felly sydd ar gael yn y cwestiwn i gynorthwyo gyda'r dewis o ymateb? Mae'r ferf *Wyt* bron bob amser yn ymddangos gyda'r rhagenw *ti* (Ail berson, unigol) mewn cwestiwn ac felly gellid gwneud defnydd o'r strategaethau ffrâm hyblyg i ragfynegi mai ffurf unigol sydd ei angen wrth ymateb e.e. *Wyt ti...?*. Fodd bynnag nid oes ciwiau amlwg ar gael ar gyfer nodi'r newid sydd ei angen yn ffurf y person a dim ciw ychwanegol o gwbl i gynorthwyo gydag amser y ferf. Nid yw'n debygol iawn felly fod plant sy'n caffael y system hon yn gwneud defnydd o'r strategaethau uchod wrth gaffael yr agweddau hyn o'r system ateb yn y Gymraeg ond mae strategaethau eraill hefyd i'w hystyried.

Noda rhai ymchwilwyr (e.e., Abbot-Smith a Tomasello, 2010; Ambridge, Pine, Rowland a Young, 2008; Theakston, 2004) fod y gallu i gynhyrchu brawddegau newydd yn profi fod y plentyn wedi gallu cyffredinoli rhai o'r strwythurau gramadegol a geir yn y mewnbwn: "...the more often a particular verb is heard in a particular grammatical construction, the more the grammatical system is predisposed to consider that construction to be the 'correct' one for that item" (Abbot-Smith a Tomasello, 2010: 80). Ychwanega Lieven a Tomasello (2009) fod plant â'r gallu i gyffredinoli a chynhyrchu strwythurau mwy cymhleth dros amser - "Children construct more abstract linguistic constructions only gradually on the basis of linguistic experience" (Ellis a Robinson, 2009: 12). Yn ogystal mae

ymchwil wedi awgrymu fod y ffordd mae ffurfiau penodol yn ymddangos yn y mewnbwn yn gallu cynorthwyo gyda caffaeliad o'r strwythurau hynny e.e. caffael enwau (Tardif, Shatz a Naigles, 1997; Tardiff, Gelman a Xu, 1999) a berfau (Naigles a Hoff-Ginsberg, 1998; Theakston, 2004). Atgyfnerthir hyn hefyd gan ymchwil sy'n awgrymu fod plant yn sensitif i giwiau mydryddol e.e. ymchwil gan Jusczyk a Kemler-Nelson (1994) lle awgrymir fod trefnu ynganiadau mewn unedau o gymalau yn cryfhau cof y plentyn ar gyfer y wybodaeth honno. Ychwanega Gerken, Jusczyk a Mandel (1994) fod plant yn sensitif i seibiau lle mae ciwiau mydryddol yn marcio unedau ieithyddol. Gellid ymestyn hyn ymhellach i wybodaeth am forffemau gramadegol sy'n cynnwys y fannod a berfau ategol e.e. *y(r)*ar ddechrau brawddeg enwol: "If children are aware of the distributional properties of particular morphemes, they potentially have a means of determining syntactic categories of words and phrases" (Shady a Gerken, 1994:164). Yn ogystal, mae nifer o ymchwilwyr wedi edrych ar bwysigrwydd safle terfynol ynganiad (utterance final position) (Slobin, 1973), lle mae'r iaith a ddefnyddir yn uniongyrchol gyda phlant (child-directed speech) yn dueddol o roi geiriau allweddol yn y safle terfynol (e.e. Fernald a Mазzie, 1991). Noda Shady a Gerken (1999) bod plant yn gwneud defnydd o ddau fath o giw: ciwiau o fewn iaith (language internal cues) a nodir gan y ramadeg, ar ciwiau a ddarperir gan y gofawyr e.e. y defnydd o iaith plentyn benodol (child directed speech). Ychwanega Shady a Gerken (1999) fod plant yn gwneud defnydd o'r holl giwiau hyn ac nad ydy bodolaeth un ciw yn gostwng rôl neu defnyddioldeb y llall.

Mae rhai o'r strategaethau uchod i'w gweld yn fwy perthnasol i gaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg, yn enwedig wrth gysidro'r defnydd cyson o dagiau (sy'n ymddangos yn y safle terfynol) a wneir mewn datganiadau /cwestiynau yn y Gymraeg e.e.

*Wyt ti'n hoffi coffi, wyt?*<sup>7</sup>. Yn ogystal mae patrwm cwestiynau berfol yn dueddol o ddilyn patrwm cyson gan ddechrau gyda berf e.e. ffurfiau ail berson o'r ferf bod *Wyt ti...?; Oeddet ti...?; Byddi di...?*, a chynhyrchu ymateb sy'n gysylltiedig gyda'r ffurfiau berfol a ddefnyddir yn y cwestiwn e.e. ffurfiau person cyntaf o'r ferf bod *Ydw/Nac Ydw; Oeddwn/Nac Oeddwn; Byddwn(a)/Na Fyddwn(a)*. Felly mae angen i'r plentyn ddod i adnabod y patrwm o ymatebion BERF(AMSER/PERSON/NIFER) er mwyn rhoi'r ymateb cywir a chysylltu'r ymateb gyda'r ferf a geir yn y cwestiwn e.e. ***Wyt...? = Ydw/Nac Ydw***. Fodd bynnag oherwydd bod nifer o ffurfiau o'r ferf i'w caffael er mwyn rheoli ar gyfer amser, person a nifer mae'n rhaid sicrhau fod y plentyn yn clywed a gyda phrofiad digonol o ddefnyddio'r ffurfiau hyn yn ddigon aml i'w galluogi i ddewis yr ymateb addas bob tro. Felly yn ôl yr ymchwil a nodwyd mae'n debygol y bydd y ffurfiau mwyaf cyffredin yn cael eu caffael yn gynharach, oherwydd eu hamlder yn y mewnbwn ieithyddol i'w cymharu â ffurfiau anghyffredin. Yn ogystal, mae'n debyg y bydd ffurfiau lle nad oes angen newid yn ffurf y ferf wrth ymateb e.e. trydydd person unigol bod *Ydy* sy'n cynhyrchu'r ymateb *Ydy*, yn cael eu caffael yn gynharach i'w cymharu â ffurfiau lle mae ffurf y ferf yn newid e.e. ffurf ail berson unigol bod *Wyt* lle mae rhaid ymateb gyda *Ydw/Nac Ydw* fel arfer (ac *Oes* mewn rhai achosion).

Mae'r broses o ddysgu iaith, felly, yn cynnwys y canlynol:

*“Experiences with language shapes the cognitive representations of language users, just as language use leads to the creation of grammar: high frequency constructions have stronger mental representations and are easier to access and less susceptible to change; patterns with high type frequency are more productive; repetition of sequences of linguistic units leads to representation at a higher level as a single unit, with fluent language users*

---

<sup>7</sup> Rhaid nodi fod tueddiad yn yr achosion yma i hepgor y ferf ar ddechrau'r frawddeg e.e. '*ti'n hoffi coffi, wyt?*' Gweler Davies (2010) am drafodaeth pellach.

*making use of these prefabricated chunks of language; and extremely high levels of use lead to the development of grammaticized forms and constructions”* (Ellis a Robinson, 2009: 13)

Yn dilyn y drafodaeth uchod, mae'r adran ddilynol yn mynd ati i ystyried sut mae damcaniaethau caffael iaith yn ceisio esbonio caffaeliad o iaith mewn plant ifanc.

## 3.4 Damcaniaethau Datblygiad Iaith

Un o nodweddion pennaf iaith (a'r nodwedd ddynol o gyfathrebu drwy iaith) yw'r gallu i greu a chynhyrchu brawddegau a ffurfiau newydd yn ôl yr angen er mwyn hyrwyddo cyfathrebu effeithlon gydag eraill. Mae posib i siaradwr ynganu brawddeg newydd, nas ddefnyddiwyd ganddo ef neu hi o'r blaen, yn gywir a chlr heb unrhyw brofiad blaenorol o ddefnyddio'r union ffurf honno. Er mwyn i'r broses ddyddiol hon ddigwydd mae'n rhaid i bob unigolyn fod â'r gallu i ddefnyddio gwybodaeth ramadegol am gystrawen a morffoleg yr iaith/ieithoedd a siaredir. Ond sut mae'r plant yn caffael y wybodaeth ramadegol hon a sut mae'r wybodaeth honno'n cael ei strwythuro a'i defnyddio yn yr ymennydd? Trafodir y cwestiynau hyn isod drwy gyflwyno trosolwg o'r prif theorïau sydd ynghlwm â chaffael iaith/ieithoedd cyntaf. Yn ogystal ystyrir goblygiadau'r damcaniaethau hyn ar gyfer caffaeliad plant ifanc o systemau cymhleth megis y system ateb yn y Gymraeg.

### 3.4.1 Y Prif damcaniaethau: Cynhenid a Gwybyddol

Ceir dwy brif agwedd ddamcaniaethol wrthgyferbyniol sy'n ceisio esbonio caffaeliad iaith drwy ddefnyddio amryw o ddulliau ymchwil gwahanol (gweler Ambridge a Lieven, 2011; Gathercole a Hoff, 2007; Thomas a Mayr, 2010 am drafodaethau pellach). Ar y naill llaw ceir yr ymchwilwyr hynny sy'n cefnogi'r agweddau cynhenid ('nativism') neu

cynrychioladol ('generativist') sy'n deillio o syniadaeth *gramadeg gyffredinol* ('universal grammar') lle y credir bod rhaid i wybodaeth gynhenid am brosesau gwahanol fodoli (gweler model Fodor, 1983) er mwyn hyrwyddo'r broses o gaffael iaith (Chomsky, 1957; Pinker, 1994). Ar y llaw arall ceir damcaniaethau gwybyddol sy'n cynnwys agweddau lluniadaeth ('constructivist'), ymddangosiadol ('emergentist'), pragmataidd-gymdeithasol ('socio-pragmatic') ac agwedd yn seiliedig ar ddefnydd ('usage-based') sydd o'r farn nad yw plant yn berchen ar wybodaeth gynhenid sylfaenol am strwythurau iaith yn benodol ar adeg eu genedigaeth. Yn hytrach, cânt eu geni gyda'r gallu i wneud defnydd o'r systemau gwybyddol angenrheidiol i'w cynorthwyo i ddeall, prosesu a chadw gwybodaeth am iaith (Croft, 2001; Tomasello, 2003). Isod, trafodir prif nodweddion y ddwy agwedd ddamcaniaethol a ddisgrifir uchod yn eu tro.

### 3.4.2 Damcaniaethau Cynhenid

Yn ôl y damcaniaethau cynhenid mae plant yn caffael iaith yn ddiraffferth heb unrhyw ymgais ymwybodol neu gyfarwyddyd ffurfiol i'w cynorthwyo (Chomsky, 1957; Pinker, 1994). Yn hytrach gwneir defnydd o fodolaeth ramadeg cyffredinol ('Universal Grammar' neu UG fel y'i gelwir yn aml) gan blant i hyrwyddo caffaeliad iaith (gweler papurau a llyfrau Chomsky, 1981; 1991; 1995 am esboniad pellach). Defnyddir bodolaeth ramadeg cyffredinol gan ymchwilwyr cynhenid i geisio esbonio'r wybodaeth neu'r gallu greddfodol a gysidrir, fel rhan o'r ddamcaniaeth hon, yn rhan annatod o baratoad dynolryw ar gyfer iaith:-

*"Some of the organization of grammar would have to be there from the start, part of the language learning mechanism that allows children to make sense out of the noises they hear from their parents. The details of syntax have figured predominantly*

*in the history of psychology, because they are a case where complexity in the mind is not caused by learning; learning is caused by complexity in the mind."*

Pinker (1994: 125)

Yn ôl rhai, mae gramadeg cyffredinol yn cynnwys dewis o bamedrau amrywiol (Chomsky, 1981). Gellid cymharu y syniad hyn o bamedrau i un o switsfwrdd ieithyddol a leolir yn yr ymennydd (defnyddir y disgrifiad hwn yn Snyder, 2007). Cynigai'r trosiad hwn fod yna barth ieithyddol dynol wedi ei leoli yn yr ymennydd sy'n cynnwys bocs o switshis. Mae angen i bob un switsh gael ei symud i ddewis cyfyngedig o safleoedd (Chomsky, 1986) lle mae nodweddion yr iaith benodol sydd o dan sylw yn cyfateb i restr o'r switshis a geir ar y switsfwrdd. Pennir y swîts/paramedrau hyn gan gyfres o egwyddorion sy'n gyffredinol i bob iaith ac felly rhestr o reolau sy'n rhaid eu dilyn e.e. bob rhaid i bob brawddeg gynnwys goddrych. Un swîts posib sydd angen i blant ddysgu yng nghyd-destun cwestiynau yn Gymraeg yw'r gwahaniaeth mewn trefn brawddegau wrth ymateb i gwestiynau sy'n cynnwys un ai Berf yn Gyntaf e.e. *Ydy Siân yn dawnsio heno?* – *Ydy* neu Berf yn ail e.e. *Siân sy'n dawnsio heno?* - *le*. Tasg y plentyn felly, ydy penderfynu pa egwyddor sydd angen ei ddilyn yn yr achosion gwahanol er mwyn gosod y switsh/paramedr (o'r holl ddewisiadau posib a geir) yng nghyd-destun iaith benodol y gymuned sydd o dan sylw (gwelir y paragraffau dilynol am esiamplau pellach).

Fodd bynnag, er fod rhywfaint o fewnbwn ieithyddol yn bwysig er mwyn dewis y nodweddion ieithyddol penodol sy'n berthnasol ar gyfer yr iaith/ieithoedd mae'r unigolyn yn ei/eu dysgu, nid oes disgwyl i'r mewnbwn gael llawer o ddylanwad uniongyrchol ar natur iaith yr unigolyn os yw'r wybodaeth ieithyddol berthnasol rhywsut yn gynhenid. Yn ôl cefnogwyr y ddamcaniaeth hon felly, gall y plentyn ddewis y paramedr cywir (sy'n cyfateb i nodweddion iaith penodol) yn hawdd heb yr angen ar gyfer gwybodaeth gynhwysfawr iawn,

ac felly unig rôl y mewnbwn ieithyddol yw ymddwyn fel math o sbardun cychwynnol ar gyfer dewis a dethol y paramedr/au perthnasol (gweler Guasti 2004 am wybodaeth pellach). Ond beth yn union ydy natur y nodweddion ieithyddol cynhenid sydd wrth wraidd yr agwedd ddamcaniaethol yma?

Yn ôl ymchwilwyr sy'n cefnogi damcaniaeth gramadeg cyffredinol mae gwybodaeth plant am iaith yn cynnwys gwybodaeth am reolau ffurfiol sy'n ymwneud â chategorïau a chymalau ieithyddol cymhleth (Ambridge a Lieven, 2011). Gall yr wybodaeth hon gynnwys prosesau cystrawennol e.e. yr angen i gynnwys berf mewn cymal berfol neu enw mewn cymal enwol. Gall y wybodaeth hefyd gynnwys gwybodaeth morffolegol megis morffoleg ffurfdroadol ('inflection') e.e. yr broses o ychwanegu *-odd* i ferf Gymraeg fel *canu* i greu *canodd* er mwyn cyfleu'r ffurf gorffennol unigol. Gan fod pob iaith yn wead o strwythurau hynod gymhleth, y gred yw fod iaith yn rhy gymhleth i blentyn gaffael heb unrhyw wybodaeth parod am strwythur iaith. Yn wir, yn ôl ymchwilwyr cynhenid, wrth gaffael neu ddysgu iaith mae'r dysgwr yn derbyn mewnbwn brawddegol sy'n cynnwys nifer helaeth o reolau mewn nifer di-ben-draw o gyfuniadau geiriol ac felly mae'n amhosib i'r dysgwr allu penderfynu pa un yw'r rheol gywir i'w defnyddio heb fodolaeth rhyw fath o ramadeg neu wybodaeth gynhenid am iaith (y syniad hyn o baramedrau ieithyddol neu switsfwrdd unwaith eto). At hynny, wrth ddefnyddio iaith lafar yn enwedig, prin anaml mae oedolion yn siarad yn ramadegol berffaith (e.e. *tri cath* yn lle *tair cath* ac fe adlewyrchir hyn yn aml mewn iaith plant ifanc lle ceir esiamplau fel *dw i'n dri oed* gan hogan fach yn lle *dw i'n dair oed* (data personol)). Pur anaml hefyd y ffurfir cyfres o frawddegau perffaith heb ebychiad, neu doriad ar yr ynganu ayyb. Nid yw'n glir felly lle mae'r swîts wedi ei osod ar gyfer rhai o'r paramedrau yma. Mae'r mewnbwn neu'r stimwli felly yn rhy ddiffygiol (y ddadl 'poverty of the stimulus') ac yn cynnwys gormod o bosibiliadau strwythurol i'r dysgwr allu adeiladu

strwythurau cymhleth iaith o'r mewnbwn a geir yn unig. Yn ôl y ddatl hon mae'n rhaid bod yna rhyw strwythur ieithyddol cynhenid yn bodoli sy'n esbonio caffaeliad llawn o iaith er y diffyg yn y mewnbwn allanol i'w gefnogi (Cook, 1991).

Noda ymchwilwyr cynhenid sy'n cefnogi'r syniad o ramadeg cyffredinol a pharmedrau bod rhaid i gymalau gynnwys un ai berf/enw/arddodiad a chyflenwad<sup>8</sup>. Deillia hyn o syniad Chomsky (1981) a strwythur X-bar, mae'r strwythur hyn yn cynnwys X (gall hyn fod yn ENW, BERF neu ARDDODIAD), cyflenwadau ac unrhyw elfennau penodol eraill. Nodai'r theori hyn fod iaith yn dilyn trefn sy'n cynnwys un ai X + CHYFLENWAD neu CYFLENWAD + X a bod y dysgwr yn meddu ar bamedr pen gyfeiriol (head direction parametr) er mwyn dewis y drefn gywir sy'n cyd-fynd â'r mewnbwn a geir. Felly ceir ieithoedd lle mae cyflenwadau yn dilyn X e.e. y cyflenwad *to the house* yn Saesneg *Siôn ran to the house* ac *i'r tŷ* yn Gymraeg *Rhedodd Siôn i'r tŷ*, neu ieithoedd lle mae X yn dilyn y cyflenwad e.e. yr iaith Dyrceg a Japaneaidd (Cyflenwad + X). Fel y gweler yn yr enghreifftiau uchod er y dilynir yr un drefn (X + CYFLENWAD) yn y Gymraeg ac yn Saesneg nid yw hyn yn wir am drefn frawddegol y strwythurau hynny. Defnyddir trefn Goddrych Berf Gwrthrych yn Saesneg *Rhys threw the ball* ond trefn Berf Goddrych Gwrthrych, fel arfer, yn Gymraeg *Taflodd Rhys y bêl* (gellid hefyd defnyddio trefn Goddrych Berf Gwrthrych ar rai adegau *Rhys daflodd y bêl*). Mae'r un syniad yn wir am drefn enwau ac ansoddeiriau lle mae posib i iaith ddilyn trefn enw + ansoddair e.e. yn y Gymraeg *awyr las*, neu ansoddair + enw e.e. yn Saesneg *blue sky*. Yn ôl y ddamcaniaeth hon felly, mae rhaid i blentyn dwyieithog e.e. Cymraeg/Saesneg, fod â'r gallu i gyfnewid rhwng paramedrau ieithyddol gwahanol ieithoedd er mwyn defnyddio eu hieithoedd yn effeithlon.

---

<sup>8</sup> Yn gyffredinol – gair neu gymal sy'n angenrheidiol ar gyfer deall ystyr cyflawn yr ynganid yw cyflenwad e.e. *Edrychodd Llinos ar y llun*, yma mae *ar y llun* yn gyflenwad o'r ferf '*edrychodd*' ac yn cwblhau'r frawddeg drwy esbonio ar beth mae Llinos yn edrych) (gweler Cook a Newson, 2007 am drosolwg o'r maes).



### **3.4.2.1 Dadleuon ‘O blaid’ y Ddamcaniaeth Cynhenid**

Cefnogir y ddadl o dlodi'r mewnbwn (poverty of the stimulus) a'r angen ar gyfer y parth iaith dynol gan nifer o astudiaethau enwog yn edrych ar 'oruchafiaeth cerebrol' (cereberal dominance) yn yr hemisffer chwith wrth edrych ar ddatblygiad iaith yn yr ymennydd (e.e. Broca, 1865 a Wernicke 1881; Lenneberg, 1967; gweler Rosenthal a Hillis, 2012 am ymchwil cyfredol yn y maes hwn): "...two grossly symmetrical cerebral hemispheres appeared to have different, genetically preassigned capacities for higher mental functions" (Goodglass, 1993, p.3). Aiff rhai ymchwilwyr mor bell ac awgrymu bod posib taflu hanner yr ymennydd i ffwrdd pan yn datblygu iaith (Pinker, 1994). Yn ogystal, dadleuai ymchwil gan Dehaene-Lambertz, Dehaene a Hertz-Pannier (2002) fod plant newydd anedig yn dangos ffafriaeth tuag at ochr chwith yr ymennydd ar gyfer iaith ymhell cyn y cyfnod lle maent yn dechrau cynhyrchu iaith. Fodd bynnag awgryma Karmiloff-Smith (2007) fod ymennydd plentyn yn symud drwy'r drefn o brosesu gweithgaredd cyffredinol i ddechrau cyn dechrau arbenigo mewn gweithgareddau eraill e.e. prosesau sy'n iaith-benodol. Dadleuai damcaniaethwyr gwybyddol mai'r esboniad olaf sy'n gywir ac felly, er fod rhwydweithiau parod ar gael, nid yw 'r defnydd wedi ei benodi o'r dechrau un (Elman, Bates, Johnson, Karmiloff-Smith, Parisi a Plunkett, 1996).

Dadl arall a ddefnyddir i hyrwyddo'r ddamcaniaeth cynhenid yw bodolaeth rhai ieithoedd newydd fel 'Iaith arwyddion Nicaragua' (Nicaraguan Sign Language neu NSL) lle mae plant i'w gweld (yn ôl rhai ymchwilwyr) yn creu iaith wreiddiol o'r newydd (Senghas, 2003; Senghas a Coppola, 2001; Senghas, Kita a Özyürek, 2004). Datblygodd yr iaith arwyddo hon yn iaith gyflawn wrth i blant byddar ddod at ei gilydd mewn ysgol yn Nicaragua. Yn ôl yr ymchwil hwn, mae plant newydd yn cyfrannu fwy o reolau gramadegol

i'r iaith yn flynyddol sydd y tu hwnt i'r mewnbwn gwreiddiol a gafwyd ac sy'n awgrymu fod "...children naturally possess learning abilities capable of giving language its fundamental structure" (Senghas, Kita a Özyürek, 2004: 1779). Dadl felly o blaid galluoedd cynhenid ar gyfer datblygiad iaith yn ôl rhai (e.e. Kegl, 2002). Fodd bynnag dadleuai eraill (e.e. Tomasello, 2008) fod y datblygiad hwn yn ymwneud ag angen yr unigolion i gyfathrebu gyda'i gilydd mewn grŵp ac y gellid esbonio hyn fel rhan o esblygiad yn hytrach na gallu cynhenid o iaith.

Yn ogystal mae'r syniad o gyfnod critigol ar gyfer iaith yn cael ei ddefnyddio fel dadl o blaid iaith gynhenid gydag un o'r achosion enwocaf yn cael ei gofnodi gan Susan Curtiss ac eraill yn y 70au (Curtiss, Fromkin, Krashen, Rigler a Rigler, 1974) wedi i ferch (Genie) gael ei darganfod heb ddim iaith amlwg yn ei harddegau cynnar. Ond nid yw'n glir (yn yr achos yma yn arbennig) os yw diffyg datblygiad iaith yn ymwneud gyda diffyg stimiwli cymdeithasol, diwylliannol, addysgol neu broblemau gwybyddol genynnol yn hytrach na iaith yn benodol. Fodd bynnag mae'n debyg fod ymchwil o'r math hyn yn awgrymu fod cyfnod arbennig ar gyfer caffael sgiliau penodol ond gan na ellir canfod neu gynllunio ymchwil gynhwysfawr ar y pwnc (oherwydd goblygiadau moesegol dwys) mae bron yn amhosib profi'r syniad hyn o gyfnod critigol ar gyfer iaith. Yn ogystal, er fod astudiaethau ar gaffaeliad ail iaith yn awgrymu fod gallu unigolyn i gaffael ail iaith yn gostwng yn ôl oed amlygiad dechreuol (h.y. yr hynaf yw'r dysgwr iaith yr anoddaf yw'r gallu i gaffael ail iaith) nid yw patrwm y gostyngiad hyn yn cyd-fynd gyda'r blychau o anallu sy'n elfen hanfodol o unrhyw gyfnod critigol (Hakuta, Bialystok a Wiley, 2003).

### **3.4.2.2 *Y Ddamcaniaeth Cynhenid a Dwyieithrwydd***

Sut felly mae'r ddamcaniaeth cynhenid yn esbonio caffaeliad iaith mewn plant gyda dwy neu fwy o ieithoedd? Mae Chomsky o'r farn fod gan unigolion fwy nag un gramadeg (sydd nid o reidrwydd yn cyfateb i wahanol ieithoedd) yn eu meddyliau (Chomsky, 2001), sy'n deillio o'r ffaith bod modd gweld a chlywed mwy nag un iaith yn gyson. Fodd bynnag noda Cook a Newson (2007: 221) "...the description of UG is based on the knowledge of the native speaker with a single grammar" lle mae gwybodaeth gyflawn am iaith yn cael ei fesur a'i hystyried wrth edrych ar allu oedolyn sy'n siarad un iaith yn unig. Yn ogystal, oherwydd bod posib i bob un plentyn unigol gaffael fwy nag un iaith (yn enwedig yn y byd amlddiwylliannol sydd ohoni) dadleuai Cook a Newson (2007:224) fod rhaid i ddamcaniaeth gramadeg gyffredinol ddechrau cysidro "... multilingualism as the norm for the human mind." Er y ceir rhai papurau sy'n ceisio ymdrin a'r elfen ddwyieithog o drefn X a CHYFLENWAD (e.e. Flynn, 1989; Christophe, Nespors, Teresa Guasti, a Van Ooyen, 2003; Guasti, Christophe, Van Ooyen, a Nespors, 2001) nid yw'n glir sut mae'r ddamcaniaeth yma yn mynd ati i esbonio caffael mwy nag un iaith ac sut y byddai hyn yn effeithio'r syniad o bamedrau amrywiol yn yr ymennydd (gweler Ayoun, 2005 sy'n trafod hyn mewn mwy o fanylder).

### **3.4.3 I gloi - Y Ddamcaniaeth Cynhenid**

I grynhoi felly, mae'r ddamcaniaeth cynhenid o'r farn fod plant, fel arfer, yn caffael iaith yn ddidrafferth ac yn gwneud defnydd o ramadeg cyffredinol i'w cynorthwyo wrth gaffael iaith (Chomsky, 1981;1991; 1995). Nid yw'r mewnbwn ieithyddol yn cael dylanwad mawr (heblaw am sbardun cychwynnol) ar gaffaeliad plant o iaith (Guasti, 2004) ac felly, yn ôl y damcaniaethwyr hyn, mae'n rhaid bod rhyw strwythurau ieithyddol cynhenid yn bodoli sy'n esbonio caffaeliad llawn o iaith er y diffyg amlwg yn y mewnbwn allanol i gefnogi'r broses

(Cook, 1991). Cyfeirnodir ymchwil ar iaith arwyddo Nicaragua a gallu criw o blant byddar i greu iaith wreiddiol o'r newydd (e.e. Senghas, Kita a Özyürek, 2004) fel tystiolaeth i gefnogi'r ddamcaniaeth hon ac hefyd y syniad o gyfnod critigol ar gyfer iaith (Curtiss, Fromin, Krashen, Rigler a Rigler, 1974). Fodd bynnag mae'r syniad o ramadeg cyffredinol wedi ei seilio ar ddatblygiad plant gydag uniaith (Cook a Newson, 2007) ac nid yw'n glir sut y buasai hyn yn ymestyn i gynnwys unigolion dwyieithog (Ayoun, 2005).

### 3.4.4 Damcaniaethau Gwybyddol

Er fod amryw o 'agweddau' damcaniaethol wedi datblygu oddi mewn i'r carfan wybyddol, yn gyffredinol, yn ôl y damcaniaethau gwybyddol, mae iaith yn gynnwys y rhyngweithiad cyfathrebol rhwng unigolion ac felly'n lled ddibynnol ar fewnbwn ieithyddol o'r amgylchedd o'u cwmpas (gweler Gathercole a Hoff, 2007 am drosolwg pellach). Yn ôl yr ymagwedd hon, mae iaith yn rhan o wybyddiaeth ehangach, ac yn rhannu strwythurau cyffredinol megis y cof, y gallu i brosesu synau, y gallu i dalu sylw at synau ayyb., prosesau cynhenid cyffredinol sydd a'u gwneio dim â strwythurau ieithyddol penodol (yn wahanol i'r hyn a nodir gan y damcaniaethwyr cynhenid). Rôl yr ymennydd, yn ôl y farn hon, yw cyfrifo a chyffredinoli rheolau yn ystadegol bron, o'r mewnbwn y mae'r unigolyn yn ei glywed, ac adeiladu strwythur ieithyddol mewnol yn y broses. Atgyfnerthir hyn gan ymchwil ar fodolau cyfrifiadurol sy'n arddangos sut mae defnyddio sampl o sgwrs fel mewnbwn â'r gallu i adnabod strwythurau ieithyddol penodol (e.e. Colunga a Smith, 2005; Gasser a Smith, 1998; Redington a Charter, 1997). Oherwydd y pwyslais ar y mewnbwn ieithyddol a geir nid yw caffael iaith yn rhwydd a disgwylir i blentyn gynhyrchu gwallau niferus wrth geisio meistrolï ei iaith/ieithoedd. Yn ogystal maent o'r farn fod maint yr amlygiad a'r defnydd a wneir gan y plentyn o unrhyw iaith yn cael effaith ar gaffaeliad llawn o iaith (e.e. Gathercole a Thomas,

2005). Dadleuai ymchwilwyr sydd o blaid y ddamcaniaeth yma nad yw categorïau a chanllawiau ar gyfer strwythuro brawddegau yn rhywbeth cynhenid ond yn hytrach yn ymddangos o'r cyffredinoliadau mae plant yn eu ffurfio o'r iaith neu ieithoedd y maen nhw'n ei chlywed ar weflau'r unigolion yn eu hamgylchedd (Tomasello, 1992, 2000). Yn ogystal credai rhai fod caffaeliad iaith ymysg plant ifanc yn seiliedig ar ddymuniad ac angen yr unigolion i ddefnyddio iaith er mwyn cyflawni cyfathrebiadau gweithredol (gofyn am wrthrych, i wneud gweithgaredd, ymateb i sefyllfa ayyb), ac i ddeall ynganiadau eraill (gweler Ambridge a Lieven, 2011 am esboniad pellach). Mae hyn yn dilyn o'r syniad fod gallu plentyn i gaffael iaith yn ddibynnol ar allu'r plentyn i wneud cysylltiadau a chasgliadau cymdeithasol rhwng yr hyn mae'r siaradwyr yn rhoi sylw iddo a bwriad cyfathrebol y siaradwr (Tomasello a Akhtar, 2005). Gellid cyfeirio yma at enghraifft Quine (1960) a'r gair 'gavagai'. Os yw'r gair hwn yn cael ei ynganu gan frodor wedi iddo weld cwningen, sut mae dehongli beth yn union mae'r gair 'gavagai' yn gyfeirio ato h.y. fe all ddisgrifio enw'r anifail neu math o edrychiad/osgo. Mae gwneud defnydd o sgiliau megis sylw cyfunol, ystumiau a bod yn ymwybodol o fwriad y cyfathrebwyr yn hollbwysig er mwyn dehongli gwir ystyr y gair. Cysyllta hyn gyda ymchwil sydd yn edrych ar ddatblygiad iaith plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg a Sbaeneg/Saesneg (Gathercole, Thomas a Evans, 2000) lle darganfuwyd fod plant sy'n dysgu ieithoedd gwahanol yn gwneud dyfaliadau gwahanol ar beth yw ystyr geiriau newydd "*children learning distinct languages develop different types of first best guesses about the meaning of new words*" (tud: 55). Yn ôl yr awduron nid yw hyn yn arwydd bod gwybodaeth plant am eiriau yn gynhenid, yn hytrach mae'r plant yn cael eu harwain gan yr iaith benodol y maent yn eu caffael (ac felly mewnbwn yn yr iaith hwnnw) ac eu gallu i adnabod y nodweddion hynny sy'n berthnasol i'r iaith o dan sylw e.e. ceir mwy o enwau

sy'n cyfeirio at gasgliadau yn Gymraeg (h.y. mwy nag un) i'w cymharu a Saesneg lle ceir mwy o enwau ar gyfer gwrthrych cyfan.

Yn ôl yr ymchwilyr hyn, disgrifir iaith, fel storfa o luniadau neu yn hytrach storfa o dempledi o ynganiadau, o wahanol faint a chymhlethdod. Mae rhaid i'r ynganiadau hyn allu cyfrannu at gyfathrebu neu sydd â bwriad gweithredol ynghlwm ag o e.e. mae'r ffurf Dw i isio X (Berf, Priodenw, Berf, Enw) sy'n gofyn am wrthrych yn cyflawni angen gweithredol ac felly yn ffurf gyffredin yn y mewnbwn. Nodwedd bwysig o'r ddamcaniaeth yw mai'r mewnbwn ieithyddol a geir sy'n bennaf gyfrifol am hyrwyddo caffael iaith. Felly, os yw'r plentyn gyda'r gallu i nodi perthynas rhwng yr ystyr (efallai drwy sylw cyfunol) a'r mewnbwn ieithyddol mae posib i'r plentyn ddechrau dysgu'r strwythur hwnnw (gweler Moore a Dunham, 1995 am drafodaeth o bwysigrwydd sylw cyfunol a Tomasello, 1988; Tomasello a Faffar, 1986; Tomasello a Todd, 1983 ar bwysigrwydd sylw cyfunol wrth gaffael iaith). Yn ogystal, oherwydd bod pob ffurf yn ystyrion, mae'n ysgogi'r plentyn i ddysgu'r ffurfiau gwahanol a glywir (gweler Tomasello a Tomasello, 2009 am fanylion pellach).

Un o'r elfennau pwysig o'r ddamcaniaeth gwybyddol yw'r syniad nad oes rhaid i ffurf strwythurol benodol gael ei chaffael yn ei chyfanrwydd ar yr un pryd. Yn hytrach mae posib iddi gael ei chaffael mewn modd tameidiog, bob yn dipyn (piecemeal). Dechreuau plentyn drwy ddysgu nifer o gymalau wedi eu rhewi (frozen phases) e.e. y strwythur brawddegol *Goddrych/Berf/Gwrthrych Dw i'n tafllu pêl, Dw i'n bwyta afal, Dw i'n rhedeg ras*. Mae hyn yn galluogi'r plentyn i ddatblygu amlinelliad neu sgema sy'n eirfa benodol (lexically specific) neu sy'n strwythur sy'n seiliedig ar eitem (item-based) ar gyfer y ffurf hon e.e. *Dw i'n GWEITHREDU* peth. Mae hyn yn ei dro yn galluogi'r plentyn i osod unrhyw WEITHRED berthnasol i mewn i'r sgema (gweler Tomasello, 2000 am drafodaeth o ymchwil perthnasol yn y maes hwn). Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw'r plentyn o reidrwydd yn defnyddio

eitem weithredol fel berf ond yn hytrach fel categori gweithredol mwy syml e.e. gweithredoedd mae'n gallu eu gwneud. Ond oherwydd bod y ffurf hon yn gyffredin ac yn dryloyw o ran ystyr mae posib i'r plentyn gaffael y ffurf o'r mewnbwn a geir. Mae'r agwedd yma hefyd yn nodi fod posib i ynganiad penodol e.e. GODDRYCH/BERF/GWRTHRYCH gael ei ffurfio o gwmpas ffurf berfol benodol e.e. yn Gymraeg gwneir defnydd helaeth o'r ffurfdroadol *-io* gyda berfau *Dw i'n cicio pêl*. Yn ogystal mae posib i'r ynganiad cyfan gael ei gadw yn y cof fel un uned ac yna cael ei gynhyrchu fel cymal wedi ei rewi (gelwir hefyd yn gymal sefydlog/diysgog (fixed) neu'n uned sydd wedi ei ddysgu ar gof (rote-learned) e.e. *Dw i isio fo* .

Felly, os yw'r plentyn yn clywed ffurfiau brawddegol tebyg iawn lle newidir un elfen yn unig bob tro mae'n debygol o ddefnyddio strategaeth (construction) sy'n seiliedig ar eitem (item-based) i gaffael y ffurf benodol o dan sylw. Fodd bynnag os yw'r plentyn yn clywed yr un cymal drosodd a throsodd heb newid mae'n debygol o gaffael yr ynganiad fel cymal wedi ei rewi (frozen phase). Ond nodai rhai ymchwilyr hefyd fod posib gwneud defnydd o'r ddwy strategaeth ar yr un pryd e.e. gellid cynhyrchu'r frawddeg *Dw i'm yn gwybod* fel cymal wedi ei rewi ond gellid hefyd ei gynhyrchu drwy ddefnyddio strategaeth sy'n seiliedig ar eitem e.e. BERF(1PRES)/ENW (1S.PRES) /(NEG)/BERFENW rhyw dro arall wrth i'r broses o ddatgymalu unedau penodol gymryd lle (Pine a Lieven, 1993; Liven, Pine a Baldwin, 1997). Ond, oherwydd bod achosion lle mae angen rheoli ar gyfer yr amser, person a'r nifer mewn berfau Cymraeg mae'n bosib y gellid nodi fod plant yn dueddol o ddefnyddio'r ffurf sy'n seiliedig ar eitem i gynhyrchu cymalau newydd gan ei fod yn annhebygol y bydd plentyn yn clywed yr amrediad cyfan o gymalau posib yn ddigon aml i'w caffael fel cymalau wedi eu rhewi. Er enghraifft, gellid nodi fod modd i blentyn gaffael ffurf benodol e.e. *cusanodd* yn Gymraeg drwy un ai adennill y ffurf cyfan (h.y. y gair) o'r cof neu drwy mewnosod y ferf

*cusan(u)* i mewn i'r patrwm cynrychiadol BERF+odd. Fodd bynnag, oherwydd ceir dewis fwy helaeth o opsiynau berfol terfynol posib yn yr iaith Gymraeg sy'n deillio o'r angen i reoli ar gyfer person a nifer yn ogystal e.e. *cusanais*, *cusanaist*, *cusanom*, *cusanodd*, *cusanant* mae'n annhebygol y bydd plentyn yn clywed yr amrediad cyfan o ferfau posib yn ddigon aml i'w caffael fel cymalau wedi eu rhewi. Mae hyn yn cyd-fynd gyda darganfyddiadau Thomas a Gathercole (2007) sy'n nodi fod plant sy'n caffael strwythurau cymhleth (lle na cheir system ffurf-gweithred glir) megis cenedl-enwi yn Gymraeg yn fwy tebygol o wneud defnydd o strategaeth sy'n seiliedig ar eitem i'w cynorthwyo i gaffael y system yn effeithlon. Fodd bynnag gellid dadlau fod y system berfol yn Gymraeg yn dilyn patrwm eithaf cyson lle mae angen rheoli ar gyfer AMSER+PERSON+NIFER yn rheolaidd wrth gynhyrchu berf ac felly mae'n bosib ystyried fod plant yn gwneud defnydd o strategaeth sy'n seiliedig ar reolau (h.y. gwneir defnydd o reolau clir) wrth gaffael ffurfiau berfol penodol. Ar y llaw arall awgryma ymchwil gan Dammel & Kurschner (2008) fod strwythur sy'n cynnwys nifer o elfennau ieithyddol e.e. berf sy'n rheoli ar gyfer amser, person a nifer yn gorfod cael ei cysidro yn fwy cymhleth na berf sy'n rheoli ar gyfer un elfen yn unig e.e. person, ac felly nid yw'n glir i ba raddau mae nifer yr opsiynau yn effeithio ar ddewis plant Cymraeg/Saesneg o'r strategaeth i'w ddefnyddio wrth gaffael y system berfol yn Gymraeg. Oes posib rhagdybio bod plant sy'n caffael iaith mewn ieithoedd, megis Cymraeg, lle ceir strwythurau sy'n cynnig nifer fwy o opsiynau angen rhywbeth ychwanegol i'w cynorthwyo i gaffael y strwythurau dan sylw yn effeithlon e.e. gwneud defnydd o mwy nag un ciw? Ceisir ymdrin a'r cwestiwn hwn yn yr ymchwil bresennol (gweler y cwestiynau ymchwil ar ddiwedd y bennod hon). Cyn mynd i'r afael a'r cwestiynau hwn trafodir sut mae'r ddamcaniaeth wybyddol yn ceisio esbonio trefn caffael iaith a datblygiad dwyieithrwydd.



### 3.4.4.1 *Trefn Caffael Iaith a'r Ddamcaniaeth Gwybyddol*

Wedi'r cyfnod dechreuol sy'n cynnwys cynhyrchu synau unigol, baldorddi a geiriau cyntaf, dadleua'r damcaniaethwyr gwybyddol fod plant yn dechrau llunio brawddegau drwy ddysgu ffurfiau cyflawn (wedi ei rhewi) sydd yn gysylltiedig â gweithredoedd penodol neu ystyrllon e.e. *Dw i'n bwyta*. Yna drwy ddatgymalu'r ffurfiau mae posib i'r plentyn allu defnyddio'r ffurf ar gyfer esbonio gweithredoedd cyfathrebol eraill e.e. *Dw i'n cuddio* (e.e. Pine a Lieven, 1993). Creda'r damcaniaethwyr hyn hefyd y defnyddir yr un strategaethau caffael iaith gyda ffurfiau cyffredin berfol megis *-ed* yn Saesneg e.e. *walked, waved, moved* lle mae'r defnydd helaeth o orestyniadau gan blentyn yn dangos eu bod yn defnyddio patrwm penodol i hyrwyddo eu dysgu. Mae posib defnyddio'r un strategaeth yn Gymraeg gyda geiriau megis *-io* e.e. *cicio, neidio, crio*. Wedi caffael y patrymau cywir mae posib i'r plentyn ymestyn eu gwybodaeth er mwyn cyffredinoli ar draws patrymau ieithyddol megis *Dw i'n GWEITHRED-io GWRTHRYCH* e.e. *Dw i'n cicio pêl = Ti'n cicio pêl* (gweler hefyd gwaith Abbot-Smith a Tomasello, 2010; Ambridge, Pine, Rowland a Young, 2008; Theakston, 2004). Mae'n bosib wedyn bod hyn yn annog y plentyn i ddefnyddio strwythur *GODDRYCH BERF GWRTHRYCH* ac i ffurfio grwpiau penodol e.e. berfau neu enwau. Mae'n bwysig nodi fod cynhenidwyr hefyd yn cydnabod bodolaeth rheolau cyffredinol a gorgyffredinoliadau e.e. yn Saesneg *he goed* yn lle *he went* neu yn Gymraeg *dw i'n rhedio* yn lle *dw i'n rhedeg*. Fodd bynnag, yn ôl y damcaniaethwyr cynhenid, gan nad yw plant yn clywed *goed* neu *rhedio* yn y mewnbwn a geir, mae'n rhaid bod y camgymeriadau yn deillio o ddiffygion yn y mecanwaith mewnlol (gweler Marcus, Pinker, Ullman, Hollander, Rosen a Xu, 1992; Pinker 1984/1989 am drafodaethau pellach). Yn ogystal, ychwanega Xu a Pinker (1995) fod ymchwilwyr blaenorol

(sy'n cefnogi damcaniaethau cynhenid a gwybyddol) yn dueddol o orbwysleisio achosion o orgyffredinoli a bod y rhain yn brin ar y cyfan.

### ***3.4.4.2 I grynhoi - Y Ddamcaniaeth Gwybyddol a Dwyieithrwydd***

Yn wahanol i'r damcaniaethwyr cynhenid mae damcaniaethwyr gwybyddol o'r farn bod caffael iaith/ieithoedd yn ddibynnol ar eu profiadau a'r mewnbwn a geir o'r amgylchedd "Children learn language from their language experiences – there is no other way" (Lieven a Tomasello, 2009: 168); a bod y mewnbwn (neu'r diffyg mewnbwn yn achos unigolion dwyieithog) gyda'r gallu i esbonio graddfa caffaeliad strwythurau iaith penodol (e.e. Naigles a Hoff-Ginsberg, 1998; Tardiff, Shatz a Naigles, 1997). Yn ogystal, noda ymchwilwyr gwybyddol nad oes angen i ffurf strwythurol benodol gael ei gaffael yn ei chyfanrwydd ar yr un pryd (e.e. Tomasello, 1992, 2000) a bod graddfa caffael iaith yn ddibynnol ar gyfrifo mas gritigol digonol yn y strwythurau a gaffaelir (gweler Gathercole a Hoff, 2007 am drosolwg). Oherwydd y pwyslais yma ar y mewnbwn ieithyddol a geir (ac yn unol a llawer o ymchwil cyfredol yn y maes e.e. de Houwer, 2009; Grosjean, 2010, Yip, 2013) nid oes disgwyl i blant dwyieithog gaffael iaith ar yr un raddfa a phlant gydag un iaith.

### **3.4.5 I gloi – Y Ddamcaniaeth Wybyddol**

I grynhoi felly, mae'r prif ddadleuon ynghlwm a'r ddamcaniaeth gwybyddol yn nodi nad yw categorïau ieithyddol yn bodoli ar adeg genedigaeth ond yn hytrach cant eu adeiladu bob yn dipyn yn unol a amllder y mewnbwn a geir a thryloywder neu afloywder y system dan sylw (e.e. Gathercole, Sebastián, & Soto, 1999; Lieven, Pine, & Baldwin, 1997; MacWhinney, 2004; Pine & Lieven, 1993, 1997; Pine, Lieven, & Rowland, 1998; Thomas a Mayr, 2010;

Tomasello, 1992, 2000). Gellid hefyd defnyddio mwy nac un strategaeth wrth gaffael strwythurau penodol (Pine a Lieven, 1993; Liven, Pine a Bladwin, 1997) ac wedi iddynt feistrolï y strwythur hyn fod modd i blant ymestyn eu gwybodaeth er mwyn cyffredinoli ar draws patrymau ieithyddol. Yn yr adran dilynol trafodir rhai modelau caffael iaith sy'n ceisio esbonio sut mae plant yn defnyddio patrymau yn y mewnbwn ieithyddol a geir er mwyn hybu caffaeliad iaith.

## 3.4.6 Modelau Caffael Iaith

### 3.4.6.1 *Y Model Cystadlu*

Mae'r model cystadlu (competition model) gan Bates a MacWhinney (1989) (gweler hefyd model cystadlu unedig (unified competition model) yn MacWhinney, 2009) yn ffocysu ar ddefnydd o giwiau wrth fapio ffurf a gweithred yr uned ieithyddol dan sylw. Yn ôl y model hwn mae iaith/hieithoedd yn cael eu caffael drwy wneud defnydd o fesuriadau o argaeledd (availability) a dibynadwyedd (reliability) ciw. Cyfeirir 'argaeledd ciw' at y nifer o weithiau y defnyddir ciw penodol e.e. defnydd o *-ed* yn Saesneg i nodi'r ffurf gorffennol neu'r defnydd o'r ôl-ddodiad *-io* yn Gymraeg i newid gair enwol yn air berfol. Cyfeiria 'dibynadwyedd y ciw' at y graddau mae bodolaeth y ciw yn arwain at y cynhyrchiad cywir e.e. pa mor gyson y defnyddir *-ed* yn Saesneg i nodi'r ffurf gorffennol a pha mor aml y defnyddir yr ôl-ddodiad *-io* i newid gair enwol i air berfol. Cyfunir y ddau ffactor yma er mwyn cyfrifo dilysrwydd y ciw (cue validity) sy'n mesur pa mor gyson yw ffurf a gweithred yr eitem. Yn ogystal ystyrir ffactorau eraill fel 'cryfder y ciw' (cue strength) sy'n ymwneud â phwysau/amlder y berthynas a geir rhwng dwy uned a 'chost y ciw' (cue cost) sy'n delio gyda chymhlethdod y strwythurau sy'n cael eu caffael (Kempe a MacWhinney, 1998).

Yn ôl y model hwn, ystyrir strwythur yn gymhleth os yw argaeledd, dibynadwyedd ac felly dilysrwydd y ciw yn isel. Yn ogystal, mae'r syniad o gymhlethdod y strwythur yn ystyried os yw'r strwythur yn wahanol i'r hyn mae'r plentyn wedi ei gaffael eisoes. Yn achos plentyn sy'n caffael Cymraeg fel ail iaith mae'r system ateb yn wahanol iawn i'r hyn a geir yn Saesneg ac felly yn fwy o sialens. Fodd bynnag mae rhai o ymatebion yn y system ateb yn Gymraeg yn ymddangos yn aml yn yr un cyd-destun sy'n awgrymu bod posibil i rai ymatebion fod ag argaeledd ciw uchel e.e. y defnydd o o'r ffurf amhendant o'r ferf bod *Oes* wrth ymateb i gwestiwn sy'n dechrau gyda'r un ffurf *Oes...?*, sydd felly, â'r gallu i arwain at ddibynadwyedd ciw uchel yn ogystal. Ar y llaw arall ceir nifer o ymatebion gydag argaeledd ciw isel gan nad ydynt yn ymddangos yn ddigon aml yn y mewnbwn e.e. ffurf dyfodol person cyntaf o'r ferf bod *bydda* wrth ymateb i gwestiwn lle ceir ffurf dyfodol ail berson o'r ferf bod *byddi*. Yn ogystal, oherwydd fod yna nifer fwy o gwestiynau ac ymatebion posibil yn cael eu clywed yn y mewnbwn nid yw cryfder y ciwiau yn uchel iawn oherwydd diffyg amlygiad digonol i'r ffurf (yn enwedig wrth gysidro caffaeliad ail iaith lle na cheir system tebyg). Rhagdybia'r model hwn felly, y bydd plant yn fwy tebygol o gaffael strwythurau fwy tryloyw (lle ceir argaeledd a dibynadwyedd ciwiau cyson) i ddechrau, megis y ffurf amhendant *Oes*, "...children are sensitive from the beginning to the information value of particular perceptual patterns, and will go to work first on those forms that promise a greater "payoff". (Bates a MacWhinney, 1989: 59). Ar y llaw arall mi fydd strwythurau llai tryloyw lle na cheir argaeledd na dibynadwyedd ciw uchel, megis *byddi = bydda*, yn cael eu caffael yn hwyrach yn natblygiad iaith. Cefnoga'r model hyn y ddamcaniaeth sy'n seiliedig ar ddefnydd (cangen o'r ddamcaniaeth gwybyddol).

### **3.4.6.2      *Model Llwybr Unigol a Model Llwybr Deuol***

Trafoda modelau llwybr unigol a llwybr deuol bwysigrwydd amllder y mewnbwn a geir wrth gaffael strwythurau anghyffredin. Mae model y llwybr unigol yn nodi fod gwybodaeth yn deillio o fecanwaith cyfunol unigol lle mae mynediad i'w wybodaeth yn ddibynnol ar amllder y mewnbwn ( Bybee, 1995/2001; McClelland a Patterson, 2002). Yn ôl Bybee (1995, 2001). Mae berfau cyffredin ac anghyffredin yn cael eu cadw yn storfa eirfaol y plentyn ac wedi eu marcio gyda chryfder penodol sy'n ddibynnol ar amllder ymddangosiadol yr eitem yn yr iaith. Fodd bynnag yn ôl y model gyda llwybr deuol (Pinker, 1991; Pinker ac Ullman, 2002) mae ffurfiau cyffredin ac anghyffredin yn cael eu trin yn wahanol. Yn ôl y model hwn oherwydd nad yw ffurf anghyffredin yn rhan o reol penodol mae'n cael ei gadw mewn storfa eirfaol ar wahân i'r ffurfiau cyffredin sy'n ran o'r system ramadegol sydd wedi ei chreu gan reolau symbolaidd. Nid yw'n glir pa un o'r systemau hyn (os unrhyw un) sy'n fwy effeithiol wrth geisio mynd ati i esbonio caffaeliad o strwythurau cymhleth. Fodd bynnag, mae'r ddau fodel yn cytuno fod caffaeliad o strwythurau anghyffredin yn ddibynnol ar y lefel o amlygiad ieithyddol a geir. O ganlyniad, gellid rhagdybio unwaith eto fod caffaeliad plant dwyieithog o systemau fwy cymhleth, megis y system ateb yn y Gymraeg, yn hollol ddibynnol ar amllder y mewnbwn ieithyddol a geir.

### **3.4.6.3      *Ymchwil Presennol***

Er y ceir amryw o astudiaethau ar gaffaeliad strwythurau cymhleth mewn ieithoedd gwahanol (gweler rhan gyntaf y bennod hon am drefn caffaeliad iaith) prin yw'r ymchwil ac felly y damcaniaethau sy'n canolbwyntio ar gaffaeliad plant ifanc o'r systemau ateb cymhleth a geir mewn ieithoedd gwahanol (gweler pennod 1). Gobeithir fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y gwaith presennol ac ystyried sut mae caffaeliad o'r system hon yn cynnig goleuni newydd ar yr hyn a wyddom eisoes am gaffaeliad plant ifanc o strwythurau

cymhleth (nid yn unig yn y Gymraeg ond o fewn ieithoedd eraill yn ogystal). Cysidrir y damcaniaethau a drafodir uchod yn fras wrth ymdrin â'r canlyniadau gan ystyried sut mae posib esbonio'r canlyniadau a geir yng nghyd destun yr ymchwil damcaniaethol blaenorol a wnaethpwyd yn y maes hwn, gan gynnwys ffocws ar rôl y mewnbwn o ran amllder ac o ran natur ciwiau penodol i reolau oddi mewn i'r system.

## 3.5 Cwestiynau Ymchwil

Yn dilyn yr ymchwil a drafodwyd uchod mae nifer o ffactorau a chwestiynau pwysig i'w hystyried. Bwriad yr ymchwil yw ateb y cwestiynau canlynol:

1. Pa mor bwysig ydy amlygiad ieithyddol i gaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg?
  - a. Oes perthynas i'w chanfod rhwng caffaeliad o elfennau penodol o fewn y system a thryloywder neu diffyg tryloywder y system? Sut mae hyn yn gysylltiedig gyda'r mewnbwn ieithyddol a dderbynnir?
  - b. I ba raddau mae plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn gwneud defnydd o giwiau wrth gaffael y system ateb yn y Gymraeg? (e.e. y defnydd o dagiau neu'r gallu i adnabod patrwm yn yr ymatebion)
2. Oes tystiolaeth i awgrymu fod elfennau o drosglwyddiad ieithyddol i'w gweld yn ymatebion y plant? H.y. Ydy siaradwyr ail iaith Cymraeg yn dueddol o fapio'r wybodaeth sydd ganddynt o'r system ateb syml sy'n bodoli yn Saesneg ar y system llawer mwy cymhleth a geir yn Gymraeg?
3. Pa ddamcaniaeth neu fodel caffael iaith (os unrhyw un) sydd yn gallu esbonio caffaeliad plant ifanc o'r strwythur gymhleth hon?

# Pennod 4 - Methodoleg

---

## 4.1 Cyflwyniad: Y rhesymeg tu ôl i'r fethodoleg

Adnabu Grosjean (2007) fod astudio a gweithio gyda unigolion dwyieithog yn gallu bod yn broses anodd: “a ... difficult and challenging enterprise” (Grosjean, 2007: 241). Deillia hyn o'r arsylwad amlwg fod unigolion dwyieithog, oherwydd eu gallu elfennol i gyfathrebu mewn dwy iaith, yn hanfodol wahanol i unigolion sydd yn siarad un iaith yn unig. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig wrth greu a chynllunio ymchwil a phrofion penodol sydd i'w cwblhau gan unigolion dwyieithog. Yn ogystal, mae ymchwilwyr blaenorol wedi nodi nad yw'n deg cymharu perfformiad unigolion dwyieithog gydag unigolion uniaith (Grosjean a Li, 2013) gan fod “...bilinguals are speaker-hearers in their own right who will often not give exactly the same kinds of results as monolinguals” (Grosjean, 2007:246). Fodd bynnag, oherwydd nad oes unigolion un iaith Cymraeg yn bodoli mwyach (heblaw efallai am fabanod ifanc iawn) mi fydd pob plentyn sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon yn ddwyieithog o rhyw fath. Yr hyn fydd yn amrywio ymysg y plant o fewn yr astudiaeth hon yw natur a graddfa'r dwyieithrwydd hwnnw:, “Due to the variability in children's backgrounds, care should be taken to examine the input conditions in each child which will have implications for their pattern of dominance and development” (Yip, 2013: 124). Amlyga hyn yr angen i gymryd amlder y mewnbwn ieithyddol a dderbynia'r plant i ystyriaeth wrth gasglu data a chynnal dadansoddiadau pellach.

Felly, er fod modd defnyddio llawer o'r un methodolegau a ddefnyddir gyda phlant uniaith mae rhaid bod yn ymwybodol o gymhlethdodau pellach all godi wrth ymdrin â

phlant dwyieithog sy'n deillio o'u profiad a chefnidir ieithyddol amrywiol (Hoff a Rumiche, 2012). Yn ychwanegol i'r ystyriaethau hyn mae rhaid bod yn ofalus wrth ddewis a dethol y fethodoleg orau i'w defnyddio yng nghyd destun dwyieithrwydd yn benodol "...a combination of methods may be most appropriate" (Moyer, 2009: 28). Yn unol â'r datganiad hwn fe ddefnyddiwyd tri phrawf gwahanol yn yr astudiaeth hon er mwyn asesu gwybodaeth plant ifanc dwyieithog Cymraeg/Saesneg o'r system ateb yn y Gymraeg. Mae'r tri phrawf yma yn cynnwys dau brawf cynhyrchu (un ar lafar a'r llall yn ysgrifenedig) ac un prawf barnu. Mae'r prawf barnu yn ymdebygu (ond nid yn union yr un fath) i dasgau barnu gwerth-gwirionedd (truth-value) (gweler McKercher a Jaswal, 2011 am fanylion pellach) lle mae rhaid dewis os yw'r ynganiad/brawddeg a ddefnyddir gan gymeriadau yn gywir neu'n anghywir. Defnyddiwyd dau brawf cynhyrchu gwahanol i weld a oes gwahaniaeth yn yr hyn a wna'r plant ar lafar ac ar bapur (Jones, 1993), ac er mwyn cyfrifo gwybodaeth parod y plant am y system ateb ac sut mae'n gweithio. Fodd bynnag, yn gyffredinol wrth ddylunio ymchwil, mae'n bwysig cadw mewn golwg rhai o ystyriaethau elfennol ymchwil yn gyffredinol hefyd, sy'n cynnwys creu cwestiynau ymchwil, dadansoddi a chasglu data a mae'r rhain i gyd angen eu datblygu a'u haddasu dros gyfnod y cynhelir y prosiect ymchwil (Moyer, 2009). Manylir ar y prosesau hyn oll yn y bennod hyn.

Yn olaf mae'n bwysig nodi bod yr ymchwil hwn wedi cydymffurfio â'r canllawiau moesegol sydd i'w cael wrth gynnal ymchwil gyda bodau dynol a phlant yn enwedig (Greig, Taylor a MacKay, 2013). Ystyriwyd felly (fel a nodwyd yng nghanllawiau BERA) yr angen ar gyfer caniatâd gwybodus gan yr ysgol a'r gofalmwyr (gweler Atodiadau 1a, 1b ac Atodiad 2); parodrwydd y plant i gymryd rhan; perthnasedd y prawf; addasrwydd y cynnwys; amser derbyniol i gwblhau'r profion o fewn oriau gwersi ayyb. Cyflwynir rhai o'r dogfennaeth perthnasol yn yr Atodiadau ac fe ymhelaethir ar y ddogfennaeth honno yn y rhan nesaf sy'n



trafod y fethodoleg gyffredinol gan ddechrau gyda chynllun yr arbrawf. Yn Atodiad 11 trafodir y broses o ddewis a dethol eitemau penodol ar gyfer y profion mewn mwy o fanylder.

## 4.2 Methodoleg Cyffredinol

### 4.2.1 Cynllun yr arbrawf

#### 4.2.1.1 Cyfranwyr

Casglwyd data oddi wrth gyfanswm o 134 o blant. Casglwyd mwyafrif y data oddi wrth blant oedd yn mynychu ysgolion cynradd ar hyd arfordir Gogledd Orllewin Cymru a pheth data peilot o ysgol arall yn y Gogledd Ddwyrain. Dewiswyd plant ym mlynnyddoedd cynradd 3, 4, 5 a 6 gydag amrediad oedran o 7;7 i 11;9 mlwydd oed. Fe wahanwyd y plant i dri grŵp penodol yn ôl eu cefndir ieithyddol (gweler Tabl 17). Roedd y cefndiroedd ieithyddol hyn yn cynnwys (i) Cymraeg yn unig yn y cartref; (ii) Cymraeg a Saesneg yn y cartref (Cymysg); a (iii) Saesneg yn unig yn y cartref. Cyfrifwyd cefndir ieithyddol y plant gan ddefnyddio holiaduron pwrpasol a gwblhawyd gan y rhieni (gweler Atodiad 3). Ceisiwyd cadw'r niferoedd yn gymharol debyg ym mhob grŵp, ond oherwydd bod y broses o gasglu data yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd gan yr ysgol a'r rhieni roedd hyn yn sialens ar brydiau.

Tabl 17 - Nifer o gyfranwyr yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref.

Ystod Oed	Iaith y Cartref			Cyfanswm Oed
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	
7;1-9;8	23	18	17	58
9;9-11;9	24	29	23	76
<b>Cyfanswm iaith</b>	<b>47</b>	<b>47</b>	<b>40</b>	<b>134</b>

Yn unol â'r canllawiau a nodir uchod rhannwyd y plant hefyd i ddau grŵp oed oedd yn cynnwys Grŵp Iau, sef plant o flynyddoedd 3 a 4, ystod oedran o 7;7 i 9;8 mlwydd oed, a Grŵp Hŷn, sef plant o flynyddoedd 5 a 6, ystod oedran 9;9 i 11;9 mlwydd oed.

#### 4.2.1.2 Cynllun Arbrolfol

Bwriad yr ymchwiliad oedd edrych ar sgiliau llafar ac ysgrifenedig y plant wrth ddefnyddio'r system ateb yn y Gymraeg. Roedd y profion a grëwyd yn cynnwys rhai cynhyrchiol a deallusol i'n galluogi i wahaniaethu rhwng gwybodaeth y plant o sut i ddefnyddio'r system ateb yn gywir a beth maent yn ei gynhyrchu ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Defnyddiwyd cynllun rhyng-gyfranwyr ar gyfer yr ymchwil yma i'n galluogi o'i gymharu perfformiad unigolion ar draws grwpiau. Ymchwil meintiol a geir yma sydd yn cyfrifo a chymharu'r sgorau a geir ar y profion fydd yn fy nghynorthwyo i gofnodi gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o hanfodion y system ateb yn y Gymraeg.

## 4.2.2 Dewis Profion

Defnyddiwyd ysgogiadau gweledol i brofi deallusrwydd yr unigolion o'r system ateb ac ysgogiadau ieithyddol i brofi eu sgiliau cynhyrchu. Felly crëwyd tri phrawf gwreiddiol ar gyfer yr ymchwil yma

**1 - Prawf Barnu ar Lafar**

**2 -Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig a**

**3 - Prawf Cynhyrchu Llafar**

Bwriadwyd, i gychwyn, brofi sgiliau ysgrifenedig a llafar pob plentyn ar brofion cynhyrchu a phrofion adnabod yr ateb cywir. Yn y diwedd, penderfynwyd profi eu sgiliau ysgrifenedig ar brofion cynhyrchu ateb yn unig. Credwyd bod y prawf barnu ar lafar yn profi eu sgiliau deallusol yn ddigonol ar gyfer anghenion yr ymchwil yma ac na fyddai prawf barnu dyblyg ar ffurf ysgrifenedig yn ychwanegu at y wybodaeth a gaed o'r profion eraill a grëwyd. Edrychwyd felly ar y gwahaniaeth a geir yn y nifer o gamgymeriadau a wnaed gan unigolion gwahanol yn ogystal â'r gwahaniaethau a geir yn y math o gamgymeriadau a wnaed gan unigolion penodol ar y tri phrawf.

## 4.2.3 Dewis Ysgogiadau (Stimiwli)<sup>9</sup>

Penderfynwyd y dylid mesur gallu plant ar eitemau cyffredin, sy'n ymddangos yn aml yn yr iaith. Canolbwyntiwyd yn benodol felly ar y ffurfiau ymateb yn ymwneud â'r ferf *bod*

---

<sup>9</sup> Rhoddir mwy o wybodaeth am yr ysgogiadau hyn yn y rhan dilynol sy'n edrych ar newidynnau a ciwiau yn benodol.

(Jones,1999). Defnyddiwyd ffurfiau adleisiol a di-adlais, gyda'r ffurfiau adleisiol yn cynnwys ffurfiau presennol, dyfodol, amherffaith ac amhendant (gweler Tabl 18) a'r rhai di-adlais yn cynnwys ffurfiau gorffennol perffaith (ymatebion *do/naddo* ac atebion i gwestiynau pwysleisiol (ymatebion *ie/nage*) (Tabl 19). Roedd y cwestiynau pwysleisiol hyn yn cynnwys trefn berf yn ail (cymysg) nid trefn berf yn gyntaf; brawddegau sy'n dechrau gydag *Ai/Onid* neu eiriau negyddol/berfau arddangosol e.e. *Nid/dyma*. Defnyddiwyd y drefn yma er mwyn ysgogi ymatebion penodol.

**Tabl 18 - Atebion adleisiol a ddefnyddiwyd yn y profion**

Person	Presennol		Dyfodol		Amherffaith		Amhendant(Presennol)	
	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog
1	Ydwyf/Ydw	Ydym/ /Yden	Bydda(f)	Byddwn/Byddan	Oeddwn	Oedden	Oes	Oes
2	Ydyw/Wyt	Ydych	Byddi	Byddwch	Oeddet	Oeddech	Oes	Oes
3	Ydwyt/Ydy	Ydyn(t)	Bydd	Byddan/Bydden	Oedd	Oedden	Oes	Oes
<b>Negyddol</b>	Na neu ...		Na neu ...		Na neu ...		Na neu ...	
1	Nac ydw	Nac ydym / Nadyd	Na f(y)dda	Na fyddwn /Na fyddan /	Nac oeddwn /	Nag Oedden /	Nac Oes	Nac Oes
2	Nac(g) wyt/	Nac(g) ydych /	Na f(y)ddi	Na fyddwch	Nac oeddet /	Nag oeddech	Nac Oes	Nac Oes
3	Nac(g) ydy	Nac (y)dynt	Na fydd /	Na fyddan(en)/ Na f(y)ddan(en)	Nac/Nag oedd	Nac oedden /	Nac Oes	Nac Oes

**Tabl 19 - Atebion di-adlais a ddefnyddiwyd yn y profion**

	Gorffennol perffaith	Cwestiwn pwysleisiol
<b>Cadarnhaol</b>	Do	le
<b>Negyddol</b>	Na/Naddo	Na/Nage/Naci

## 4.2.4 Dewis Newidynnau

Fel y nodwyd eisoes defnyddiwyd ffurfiau adleisiol a di-adlais o'r ferf *bod*. Nid oedd yr eitemau yn ystyried pob 'person' o fewn y ffurf ferfol honno – h.y. ni chafwyd eitem i brofi ffurf person 1af, 2il a 3ydd sydd un ai yn gadarnhaol neu'n negyddol ym mhob prawf.

Yn hytrach, lluniwyd eitemau yn ddibynnol ar 5 newidyn penodol. Roedd y newidynnau hynny yn cynnwys:

**1 – NEGYDDIAD YR ATEB** - Oedd yr ymateb a ddisgwyliwyd yn un CADARNHAOL (e.e. **Ydy**)

neu yn un NEGYDDOL (e.e. **Nac Ydy**).

**2 – CYFATEBIAETH** - Oedd y ferf a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn yn GYFATEBOL gyda'r ateb a

ddisgwyliwyd neu'n ANGHYFATEBOL h.y. ydy'r ymateb yn ailadrodd y ffurf yn

union neu a oes newidiadau mewn amser gramadegol, neu nodweddion

person neu rif (e.e. **Ydy = Ydy** yn gyfatebol neu **Wyt = Ydw** yn anghyatebol).

Mae'r ciw yma yn cysidro'r cyfatebiaeth i'r ateb bob tro. Fe all hyn gyfeirio at

y ferf, y tag neu'r ddau ar adegau (trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn yr

rhan dilynol).

**3 – CIW** - Sawl ciw a geir o fewn y cwestiwn a gynhigiwyd. Fe all y ciw fod yn ffurf berfol/

tag a ddefnyddiwyd neu drefn y frawddeg (di-adlais yn unig). Rhoddwyd un ai

1 neu 2 giw bob tro (e.e. 1 ciw **Ydy Sion yn hoffi coffi?** neu 2 giw **Ydy Sion yn**

**hoffi coffi, ydy?**).

**4 - CYWIR?** - Oedd yr ymateb a roddwyd yn y prawf yn GYWIR neu'n ANGHYWIR

(Prawf Barnu ar lafar yn unig)

**5 – NEGYDDIAD Y CWESTIWN** - Oedd y cwestiwn yn un CADARNHAOL neu yn un

NEGYDDOL.

Trafodir pob newidyn yn unigol gan gynnig esboniad llawn o'u defnydd mewn manylder yn y rhan dilynol.

#### **4.2.4.1 Newidyn 1 – Negyddiad yr Ateb**

Penderfynwyd geisio ysgogi (yn ôl y ffeithiau) ffurfiau ateb cadarnhaol a negyddol oddi wrth y plant. Ym mhob prawf, roedd hanner yr eitemau a ysgogwyd yn ymofyn atebion cadarnhaol a'r hanner arall yn ymofyn atebion negyddol.

##### **4.2.4.1.1 Prawf Barnu ar Lafar**

Yn y prawf barnu ar lafar, roedd gofyn i'r plentyn nodi os oedd yr ateb a glywodd yn gywir neu'n anghywir yng nghyd-destun (gramadegol) y cwestiwn penodol. Chwilio am adnabyddiaeth y plentyn o'r ffurf cywir, boed hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, yr oeddwn yma, felly nid oedd yn ofynnol nac yn angenrheidiol i'r plentyn wybod os oedd yr ymateb cadarnhaol neu negyddol yn cyd-fynd ag ystyr y datganiad – e.e. yn y prawf barnu ar lafar sy'n delio â'r ffurf bresennol *bod* gofynnodd cymeriad Fflur *Wyt ti'n hoffi siocled?*. Atebodd Rhys Ydw. Nid yw'n angenrheidiol (nac o reidrwydd yn bosib) gwybod os oedd Fflur yn hoffi siocled neu ddim, felly anogwyd y plant i ganolbwyntio ar gywirdeb y ffurf (yn yr achos yma un ai *Ydw* neu *Nac ydw*) yn hytrach na chywirdeb ffeithiol y datganiad ei hun (os yw Fflur, go iawn, yn hoffi siocled neu beidio – felly os oes angen ymateb cadarnhaol neu negyddol).

##### **4.2.4.1.2 Prawf Cynhyrchu ar Lafar**

Mae 'cyfeiriad' yr ymateb (+/-) yn fwy perthnasol yn nghyd-destun profion cynhyrchiol ysgrifenedig ac ar lafar, oherwydd bod yma ateb cadarnhaol neu negyddol amlwg i'w gael. Lluniwyd cwestiynau yn y prawf cynhyrchu ar lafar yn seiliedig ar stori a adroddwyd i'r plentyn felly roedd cywirdeb yr ateb yn amlwg o'r cyd-destun – e.e. wrth edrych ar lun o Dewin Dwl newydd ddeffro, gofynnwyd *Ai'r Dewin Dwl sydd newydd ddeffro?* Gan fod y Dewin wedi deffro, yr ymateb a geisiwyd ei ysgogi yma oedd *ie*. Wrth

ddarllen y stori gofynnwyd cwestiynau penodol i'r plentyn ar ddiwedd pob tudalen er mwyn sicrhau bod manylion y stori yn aros yn y cof. Felly gofynnwyd y cwestiwn uchod wedi darllen y canlynol, *Draw yn Tŷ'n Twll, roedd y Dewin Dwl newydd ddeffro. Doedd o ddim yn bwriadu gweithio'n galed o gwbl. Roedd o am fynd allan i chwarae gyda Rwdlan.* Gobeithiwyd felly ysgogi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn *Ai'r dewin dwl sydd newydd ddeffro'*, a nodwyd pa ffurf cadarnhaol a ddefnyddiodd y plentyn (gan nodi pa un ai bod y plentyn wedi cynhyrchu'r ffurf targed – *ia/ie* – neu beidio)(gweler Atodiad 10 am enghreifftiau pellach).

#### **4.2.4.1.3 Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig**

Yn yr un modd gyda'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig, lle roedd gofyn i'r unigolion ymateb ar ffurf ysgrifenedig i'r cwestiynau oedd yn seiliedig ar luniau gwahanol (1-5 cwestiwn ar gyfer bob llun), roedd ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn amlwg. Er enghraifft, wedi gweld llun eliffant (sydd efo trwnc) gofynnwyd *Oes gan yr eliffant yma drwnc?* a'r ateb cadarnhaol amlwg a geisiwyd ei ysgogi yn yr achos yma oedd *Oes*. Dilynwyd yr un patrwm wrth geisio ysgogi ymatebion negyddol e.e. *Does gan yr eliffant yma ddim pum coes, nac oes?* a'r ateb amlwg felly yw *Nac Oes* (gan mai pedair coes oedd gan yr eliffant yn y llun).

#### **4.2.4.1.4 Newidyn 1 – Sylwadau pellach**

Roeddwn wrth gwrs yn parhau i edrych yn bennaf ar y ffurf a ddefnyddiwyd wrth ymateb i'r cwestiwn a roddwyd, ond yn ogystal roedd gennyf ddiddordeb mewn darganfod os oedd unigolion yn fwy tebygol o ymateb gyda'r ffurf cadarnhaol cywir i gwestiwn cadarnhaol a'r ffurf negyddol cywir i gwestiwn negyddol nag oeddynt pan roedd gofyn cymysgu 'cyfeiriad' y cwestiwn. Er enghraifft, yn y prawf cynhyrchiol ar lafar, wedi darllen

rhan o stori, gofynnwyd cwestiwn negyddol *Dydy Rwdlan ddim eisiau bod yn gath, nac ydy?*

Yr ateb cywir (o ddeall cyd-destun y stori) a ysgogwyd yma oedd y ffurf gadarnhaol *ydy*.

Roedd y prawf hwn, felly, yn cynnig rhai cwestiynau cadarnhaol oedd yn ysgogi ymateb cadarnhaol, rhai negyddol oedd yn ysgogi ymateb negyddol, rhai cadarnhaol oedd yn ysgogi ymateb negyddol a rhai negyddol yn ysgogi ymatebion cadarnhaol. (Y bwriad, yn y bôn, oedd ceisio cynnwys y mathau o brofiadau ieithyddol y mae plant yn eu derbyn, a cheir nifer o sefyllfaoedd ble mae'r frawddeg ei hun yn gadarnhaol, ond yr ymateb yn negyddol, ayyb.) Wrth ymateb gyda *nac ydy* yma, defnyddir y ffurf gywir gan yr unigolion ond oherwydd eu bod, o bosib yn cymryd eu ciw o'r cwestiwn negyddol nid yw, yn ei hanfod, yn hollol gywir. Trafodir hyn ymhellach wrth drafod y profion yn unigol. Ar gyfer y newidyn hyn felly cysidrir os ydy atebion cadarnhaol yn cael eu caffael yn gynt nag atebion negyddol ac os ydy'r plant yn defnyddio'r mathau gwahanol o atebion negyddol neu ond yn defnyddio *Na* yn unig.

#### **4.2.4.2 Newidyn 2 – Cyfatebiaeth**

Mae'r newidyn hwn yn cynnwys eitemau sy'n ymofyn adleisio ffurf y ferf yn y cwestiwn neu eitemau sy'n ysgogi ffurf gwahanol i'r ferf a geir yn y cwestiwn – h.y. ydy'r ferf yn gyfatebol neu'n anghyfatebol gyda'r ateb a geisir ei hysgogi. Oherwydd bod hyn yn ddibynnol ar strwythur amserol a pherson y ferf, trafodir pob un yn unigol isod.

##### **4.2.4.2.1 Ffurfiâu Adleisiol o'r ferf 'bod'**

- Ffurf Bresennol

Yn y ffurf bresennol o'r ferf *bod* y ceir yr amrywiaeth ehanga yn yr ymatebion fel y nodwyd ym Mhennod 2 ac fel y cofnodir eto yn Nhabl 20 isod.

Tabl 20 - Ffuriau posib o ffurf presennol bod yn unig

Person	Presennol	
	Unigol	Lluosog
1	Ydw	Ydyn/Yden
2	Wyt	Ydych
3	Ydy	Ydyn(t)
Negyddol	Na neu ...	
1	Nac ydw	Nac ydym / Nadyn
2	Nac(g) wyt/	Nac(g) ydych /
3	Nac(g) ydy	Nac (y)dynt

Oherwydd yr amrywiaeth roedd posib cynnwys nifer o ffuriau cyfatebol ac anghyfatebol ymysg y profion; gweler esiamplau isod:

Eitemau Cyfatebol:

(69) Cwestiwn: **Ydy** Dafydd yn hoffi siocled?  
Bod.3U.PRES

Ateb cywir: **Ydy**  
Bod.3U.PRES

(Prawf barnu ar lafar)

(70) Cwestiwn: **Ydy** Rwdlan yn gweithio'n galed, **ydy**?  
Bod.3U.PRES X 2

Ateb cywir: **Ydy**  
Bod.3U.PRES

(Prawf Cynhyrchu llafar)

Eitemau Anghyfatebol:

(71) Cwestiwn: **Wyt** ti'n gallu gweld y mwnci yn neidio?  
Bod.2U.Pres

Ateb cywir: **Ydw**  
Bod.1U.Pres

(Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig)

(72) Cwestiwn: **Dydw** i a Fflur ddim am gael bara garlleg heno, nac **ydyn**?  
Bod.1S.Pres.Neg a Bod.1LL.Pres

Ateb cywir: **Ydych** Bod.2LL.Pres



(Prawf Barnu ar lafar)

Yr hyn a olygir gydag 'eitemau anghyfatebol' yw eitemau lle mae'r ciw a geir h.y. ffurf y ferf yn y cwestiwn, y tag neu trefn y frawddeg yn wahanol i'r union ffurf eiriol sydd ei angen fel ymateb (gweler esiamplau 71 a 72 uchod)<sup>10</sup>.

Mae'n werth nodi yma yn ogystal fod eitemau oedd yn ysgogi ateb negyddol lle rhaid ychwanegu *Nac* ar ddechrau'r ateb wedi eu trin yn yr un modd. Hynny yw, ni ystyriwyd ychwanegu *Nac* fel newid i ffurf yr ymateb felly'r ferf yn unig oedd yn pennu os oedd yr eitem a gynhyrchwyd gan y plentyn yn gyfatebol neu'n anghyfatebol – e.e.

Eitem Gyfatebol:

(73) Cwestiwn: **Ydy**'r mochyn yn denau, **ydy**?  
Bod.3U.PRES X 2

Ateb cywir: Nac **ydy**  
NEG Bod.3U.Pres

(Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig)

Eitem Anghyfatebol:

(74) Cwestiwn: **Wyt** ti'n meddwl bod y Dewin Dwl yn golchi dillad?  
Bod.2U.Pres

Ateb cywir: Nac **Ydw**  
NEG Bod.1U.Pres

(Prawf Cynhyrchu

Llafar)

Oherwydd mai'r unig newid a geir wrth lunio cwestiwn negyddol yw ychwanegu'r sŵn /d/ ar ôl y ferf sydd yn dechrau gyda llafariad (o ganlyniad i dalfyriad y negydd *nid*) e.e.

*Ydy = Dydy, Wyt = Dwyt* ayyb, ni ystyrir bod ychwanegiad y /d/ yn newid ffurf y ferf ac felly

---

<sup>10</sup> Ni wahaniaethwyd yr eitemau cyfatebol/anghyfatebol yn ôl y math o giw a roddir yn yr ymchwil hwn h.y. os y ceir un ai ciw berfol, tag neu trefn y frawddeg.

ddim yn ffurf anghyfatebol ynddo'i hun, er y'i defnyddir mewn eitemau anghyfatebol yn ogystal.

Eitem Gyfatebol:

(75) Cwestiwn: **Dydy'r Dewin Dwl ddim mewn yn y twb golchi?**  
Bod.3U.Pres.Neg

Ateb cywir: **Ydy**  
Bod.3U.Pres

(Prawf Cynhyrchu Llafar)

Eitem Anghyfatebol:

(76) Cwestiwn: **Dydw i ddim yn hoffi creision halen a finegr?**  
Bod.1U.Pres.Neg

Ateb: **Nac Wyt**  
Neg Bod.2U.Pres

(Prawf Barnu ar lafar)

Rhaid cofio hefyd bod modd ateb gyda *Na* yn unig wrth ateb yn negyddol gan hepgor yr angen i ychwanegu'r ferf o gwbl wrth ymateb (trafodir hyn mewn mwy o fanylder yn yr adrannau dilynol).

#### 4.2.4.2.2 Ffurfiâu Dyfodol ac Amherffaith

Trafodir ffurfiâu dyfodol ac amherffaith y ferf *bod* gyda'i gilydd oherwydd bod strwythur y ddwy ffurf yn debyg iawn. Nid yw ffurf ddechreuol y ferf (y gwreiddyn) yn newid o gwbl yn yr atebion a geir yn y ffurfiâu yma, ond yn hytrach nodir y person a'r nifer drwy ddefnyddio ôl-ddodiaid gwahanol. Adnabyddir y ffurf dyfodol drwy ddefnyddio'r gwreiddyn *Bydd* ac yn yr un modd defnyddir y gwreiddyn *Oedd* i ddynodi'r ffurf amherffaith (gweler Tabl 21).

Tabl 21 – Ffurfiâu dyfodol ac amherffaith o'r ferf bod

Person	Dyfodol		Amherffaith	
	Unigol	Lluosog	Unigol	Lluosog
1	Bydda(f)	Byddwn/Byddan	Oeddwn	Oedden

2	Byddi	Byddwch	Oeddet	Oeddech
3	Bydd	Byddan/Bydden	Oedd	Oedden
<b>Negyddol</b>	Na neu ...		Nac/g ...	
1	Na f(y)dda	Na fyddwn /Na fyddan /	Nac oeddwn	Nag Oedden
2	Na f(y)ddi	Na fyddwch	Nac oeddet	Nag oeddech
3	Na fydd /	Na fyddan(en)/ Na f(y)ddan(en)	Nac/Nag oedd	Nac oedden

Fel y nodir uchod y gwraidd sy'n cael ei ddefnyddio i ddynodi ffurf y 3ydd person unigol ymhob achos. Ceir newidiadau ar draws rhan fwyaf o'r ôl-ddodiaid eraill er y ceir terfynau tebyg ar gyfer ffurfiau dyfodol ac amherffaith wrth edrych ar y ffurfiau lluosog e.e.

Eitemau Cyfatebol:

(77) Cwestiwn: ***B/Fydd*** y Dewin Dwl ddim eisiau mynd allan i chwarae...?  
Bod.3U.Dyf

Ateb: ***B/Fydd***  
Bod.3U.Dyf

(Prawf cynhyrchu llafar)

(78) Cwestiwn: ***Doedd*** mam ddim yn hoffi gwisgo sbectol haul?  
Bod.3U.Amh.Neg

Ateb: ***Oedd***  
Bod.3U.Amh

(Prawf barnu ar lafar)

Eitemau Anghyfatebol:

(79) Cwestiwn: ***Oedd*** pawb arall yn hoffi gwisgo sbectol haul?  
Bod.3U.Amh

Ateb: ***Oedden***  
Bod.3LL.Amh

(Prawf barnu ar lafar)

(80) Cwestiwn: ***Fyddi*** di'n cystadlu yn yr eisteddfod eleni, ***byddi***?  
Bod.2U.Dyf x 2

Ateb: ***Bydda(f)***  
Bod.1U.Dyf

(Prawf barnu ar lafar)

(81) Cwestiwn: **Fyddan ni ddim yn llefaru mewn grŵp?**  
Bod.1LL.Dyf

Ateb: **Byddwch**  
Bod.2LL.Dyf

(Prawf barnu ar lafar)

(82) Cwestiwn: **Doeddech chi ddim yn hoffi'r tonnau mawr, nac oeddech?**  
Bod.2LL.Amh.Neg a NEG Bod.2LL.Amh

Ateb: **Oedden**  
Bod.1LL.Amh

(Prawf barnu ar lafar)

Fel y gweler o'r esiamplau a geir uchod, dim ond yn y prawf barnu ar lafar y ceir eitemau anghyfatebol o'r ffurfiau yma. Gwnaethpwyd hyn oherwydd nad yw strwythur y profion eraill yn caniatáu'r defnydd o rai eitemau penodol (esbonnir hyn ymhellach yn atodiad 11 sy'n manylu ar y broses o lunio'r profion). Fodd bynnag, oherwydd y defnydd o gymeriadau amrywiol yn y prawf barnu ar lafar gellid defnyddio llawer mwy o ffurfiau gwahanol gan ei fod yn haws cyfeirio at un ai unigolyn neu'r grŵp cyfan wrth lunio eitemau.

#### 4.2.4.2.3 *Ffurf amhendant*

Yn wahanol i'r ffurfiau adleisiol eraill a brofwyd, mae'r ymatebion posib yn y ffurf amhendant i'w weld yn gyson ac felly ar yr olwg gyntaf nid oes modd defnyddio eitem anghyfatebol yma ychwaith (gweler Tabl 22).

Tabl 22– Ffurfiau amhendant o'r ferf bod

	Amhendant
<b>Cadarnhaol</b>	Oes
<b>Negyddol</b>	Nac Oes

Eitemau Cyfatebol:

(83) Cwestiwn: **Oes gen ti feic coch?**  
Bod.3U.Amht

Ateb: **Oes**  
Bod.3U.Amht  
(Prawf Barnu ar lafar)

(84) Cwestiwn: **Does yna ddim ffarmwr yn y llun yma?**  
Bod.3U.Amht.Neg

Ateb: **Nac Oes**  
NEG Bod.3U.Amht  
(Prawf cynhyrchiol ysgrifenedig)

Fodd bynnag, defnyddir y ffurf amhendant yn aml i ymateb i gwestiynau sy'n cynnwys y ffurf enwol *eisiau* (mae ymateb pendant yn bosib hefyd) sy'n cynnig y posibilrwydd o greu eitem anghyfatebol. Yn ogystal mae yna dueddiad naturiol i ddiddymu neu golli rhan o synau sgysiol wrth siarad yn Gymraeg. Yn yr achos yma mae'n naturiol i ddefnyddio 's /s/ yn lle oes wrth ofyn cwestiwn amhendant mewn iaith sgysiol bob dydd.

Eitemau Anghyfatebol:

(85) Cwestiwn: **(Dwyt) ti 'm isio clywed stori ysbryd?**  
Bod.2U.Pres.Neg + eisiau

Ateb: **Nac Oes**  
NEG Bod.3U.Amht  
(Prawf barnu ar lafar)

(86) Cwestiwn: **'s gen y Dewin Dwl wialen bysgota?**  
Bod.3U.Amht

Ateb: **Oes**  
Bod.3U.Amht  
(Prawf cynhyrchu llafar)

Yn ychwanegol i'r posibiladau uchod mae posib cael eitem gyfatebol/anghyfatebol wrth ddefnyddio ffurf enwol *eisiau* neu eitem lle diddymwyd y ferf gychwynnol ac ychwanegu tag berfol ar y diwedd e.e.

Eitemau Cyfatebol/anghyfatebol:

- (87) Cwestiwn: (Wyt) *ti 'sio gwneud jig-so fory oes?*  
Bod.2U.Pres.Neg + eisiau + Bod.3U.Amh
- Ateb: Nac **Oes**  
NEG Bod.3U.Amht
- (Prawf Barnu ar lafar)
- (88) Cwestiwn: *'s na neb yn cadw llygad ar y Dewin Dwl, nac oes?*  
Bod.3U.Amh.Neg + NEG Bod.3U.Amht
- Ateb: **Oes**  
Bod.3U.Amht
- (Prawf cynhyrchu llafar)

Ni ddefnyddiwyd y ffurfiau Cyfatebol/Anghyfatebol nac ychwaith y ffurfiau Anghyfatebol wrth lunio'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig oherwydd mai mewn sgwrs naturiol yr ymddangosa'r eitemau yma ac felly nid ydynt yn ymddangos mewn ysgrifen ffurfiol ysgrifenedig.

#### 4.2.4.3 **Negyddu ffurfiau berfol**

Rhaid cofio hefyd bod ymatebion negyddol yn achosi un ai treigladd laes ar gytseiniaid dechreuol /k/, /p/, /t/, e.e. *Na Chawn (/x/)* yn lle *na cawn (/k/)* neu dreigladd meddal ar y cytseiniaid dechreuol /b/, /d/, /g/, /t/, /r./, /m/, - e.e. *Na fydd* yn lle *Na bydd* yn y ffurf dyfodol. Fodd bynnag oherwydd bod modd defnyddio'r geiryn *Na* yn unig wrth negyddu yn y Gymraeg, yn enwedig ar lafar, mae'r ymateb *Na* hefyd yn cael ei nodi fel ffurf gywir. Ond pan ddefnyddir y ffurf gyflawn sy'n cynnwys negyddyn + berf, mi fydd posib edrych a yw'r unigolyn yn defnyddio'r treigladd cywir *na fydd* yn hytrach na *Na bydd*.

Ymhob achos arall o'r berfau a brofwyd yn yr ymchwil yma y negyddyn *nac* a ddefnyddir o flaen y ferf yn y ffurf bresennol e.e. *nac ydy*, amherffaith *nac oedd* ac amhendant *nac oes*. Weithiau defnyddir *nag* yn lle *nac* neu fe geir achosion lle cywasgir yr ateb e.e. *nag dyn* yn lle *nac ydyn* ond ni wahaniaethir rhwng y ffurfiau yma gan fod y rhain yn ffurfiau naturiol ar lafar. Fe nodir y defnydd o ymatebion cywasgedig yn ysgrifenedig ond

oherwydd nad yw'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar sgiliau sillafu'r unigolion ni fydd hyn yn amharu ar gywirdeb yr ymatebion a roddir.

#### 4.2.4.4 *Ffuriau di-adlais*

##### 4.2.4.4.1 *Gorffennol Byr*

Tabl 23– Ffuriau di-adlais gorffennol perffaith

	Gorffennol perffaith
Cadarnhaol	Do
Negyddol	Na/Naddo

Defnyddir y ffurf gorffennol a geir yn nhabl 23 i ymateb i ffuriau gorffennol berfau megis *'rhoi'*, *'mynd'*, *gwneud*, *gweld* a *chael*. Gellir cael eitemau anghyfatebol (lle ceir ymateb i'r ferf) yn ogystal ag eitemau cyfatebol/anghyfatebol (lle ceir ymateb i'r ferf a'r ffurf tag ar ddiwedd y cwestiwn). Nid oes modd cael ffurf gyfatebol yn unig oherwydd bod rhaid cynnwys ffuriau berfol sy'n anghyfatebol e.e.

Eitemau Anghyfatebol:

(89) Cwestiwn: ***Wnes di weld hippopotamws byw fel hwn yn Tesco?***  
Gwneud.2U.Gorff

Ateb: ***Naddo***  
NEG

(Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig)

(90) Cwestiwn: ***Rhoddon nhw ddim mo'r Dewin Dwl ar y gwair i sychu?***  
Rhoi.3LL.Gorff

Ateb: ***Naddo***  
NEG

(Prawf Cynhyrchu llafar)

Eitemau Cyfatebol/Anghyfatebol:

(91) Cwestiwn: ***Ddois 'di ar dy feic bore 'ma, do?***  
Dod.2U.Gorff + wedi

Ateb: ***Do***

(Prawf barnu ar lafar)

(92) Cwestiwn: **Chafodd** Mursen y gath ddim gwneud campau ar ben y goeden, **naddo**?

Cael.3U.Gorff + NEG

Ateb: **Naddo**  
NEG

(Prawf Cynhyrchu llafar)

Nodir pan geir cwestiwn cadarnhaol ac roedd gofyn am ateb negyddol neu gwestiwn negyddol gydag ateb cadarnhaol, nid oedd modd cael ateb cyfatebol hyd yn oed os oedd 2 giw e.e.

Eitem Anghyfatebol:

(93) Cwestiwn: **Gefais** i ddim pysgodyn i de, **naddo**?  
Cael.1U.Dyf + NEG

Ateb: **Do**

(Prawf barnu ar lafar)

Fodd bynnag, ar adegau mae posib cael ateb cyfatebol os yw'r cwestiwn yn gadarnhaol a'r ateb yn negyddol neu os yw'r cwestiwn yn negyddol a'r ateb yn gadarnhaol e.e.

Eitem Posib:

(94) Cwestiwn: **Es** di ddim i'r dre neithiwr, **do**?  
Mynd.2U.Gorff + Do

Ateb: **Do**

Yn yr esiampl uchod mae'r cwestiwn yn un negyddol, ond fe ychwanegir tag cadarnhaol ar y diwedd, sydd yn ei gwneud yn eitem cyfatebol os atebir yn gadarnhaol gyda **do**. Ond oherwydd yr angen i gyfyngu ar y nifer o'r eitemau ni ddefnyddiwyd eitemau o'r math uchod (lle mae'r cwestiynau yn cynnwys elfennau cadarnhaol a negyddol) yn yr ymchwil hon.



#### 4.2.4.4.2 Cwestiynau pwysleisiol ac ati

Tabl 24 – Ffuriau di-adlais, cwestiynau pwysleisiol

	Cwestiwn pwysleisiol
<b>Cadarnhaol</b>	le
<b>Negyddol</b>	Na/Nage/Naci

Gellid cael eitemau cyfatebol, anghyfatebol a chyfatebol/anghyfatebol gyda'r ffurfiau a welir uchod yn nhabl 24.. Ond mae'r rheolau sy'n nodi sut a phryd y defnyddir yr eitemau hyn yn eithaf caeth e.e.

Eitem Gyfatebol:

(95) Cwestiwn: **Nage** Rhys sy'n hoffi Dr Who?  
NEG

Ateb: **Nage**  
NEG

(Prawf barnu ar lafar)

Gyda'r eitem uchod mae posib cael eitem gyfatebol gan fod modd strwythuro brawddeg i ddechrau gyda'r negyddyn/ymateb *Nage* yn ogystal â *Dim* pan ddefnyddir cwestiwn negyddol (ac mae'r ffurf a ddefnyddir yn dibynnu ar yr dafodiaith ac ardal i ryw raddau ac fe ddefnyddir yr esiampl uchod yn y de yn bennaf). Fodd bynnag pam y defnyddir cwestiwn cadarnhaol, rhaid defnyddio un ai *Ai* neu *Onid* i strwythuro'r cwestiwn, felly nid oes modd cael eitem gyfatebol pan geir cwestiwn cadarnhaol.

Eitem Anghyfatebol:

(96) Cwestiwn: **(Ai)** ti oedd yn chwarae yn y tŷ bach hefo mi?

Ateb: **le**

(Prawf barnu ar lafar)

Eitem Gyfatebol/Anghyfatebol:

(97) Cwestiwn: **Dim** ti gafodd feic newydd gan Siôn Corn, **nage?**'

Ateb: **Nage**

(Prawf barnu ar lafar)

Oherwydd y nifer o wahanol bosibiliadau a geir gyda'r newidyn hwn, cysidrwyd os ydy'r plentyn yn caffael un rhan o'r system yn gynharach na'r llall yn enwedig pan geir eitemau mwy cyson e.e. *ydw = wyt* yn anoddach i'w caffael na *oes=oes*

#### 4.2.4.5 ***Newidyn 3 – Ciw***

Nodai'r newidyn hwn sawl ciw a geir ymhob eitem. Rhoddwyd un ai 1 neu 2 giw bob tro. Roedd eitemau adleisiol yn cynnwys ciwiau berfol oedd un ai yn gyfatebol neu'n anghyfatebol. Er y defnyddir ciwiau berfol ar gyfer y ffurfiau di-adlais yn ogystal, roedd y ciw hefyd yn gallu cynnwys ffurf y frawddeg ar gyfer eitemau *ie/nage* yn unig e.e. brawddeg bwysleisiol *Dim y chdi bia'r jig-so mawr yna?*, lle y gellid defnyddio *dim, nage, onid*, neu *ai* ar ddechrau'r cwestiwn (er nad y ffurfiau hyn yw'r ciw defnyddir y ffurfiau hyn yn rhai o'r esiamplau isod i adnabod ciw sy'n ymwneud â threfn y frawddeg).

Eitem gyda 1 ciw cyfatebol:

(98) Cwestiwn: ***Oedd drws yr ogof yn gwichian?***  
Bod.3U.Amh

Ateb: ***Oedd***  
Bod.3U.Amh

(Prawf Cynhyrchu llafar)

Eitem gyda 1 ciw anghyfatebol:

(99) Cwestiwn: ***Wnaeth y ceffyl hwn neidio?***  
Gwneud.3U.Gorff

Ateb: ***Do***

(Prawf Cynhyrchu ysgrifenedig)

Eitem gyda 2 giw cyfatebol:

(100) Cwestiwn: ***Does gan y mwnci hwn ddim cynffon, nac oes?***  
Bod.3U.Pres.Neg + NEG Bod.3U.Pres

Ateb: ***Oes***  
Bod.3U.Pres

(Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig)

Eitem gyda 2 giw anghyfatebol:

(101) Cwestiwn: ***Dim y dŵr sy'n tasgu nage?***  
NEG X 2

Ateb: ***le***

(Prawf Cynhyrchu llafar)

Eitem gyda 1 ciw cyfatebol ac 1 ciw anghyfatebol:

(102) Cwestiwn: (Wyt) ti ***'sïo chware yn fy erbyn i rywdro, oes?***  
Bod.2U.Pres + eisiau Bod.3U.Pres

Ateb: ***Nac oes***  
NEG Bod.3U.Pres

Roedd y newidyn hwn yn cynnig ystyriaethau megis a ydy'r ciwiau a geir yn cynorthwyo'r plentyn wrth ymateb ac yn ysgogi ateb penodol; ydy'r defnydd o dag ar ddiwedd y cwestiwn yn eu cynorthwyo wrth ymateb ac sut mae cael dau giw cyfatebol neu rhai anghyfatebol yn effeithio ar berfformiad yr unigolyn ar y prawf.

#### **4.2.4.6 Newidyn 4 – Cywir**

Defnyddiwyd y newidyn hwn sy'n nodi a yw'r ymateb a roddwyd yn y prawf yn gywir neu'n anghywir, ar gyfer y prawf barnu ar lafar yn unig. Dim ond yn y prawf barnu ar lafar oedd angen i'r unigolion farnu a yw'r ateb hwnnw'n gywir ai peidio gan mai cynhyrchu'r ateb oedd angen yn y ddau brawf arall (prawf cynhyrchu ysgrifenedig a phrawf cynhyrchu llafar). Yn y prawf barnu ar lafar roedd hanner yr eitemau yn cynnwys eitemau cywir a'r hanner arall yn cynnwys eitemau anghywir. (Gweler yr esiamplau isod.)

Eitemau Cywir:

(103) Cwestiwn: ***Dydy Fflur ddim yn hoffi creision?***  
Bod.3U.Pres.Neg

Ateb: ***Nac ydy***  
NEG Bod.3U.Pres

(104) Cwestiwn: ***Fyddwn ni ddim yn mynd i'r ffair, na fyddwn?***

Bod.1LL.Dyf + NEG Bod.1LL.Dyf

Ateb: **Byddwn**  
Bod.1LL.Dyf

Eitemau Anghywir:

(105) Cwestiwn: **Oedden ni'n gynnes?**  
Bod.1LL.Amh

Ateb: **Oeddwn**  
Bod.1LL.Amh

(106) Cwestiwn: **Ai Dr Who ti'n hoffi fwyaf, ie?**  
*Ai + Ie*

Ateb: **Oes**  
Bod.3U.Pres

Mae'r newidyn yma ynghlwm â'r holl newidynnau eraill ac yn ymwneud â'r prif gwestiynau mae'r ymchwiler yn ceisio eu hateb megis sut mae'r mewnbwn a geir yn effeithio caffaeliad plant ifanc o elfennau gwahanol o'r system ateb yn y Gymraeg? Yn ogystal mae'n gofyn i ni ystyried ydy oed ac iaith y cartref yn cael effaith ar y nifer o eitemau cywir/anghywir a geir.

#### **4.2.4.6.1 Newidyn 5 – Negyddiad y Cwestiwn**

Y newidyn olaf a ddefnyddiwyd oedd os oedd yr eitem a ddefnyddiwyd yn cynnwys cwestiwn cadarnhaol neu gwestiwn negyddol. Roedd hanner y cwestiynau fel arfer yn rhai cadarnhaol a'r hanner arall yn rhai negyddol, nid oedd hyn yn bosib bob tro oherwydd nad oedd rheolau strwythuredig y profion unigol yn caniatáu pob enghraifft posib (trafodir hyn ymhellach wrth drafod anghenion pob prawf yn unigol yn atodiad 11).

Eitem gyda chwestiwn cadarnhaol:

(107) Cwestiwn: **Oedd Iwan yn hoffi seren y môr, oedd?**  
Bod.3U.Amh x 2

Ateb: **Nac oedd**

NEG Bod.3U.Amh

(Prawf barnu ar lafar)

Eitem gyda chwestiwn negyddol:

(108) Cwestiwn: ***Nid chwarae mae Rwdlan?***  
NEG

Ateb: ***Naci***  
NEG

(Prawf barnu ar lafar)

Fel y nodwyd wrth drafod y newidyn cyntaf, sef y newidyn Negyddiad yr ateb, defnyddiwyd y cwestiynau gwahanol er mwyn ein galluogi i gymharu os oedd unigolion yn ymateb yn wahanol i gwestiynau cadarnhaol o'i gymharu â chwestiynau negyddol. Felly, os yw'r cwestiwn yn negyddol/cadarnhaol ydy plentyn yn debygol o ymateb yn arddull y cwestiwn e.e. ateb negyddol i gwestiwn negyddol – hyd yn oed os yw hyn yn anghywir.

## 4.3 Y Profion

Yn seiliedig ar y 5 newidyn a restrir uchod (Negyddiad yr Ateb, Cyfatebiaeth, Ciw, Cywir a Negyddiad y Cwestiwn), cyfrifwyd y nifer o eitemau posib oedd eu hangen ar gyfer y profion gwahanol. Dechreuwyd gyda'r prawf barnu ar lafar, yna'r prawf ysgrifenedig ac yn olaf y prawf cynhyrchu ar lafar (ar gyfer esboniad pellach o'r broses o ddewis eitemau a'r rhesymau dros ddewis neu wrthod eitemau penodol gweler Atodiad 11).

### 4.3.1 Eitemau Rheoli

Defnyddiwyd eitemau rheoli i sicrhau dilysrwydd y prawf a'r eitemau a ddefnyddiwyd. Roedd cyfanswm o 64 eitem rheoli ar draws y profion (Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig, N=16; Prawf Cynhyrchu Llafar, N=8 a Phrawf Barnu ar lafar (lle y ceir 5 prawf gwahanol) , N(5x8)=40) (gweler rhestr gyflawn yn Atodiad 4). Disgwyliwyd y byddai'r plant

yn derbyn canran uwch o'r eitemau hyn yn gywir o' u gymharu â'r eitemau profi (oedd yn profi gwybodaeth am y system ateb). Gan fod y profion wedi eu creu yn unswydd ar gyfer yr ymchwil yma, roedd mesur effeithiolrwydd y prawf fel prawf o sgiliau iaith yn holl bwysig.

### 4.3.2 Prawf Barnu ar Lafar

Penderfynwyd llunio prawf barnu ar lafar ar ffurf stimiwli gweledol; roedd hyn yn fy nghaniatáu i greu amrywiaeth yn ffurf y profion ac yn y stimiwli a roddwyd i'r plant. Roedd y prawf yn cylchdroi o amgylch sgysiau tri chymeriad a grëwyd gan yr ymchwilydd sef Llio, Fflur a Rhys. Roedd pob sgwrs yn cynnwys eitemau a grëwyd yn seiliedig ar y pum newidyn a drafodwyd eisoes yn ogystal ag eitemau rheoli. Trafodwyd amrywiaeth eang o bynciau yn y sgysiau oedd wedi eu lleoli mewn 4 lleoliad gwahanol oedd yn cynnwys cegin, eisteddfod, traeth a'r parc (gweler esiampl yn Ffigwr 1). Roedd y brawddegau wedi eu recordio ac yn cyd-fynd gyda'r cymeriadau yn agor a chau eu cegau (manylyr ar y broses hon yn y man).

O fewn y prawf barnu ar lafar crëwyd pum prawf gwreiddiol gwahanol, gyda phob prawf yn canolbwyntio ar amser penodol o'r ferf *bod*; Prawf 1 - presennol (lleoliad - y gegin); Prawf 2 - dyfodol (lleoliad - yr eisteddfod); Prawf 3 - amherffaith (lleoliad - y traeth); Prawf 4 - amhendant a Phrawf 5 - ffurfiau di-adlais (lleoliad - y parc) (gweler Atodiad 5).



**Ffigwr 1 - Esiampl o'r hyn a welwyd ar y sgrin yn y prawf Barnu, yn y ffurf presennol o'r ffurf bod. Mae'r tri chymeriad yn eistedd o gwmpas y bwrdd yn y gegin yn trafod bwydydd gwahanol.**

### **4.3.2.1 Dewis Eitemau**

Defnyddiwyd 40 eitem ym mhob prawf (44 yn y ffurf di-adlais). Roedd hyn yn cynnwys 32 o eitemau profi (36 yn y ffurf di-adlais) ac 8 eitem rheoli. Felly roedd cyfanswm o 204 o eitemau (164 o eitemau profi a 40 eitem rheoli). Lluniwyd sgrïpt gwahanol ar gyfer pob prawf (Atodiad 6) oedd yn dilyn y canllawiau a grëwyd ar gyfer pob eitem unigol. Defnyddiwyd yr un eitemau i lunio ffurfiau presennol, dyfodol ac amherffaith gyda rhai ychydig yn wahanol ar gyfer ffurf amhendant ac di-adlais (gweler tabl 25). Roedd rhaid defnyddio eitemau gwahanol gan nad oedd rhai eitemau yn bosib bob tro (gweler atodiad 11 ar gyfer rhestr lawn o bob eitem posib).

Tabl 25 - Y nifer o'r pum math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cywir, Cwestiwn) a geir yn y prawf barnu ar lafar yn ôl ffurf y ferf (Ffurff Presennol, Dyfodol ac Amherffaith, N=32\*3=96; Amhendant, N=32 a Di-adlais, N=36 = Cyfanswm o N=164).

Prawf Barnu ar Lafar						
Newidyn		Nifer o bob un math o newidyn yn ôl ffurf y ferf				
Math		Ffurff Presennol/ Dyfodol/Amherffaith N=32*3 = 96	Amhendant N=32	Di-adlais N=36		Cyfanswm -Di-adlais
				ie/Nage	Do/Naddo	
Ateb	Cadarnhaol	16	16	8	8	16
	Negyddol	16	16	12	8	20
Berf	Cyfatebol	16	16	4	0	4
	Anghyfatebol	16	8	12	12	24
	Cyfatebol/Anghyfatebol	0	8	4	4	8
Ciw	1 Ciw	16	16	10	8	18
	2 giw	16	16	10	8	18
Cywir	Cywir	16	16	10	8	18
	Anghywir	16	16	10	8	18
Cwestiwn	Cadarnhaol	16	16	8	8	16
	Negyddol	16	16	12	8	20

#### 4.3.2.2 Recordio a chodio'r eitemau

Roedd pob eitem yn cynnwys cwestiwn ac ateb ac fe grëwyd cod unigryw ar gyfer pob un. Roedd hyn yn angenrheidiol wrth greu strwythur i'r prawf y gellid cael ei adnabod a'i dilyn gan raglen gyfrifiadurol e.e. Q01R00C09T, R01F00C09T ayyb. Rhoddir esboniad o'r cod cyflawn a ddefnyddiwyd ar gyfer hyn yn y tabl isod (tabl 26) a gellir gweld y rhestr gyflawn o godau yn Atodiad 7.

Tabl 26 - Allwedd i'r codau a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhaglen gyfrifiadurol

Allwedd i'r codau		
Llythyren 1af	Q	(Question) Cwestiwn
	R	(Response) Ateb
Llythrennau 2 a 3	1-40	Rhif y Cwestiwn/Ateb o 1-40 (e.e. 01, 02,14 ayyb)
Llythyren 4	R/F/L	Y cymeriad sy'n siarad (un ai'n gofyn neu'n ateb) R = Rhys F = Fflur L = Llio
Llythrennau 5 a 6	R/F/L	Y cymeriad a gyfeirir atynt yn y cwestiwn (os o gwbl neu sy'n cyfeirio at fwy na un): OR = Rhys                    neu: RF,RL,FL,LR OF = Fflur                    AA = POB CYMERIAD OL = Llio OO = Neb



<b>Llythyren 7</b>	C	(Correct) Cywir
	I	(Incorrect) Anghywir
<b>Llythrennau 8 a 9</b>	1-32	Cod yr eitem (defnyddir 00 mewn eitemau rheoli) e.e. 01, 12 ayyb
<b>Llythyren 10</b>	T	(Test) Eitem Brofi
	C	(Control) Eitem Rheoli

Yn ogystal penderfynwyd ychwanegu codau lle gellid cael y cymeriadau yn gwneud symudiadau penodol i gyd-fynd a'r eitemau megis ysgwyd pen (gweler tabl 27).

**Tabl 27– Allwedd ar gyfer codio symudiadau'r cymeriadau yn y prawf Barnu ar Lafar.**

<b>Allwedd i'r codau</b>		
<b>Llythyren 1af</b>	F	Fflur
<b>2il lythyren</b>	T	(Talk) Siarad
	N	(Nod) Amneidio
	S	(Shake) Ysgwyd y pen
	X	DIM BYD
<b>3ydd llythyren</b>	R	Rhys
<b>4ydd llythyren</b>	T	(Talk) Siarad
	N	(Nod) Amneidio
	S	(Shake) Ysgwyd y pen
	X	DIM BYD
<b>5ed lythyren</b>	L	Llio
<b>6ed llythyren</b>	T	(Talk) Siarad
	N	(Nod) Amneidio
	S	(Shake) Ysgwyd y pen
	X	DIM BYD

Felly roedd cod cyflawn yn edrych rhywbeth tebyg i hyn: Q01R00C09T-FNRTLN neu R01F00C09T-FTRXLX ayyb. Roedd rhaid i'r eitemau – h.y. y cwestiynau a'r atebion cywir – ymddangos gyda'i gilydd yn y drefn gywir wrth wneud y prawf ac felly roedd y broses o godio yn hollbwysig. Recordiwyd y cwestiynau a'r atebion ar wahân gan eu codio yn dilyn y tablau uchod. Yna cyfunwyd y synau hyn gyda'r lluniau a grëwyd o'r cymeriadau mewn lleoliadau gwahanol. Cyn dechrau'r prawf terfynol roedd rhaid i bob unigolyn nodi ei enw ar sgrin gychwynnol i'r ymchwilydd allu adnabod eu canlyniadau (Ffigur 2).



**Ffigwr 2 - Enghraifft o'r tudalen cyntaf lle mae'r unigolyn yn nodi ei h/enw a'r ddechrau'r prawf.**

Wedi i'r cwestiwn a'r ateb gael ei ynganu gan y cymeriadau fe ymddangosodd botymau gwahanol ar y sgrin: wyneb hapus i ddynodi ateb cywir; wyneb anghywir i nodi ateb anghywir; a botwm ar y gwaelod i alluogi'r unigolion i wrando eto ar y cyfuniad o gwestiwn ac ateb os oedd angen (Ffigwr 3).



**Ffigwr 3 - Enghraifft o'r botymau sy'n ymddangos wedi pob cyfuniad o gwestiwn ac ateb a gafwyd yn y prawf Barnu. Yma gweler llun o'r prawf ffurf dyfodol a leolir yn yr eisteddfod.**

Wedi i'r unigolyn gwblhau'r prawf roedd y canlyniadau yn cael eu recordio'n gyfrifiadurol mewn ffeil pwrpasol o fewn y prawf.

### 4.3.2.3 *Dull cynnal y prawf*

Roedd y prawf yn ei gyfanrwydd yn profi dealltwriaeth yr unigolyn o ffurfiau presennol o'r ferf *bod* yn ogystal â phrawf ychwanegol oedd yn edrych ar ymatebion diadlais. Roedd yr holl brofion yn cymryd oddeutu 5 munud yr un i'w cwblhau (oddeutu 25-30 munud yn gyfan gwbl yn cynnwys ymarfer). Dilynwyd y drefn ganlynol gyda'r unigolion oedd yn cwblhau'r prawf.

Gofynnwyd ar y dechrau os oeddynt yn fodlon i wneud ychydig o brofion syml ar y cyfrifiadur gyda mi. Wedi iddynt gytuno, gwnaethpwyd yn siŵr eu bod yn gysurus ac yn canolbwyntio ar yr hyn oedd angen ei wneud. Os oedd yr unigolyn yn barod i barhau â'r prawf rhoddwyd y cyfarwyddiadau canlynol iddynt.

*Rydyn ni am wneud prawf syml ar y cyfrifiadur. Rwyd ti'n mynd i weld tri chymeriad ar y sgrin sy'n sgwrsio â'i gilydd, mae 'na rai cymeriadau yn gofyn cwestiynau a'r lleill yn ateb cwestiynau. Felly be dw i eisiau i ti ddweud wrtha i ydy os ydy'r atebion sy'n cael ei rhoi gan y cymeriadau hyn yn gywir neu yn anghywir, iawn?*

Wedi'r esboniad, dechreuodd y prawf ymarfer. Rhoddodd yr unigolyn ei h/enw ar y dudalen gyntaf ac yna esboniwyd bod angen pwysu'r botwm hapus ar gyfer ateb cywir, y botwm anhapus ar gyfer ateb anghywir a'r botwm gwaelod os oeddynt am wrando ar y cwestiwn a'r ateb unwaith eto. Aethpwyd drwy'r 10 cwestiwn ymarfer (Atodiad 8) oedd yn cynnwys enghreifftiau o'r ffurfiau berfol a ddefnyddiwyd yn y profion terfynol. Os oeddynt yn edrych yn ansicr, neu ddim yn deall y cyfarwyddiadau fe ailadroddwyd y cyfarwyddiadau unwaith eto gan bwysleisio mai edrych am y defnydd o'r ffurf gywir yr oeddwn yma.

Er mwyn cadw diddordeb yr unigolion a'r amser a gymerwyd i gwblhau'r prawf yn ei gyfanrwydd (30 munud) fe holltwyd y profion yn dair rhan ac fe gwblhawyd profion eraill

rhwng y rhannau gwahanol o'r prawf. Felly wedi cwblhau'r ymarfer dilynwyd drefn tebyg i'r dilynol:

- dau brawf barnu ar lafar (ceisiwyd amrywio'r drefn gymaint â phosib);
- y prawf geirfa Saesneg (BPVS);
- dau brawf barnu ar lafar;
- y prawf cynhyrchu llafar
- a'r prawf barnu ar lafar olaf i orffen.

#### **4.3.2.4 Problemau wrth gynnal y profion Barnu**

Weithiau roedd rhai unigolion yn dueddol o ymateb i'r cwestiwn mewn modd llythrennol yn hytrach na chanolbwyntio ar ffurf yr ateb – e.e. *Mae hi'n braf heddiw, yn dydy?* lle ysgogwyd yr ateb *ydy*. Yn yr achos yma nid oedd rhai unigolion yn cytuno gyda'r ateb gan nad oedden nhw'n credu ei fod yn ddiwrnod braf yn y darlun ar y sgrin ac felly yn nodi bod yr ateb yn anghywir. Fodd bynnag, nid oedd y prawf hwn yn edrych ar gytundeb rhwng yr hyn a wneir a'r ateb – amodau gwirionedd (er fod y cymeriadau i'w gweld yn cytuno neu yn anghytuno gyda'r sylwad drwy'r defnydd o ysgwyd neu amneidio pen – gweler tabl 27). Ond, os oedd hyn yn parhau i achosi penbleth i'r plentyn, roedd rhaid esbonio i beidio â chymryd sylw o'r hyn oedd yn digwydd yn y cefndir ac iddynt edrych a gwrando ar y sgwrs rhwng y cymeriadau yn unig wrth benderfynu os defnyddir y ffurf gywir wrth ymateb.

Yn ogystal roedd rhai yn nodi bod ateb cadarnhaol yn gywir bob tro ac ateb negyddol yn anghywir. Unwaith eto fe esboniwyd beth oedd ei angen ac iddynt ganolbwyntio ar benderfynu a ddefnyddir y ffurf gywir wrth ymateb. Roedd y mwyafrif o'r unigolion wedi

deall anghenion y prawf erbyn diwedd yr ymarfer ond os oeddynt yn parhau i gael trafferthion fe aethpwyd a hwy drwy'r ymarfer unwaith eto.

### 4.3.3 Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig

Lluniwyd prawf cynhyrchu ysgrifenedig er mwyn galluogi'r ymchwilydd i weld a oedd gwahaniaeth rhwng beth allai'r unigolion gynhyrchu ar lafar (y prawf cynhyrchu llafar) ac yn ysgrifenedig. Defnyddiwyd cyfanswm o 19 o luniau o anifeiliaid gwahanol ar gyfer y prawf hwn ac fe seiliwyd yr eitemau unigol ar y lluniau hyn. Crëwyd rhestr o gwestiynau perthnasol y gellid eu hateb gyda chymorth y lluniau, ac roedd rhwng 1 a 5 cwestiwn i gyd-fynd gyda phob llun. Gellir gweld enghraifft isod (Ffigwr 4), a cheir esiamplau o'r holl luniau a chwestiynau a ddefnyddiwyd yn Atodiad 9.



**Ffigwr 4 - Esiampl o lun o'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig. Rhoddwyd cefndir pwrpasol i gyd-fynd gyda phob llun. Yma nodwyd 'Mae'r eliffant yma wedi neidio i mewn i'r dŵr'.**

I gyd-fynd â'r llun uchod lluniwyd y cwestiynau canlynol:

*Oes gan yr eliffant yma drwnc?*

*Does gan yr eliffant yma ddim pum coes, nac oes?*

*Beth mae'r eliffant yma yn ei wneud?*

*Oes gan yr eliffant gyrn pinc?*

### 4.3.3.1 Dewis eitemau

Yn wahanol i'r prawf barnu ar lafar, dim ond 4 newidyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf hwn sef, Negyddiad yr Ateb, Cyfatebiaeth, Ciw, a Negyddiad y Cwestiwn. Ni ddefnyddiwyd y newidyn 'cywir' yma gan fod rhaid i'r unigolyn gynhyrchu'r ateb (cywir neu anghywir) eu hunain. Oherwydd bod llai o newidynnau i'w cael yma mae'r nifer posib o eitemau y gellid eu defnyddio wedi ei haneru i 20 (gweler tabl 28). Yn y prawf terfynol felly defnyddiwyd 83 eitem oedd yn cynnwys 54 o eitemau profi, 13 eitem ymarfer ac 16 o eitemau rheoli. Unwaith eto trafodir sut y dewiswyd yr eitemau hyn mewn manylder yn Atodiad 11.

Tabl 28 – Y nifer o eitemau profi a geir o'r pedwar math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cwestiwn) a geir yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn ôl ffurf y ferf (Ffurf Presennol, N=16; Dyfodol, Amherffaith ac Amhendant, N=8\*3 = 24 a Di-adlais, N=14)

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig						
Newidyn		Nifer o bob un math o newidyn yn ôl ffurf y ferf				
Math		Presennol N=16	Dyfodol, Amherffaith, Amhendant N=8x3=24	Di-adlais N=13		Cyfanswm -Di-adlais
				ie/Nage	Do/Naddo	
Ateb	Cadarnhaol	8	4	3	3	6
	Negyddol	8	4	4	3	7
Berf	Cyfatebol	8	8	0	1	1
	Anghyfatebol	8	0	4	4	8
	Cyfatebol/Anghyfatebol	0	0	2	2	4
Ciw	1 Ciw	8	4	5	4	9
	2 giw	8	4	2	2	4
Cwestiwn	Cadarnhaol	8	4	2	2	4
	Negyddol	8	4	5	4	9

### 4.3.3.2 Dull cynnal y prawf

Yn wahanol i'r profion eraill (prawf barnu ar lafar a phrawf cynhyrchu ar lafar) gan nad oedd angen i'r unigolion ynganu eu hatebion ar lafar roedd posib rhoi'r prawf iddynt gwblhau mewn grŵp. Rhoddwyd y prawf terfynol i bob unigolyn (gweler Atodiad 9) a

gofynnwyd iddynt ysgrifennu eu henwau ar ben y dudalen er mwyn i'r ymchwilydd gael sgorio eu gwaith. Esboniwyd i'r grŵp bod angen iddynt lenwi'r bylchau ar ôl bob cwestiwn. Dechreuwyd gyda'r cwestiynau ymarfer (Ffigwr 5) lle'r oedd yr ymchwilydd yn ynganu'r cwestiynau yn uchel a gofyn i bawb beth oedd yr ateb cyn iddynt ysgrifennu'r ateb cywir yn y blwch perthnasol.



**Ffigwr 5 - Y llun a rhai o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr eitemau ymarfer yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig.**

Wyt ti'n hoffi'r llun yma?

---

Ydy'r panda ddim yn ddu a gwyn, nac ydy?

---

Ydy'r teigr yn sefyll ar ei draed?

---

Ai'r Jiráff sy'n sefyll y tu ôl i'r teigr?

---

Gwnaethpwyd hyn ar gyfer y cwestiynau cyntaf nes bod yr ymchwilydd yn siŵr bod pawb wedi deall beth oedd gofynion y prawf. Erbyn diwedd yr ymarfer, ac os oedd yr ymchwilydd yn siŵr bod pawb yn dilyn y cyfarwyddiadau yn gywir, roedd yr ymchwilydd yn gallu dweud wrth y grŵp i barhau gyda gweddill y prawf yn dawel gan ysgrifennu'r atebion yn y blychau.

Oherwydd bod rhaid cael sgiliau darllen Cymraeg eithaf da ar gyfer cwblhau'r dasg yma, roedd yr amser a gymerwyd i gwblhau'r prawf yn amrywio o un plentyn i'r llall. Yn aml roedd y plant ym mlynnyddoedd 3 a 4 yn cymryd fwy o amser na phlant o flynyddoedd 5 a 6. Yn ogystal roedd rhai plant yn fwy gofalus nag eraill a rhai yn cael trafferth wrth ddarllen rhai darnau o'r prawf. Ond fel arfer roedd yn cymryd oddeutu 20-25 munud iddynt gwblhau'r prawf. Wedi i'r prawf ddod i ben roedd yr unigolyn yn rhydd i fynd yn ôl i'r dosbarth neu i barhau gyda phrawf arall.

### 4.3.4 Prawf Cynhyrchu Llafar

Yn debyg i'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig, dim ond pedwar newidyn a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf hwn yn ogystal sef, Negyddiad yr Ateb, Cyfatebiaeth, Ciw, a Negyddiad y Cwestiwn. Ni ddefnyddiwyd y newidyn 'cywir' unwaith eto gan fod rhaid i'r unigolyn gynhyrchu'r ateb (cywir neu anghywir) eu hunain. Oherwydd hyn defnyddiwyd yr un cyfanswm o 20 o eitemau posib a gafwyd ar gyfer y prawf ysgrifenedig (gweler tabl 29). Yn y prawf cynhyrchu llafar terfynol defnyddiwyd 74 eitem, oedd yn cynnwys 66 o eitemau profi, ac 8 o eitemau rheoli.

Tabl 29 – Y nifer o'r pedwar math gwahanol o newidynnau (Ateb, Berf, Ciw, Cwestiwn) a geir yn y prawf cynhyrchu llafar yn ôl ffurf y ferf (Ffurf Presennol, N=16, Dyfodol ac Amherffaith, N=8\*2 = 16; Amhendant, N=16 a Di-adlais, N=18 Cyfanswm o N=66).

		Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig					
Newidyn		Nifer o bob un math o newidyn yn ôl ffurf y ferf					
Math		Presennol N=16	Dyfodol, Amherffaith, N=8*2=16	Amhendant N = 16	Di-adlais N=18		Cyfanswm -Di-adlais
					ie/Nage	Do/Naddo	
Ateb	Cadarnhaol	8	4	8	4	4	8
	Negyddol	8	4	8	6	4	10
Berf	Cyfatebol	8	8	6	2	0	2
	Anghyfatebol	8	0	6	6	6	12
	Cyfatebol/Anghyfatebol	0	0	4	2	2	4
Ciw	1 Ciw	8	4	8	5	4	9
	2 giw	8	4	8	5	4	9



<b>Cwestiwn</b>	Cadarnhaol	8	4	8	3	7	10
	Negyddol	8	4	8	3	5	8

Seiliwyd yr eitemau ar gyfer y prawf hwn ar y llyfr *Diwrnod Golchi* gan Angharad Tomos. Cynhaliwyd y prawf yn unigol gyda phob unigolyn ac wedi darllen un tudalen gyda hwy gofynnwyd iddynt ateb rhwng 3 a 5 cwestiwn am yr hyn oedd yn digwydd ar y dudalen honno, e.e.

Tudalen 6:

*Draw yn Tŷ'n Twll, roedd y Dewin Dwl newydd ddeffro. Doedd o ddim yn bwriadu gweithio'n galed o gwbl. Roedd o am fynd allan i chwarae gyda Rwdlan.*

Cwestiynau a'r atebion a ysgogir:

*Ai'r Dewin Dwl sydd newydd ddeffro?* (Ie)

*Oedd y Dewin Dwl yn bwriadu gweithio'n galed?* (Nac Oedd)

*Fydd y Dewin Dwl ddim eisiau mynd allan i chwarae gyda Rwdlan?* (Bydd)

Yn ogystal roedd llun i'w gael ar bob tudalen gyfochrog (tudalen 7 yn yr esiampl uchod) i gyd-fynd â'r geiriau (gweler Atodiad 10). Unwaith eto nid oedd modd defnyddio'r holl eitemau ar gyfer pob ffurf berfol a brofwyd, ac felly nodir sut y gwahaniaethwyd rhwng y ffurfiau ym Atodiad 11.

#### **4.3.4.1 Dull gweinyddu'r prawf**

Fe gyflwynwyd y llyfr *Diwrnod Golchi* i'r unigolion a gofyn a oeddynt yn fodlon cyddarllen y llyfr gyda mi. Roedd y mwyafrif eisoes wedi darllen y llyfr pan oeddynt yn iau, ac eraill yn gyfarwydd â chyfres yr awdures Angharad Tomos am Wlad y Rwla. Nid oedd y ffaith eu bod eisoes wedi darllen peth o'r gyfres neu'r llyfr yn hanfodol, ond mi roedd hyn eu cynorthwyo gan eu bod yn ymdrin â rhywbeth cyfarwydd. Os oedd yr unigolion yn fodlon parhau â'r prawf fe nodwyd ei (h)enw ar ben taflen ateb a lenwyd gan yr ymchwilydd. Yna fe

esboniwyd y bydd gofyn iddynt ateb cwestiynau ar bob tudalen wrth i'r stori fynd rhagddi. Gan eu bod eisoes wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i gwblhau'r prawf barnu ar lafar, roedd posib cyfeirio at y prawf a'u gwneud yn ymwybodol o'r math o ymatebion roedd eu hangen – e.e. *Rhywbeth tebyg i'r hyn ti wedi gwneud eisoes*. Nodwyd hefyd mae un ateb cryno o un gair oedd ei angen wrth ateb y cwestiynau.

Dechreuwyd y prawf drwy adrodd teitl y llyfr ac yna aethpwyd ati i ddarllen tudalen gyntaf y stori. Wedi gorffen y dudalen gyntaf gofynnwyd rhestr o gwestiynau (rhwng 3 a 5 mewn nifer) i'r unigolion ar yr hyn oedd yn digwydd ar y dudalen honno. Os nad oedd yr unigolyn wedi deall y cwestiwn neu ddim yn siŵr o'r ateb, roedd posib ailadrodd y cwestiwn a chyfeirio yn ôl un ai at y stori neu at y llun cyfochrog oedd yn cyd-fynd â'r stori. Roedd yr ymchwilydd yn nodi'r ymatebion a roddwyd gan yr unigolion ar y daflen ateb yn y blychau pwrpasol. Wedi i'r unigolyn ateb y cwestiynau oedd yn ymwneud â'r dudalen gyntaf aethpwyd ymlaen i'r nesaf, ac roedd y patrwm yma yn parhau hyd ddiwedd y stori. Pan ddaeth y stori i'r ben diolchais i'r unigolyn am fy nghynorthwyo i ddarllen y llyfr ac ateb y cwestiynau ac aethpwyd ymlaen i gwblhau prawf arall.

### 4.3.5 Profion ychwanegol

Defnyddiwyd profion eraill o sgiliau iaith y plant er mwyn rheoli hygrededd y sampl a ddefnyddiwyd. Profwyd cyniferydd deallusrwydd pob unigolyn drwy ddefnyddio *Standard Progressive Matrices* neu *Ravens* (Raven, Raven a Court, 1998); eu storfa geirfa Cymraeg drwy ddefnyddio *Y Prawf Geirfa Cymraeg* (Gathercole a Thomas, 2007); a'u storfa o eiriau Saesneg drwy ddefnyddio'r *British Picture Vocabulary Scale: Second Edition* neu *BPVS* (Dunn, Dunn, Whetton a Burley, 1997).

Gweinyddwyd y profion hyn yn unol â'r canllawiau a roddwyd yn y profion unigol ac fe'u gwnaethpwyd un ai yn unigol yn achos y *BPVS* neu fel grŵp yn achos *Y Prawf Geirfa Cymraeg a'r Ravens*. Roedd y profion geirfa (*BPVS* a'r *Prawf Geirfa Cymraeg*) yn cymryd oddeutu 15 munud i'w cwblhau un ai yn unigol neu mewn grŵp. Ond roedd y prawf cyniferydd deallusrwydd yn gallu cymryd rhwng 20 a 30 munud i'w gwblhau gan fod yr amser a gymerwyd i gwblhau'r prawf yn amrywio o unigolyn i unigolyn.

#### **4.3.5.1 Profion Geirfa**

Roedd y profion geirfa yn profi adnabyddiaeth plant o eiriau. Dangoswyd sleidiau ac arnynt bedwar llun bob tro. Ynganodd yr ymchwilydd air i gyd-fynd â phob sleid (yn Saesneg ar gyfer y *BPVS* ac yn Gymraeg ar gyfer y *Prawf Geirfa Cymraeg*). Tasg y plentyn oedd i ddweud pa lun oedd yn cyd-fynd orau gyda'r gair bob tro.

#### **4.3.5.2 Prawf Cyniferydd Deallusrwydd**

Roedd y prawf *Raven's* yn ymofyn sgiliau rhesymegu. Dangoswyd i'r plant gyfres o 60 patrwm, un i bob tudalen. Roedd un darn bach o'r patrwm ar goll bob tro. O dan y patrwm, roedd chwe darn bach ac arnynt wahanol batrymau, ond dim ond un o'r darnau bach oedd yn cyfateb i'r patrwm. Tasg y plentyn oedd dewis pa un o'r darnau bach oedd y darn coll a fyddai'n cwblhau'r patrwm.

### **4.3.6 Trefn profi terfynol**

Yn gyfan gwbl roedd pob unigolyn yn treulio oddeutu awr gyda'r ymchwilydd yn unigol. Yn y cyfnod yma roedd yr unigolyn yn cwblhau y prawf barnu ar lafar, y prawf cynhyrchu ar lafar yn o gystal â'r *BPVS*. Fel arfer dilynwyd y drefn ganlynol:

- Ymarfer y *Prawf Barnu ar lafar* gyda dwy ffurf o'r prawf i ddilyn.
- *BPVS*

- Dwy ffurf bellach o'r *Prawf Barnu ar lafar*
- *Prawf Cynhyrchu ar Lafar*
- Un ffurf olaf o'r *Prawf Barnu ar lafar*

Amrywiwyd ffurfiau'r *Prawf Barnu ar Lafar* er mwyn sicrhau cydbwysedd.

Yn ogystal, roedd pob unigolyn yn cymryd rhan mewn gwaith grŵp oedd yn cymryd oddeutu awr a 15 munud i'w gwblhau. Roedd y gwaith grŵp yn cynnwys *Y Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig* (20-25 munud), *Y Prawf Geirfa Cymraeg* (15 munud) a'r *Ravens* (20-30 munud). Roedd y drefn profi yn gallu amrywio gan nad oedd hyn yn amharu a'r ganlyniadau'r profion. Fodd bynnag roedd y profion yn dueddol o ddechrau gyda'r *Prawf Geirfa Cymraeg* gan fod y prawf hwn yn cynnwys strwythur penodol sydd rhaid i bob unigolyn ei gwblhau ar yr un pryd. Yna aethpwyd ymlaen i gynnal *Y Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig* a'r *Ravens* gan fod pob unigolyn yn cwblhau'r rhain yn unigol ac felly yn gorffen ar adegau gwahanol. Wedi i'r unigolion gwblhau'r holl brofion, un ai yn unigol neu fel grŵp, diolchwyd iddynt am eu cymorth ac aethant i gyd yn ôl i'w gwersi.

## 4.4 I Gloi

Yn y bennod hon trafodwyd y methodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil hwn. Yn Atodiad 11 disgrifir mewn manylder y broses hir o ddewis a dethol eitemau penodol ar gyfer y profion newydd a ddyfeisiwyd ar gyfer mesur dealltwriaeth plant o'r system ateb yn y Gymraeg. Ym mhenodau 5-9 adroddir ar y canlyniadau a gafwyd.

# Pennod 5: Canlyniadau

---

## 5.1 Amlinelliad o'r Cynnwys

Yn y penodau a'r adrannau dilynol (penodau 5 - 9) cyflwynir canlyniadau'r profion gwahanol â gynhaliwyd gyda'r plant yn yr astudiaeth. Ym mhob pennod dadansoddir y canlyniadau yn ôl oed ac iaith y cartref. Yn ogystal, trafodir a dadansoddir y canlyniadau a chanolbwyntir ar y newidynnau o ddiddordeb a drafodwyd ym mhennod 4, gyda thrafodaeth byr o'r canlyniadau i ddilyn ar ddiwedd bob pennod.

Yn y bennod hon trafodir canlyniadau profion mesuriadau cefndirol sy'n cynnwys profion geirfa Cymraeg (Prawf Geirfa Cymraeg) a Saesneg (BPVS), prawf o gyniferydd deallusrwydd (Raven's Progressive Matrices), a mesur o statws economaidd-gymdeithasol (fel a gofnodwyd yn holiaduron y rhieni). Gobeithir y bydd y mesuriadau hyn yn sicrhau nad yw unrhyw wahaniaeth a geir rhwng y grwpiau o blant yn gysylltiedig â gallu ieithyddol, deallusol neu gwahaniaethau yn statws economaidd-gymdeithasol y plant. Yn ogystal dadansoddir canlyniadau yr eitemau rheoli a ddefnyddiwyd yn y profion, sydd yn cynorthwyo wrth sicrhau dilysrwydd y profion, ac disgwylir i'r plant sgorio'n uchel ar yr eitemau hyn. Yn olaf cymharir sgorau'r plant ar yr eitemau rheoli a'r eitemau profi lle ddisgwylir i'r plant arddangos sgorau llawer uwch ar yr eitemau rheoli.

Ym mhennod 6 trafodir sgorau cyfunol a y prawf cynhyrchu ysgrifenedig, prawf cynhyrchu llafar a prawf barnu ar lafar mewn manylder. Yn ogystal cynhelir dadansoddiadau pellach sy'n edrych ar newidynnau o ddiddordeb. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- (i) eitemau cadarnhaol/negyddol;
- (ii) nifer y ciwiau; a
- (iii) chiwiau cyfatebol neu anghyfatebol.

Yn olaf cymharir y math o eitemau penodol a geir yn ôl thryloywder/afloywder y strwythurau (wedi ei nodi gan y newidynnau a restrir uchod), er mwyn darganfod os y ceir unrhyw wahaniaethau yn sgôr y plant ar eitemau unigol.

Ym mhennod 7 trafodir sgorau'r profion cynhyrchu ysgrifenedig, cynhyrchu llafar a prawf barnu ar lafar ar wahân ac fe gynhelir dadansoddiadau pellach sy'n edrych ar newidynnau o ddiddordeb (gweler y rhestr uchod ar gyfer dadansoddiadau pennod 6). Yn ogystal (fel ym mhennod 6) cymharir y math o eitemau penodol a geir yn ôl thryloywder/afloywder y strwythurau (wedi ei nodi gan y newidynnau a restrir uchod) ar y profion ar wahân, er mwyn darganfod os y ceir unrhyw wahaniaethau yn sgôr y plant ar eitemau unigol ar y profion unigol.

Ym mhennod 8 cynhelir dadansoddiadau sydd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaethau a geir yn ymatebion y plant yn ôl ffurf y ferf a ddefnyddiwyd. Mae'r ffurfiau hyn yn cynnwys y ffurfiau presennol, dyfodol, gorffennol, amherffaith (sydd hefyd yn amrywio o ran amser, person, rhif) a ffurfiau di-adlais. Yn ogystal edrychir ar ffurf y ferf mewn perthynas a'r newidynnau o ddiddordeb a nodwyd eisoes h.y. eitem cadarnhaol/negyddol, nifer y ciwiau a eitem cyfatebol neu anghyfatebol.

Yn olaf, ym mhennod 9 trafodir yn gryno canlyniadau astudiaeth ymyrraeth bychan ar y system ateb yn y Gymraeg â gynhaliwyd gyda nifer fechan o gyfranwyr.

## 5.2 Profion Cefndirol

### 5.3 Cyflwyniad

Fel a nodwyd yn yr amlinelliad, yn y bennod hon trafodir canlyniadau'r profion Cefndirol sy'n cynnwys prawf geirfa Cymraeg (*Prawf Geirfa Cymraeg: Fersiwn 7-11*, Gathercole & Thomas, 2007), prawf geirfa Saesneg (British Picture Vocabulary Scales, Dunn, Dunn & Whetton, 1997), prawf o gyniferydd deallusrwydd (Raven's Progressive Matrices, Raven, 1992), a mesur o statws economaidd-gymdeithasol (fel a gofnodwyd yn holiaduron y rhieni). Yn ogystal trafodir canlyniadau'r eitemau rheoli a ddefnyddiwyd ar y profion.

#### 5.3.1 Plant

Fel a nodwyd yn mhennod 4 casglwyd data oddi wrth 134 o blant ar gyfer yr astudiaeth hon. At wahanol bwrpasau dadansoddol yn y bennod hon, ymrannwyd y plant yn ôl grwpiau oed neu yn ôl iaith y cartref ac ar adegau yn ôl oed ac iaith y cartref (gweler Tabl 30 ar gyfer y ffigyrau cyflawn).

Tabl 30 - Nifer o blant yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref.

Ystod Oed	Iaith y Cartref			Cyfanswm
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	
7;1-9;8	23	18	17	58
9;9-11;9	24	29	23	76
<b>Cyfanswm iaith</b>	<b>47</b>	<b>47</b>	<b>40</b>	<b>134</b>

#### 5.3.2 Canlyniadau Profion Cefndirol

Er mwyn sicrhau nad oedd gwahaniaethau parod rhwng y grwpiau iaith, dadansoddwyd perfformiad y plant ar brofion geirfa a phrawf deallusrwydd drwy ddefnydd ANOVA unffordd – teclyn ystadegol sy'n adnabod arwyddocâd amrywiant rhwng

perfformiad unigolion ar draws gwahanol grwpiau. At hynny, dadansoddwyd ymatebion y rhieni i holiadur yn ymofyn gwybodaeth am gefndir economaidd-gymdeithasol er mwyn cymharu natur economaidd-gymdeithasol y ddau grŵp oed a'r tri grŵp iaith. Isod, cyflwynir y canlyniadau ar gyfer y dadansoddiadau hynny yn eu tro.

### **5.3.2.1 Profion geirfa**

Oherwydd y gwahaniaethau ym mhrofiadau ieithyddol y plant o fewn y grwpiau (yn benodol yr iaith a ddefnyddir yn y cartref) ystyriwyd y byddai'r grŵp Cymraeg yn dangos sgorau crai uwch na'r grŵp Saesneg a'r grŵp cymysg ar y Prawf Geirfa Cymraeg a'r grŵp Saesneg yn dangos sgorau crai uwch na'r grŵp Cymraeg a'r grŵp cymysg ar y prawf geirfa Saesneg. At hynny, disgwyliwyd i'r grŵp hynaf (9;9-11;9) berfformio'n well na'r grŵp ieuengaf (7;1-9;8) ar y ddau brawf (Mi fysai hyn yn cyd-fynd gyda gwaith Gathercole, Thomas a Hughes (2008)).

O ran y sgorau safonol, ni ddisgwyliwyd y byddai gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau oedran gan fod y sgorau hynny wedi eu haddasu yn ôl oed, ac yn ôl cefndir iaith ar gyfer y Prawf Geirfa Cymraeg. Fodd bynnag, er y cynigir sgorau safonol ar gyfer y prawf geirfa Saesneg nid yw'r rhain wedi eu haddasu ar gyfer cefndir ieithyddol, ac felly nid oedd modd cynnal yr un arsylwadau ar y data ar gyfer y prawf hwnnw

## **5.3.3 Sgorau Crai Profion Geirfa**

### **5.3.3.1 Prawf Geirfa Cymraeg**


Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) rhyng-gyfrannol ddwy-ffordd er mwyn darganfod effaith posib Oed ac Iaith y Cartref ar berfformiad y grwpiau ar y Prawf Geirfa Cymraeg. Yma ymrannwyd y plant i'r ddau grŵp oed ac i'r grwpiau ieithyddol (gweler Tabl 30). Darganfuwyd yr effaith arwyddocaol disgwylidig (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y



grwpiau oed [ $F(2,131)=12.46$ ,  $p<.0005$ ] gyda'r grŵp hŷn ( $M=81.80$ ,  $SD=11.66$ ) yn sgorio'n uwch na'r grŵp iau ( $M=73.62$ ,  $SD=15.42$ ). Roedd maint y gwahaniaeth, fel a gyfrifwyd yn defnyddio *eta squared*, yn fawr (*eta squared*=0.13). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p <.05$ ) rhwng y grwpiau iaith [ $F(2,128)=16.36$ ,  $p<.0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr unwaith eto (*eta squared*=0.20). Awgrymai prawf Post-hoc Tukey HSD fod sgôr cyfartalog y grŵp Cymraeg ( $M=85.83$ ,  $SD=10.75$ ) yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o sgorau cyfartalog y grŵp Saesneg ( $M=74.26$ ,  $SD=15.89$ ) a'r grŵp Cymysg ( $M=74.08$ ,  $SD=11.19$ ).

### **5.3.3.2 Prawf Geirfa Saesneg (BPVS)**

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) rhyng-gyfrannol ddwy-ffordd er mwyn darganfod effaith posib Oed ac Iaith y Cartref ar berfformiad y grwpiau ar y Prawf Geirfa Saesneg BPVS. Unwaith eto ymrannwyd y plant i'r ddau grŵp oed ac i'r grwpiau ieithyddol (gweler Tabl 30). Darganfuwyd yr effaith arwyddocaol disgwylidig (sy'n gyfystyr â  $p <.05$ ) rhwng y grwpiau oed [ $F(2,131)=25.67$ ,  $p<.0005$ ] gyda'r grŵp hŷn ( $M=89.16$ ,  $SD=14.31$ ) yn sgorio'n uwch na'r grŵp iau ( $M=76.53$ ,  $SD=12.91$ ). Roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (*eta squared*=0.16). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p <.05$ ) rhwng y grwpiau iaith [ $F(2,128)=4.87$ ,  $p<.0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn ganolig (*eta squared*=0.07). Awgrymai prawf Post-hoc Tukey HSD fod sgôr cyfartalog y grŵp Saesneg ( $M=89.49$ ,  $SD=13.54$ ) yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o sgorau cyfartalog y grŵp Cymraeg ( $M=79.19$ ,  $SD=15.69$ ) a'r grŵp Cymysg ( $M=82.18$ ,  $SD=14.07$ ) (gweler Ffigur 6).



Ffigwr 6 - Sgorau crai ar y Prawf Geirfa Cymraeg a'r BPVS yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg, neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).

### 5.3.4 Sgorau Safonol Profion Geirfa

Cynhaliwyd dadansoddiadau pellach er mwyn edrych ar sgorau safonol y plant ar y profion geirfa, ac roedd gwahaniaeth oed unwaith eto ar gyfer y Prawf geirfa Cymraeg, gyda'r plant hŷn yn perfformio'n uwch na'r plant iau ( $[F(1,127)=5.62, p=.02]$ ;  $M=103.41, SD=11.96$  vs.  $M=108.47, SD=11.50, \eta^2=.04$ ). Ond ni chafwyd gwahaniaeth ar gyfer y prawf geirfa Saesneg (BPVS) ( $[F(1,128)=3.51, p=.63]$ ) ( $M=92.72, SD=10.04$  vs.  $M=90.07, SD=11.54$ ). O ran iaith y cartref, nid oedd gwahaniaeth rhwng y grwpiau ar y Prawf Geirfa Cymraeg ( $[F(2,127)=2.16, p=.12]$ ; Grŵp Cymraeg =  $M=106.47, SD=11.70$ , Grŵp Saesneg =  $M=107.07, SD=13.18$  a Grŵp Cymysg =  $M=102.50, SD=10.54$ ). Ond roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ar y Prawf Geirfa Saesneg (BPVS) ( $[F(2,128)=5.06, p=.008]$ ). Awgryma prawf Post-hoc Tukey HSD fod sgôr cyfartalog y grŵp Saesneg ( $M=95.00, SD=8.16$ ) yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o sgorau cyfartalog y grŵp Cymraeg ( $M=87.89, SD=11.51$ ) ond nid o'r grŵp Cymysg sy'n perfformio rhwng y naill grŵp a'r llall ( $M=90.68, SD=11.98$ ).

### 5.3.5 Profion Geirfa – I gloi

Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â'r disgwyliadau o ran perfformiadau grwpiau gwahanol gyda'r grŵp hŷn yn perfformio'n well na'r grŵp iau yn gyffredinol. Yn ogystal mae'r grŵp sy'n siarad Cymraeg yn y cartref a lle mae Cymraeg yn gryfach yn adnabod mwy o eirfa ar y Prawf Geirfa Cymraeg, ond yn perfformio oddi fewn i'r norm disgwyliedig ar gyfer eu hoed a'u cefndir iaith; y grŵp sy'n siarad Saesneg yn y cartref a Saesneg ydy'r iaith gryfa yn gwneud yn well ar y Prawf Geirfa Saesneg (BPVS) a'r grŵp sy'n siarad Cymraeg a Saesneg yn y cartref rhywle yn y canol. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos yn glir fod y tri grŵp iaith yn wahanol yn ieithyddol ac felly'n ddilys i'w cymharu ar 'sbectrwm' dwyieithrwydd yn y penodau dilynol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hefyd yn dangos nad oes unrhyw un o'r grwpiau'n dangos sgorau sy'n wahanol i'r hyn a ddisgwylir yn ôl eu cefndir iaith neu oed.

#### 5.3.5.1 *Prawf Cyniferydd Deallusrwydd (Ravens progressive matrices)*

Yn wahanol i'r profion geirfa ni ddisgwyliwyd darganfod gwahaniaeth rhwng grwpiau oed nac iaith y cartref ar y prawf hwn gan mai sgorau canrannol safonol a roddwyd yma. Bwriad cynnal y dadansoddiad oedd er mwyn sicrhau dilysrwydd y canlyniadau a sicrhau na ellid esbonio unrhyw wahaniaeth ar draws y grwpiau iaith yn ôl gwahaniaethau o ran gallu.

Wrth gynnal dadansoddiadau amrywiant dwy ffordd ni amlygwyd unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau yn ôl oed ( $[F(1,128)=.15, p=.70]$  ( $M=40.55, SD=28.79$  vs.  $M=42.71, SD=26.49$ ) na iaith y cartref ( $[F(2,128)=1.01, p=.37]$ ); Grŵp Cymraeg =  $M=42.15, SD=26.53$ , Grŵp Saesneg =  $M=45.34, SD=29.12$  a Grŵp Cymysg =  $M=37.15, SD=26.39$ ) ar y

mesur hwn. Gallwn dybio, felly, fod y grwpiau hyn yn gyfartal, mwy neu lai, o ran sgiliau iaith a deallusrwydd.

### **5.3.5.2 Newidynnau Statws Economaidd Gymdeithasol (Cefndir addysgol)**

Gwnaethpwyd dadansoddiad yn edrych ar statws economaidd-gymdeithasol y plant er mwyn sicrhau nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w canfod rhwng grwpiau (grwpiau iaith ac oed). Er mwyn creu sgôr statws economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob plentyn, cyfunwyd ymatebion y ddau riant i gwestiwn yn ymwneud â'u cefndir addysgol. (Gofynnwyd hefyd i'r rhieni nodi cyllid blynyddol y cartref, ond gan fod nifer wedi gadael y cwestiwn hwn yn wag ni ddefnyddiwyd yr ymatebion hynny i gyfrifo sgôr statws economaidd-gymdeithasol ychwanegol. Yn hytrach, penderfynwyd ganolbwyntio ar gefndir addysgol y rhieni.) Yn seiliedig ar ymatebion y rhieni, ymrannwyd y plant i bum grŵp penodol yn unol â chefnid addysgol eu rheini (gweler Tabl 31). Er fod mwyafrif y cyfranwyr wedi llenwi'r wybodaeth am addysg roedd peth data ar goll, felly fe wnaed y dadansoddiadau canlynol gyda'r wybodaeth a gafwyd gan 126 o gartrefi sydd yn cyfateb i 94% o'r plant ac yn adlewyrchiad teg o'r amrediad yn y cefndir addysgol a geir yn y sampl.

**Tabl 31 - Nifer o gyfranwyr yn ôl cefndir addysgol y rhieni.**

	<b>Addysg Gyfunol – O leiaf...</b>	<b>Nifer</b>
<b>1</b>	1 TGAU	25
<b>2</b>	1 Lefel 'A'	34
<b>3</b>	1 Gradd	43
<b>4</b>	2 radd	14
<b>5</b>	1 Gradd Meistr+	10
<b>Cyfanswm</b>		<b>126</b>
<b>Heb Ymateb</b>		8
<b>Cyfanswm</b>		134

I ddechrau gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) dwy ffordd i weld a oedd perthynas i'w gael rhwng sgorau cefndir addysgol ac un ai grwpiau oed neu grwpiau iaith. Ni ddarganfuwyd unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau yn ôl oed ( $[F(1,120)=.77, p=.38]$  ( $M=2.50, SD=1.13$  vs.  $M=2.68, SD=1.19$ ) na iaith y cartref ( $[F(2,120)=.84, p=.43]$ ; Grŵp Cymraeg =  $M=2.54, SD=1.05$ , Grŵp Saesneg =  $M=2.78, SD=1.26$  a Grŵp Cymysg =  $M=2.46, SD=1.17$ ) ar y mesur hwn. Ni ddarganfuwyd unrhyw wahaniaethau ychwaith wrth edrych ar addysg y Fam a grwpiau oed ( $[F(1,119)=.17, p=.69]$  ( $M=2.28, SD=.99$  vs.  $M=2.35, SD=1.09$ ) na iaith y cartref ( $[F(2,119)=.28, p=.76]$ ; Grŵp Cymraeg =  $M=2.38, SD=.96$ , Grŵp Saesneg =  $M=2.33, SD=1.13$  a Grŵp Cymysg =  $M=2.23, SD=1.06$ ). Yn olaf ni ddarganfuwyd unrhyw wahaniaethau ychwaith wrth edrych ar addysg y tad a grwpiau oed ( $[F(1,112)=2.17, p=.14]$  ( $M=1.98, SD=1.12$  vs.  $M=2.28, SD=1.20$ ) na iaith y cartref ( $[F(2,112)=2.19, p=.12]$ ; Grŵp Cymraeg =  $M=2.38, SD=.96$ , Grŵp Saesneg =  $M=2.33, SD=1.13$  a Grŵp Cymysg =  $M=1.94, SD=1.12$ ).

### 5.3.6 I Gloi – Profion Cefndirol

At ei gilydd, felly, mae'r canlyniadau hyn oll yn fy ngalluogi i nodi, gyda pheth sicrwydd, nad yw unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau a ddarganfyddir yn y canlyniadau dilynol o ganlyniad i ffactorau yn ymwneud â medredd iaith yn gyffredinol, deallusrwydd, na statws economaidd-gymdeithasol yr unigolion.

## 5.4 Eitemau Rheoli

Cynhaliwyd dau ddadansoddiad: y cyntaf ar sgorau cyfunol y plant ar draws y profion, a'r ail ar y profion yn unigol. Trafodir y ddau ar wahân isod.

## 5.4.1 Sgorau Cyfunol


Cyfunwyd sgorau'r plant ar yr eitemau rheoli ar draws yr holl brofion (y prawf cynhyrchu llafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a phrawf barnu ar lafar). Newidiwyd y canlyniadau i ganrannau er mwyn gallu cael trosolwg o'r holl ddata. Roedd cyfanswm o 64 eitem rheoli ar draws y profion er mwyn ceisio sicrhau dilysrwydd y prawf a'r canlyniadau (Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig, N=16; Prawf Cynhyrchu Llafar, N=8 a Phrawf Barnu ar lafar (lle y ceir 5 prawf gwahanol), N(5x8)=40). Disgwyliwyd y byddai'r plant yn derbyn canran uwch o'r eitemau hyn yn gywir o'i gymharu â'r eitemau profi (oedd yn profi gwybodaeth am y system ateb). Gan fod y profion wedi eu creu yn unswydd ar gyfer yr ymchwil yma, roedd mesur effeithiolrwydd y prawf fel prawf o sgiliau iaith yn holl bwysig.

Rhodddwyd sgôr o 1 i bob ymateb oedd yn bosib yn y cyd-destun dan sylw. Rhodddwyd marc o '0' ar gyfer ymateb anghywir. Ar gyfer y profion barnu, roedd ymatebion y plant yn cael eu recordio gan y rhaglen gyfrifiadurol a'r canlyniadau yn cael eu cynhyrchu gan y rhaglen. Cyfrifwyd ac yna cyfunwyd y nifer o ymatebion addas a gafwyd ym mhob un prawf gan bob unigolyn ac yna cyfrifwyd y canran o'r ymatebion addas ar gyfer pob unigolyn ar gyfer y dadansoddiadau canlynol.

Yn gyntaf cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant(ANOVA) dwy ffordd rhyng-gyfrannol er mwyn gweld a oes gwahaniaethau i'w cael rhwng grwpiau wrth edrych ar sgorau'r eitemau rheoli. Fel yn y profion blaenorol ymrannwyd y grwpiau i'r ddau grŵp oed a'r grwpiau iaith. Darganfuwyd yr effaith arwyddocaol disgwylidig (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau oed [ $F(2,131)=12.46, p<.0005$ ] gyda'r grŵp hŷn ( $M=81.80\%$ ,  $SD=11.66\%$ ) yn sgorio'n uwch na'r grŵp iau ( $M=73.62\%$ ,  $SD=15.42\%$ ). Roedd maint y gwahaniaeth, fel a gyfrifwyd yn defnyddio eta squared, yn fawr (eta squared=0.13). Yn ogystal darganfuwyd

effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau iaith [ $F(2,128)=16.36, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr unwaith eto ( $\eta^2=0.20$ ). Awgrymai prawf Post-hoc Tukey HSD fod sgôr cyfartalog y grŵp Cymraeg ( $M=85.83\%$ ,  $SD=10.75\%$ ) yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol oddi wrth sgorau cyfartalog y grŵp Saesneg ( $M=74.26\%$ ,  $SD=15.89\%$ ) a'r grŵp Cymysg ( $M=74.08\%$ ,  $SD=11.19\%$ ).

Yn ogystal mae'r canran o ymatebion addas a geir ar draws grwpiau oed ac iaith yn llawer uwch yn yr eitemau rheoli o'i gymharu â'r hyn a geir pan edrychir ar sgorau eitemau profi (Wilks Lambda = .16, [ $F(1, 127)=679.21, p < .0005$ ],  $\eta^2 = .84$  (gweler Ffigwr 7 a Thabl 32)(gweler pennod 6 ar gyfer dadansoddiadau pellach ar yr eitemau profi).



Ffigwr 7 - Sgorau canrannol ar yr eitemau profi a rheoli yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymraeg a Saesneg) a grwpiau oed (Grŵp Oed Iau=7;1-9;8; Grŵp Oed Hŷn = 9;9-11;9).

Tabl 32 - Ystadegau cefndirol ar gyfer sgorau cyfartalog unigolion ar yr eitemau cyfunol, profi a rheoli.

Math o eitemau	N	Cymedr	Gwriad Safonol
Profi	128	68.11	11.29
Rheoli	128	82.36	11.86

Mae'r gwahaniaethau a geir yn y sgorau yn awgrymu fod yr unigolion yn arddangos dealltwriaeth sylfaenol o ofynion y dasg ac felly bod y perfformiad is a geir ar yr eitemau profi yn ymwneud â dealltwriaeth unigolion o'r system ateb yn Gymraeg ac nid oherwydd amwysedd y profion.

## 5.4.2 Eitemau Rheoli Profion Unigol

Mae'n bwysig nodi yn ogystal bod y gwahaniaethau arwyddocaol a geir rhwng grwpiau iaith yn bodoli i raddau helaeth oherwydd perfformiad unigolion ar un prawf penodol, sef y prawf Barnu ar Lafar (N=128). Ar y prawf barnu ar lafar yn benodol cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau oed ( $t(126)=-3.98$ ,  $p<.0005$ ), (eta squared = 0.04) gyda'r grŵp ieuengaf ( $M=67.67$ ,  $SD=17.38$ ) yn sgorio'n is na'r grŵp hŷn ( $M=79.37$ ,  $SD=15.84$ ). Darganfuwyd effaith arwyddocaol uchel rhwng y grwpiau iaith yn ogystal [ $F(2,125)=10.25$ ,  $p<.0005$ ] (eta squared = 0.16) gyda'r sgorau a gafwyd gan y grŵp Cymraeg ( $M=82.59$ ,  $SD=15.12$ ) yn gwahaniaethu'n arwyddocaol rhwng y grŵp Saesneg ( $M=67.19$ ,  $SD=17.28$ ) a'r grŵp Cymysg ( $M=72.97$ ,  $SD=16.46$ ).

Ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ymatebion y plant o'r gwahanol grwpiau iaith i'r eitemau rheoli wrth edrych ar y profion cynhyrchu (Ysgrifenedig a Llafar, N=134) yn unig, [ $F(2,131)=2.23$ ,  $p=.111$ ] (Grŵp Cymraeg ( $M=97.77$ ,  $SD=3.91$ ); Grŵp Saesneg ( $M=95.17$ ,  $SD=7.00$ ); Grŵp Cymysg ( $M=96.43$ ,  $SD=6.61$ ). Er y ceir gwahaniaeth arwyddocaol ar y profion cynhyrchu rhwng grwpiau oed ( $t(132)=-2.75$ ,  $p=.007$ ), roedd y gwahaniaeth yn fychan iawn (eta squared = 0.02) a'r sgorau yn parhau i fod yn uchel iawn yn y ddau grŵp oedran (Grŵp Iau ( $M=94.83$ ,  $SD=7.35$ ); Grŵp Hŷn ( $M=97.64$ ,  $SD=4.44$ ). Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod perfformiad y plant y uchel iawn ar gyfartaledd ond ar eu hisaf yn y prawf barnu ar lafar.



## 5.5 Trafodaeth : Dadansoddiadau cefndirol

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad oes gwahaniaethau amlwg i'w cael rhwng grwpiau ar y profion cefndirol ac felly mae'n bosib bod yn eithaf hyderus fod y canlyniadau a geir yn y penodau dilynol yn ddilys ac nad ydynt yn cael eu heffeithio gan unrhyw newidynnau dryslyd. Dangosir y canlyniadau disgwylidig rhwng y grwpiau oed ar sgorau crai y profion geirfa gyda'r grŵp hŷn yn arddangos sgorau sy'n arwyddocaol uwch na'r grŵp iau ar y prawf geirfa Saesneg [ $F(2,131)=25.67, p<.0005$ ] a'r prawf geirfa Cymraeg [ $F(2,131)=12.46, p<.0005$ ]. Yn ogystal, mae dadansoddiadau yn ôl grwpiau iaith ar sgorau crai y profion geirfa yn arddangos gwahaniaethau yn ôl iaith y cartref h.y. mae'r grŵp Cymraeg yn dangos sgorau crai arwyddocaol uwch na'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg ar y Prawf Geirfa Cymraeg [ $F(2,128)=16.36, p<.0005$ ] a'r grŵp Saesneg yn dangos sgorau crai arwyddocaol uwch na'r grŵp Cymraeg a'r grŵp Cymysg ar y prawf geirfa Saesneg [ $F(2,131)=12.46, p<.0005$ ]. Fodd bynnag, wrth edrych ar y sgorau safonol ceir patrymau ychydig yn wahanol lle y ceir gwahaniaeth bychan o oed ar y prawf geirfa Cymraeg [ $F(1,127)=5.62, p=.02$ ]; ond nid ar y prawf geirfa Saesneg [ $F(1,128)=3.51, p=.63$ ]. Ni chafwyd gwahaniaeth yn ôl iaith ar y sgorau safonol ar y prawf geirfa Cymraeg [ $F(2,127)=2.16, p=.12$ ](sy'n rheoli ar gyfer oed ac iaith y cartref) ond fe gafwyd gwahaniaeth bychan iawn ar y prawf geirfa Saesneg [ $F(2,128)=5.06, p=.008$ ]. Mae'r darganfyddiadau hyn yn cyd-fynd gydag ymchwil Rhys a Thomas (2012) ar gaffaeliad plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg o eirfa yn y ddwy iaith lle mae unigolion sy'n derbyn Saesneg yn unig yn y cartref yn gwneud yn well ar brofion geirfa Saesneg na grwpiau sy'n derbyn Cymraeg yn unig yn y cartref. Ond, yn wahanol i ddarganfyddiadau Rhys a Thomas (2012) ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol

rhwng y'r rheiny oedd yn derbyn Saesneg yn unig yn y cartref a'r rheini oedd yn derbyn Cymraeg a Saesneg yn y cartref. Fodd bynnag, er fod sgorau safonol dwyieithog i'w cael ar gyfer y prawf geirfa Saesneg (BPVS) (yr un prawf a ddefnyddiwyd yn astudiaeth Rhys a Thomas, 2012) nid yw'r sgorau safonol hyn yn rheoli ar gyfer gwahaniaethau a geir rhwng unigolion dwyieithog e.e. yn ôl iaith y cartref. Felly, mae'n bosib y gellid cysidro'r gwahaniaeth bychan a geir rhwng unigolion dwyieithog sydd yn derbyn Cymraeg yn unig neu Saesneg yn unig yn y cartref i lawr i natur ddwyieithog yr unigolion. Mae'r syniad hyn yn cyd-fynd gyda ymchwilwyr eraill yn maes dwyieithrwydd heddiw (e.e. de Houwer, 2009/2013; Garcia, 2011/2013; Grosjean, 2013) sy'n nodi na ellir disgwyl i unigolyn dwyieithog fod â'r un gallu ieithyddol a dau unigolyn sy'n caffael un iaith yn unig. Yn hytrach dylid ystyried unigolion dwyieithog fel, "Not L1 and L2 [h.y. dim dwy iaith ar wahân], but [bilingualism] as a single extended repertoire [dwyieithrwydd fel un iaith yr unigolyn] used strategically to be, to know, to do" (Garcia, 2013). Yn ogystal, mae'n annheg cymharu perfformiad unigolyn dwyieithog ar brofion sydd wedi cael eu normio ar unigolion sy'n caffael un iaith yn unig (e.e. Cline, 1992; Gathercole, Thomas a Hughes, 2008; Ortiz & Yates, 2002) yn enwedig wrth gysidro fod rhan fwyaf o boblogaeth y byd bellach yn datblygu'n ddwyieithog (Cook, 2002; Wierzbica, 2004).

Fel a nodwyd eisoes ni chafwyd gwahaniaethau yn ymwneud â deallusrwydd (Raven's Progressive Matrices), na statws economaidd-gymdeithasol yr unigolion sy'n awgrymu fod unrhyw ganlyniadau neu wahaniaethau a geir rhwng grwpiau yn ddibynnol ar ffactorau iaith-benodol a brofir yn yr astudiaeth hon. Yn ogystal awgryma'r sgorau uchel ar yr eitemau rheoli fod y prawf yn un dilys ac felly mae'r dadansoddiadau yn y penodau

dilynol yn canolbwyntio ar yr eitemau profi. Yn ogystal awgryma ymchwil cyfredol yn y maes fod:

1. Plant yn aml yn dangos gwell dealltwriaeth o iaith cyn y gallu i gynhyrchu, yn enwedig pan yn iau;
2. Ond, profion barnu fan hyn yn ymofyn gwybodaeth mwy 'meta-ieithyddol' (Bialystok, 2008) na'r profion cynhyrchu.
3. Felly, mi fydd yr ymchwil yn caniatáu archwiliad o berfformiad y plant ar y ddau fath o brawf er mwyn adnabod a oes ganddyn nhw well afael ar y system ar lafar neu yn ddeallusol.

Yn yr adran dilynol cyflwynir y sgorau cyfunol a gafwyd ar y profion.

# Pennod 6: Canlyniadau Sgorau Cyfunol

## 6.1 Dadansoddi eitemau profi

Er mwyn cael darlun cyflawn o ddefnydd a gwybodaeth plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg o'r system ateb yn y Gymraeg cyfunwyd y sgorau a gafwyd ar y prawf cynhyrchu llafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a phrawf barnu ar lafar i ddechrau (sgorau unigol i ddilyn ym mhennod 7). Newidiwyd y canlyniadau i ganrannau er mwyn gallu cael trosolwg o'r holl ddata fydd yn delio gydag unrhyw ymatebion coll fyddai'n amharu ar y canlyniadau, ac er mwyn delio gyda'r ffaith nad oedd union yr un nifer o blant wedi ymateb i bob prawf. Roedd y nifer o blant yn llai ar gyfer y sgorau cyfunol (N=128) gan nad oedd 6 o'r plant wedi cwblhau y prawf barnu, felly nodir y niferoedd newydd yn Nhabl 33.

Tabl 33 - Nifer o blant ar gyfer y dadansoddiad cyfunol yn ôl oed ac iaith y cartref.

Ystod Oed	Iaith y Cartref			Cyfanswm
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	
7;1-9;8	22	18	17	57
9;9-11;9	22	29	20	71
<b>Cyfanswm iaith</b>	<b>44</b>	<b>47</b>	<b>37</b>	<b>128</b>

### 6.1.1 Sgorio'r profion

Rhoddyd sgôr o 1 i bob ymateb oedd yn bosib yn y cyd-destun dan sylw. Yn y prawf llafar, ystyriwyd bod amrywiadau tafodieithol (e.e. *ia* ac *ie*; *nadi* ac *nac ydi*) yn dderbyniol. Yn y prawf ysgrifenedig, derbyniwyd bod amrywiadau megis *ydi* ac *ydy*, a treiglo annaturiol (*bydd* a *fydd*) yn dderbyniol at bwrpasau'r ymchwil hwn. Rhoddyd marc o '0' ar gyfer unrhyw ymateb arall. Ar gyfer y profion barnu, roedd ymatebion y plant yn cael eu recordio gan y rhaglen gyfrifiadurol a'r canlyniadau yn cael eu cynhyrchu gan y rhaglen.


Cyfrifwyd ac yna cyfunwyd y nifer o ymatebion safonol a gafwyd ym mhob un prawf gan bob unigolyn ac yna cyfrifwyd y canran o'r ymatebion safonol ar gyfer pob unigolyn ar gyfer y dadansoddiadau canlynol. Yn ogystal, adroddir ar y canlyniadau arwyddocaol yn unig fel arfer yn y dadansoddiadau canlynol (os nad oedd angen tynnu sylw'r darlennydd i ryw ganlyniad penodol).

### **6.1.2 Sgorio eitemau profi yn ôl newidynnau**

Ym mhob achos, dadansoddwyd gwahaniaethau ar draws oed ac iaith y cartref. Oherwydd y nifer o newidynnau oedd yn bodoli ym mhob prawf, nid oedd modd cyfuno'r holl newidynnau at ei gilydd mewn un dadansoddiad. Gall cynnal nifer o brofion annibynnol arwain at broblem math 1 (Type I Error), ble gall y dadansoddiad amlygu gwahaniaeth arwyddocaol ble nad oes un yn bodoli mewn gwirionedd (Gravetter a Wallnau, 2000). Fodd bynnag, os yn cynnwys mwy na 3 newidyn mewn dadansoddiad, mae dehongli rhyngweithiadau yn gallu bod yn amhosib: “.. most people have great difficulty in comprehending or interpreting a four-way (or more) interaction” (Gravetter a Wallnau, 2000: 507). Felly, gwnaed pob ymdrech i gadw'r newidynnau i uchafswm o dri mewn unrhyw un dadansoddiad. Yn ogystal, oherwydd bod disgwyl darganfod gwahaniaeth yn y grwpiau oed (gyda'r rhai hŷn yn gwneud yn well na'r rhai iau, sydd yn cyd-fynd â gwaith Gathercole, Thomas a Hughes, 2008), nodir yr ystadegau perthnasol i'r canlyniad hwnnw, ond ni thrafodir y canlyniad hwnnw ymhellach ym mhob achos ble na ddarganfuwyd rhyngweithiad rhwng y newidynnau.

### 6.1.3 Dadansoddiad cyfunol: Oed ac Iaith y Cartref

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) rhyng-gyfrannol dwy-ffordd er mwyn darganfod effaith posib Oed ac iaith y Cartref ar sgorau'r grwpiau ar yr holl eitemau profi. Yma ymrannwyd y plant i'r ddau grŵp oed ac i'r grwpiau ieithyddol (gweler Tabl 33). Darganfuwyd yr effaith arwyddocaol disgwylidig (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau oed [ $F(2,122)=19.48$ ,  $p < .0005$ ] gyda'r grŵp hŷn ( $M=70.90\%$ ,  $SD=9.98\%$ ) yn sgorio'n uwch na'r grŵp iau ( $M=64.63\%$ ,  $SD=11.93\%$ ). Roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared=0.14). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau iaith [ $F(2,122)=28.69$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared=0.32). Awgrymai prawf Post-hoc Tukey HSD fod sgôr cyfartalog y grŵp Cymraeg ( $M=75.80\%$ ,  $SD=8.80\%$ ) yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o sgorau cyfartalog y grŵp Saesneg ( $M=62.68\%$ ,  $SD=10.54\%$ ) a'r grŵp Cymysg ( $M=65.86\%$ ,  $SD=9.98\%$ ) (gweler Ffigwr 8).



Ffigwr 8 - Sgorau canrannol ar gyfer cyfuniad y profion ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).

Awgryma'r canlyniadau cyfunol hyn felly bod (1) plant hŷn yn gwneud yn well na phlant iau, (sydd yn ddisgwyliedig) a (2) fod unigolion sy'n derbyn Cymraeg yn unig yn y cartref yn perfformio'n well, yn gyffredinol, ar y profion hyn o'r system ateb yn y Gymraeg i'w cymharu ag unigolion sydd un ai yn derbyn Saesneg yn unig neu cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn y cartref (sydd yn cyd-fynd â darganfyddiadau ymchwil blaenorol ar y Gymraeg). Er hynny, yn gyffredinol, roedd perfformiad yr holl blant yn gymharol uchel (dros 70%), yn enwedig ymysg plant o gartrefi uniaith Cymraeg.

### 6.1.4 Iaith gyda theulu a ffrindiau<sup>11</sup> – Amllder defnydd

Gwnaed dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) unffordd pellach i ddarganfod a oedd y gwahaniaeth arwyddocaol a welwyd rhwng y grwpiau iaith yn parhau i fodoli pan yn cymharu ar draws plant yn ôl eu defnydd o'r Gymraeg. Ar gyfer hyn, edrychwyd ar yr iaith yr oedd y plant yn honni eu bod yn defnyddio gyda'u mam a'u tad, gyda'u brodyr/chwirydd (os yn berthnasol) a gyda ffrindiau (gweler Tabl 34).

**Tabl 34 – Sgorau canrannol (%) unigolion ar yr eitemau profi cyfunol yn ôl iaith a siaredir gyda'r Fam, dad, brodyr/chwirydd a ffrindiau.**

	Iaith a Siaredir		
	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg a Saesneg
Mam	73.36	63.63	65.92
Dad	75.40	63.02	61.70
Brodyr/Chwirydd	74.78	62.13	65.27
Ffrindiau	74.57	62.20	70.84

Dangosodd y dadansoddiadau hynny effaith arwyddocaol o ddefnydd iaith ym mhob achos (iaith a siaradir gyda'r Fam [ $F(2,124)=12.79$ ,  $p<.0005$ ] (eta squared=0.21); iaith a

<sup>11</sup> Rhaid cofio fod y wybodaeth hyn yn deillio o ymateb y rhieni i gwestiwn yn yr holiadur am yr iaith siaradai eu plant gyda'i ffrindiau (gweler yr atodiadau 3a a 3b) ac nad oedd yr holiadur yn gwahaniaethu rhwng siarad o fewn neu y tu allan i'r ysgol. O ganlyniad i hyn, efallai bod rhai anghysondebau yn yr hyn adroddir gan y rhieni. Fodd bynnag, mae hyn yn broblem gyffredinol i'w ystyried wrth ddefnyddio holiaduron a'r angen i gyfranwyr (rhieni yn yr achos hyn) lenwi gwybodaeth bersonol heb oruchwyliaeth.

siaradir gyda'r tad [ $F(2,121)=27.16, p<.0005$ ] (eta squared=0.49); iaith a siaradir gyda brodyr/chwiorydd [ $F(2,110)=22.10, p<.0005$ ] (eta squared=0.40) a'r iaith a siaradir gyda ffrindiau [ $F(2,123)=18.05, p<.0005$ ] (eta squared=0.29) (gweler Tabl 34). Ym mhob un o'r dadansoddiadau hyn roedd yr unigolion oedd yn siarad Cymraeg gyda'u mam, tad, brodyr/chwiorydd a ffrindiau yn gwahaniaethu'n arwyddocaol ac yn arddangos sgorau uwch i'w cymharu â'r rhai oedd yn siarad Saesneg gyda'u mam, tad, brodyr/chwiorydd a ffrindiau (Tukey's HSD  $p < .05$  ym mhob achos). Yn ogystal, roedd yr iaith a siaradwyd gyda'r tad a'r iaith a siaradir gyda brodyr a'r chwiorydd yn arddangos gwahaniaethau arwyddocaol pellach gyda plant oedd yn siarad Cymraeg gyda'i tad ac gyda'i brodyr a'i chwiorydd yn perfformio'n well i'w cymharu â'r unigolion oedd yn siarad gyda'i gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg (Tukey's HSD  $p < .05$  ym mhob achos). Allan o'r holl newidynnau defnydd iaith, yr iaith a siaradir gyda ffrindiau oedd yr unig newidyn i arddangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oedd yn defnyddio un ai'r ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg) neu Saesneg yn unig. Dangosodd y dadansoddiad fod plant oedd yn siarad Cymysg gyda'i ffrindiau yn perfformio'n well na'r rheiny oedd yn siarad Saesneg yn unig gyda'u ffrindiau (Tukey's HSD  $p < .05$ ; gweler Tabl 34). Nid oedd gwahaniaeth ym mherfformiad y plant oedd yn defnyddio cymysgedd o'r ddwy iaith neu'r Saesneg yn unig gyda'r unigolion yn y newidynnau eraill. Nid yw'r gwahaniaethau yn ôl yr iaith a siaradir gyda'r tad, y fam a brodyr chwiorydd yn annisgwyl gan ei fod yn adlewyrchiad o'r iaith a siaradir yn y cartref, ond mae'r cynnydd mewn perfformiad ymysg y plant sy'n defnyddio o leiaf rhywfaint o Gymraeg gyda'u ffrindiau yn hytrach na Saesneg yn unig yn adlewyrchu pwysigrwydd defnydd yr iaith mewn cyd-destunau rhyngpersonol, tu allan i'r cartref ac oriau ysgol (ar gyfer caffael system mwy cyflawn ac fe drafodir hyn ymhellach yn y bennod olaf).




## 6.1.5 Eitemau Cadarnhaol a Negyddol

Oherwydd bod modd i blant ymateb yn gywir yn negyddol drwy ddefnyddio'r negydd  $N\alpha$  yn unig (ble byddai'r plentyn yn derbyn sgôr o 1 ar gyfer pob ymateb), disgwyliwyd i unigolion sgorio'n uwch ar yr eitemau sy'n ymofyn ymateb negyddol o'i gymharu â'r eitemau sy'n ymofyn ymateb cadarnhaol ble roedd rhaid dewis o blith nifer fawr o ymatebion posib. Aethpwyd ati i gymharu perfformiad unigolion ar yr eitemau negyddol a'r eitemau cadarnhaol er mwyn darganfod a oedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w canfod rhwng y grwpiau iaith neu'r grwpiau oed yn y nifer o ymatebion addas a gafwyd. Cymharwyd y sgorau a gafwyd ar eitemau cadarnhaol a negyddol gyda'i gilydd gan wneud dadansoddiadau pellach fel yr oedd angen os yr amlygir unrhyw ryngweithiadau diddorol rhwng newidynnau.

### 6.1.5.1 *Negyddol vs. Cadarnhaol*

Fel y disgwyliwyd, ac fel y gweler yn Ffigur 9 isod, roedd y sgorau ar gyfer yr eitemau cadarnhaol yn is, ar gyfartaledd, na'r sgorau ar gyfer yr eitemau negyddol. Mae'r gwahaniaeth hwn (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ), fel y cyfrifwyd drwy ddefnyddio dadansoddiad amrywiant (ANOVA) cymysg, yn arwyddocaol ac yn gryf iawn, Wilks Lambda = .45, [ $F(1, 122)=147.00, p=<.0005$ ], eta squared =.55. Mae'n amlwg felly bod unigolion yn defnyddio ymatebion negyddol yn fwy cyson a chywir nac ymatebion cadarnhaol. Fodd bynnag mae'n bosib y bydd yr darlun hwn yn newid pan cymharir defnydd llawn o'r ymatebion negyddol (Negyddyn + berf) a'r defnydd o'r ymateb cyffredin  $N\alpha$  yn unig (trafodir hyn yn y man).



**Ffigur 9 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau negyddol ac eitemau cadarnhaol ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn= 9;9-11;9).**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o oed [ $F(1, 122) = 19.61$ ,  $p < .0005$ ] ac iaith [ $F(2, 122) = 28.49$ ,  $p < .0005$ ] oedd yn dilyn yr un patrymau blaenorol (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) ac roedd maint y gwahaniaeth yn gryf iawn unwaith eto (eta squared=0.14 a 0.32) (gweler Ffigur 9).

Er na amlygwyd unrhyw rhyngweithiad rhwng oed ac iaith [ $F(2, 122) = 1.15$ ,  $p = .319$ ], fe ddarganfuwyd rhyngweithiad (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng, yr eitemau cadarnhaol neu negyddol x iaith y cartref (Wilks Lambda = .89, [ $F(2, 122) = 8.06$ ,  $p = .001$ ], eta squared = .12); eitemau cadarnhaol neu negyddol x Oed (Wilks Lambda = .89, [ $F(1, 122) = 15.06$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = .11), ac eitemau cadarnhaol neu negyddol x iaith y cartref x oed (Wilks Lambda = .94, [ $F(2, 122) = 3.64$ ,  $p = .029$ ], eta squared = .06). Golygai'r rhyngweithiad 3-ffordd fod plant o gartrefi Saesneg yn y grŵp iau yn yr ysgol gynradd yn perfformio'n is na phlant o gartrefi cymysg, sydd, yn eu tro, yn perfformio'n is na'r plant o gartrefi Cymraeg, a hynny ar eitemau negyddol a chadarnhaol. Awgryma dadansoddiadau pellach a nodir isod (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) fod gwahaniaeth hyn yn fwy amlwg ac yn gryfach ar yr eitemau cadarnhaol

[ $F(1, 122)=22.17, p<.0005$ ], eta squared =.16 i'w cymharu â'r eitemau negyddol lle ceir gwahaniaeth bychan iawn [ $F(1, 122)=9.72, p=.002$ ], eta squared =.07. Yn ogystal, gweler yr un patrwm wrth ystyried perfformiad y plant yn y grŵp iau ar wahân, lle y ceir gwahaniaeth cryf iawn rhwng perfformiad y grwpiau iaith ac eitem cadarnhaol neu negyddol, Wilks Lambda = .36, [ $F(1, 54)=94.49, p<.0005$ ], eta squared =.64 i'w cymharu â'r gwahaniaeth is a geir wrth edrych berfformiad y grwpiau iaith ac eitem cadarnhaol neu negyddol yn y grŵp hŷn ar wahân, Wilks Lambda = .60, [ $F(1, 68)=46.29, p<.0005$ ], eta squared =.41. Fodd bynnag, dim ond wrth edrych ar y grŵp iau ar wahân y darganfuwyd rhyngweithiad rhwng iaith ac un ai eitem cadarnhaol neu negyddol Wilks Lambda = .77, [ $F(2, 54)=8.25, p=.001$ ], eta squared =.23 ac nid wrth edrych y grŵp hŷn ar wahân, Wilks Lambda = .98, [ $F(2, 68)=0.85, p=.433$ ], eta squared =.02. Awgryma'r canlyniadau hyn (gweler Ffigwr 9) bod plant o gartrefi Saesneg yn ymdebygu i'r rhai o gartrefi cymysg erbyn blwyddyn 5 & 6 y grŵp hŷn) gan esbonio'r gwahaniaeth llai a geir rhwng grwpiau. Manylir ar y gwahaniaethau a geir ar yr ymatebion negyddol a chadarnhaol yn ôl oed ac iaith y cartref isod (gweler Tabl 35 a 36).

**Tabl 35 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) yn ôl y math o eitem (negyddol neu gadarnhaol) a'r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau.**

Math o Eitem	Iaith y Cartref			Gwahaniaethau		
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	Cymraeg v Saesneg	Cymraeg v Cymysg	Cymysg v Saesneg
Cadarnhaol	77.95	60.79	60.00	17.16	17.95	0.79
Negyddol	83.39	72.23	75.24	11.16	8.15	3.01
Gwahaniaeth	5.44	11.44	15.24			

Mae'r canlyniadau a geir yn Nhabl 35 yn awgrymu bod y gwahaniaethau arwyddocaol o ran iaith yn parhau i fodoli pan geir eitem negyddol neu gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth hyn yn llai ar draws grwpiau iaith pan geir ciw negyddol (gwahaniaeth mwyaf = negyddol = 11.16; cadarnhaol = 17.95). Mae hyn yn ei dro yn awgrymu fod y bwch a geir rhwng perfformiad y plant sydd yn dod o gartrefi Saesneg neu

Cymysg a pherfformiad y plant o gartrefi Cymraeg yn lleihau (i ryw raddau) pan geir ciw negyddol. Atgyfnerthir hyn yn y cynnydd amlwg sydd i'w weld yn sgorau canrannol y grwpiau Saesneg (Cynnydd = 11.44) a Cymysg (Cynnydd = 15.24) o'i gymharu â'r cynnydd is a geir gan y grŵp Cymraeg (Cynnydd = 5.44) pan geir ciw negyddol, yn hytrach na chiw cadarnhaol. Mae'n debyg bod y bwlch yn lleihau i raddau oherwydd fod sgorau'r grŵp Cymraeg dros 80% ar yr eitemau negyddol beth bynnag. Fodd bynnag mae'r canlyniadau yn awgrymu bod y grŵp iaith Saesneg a grŵp iaith Cymysg yn perfformio'n agosach i'r sgorau a geir gan y grŵp Cymraeg pan geir eitem negyddol.

**Tabl 36 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9) yn ôl y math o eitem (negyddol neu gadarnhaol) a'r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau.**

Math o Eitem	Oed		Gwahaniaeth
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	
Cadarnhaol	62.26*	72.01	9.75
Negyddol	74.74*	78.70	3.96
Gwahaniaeth	12.48	6.69	

Yn ogystal (fel a ddangosir yn Nhabl 36 uchod) gweler patrwm diddorol yn y gwahaniaethau rhwng eitemau cadarnhaol a negyddol yn ôl y grwpiau oed. Arddangosir gwahaniaeth uwch rhwng y grwpiau oed ar yr eitemau cadarnhaol (Cynnydd = 9.75) i'w cymharu â'r eitemau negyddol (Cynnydd = 3.96). Wrth gwrs, mae eitemau cadarnhaol (fel a nodwyd eisoes) yn cynnwys llawer mwy o ymatebion posib, ac felly yn cynnwys eitemau sy'n amrywio o ran amllder, yn y mewnbwn ieithyddol. Yn dilyn hyn, mae'n bosib bod hyn yn awgrymu fod y plant (yn enwedig y rhai o gartrefi Saesneg a chartrefi cymysg) wedi derbyn hwb yn eu defnydd a'u dealltwriaeth o sut mae defnyddio'r system ateb yn effeithlon rhwng blwyddyn 3 a 4 (Grŵp Iau=7;1-9;8) a blwyddyn 5 a 6 (Grŵp Hŷn= 9;9-11;9) yn yr ysgol gynradd.

### **6.1.5.2 Crynodeb – Eitemau Cadarnhaol a Negyddol**


Er fod pob grŵp iaith yn sgorio'n uwch ar yr eitemau negyddol na'r eitemau cadarnhaol, mae'r canran uchaf o ymatebion safonol yn parhau i fod yn is na 90% (83.39% oedd y sgôr cyfartalog mwyaf). Awgryma hyn fod y plant yn parhau i ddysgu'r ymatebion safonol – hyd yn oed y plant o gartrefi Cymraeg – a bod y profion yn cynnwys ystod o eitemau hawdd ac anodd. Mi fydd y gwahaniaethau mewn ymatebion y plant i'r gwahanol eitemau yn cael eu trafod ar ddiwedd y bennod ac yn y drafodaeth yn y bennod olaf.

## **6.1.6 Ciwiau**

Roedd pob eitem yn cynnwys ciw o ryw fath gyda nifer o giwiau (1 neu 2) a math o giwiau (cyfatebiaeth neu anghyfatebiaeth rhwng y ciw (ar ffurf cwestiwn, berf neu dag) a'r ymateb) yn amrywio ar draws eitemau. Roedd posib i'r ciwiau fod ar ffurf berfol (lle'r oedd angen adleisio ffurf o'r ferf) neu, ar adegau (ar gyfer ffurfiau di-adlais yn benodol), roedd y ciw hefyd yn cynnwys ffurf y frawddeg e.e. brawddeg bwysleisiol '*Dim y chdi bia'r jig-so mawr yna?*', ble gellid defnyddio '*Dim*', '*Nage*', '*Onid*', neu '*Ai*' fel ciwiau.

### **6.1.6.1 Nifer y Ciwiau – 1 vs 2**

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) cymysg er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar y sgorau a gynhyrchwyd gan y grwpiau gwahanol (gweler Ffigwr 10).



Ffigur 10 - Sgorau canrannol ar gyfer nifer o giwiau (1 ciw neu 2 giw) yn ôl oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).

Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o nifer o giwiau, gyda'r sgorau yn cynyddu pan roddwyd 2 giw ( $M=74.78\%$ ,  $SD=12.13\%$ ) o'i gymharu ag 1 ciw ( $M=70.09\%$ ,  $SD=12.95\%$ ), Wilks Lambda = .56 [ $F(1, 122) = 95.98$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn gryf iawn (eta squared=0.44). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed [ $F(2, 122) = 19.81$ ,  $p < .0005$ ] ac iaith [ $F(2, 122) = 27.72$ ,  $p < .0005$ ] oedd yn dilyn yr un patrymau blaenorol (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) ac roedd maint y gwahaniaeth yn gryf iawn unwaith eto (eta squared=0.14 a 0.31) (gweler Ffigur 10). Er na amlygwyd unrhyw rhyngweithiadau arwyddocaol rhwng y nifer o giwiau ac iaith (Wilks Lambda = .97 [ $F(1, 122) = 1.65$ ,  $p = .196$ ]) nac ychwaith nifer y ciwiau ac oed (Wilks Lambda = .99 [ $F(1, 122) = 1.05$ ,  $p = .308$ ]) mae posib adnabod patrymau diddorol yn sgorau'r grwpiau pan roddwyd 1 ciw ( $N=146$ ) neu 2 giw ( $N=138$ ) (gweler Tabl 37).

Tabl 37 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2) a'r gwahaniaeth yn y cynnydd a geir rhwng y sgorau.


Nifer o Giwiau	Iaith			Gwahaniaethau		
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	Cymraeg Saesneg	v Cymraeg v Cymysg	Cymysg Saesneg
<b>1 Ciw</b>	78.95	64.02	67.27	14.93	11.68	3.25
<b>2 Giw</b>	82.41	69.36	72.59	13.05	9.82	3.23
<b>Gwahaniaeth</b>	3.46	5.34	5.32			

Mae'r canlyniadau yn Nhabl 37 yn awgrymu bod y gwahaniaethau o ran iaith yn parhau i fodoli pan geir un ai 1 neu 2 giw. Hynny yw, ym mhob achos, y plant o gartrefi Cymraeg oedd yn sgorio orau, wedyn plant o gartrefi cymysg, a wedyn y plant o gartrefi Saesneg. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn llai pan geir 2 giw na phan geir ond un (2 giw = 13.05; 1 ciw = 14.93). Mae hyn yn ei dro yn awgrymu fod y bwlch a geir rhwng perfformiad y plant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg neu Cymysg a pherfformiad y plant o gartrefi Cymraeg yn lleihau (yn gyflymach, i ryw raddau) pan ceir nifer fwy o giwiau. Atgyfnerthir hyn yn y cynnydd amlwg sydd i'w weld yn sgorau canrannol y grwpiau Saesneg (Cynnydd = 5.34) a Cymysg (Cynnydd = 5.32) pan geir dau giw, er fod y grŵp Cymraeg yn parhau i fod ar y blaen ym mhob achos. O ganlyniad, mae'r ffaith bod y canlyniadau yn awgrymu bod siawns i'r grwpiau iaith Saesneg a Cymysg wella eu perfformiad os ceir 2 giw yn bwysig, ac fe drafodir goblygiadau'r darganfyddiadau hyn yn y bennod olaf.

### 6.1.6.2 *Math o Giwiau – Cyfatebol vs Anghyfatebol*

Gwnaethpwyd dadansoddiadau pellach er mwyn darganfod a oedd gwahaniaeth yn y sgorau wrth edrych ar giwiau cyfatebol ac anghyfatebol. Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) cymysg er mwyn darganfod effaith posib y math o giw (cyfatebol neu anghyfatebol) ar y sgorau'r grwpiau gwahanol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu pan roddwyd ciw cyfatebol ( $M=75.02\%$ ,  $SD=12.48\%$ ) o'i gymharu â chiw anghyfatebol ( $M=70.06\%$ ,  $SD=12.93\%$ ) (Wilks

Lambda =.36 [ $F(1, 122) = 69.01, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared=0.36) (Ffigwr 11).



**Ffigwr 11 - Sgorau canrannol ar gyfer y math o giw (ciw cyfatebol neu giw anghyfatebol) yn ôl oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed [ $F(1, 122) = 19.77, p < .0005$ ] ac iaith [ $F(2, 122) = 27.82, p < .0005$ ] oedd yn dilyn yr un patrymau blaenorol (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) ac roedd maint y gwahaniaeth yn gryf iawn unwaith eto (eta squared = 0.14 a 0.31) (gweler Ffigwr 11). Er na amlygwyd unrhyw rhyngweithiadau arwyddocaol rhwng un ai eitem cyfatebol ac anghyfatebol ac oed Wilks Lambda =.99 [ $F(1, 122) = 1.65, p = .748$ ], nac ychwaith rhyngweithiad dair ffordd rhwng un ai eitem cyfatebol ac anghyfatebol x oed x iaith (Wilks Lambda =.98 [ $F(2, 122) = 1.30, p = .276$ ]), fe ddarganfuwyd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng un ai eitem cyfatebol ac anghyfatebol ac iaith (Wilks Lambda =.93 [ $F(2, 122) = 4.74, p = .010$ ], eta squared = .07). Amlygir y rhyngweithiad 2-ffordd a geir uchod a'r canlyniadau a arddangosir yn Ffigwr 11 fod plant o gartrefi Saesneg a chartrefi cymysg yn y Grŵp Hŷn lle geir eitemau cyfatebol yn arddangos sgorau tebyg (Sgorau Cyfartalog = 75.00; 74.90) ac yn agosáu at yr hyn a wneir gan y plant o gartrefi Cymraeg yn y Grŵp Iau ar eitemau cyfatebol (Sgôr Cyfartalog = 78.32) (gweler Tabl 38). Yn ogystal, mae posib adnabod



patrymau diddorol eraill yn sgorau'r grwpiau Oed ac Iaith y Cartref ar sgorau'r grwpiau pan geir ciw cyfatebol (N=136) neu ciw anghyfatebol (N=148) (gweler Tabl 39 isod).

**Tabl 38 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) yn ôl y math o eitemau a geir (cyfatebol neu anghyfatebol) a'r gwahaniaethau a welir yn y sgorau.**

Math o eitem	Iaith y cartref a Grŵp Oed					
	Cymraeg		Saesneg		Cymysg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cyfatebol	78.32	85.64	62.17	75.00	70.76	74.90
Anghyfatebol	75.36	83.86	57.44	67.31	64.41	69.20
	Gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.					
Cyfatebol	7.32		12.83		4.14	
Anghyfatebol	8.5		9.87		4.79	

**Tabl 39 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) yn ôl y math o eitemau a geir (cyfatebol neu anghyfatebol).**

Math o eitem	Gwahaniaethau yn sgorau iaith y cartref					
	Cymraeg v Saesneg		Saesneg v Cymysg		Cymysg vs Cymraeg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cyfatebol	16.15	10.64	8.59	-0.10	7.56	10.74
Anghyfatebol	17.92	16.55	7.47	1.89	10.95	14.66

Yn ychwanegol i'r canlyniadau a geir uchod (Tabl 38), mae plant o gartrefi Saesneg yn y grŵp hŷn yn yr ysgol gynradd wedi gwneud cynnydd enfawr yn eu perfformiad ar eitemau anghyfatebol (Cynnydd = 9.87) a chyfatebol (Cynnydd 12.83) (Sgôr cyfartalog = 67.31 + 75.00) mewn cymhariaeth â pherfformiad plant o gartrefi Saesneg yn y grŵp iau (Sgôr cyfartalog = 57.44 + 62.17). Yn dilyn hyn y grŵp Cymraeg sydd yn arddangos yr ail gynnydd mwyaf yn y sgorau a geir rhwng y grŵp iau (Sgôr cyfartalog = 75.36 + 78.32) i'w cymharu â'r grŵp hŷn (Sgôr cyfartalog = 83.86 + 85.64) ar yr eitemau cyfatebol (Cynnydd = 7.32) a'r eitemau anghyfatebol (Cynnydd = 8.50) er eu bod hwy yn sgorio'n eithaf uchel (dros 70%) beth bynnag. Awgryma hyn bod caffaeliad o'r strwythurau hyn yn rhywbeth sy'n parhau

dros gyfnod yr ysgol gynradd ac felly bod lle i wella o hyd wrth edrych ar berfformiad plant ar y strwythurau hŷn. Yn olaf, y grŵp cymysg (Cymraeg a Saesneg) sydd i'w gweld yn gwneud y cynnydd lleiaf yn y perfformiad a geir rhwng y grŵp iau (Sgôr cyfartalog = 64.41 + 70.76) i'w cymharu â'r grŵp hŷn (Sgôr cyfartalog = 69.20 + 74.90) ar yr eitemau cyfatebol (Cynnydd = 4.14) ac eitemau anghyfatebol Cynnydd = 4.79). Felly (fel a nodir uchod) er fod plant o gartrefi Saesneg a Cymysg yn y grŵp hŷn yn agosáu at yr hyn a wneir gan blant o gartrefi Cymraeg yn y grŵp iau, nid ydynt yn defnyddio'r system hon mor effeithlon â phlant o gartrefi Cymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd ond yn hytrach maent yn ymdebygu fwy i sgorau'r plant o gartrefi Saesneg. Awgryma hyn fod yna elfen o arafu wedi bod yn natblygiad plant o gartrefi cymysg o'r system hon mewn cymhariaeth â'r grwpiau iaith eraill ac fe drafodir hyn ymhellach yn bennod olaf.

## 6.1.7 Cymariaethau rhwng newidynnau

Gwnaethpwyd dadansoddiadau pellach er mwyn cymharu sgorau ar draws newidynnau penodol (nifer o giwiau, eitemau negyddol neu gadarnhaol a chiw cyfatebol neu anghyfatebol), fel a nodir yn Nhabl 40.

Tabl 40 – Rhestr o'r dadansoddiadau wnaethpwyd er mwyn cymharu ar draws newidynnau

Math o ddadansoddiad	Dadansoddiadau manwl
Nifer o giwiau i'w cymharu â eitemau Negyddol a Cadarnhaol	1 Ciw i'w cymharu â Eitem Gadarnhaol
	1 Ciw i'w cymharu â Eitem Negyddol
	2 Giw i'w cymharu â Eitem Gadarnhaol
	2 Giw i'w cymharu â Eitem Negyddol
Nifer o giwiau i'w cymharu â eitemau cyfatebol neu anghyfatebol	1 Ciw i'w cymharu â Ciw Cyfatebol
	1 Ciw i'w cymharu â Ciw Anghyfatebol
	2 Giw i'w cymharu â Ciw Cyfatebol
	2 Giw i'w cymharu â Ciw Anghyfatebol


Eitemau Negyddol a Cadarnhaol i'w cymharu â eitemau cyfatebol ac Anghyfatebol	Eitem Gadarnhaol i'w cymharu â Ciw Cyfatebol
	Eitem Gadarnhaol i'w cymharu â Ciw Anghyfatebol
	Eitem Negyddol i'w cymharu â Ciw Cyfatebol
	Eitem Negyddol i'w cymharu â Ciw Anghyfatebol

### **6.1.7.1 Nifer o giwiau vs eitemau Negyddol a Cadarnhaol**

I ddechrau gwnaethpwyd dadansoddiadau pellach er mwyn darganfod a oes gwahaniaeth yn y sgorau wrth edrych ar ymatebion cadarnhaol a negyddol a nifer gwahanol o giwiau.

#### **6.1.7.1.1 Nifer o Giwiau: eitemau Negyddol**

Yn gyntaf cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar sgorau'r grwpiau gwahanol ar yr eitemau negyddol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir 2 giw negyddol (Cyfanswm =  $M=78.86$ ,  $SD=10.36$ ) o'i gymharu ac 1 ciw negyddol (Cyfanswm =  $M=75.20$ ,  $SD=10.83$ ), Wilks Lambda = .80 [ $F(1, 122) = 31.10$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared = 0.20) (gweler Ffigur 12). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o nifer o giwiau negyddol ac oed [ $F(1, 122) = 9.97$ ,  $p = .002$ ], eta squared = 0.8, ac iaith [ $F(2, 122) = 22.14$ ,  $p < .0005$ ], eta squared 0.27, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto ( $h\hat{y}n > iau$  a Cymraeg > Saesneg a Cymysg). Ni amlygwyd unrhyw ryngweithiadau arwyddocaol rhwng grwpiau iaith, oed a nifer o giwiau negyddol.



Ffigwr 12 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau negyddol a cadarnhaol a nifer o giwiau

### 6.1.7.1.2 Nifer o Giwiau: Eitemau Cadarnhaol

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar y sgorau a geir gan y grwpiau gwahanol ar yr eitemau cadarnhaol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir 2 giw (Cyfanswm =  $M=71.68$ ,  $SD=15.86$ ) o'i gymharu ac 1 ciw (Cyfanswm =  $M=64.76$ ,  $SD=17.06$ ), Wilks Lambda = .51 [ $F(1, 122) = 119.09$ ,  $p < .0005$ ], ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared = 0.49) (gweler Ffigwr 12). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o oed [ $F(1, 122) = 23.67$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = .16, ac effaith arwyddocaol o iaith [ $F(2, 122) = 23.94$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.28, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto ( $h\hat{\eta}^2 > \text{iau}$  a  $\text{Cymraeg} > \text{Saesneg}$  a  $\text{Cymysg}$ ). Yn wahanol i'r dadansoddiadau blaenorol ar nifer o giwiau negyddol fe ddarganfuwyd rhyngweithiadau arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y nifer o giwiau (1 neu 2) cadarnhaol a iaith y cartref (Wilks Lambda = .95, [ $F(2, 122) = 3.39$ ,  $p = .034$ ], eta squared = .05) a rhyngweithiad dair ffordd rhwng y nifer o giwiau (1 neu 2) cadarnhaol x iaith y cartref x oed (Wilks Lambda = .94, [ $F(2, 122) = 3.77$ ,  $p = .026$ ], eta squared = .06). Ni ddarganfuwyd rhyngweithiad

arwyddocaol rhwng nifer o giwiau ( 1 neu 2) cadarnhaol ac oed Wilks Lambda = .99, [ $F(1, 122)=0.18$   $p=.672$ ]. Trafodir y rhyngweithiad 3-ffordd isod.

### **6.1.7.1.3 Dadansoddiadau pellach (Nifer o Giwiau Cadarnhaol)**

Awgryma rhai o'r rhyngweithiadau a geir uchod fod y gwahaniaethau a geir rhwng grwpiau iaith a grwpiau oed pan geir un ai 1 neu 2 giw yn fwy amlwg pan geir eitem cadarnhaol o'i gymharu ag eitem negyddol ac felly fod y bwlch (fel a nodir y canlyniadau blaenorol) yn fwy rhwng y plant y daw o un ai cartrefi Saesneg neu gartrefi cymysg na'r rhai y daw o gartrefi Cymraeg pan geir eitem cadarnhaol. Atgyfnerthir yr arsylwadau hyn mewn dadansoddiadau pellach a wnaethpwyd drwy edrych ar y grwpiau oed ar wahân, lle darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ar berfformiad plant yn y grŵp iau [ $F(2, 54) =13.89$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .34 a'r grŵp hŷn [ $F(2, 68) =12.71$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .27, pan gafwyd un ciw cadarnhaol. Er yr arddangosir yr un patrwm blaenorol gan y grŵp hŷn (blwyddyn 5 a 6) (Cymraeg > Saesneg + Cymysg) darganfuwyd patrwm gwahanol yn sgorau y grŵp iau , lle roedd pob grŵp i'w gweld yn arddangos gwahaniaethau'n arwyddocaol o'r grwpiau iaith eraill (Cymraeg > Cymysg > Saesneg) (gweler y ffigyrau yn Nhablau 41 a 42). Yn ogystal, wrth edrych ar y grwpiau iaith ar wahân unwaith eto, darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ar berfformiad plant yn y grŵp iau [ $F(2, 54) =10.50$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .28 a'r grŵp hŷn [ $F(2, 68) =7.43$ ,  $p=.001$ ], eta squared = .18, pan gafwyd dau ciw cadarnhaol. Ond y tro hyn arddangosir yr un patrwm arferol rhwng y grwpiau iaith ar gyfer y ddau grŵp oed (Cymraeg > Saesneg + Cymysg).

**Tabl 41- Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cadarnhaol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2 giw) a'r gwahaniaeth a geir o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.**

Math o eitem	Iaith y cartref a Grŵp Oed					
	Cymraeg		Saesneg		Cymysg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cadarnhaol 1 Ciw	70.95	80.68	45.94	64.28	58.18	63.65
Cadarnhaol 2 Giw	76.95	84.18	55.33	72.21	62.71	73.75
	Gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.					
Cadarnhaol 1 Ciw	9.73		18.34		5.47	
Cadarnhaol 2 Giw	7.23		16.88		11.04	

**Tabl 42 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cadarnhaol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac yn ôl y nifer o giwiau a geir (1 neu 2).**

Math o eitem	Gwahaniaethau yn sgorau iaith y cartref					
	Cymraeg v Saesneg		Saesneg v Cymysg		Cymysg vs Cymraeg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cadarnhaol 1 Ciw	25.01	16.4	12.24	-0.63	12.77	17.03
Cadarnhaol 2 Giw	21.62	11.97	7.38	1.54	14.24	10.43

### **6.1.7.2 Crynodeb - Nifer o giwiau vs eitemau Negyddol a Cadarnhaol**

Awgryma'r canlyniadau hyn fod plant (o bob gefndir iaith a grŵp oed) yn ymateb yn well pan geir 2 giw o'i gymharu ag 1 ciw os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol. Fodd bynnag mae'r gwahaniaeth a geir rhwng grwpiau oed yn llawer mwy amlwg (gyda'r grŵp Cymraeg yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o'r grwpiau eraill) yn yr eitemau cadarnhaol o'i gymharu â'r eitemau negyddol pan geir un ai 1 neu 2 giw. Ar y llaw arall, mae dadansoddiadau pellach yn awgrymu fod plant iau o gartrefi Saesneg a chartrefi cymysg i'w gweld yn perfformio'n llawer gwell pan geir 2 giw, yn enwedig pan geir eitemau cadarnhaol, lle y ceir llawer mwy o ddewis o ymatebion posib. Felly awgryma'r canlyniadau hyn fod y bwllch a geir rhwng plant o gartrefi Saesneg a phlant o gartrefi cymysg i'w cymharu â plant o


gartrefi Cymraeg i'w weld yn lleihau rywfaint erbyn blwyddyn 5 a 6 (y grŵp hŷn) yn enwedig pan fo nifer o giwiau yn bresennol. Gweler y bennod olaf am drafodaeth pellach.

### **6.1.7.3 Nifer o Giwiau vs ciwiau Cyfatebol neu Anghyfatebol**

Wedi darganfod y gwahaniaeth yn y sgorau pan geir un ai ciw cyfatebol neu anghyfatebol edrychwyd ar berfformiad y grwpiau oed ac iaith y cartref pan geir un ai ciw cyfatebol neu anghyfatebol ac 1 neu 2 giw.

#### **6.1.7.3.1 Nifer o Giwiau Cyfatebol**

Yn gyntaf cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar sgorau'r grwpiau gwahanol ar yr eitemau cyfatebol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan roddwyd 2 giw cyfatebol (Cyfanswm =  $M=76.80$ ,  $SD=12.72$ ) o'i gymharu ag 1 ciw cyfatebol (Cyfanswm =  $M=72.93$ ,  $SD=13.18$ ), Wilks Lambda = .78 [ $F(1, 122) = 35.47$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared = 0.23). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ym mherfformiad y plant ar y nifer o giwiau cyfatebol ac oed [ $F(1, 122) = 18.20$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.13, ac iaith [ $F(2, 122) = 18.15$ ,  $p < .0005$ ], eta squared 0.30, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) (gweler Ffigwr 13). Ni amlygwyd unrhyw ryngweithiadau arwyddocaol rhwng grwpiau iaith, oed a nifer o giwiau cyfatebol.



Ffigwr 13 - Sgorau canrannol ar gyfer math (cyfatebol/anghyfatebol) a nifer o giwiau (1 ciw neu 2 giw) yn ôl grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).

### 6.1.7.3.2 Nifer o Giwiau Anghyfatebol

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar y sgorau a geir gan y grwpiau gwahanol ar yr eitemau anghyfatebol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir 2 giw anghyfatebol (Cyfanswm =  $M=72.66$ ,  $SD=12.80$ ) o'i gymharu ac 1 ciw anghyfatebol (Cyfanswm =  $M=67.55$ ,  $SD=13.79$ ), Wilks Lambda = .78 [ $F(1, 122) = 35.47$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared = 0.23). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ym mherfformiad y plant ar y nifer o giwiau anghyfatebol ac oed [ $F(1, 122) = 17.19$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.12, ac iaith [ $F(2, 122) = 33.08$ ,  $p < .0005$ ], eta squared 0.35, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto ( $h\eta^2 > \text{iau} > \text{Cymraeg} > \text{Saesneg} > \text{Cymysg}$ ) (gweler Ffigwr 13). Ni amlygwyd unrhyw ryngweithiadau arwyddocaol rhwng grwpiau iaith, oed a nifer o giwiau anghyfatebol.



### **6.1.7.3 Crynodeb - Nifer o Giwiau vs ciwiau Cyfatebol neu Anghyfatebol**

Arddangosa Ffigwr 13 yn glir fod sgorau grwpiau ar draws grwpiau iaith yn cynyddu yn gyffredinol pan ceir 2 giw yn lle 1 ciw a phan fo'r eitem yn un cyfatebol neu anghyfatebol. Ni ddarganfuwyd unrhyw ryngweithiadau pellach rhwng y grwpiau. Fodd bynnag mae'r patrwm a welir yn Ffigwr 13 yn cyd-fynd gyda'r darganfyddiadau blaenorol a geir gyda phlant o gartrefi Saesneg a chymysg yn perfformio'n is pan geir dau eitem a ellir cael eu categorio fel eitemau llai tryloyw (h.y. lle ceir ond un ciw yn lle 2 giw ac lle ceir eitem anghyfatebol a dim eitem cyfatebol)..


### **6.1.7.4 Eitemau Cadarnhaol a Negyddol vs Ciwiau Cyfatebol ac Anghyfatebol**

Wedi darganfod y gwahaniaeth yn y sgorau pan geir ciw cyfatebol/anghyfatebol ac eitem negyddol/cadarnhaol edrychwyd ar berfformiad y grwpiau oed ac iaith y cartref pan geir cyfuniad o giwiau cyfatebol/anghyfatebol ac eitemau cadarnhaol/negyddol (gwelir ffigwr 14, a gellid gweld esiamplau o rhai o'r eitemau hyn yn atodiad 12).

#### **6.1.7.4.1 Eitemau Cadarnhaol a Negyddol sy'n cynnwys eitem Cyfatebol**

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib ymatebion cadarnhaol a negyddol ar y sgorau a geir gan y grwpiau gwahanol ar yr eitemau cyfatebol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu pan gafwyd eitemau cyfatebol (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir ymatebion negyddol (Cyfanswm =  $M=80.30$ ,  $SD=10.08$ ) o'i gymharu ag ymateb cadarnhaol (Cyfanswm =  $M=69.08$ ,  $SD=17.24$ ), Wilks Lambda = .49 [ $F(1, 122) = 127.83$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared=0.51). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ym mherfformiad y plant ar

y ciwiau cyfatebol ac un ai eitem cadarnhaol neu negyddol yn ôl grŵp oed [ $F(1, 122) = 18.32$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.13, ac iaith [ $F(2, 122) = 18.04$ ,  $p < .0005$ ], eta squared 0.29, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg a Cymysg) (gweler Ffigwr 14 isod). Darganfuwyd rhyngweithiadau arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) hefyd rhwng eitem cadarnhaol neu negyddol cyfatebol ac oed, Wilks Lambda = .92, [ $F(2, 122) = 10.92$ ,  $p = .001$ ], eta squared = .08; eitem cadarnhaol neu negyddol cyfatebol ac iaith y cartref, Wilks Lambda = .94, [ $F(2, 122) = 4.03$ ,  $p = .020$ ], eta squared = .06 a rhyngweithiad dair ffordd rhwng eitem cadarnhaol neu negyddol cyfatebol x iaith y cartref x oed Wilks Lambda = .95, [ $F(2, 122) = 3.07$ ,  $p = .050$ ], eta squared = .05.



Ffigwr 14 – Sgorau canrannol ar gyfer math (cyfatebol/anghyfatebol) ac un ai ymatebion cadarnhaol neu negyddol yn ôl grwpiau iaith (Cymraeg, Saesneg neu Cymraeg a Saesneg).

### 6.1.7.5 Dadansoddiadau pellach - Eitemau Cad/Neg a Cyfatebol

Yn dilyn y rhyngweithiadau a geir uchod gwnaethpwyd dadansoddiadau pellach ar y grwpiau oed ar wahân lle darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith yn y grŵp iau [ $F(2, 54) = 6.10$ ,  $p = .004$ ], eta squared = .18 ac yn y grŵp hŷn [ $F(2, 68) = 10.06$ ,

$p < .0005$ ], eta squared = .23, pan gafwyd eitem cyfatebol negyddol. Er yr arddangosir yr un patrwm blaenorol gan y grŵp hŷn (blwyddyn 5 a 6), (Cymraeg > Saesneg + Cymysg) darganfuwyd patrwm gwahanol yn sgorau'r grŵp iau (blwyddyn 3 a 4), lle ceir gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Cymysg yn unig (Cymraeg > Saesneg) (gweler y ffigyrau yn Nhabl 43 isod). Yn ogystal, wrth edrych ar y grwpiau iaith ar wahân unwaith eto, darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ar berfformiad plant yn y grŵp iau [ $F(2, 54) = 9.46, p < .0005$ ], eta squared = .26 a'r grŵp hŷn [ $F(2, 68) = 5.28, p = .007$ ], eta squared = .13, pan gafwyd eitem cyfatebol cadarnhaol. Adlewyrchir yr un patrymau yma a geir ar yr eitemau cyfatebol negyddol lle arddangosir yr un patrwm blaenorol gan y grŵp hŷn (blwyddyn 5 a 6), (Cymraeg > Saesneg + Cymysg) ond patrwm gwahanol yn sgorau'r grŵp iau (blwyddyn 3 a 4), lle ceir gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp Cymysg yn unig (Cymraeg > Saesneg) (gweler y ffigyrau yn Nhabl 44).

**Tabl 43 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol a'r gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.**

Math o eitem	Iaith y cartref a Grŵp Oed					
	Cymraeg		Saesneg		Cymysg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cyfatebol Negyddol	82.14	89.23	72.11	79.07	78.59	79.05
Cyfatebol Cadarnhaol	74.09	81.45	51.11	70.52	61.76	70.25
	Gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.					
Cyfatebol Negyddol	7.09		6.96		0.46	
Cyfatebol Cadarnhaol	7.36		19.41		8.49	

**Tabl 44- Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau cyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol.**

Math o eitem	Gwahaniaethau yn sgorau iaith y cartref					
	Cymraeg v Saesneg		Saesneg v Cymysg		Cymysg vs Cymraeg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Cyfatebol Negyddol	10.03	10.16	6.48	-0.02	3.55	10.18
Cyfatebol Cadarnhaol	22.98	10.93	10.65	-0.27	12.33	10.90

Awgryma'r dadansoddiadau pellach a'r ffigyrau yn Nhablau 43 a 44 uchod fod plant o gartrefi cymysg yn perfformio'n debyg i'r plant o gartrefi Cymraeg ar un ai eitemau cyfatebol cadarnhaol neu eitemau cyfatebol negyddol yn y grŵp iau (blynyddoedd 3 a 4) ond bod y bwlch rhwng y grwpiau yn ymestyn yn y grŵp hŷn (blynyddoedd 5 a 6). Yn ogystal, er fod y grŵp Saesneg i'w gweld yn perfformio'n is na'r plant o gartrefi cymysg yn y grŵp iau mae'r patrwm hwn wedi troi yn y grŵp hŷn, lle mae plant o gartrefi Saesneg i'w gweld yn gwneud ychydig yn well na'r plant o gartrefi cymysg. Be, felly, sy'n digwydd i'r plant o gartrefi cymysg yn ystod y cyfnod hyn? Pam eu bod yn perfformio'n is ac yn arddangos cynnydd is yn eu perfformiad yn y grŵp hŷn o'i gymharu â phlant o gartrefi Saesneg? Fe drafodir y canlyniadau hyn ymhellach yn y bennod olaf.

### ***6.1.7.6 Eitemau Cadarnhaol neu Negyddol a Ciwiau Anghyfatebol***

Cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib ymatebion cadarnhaol neu negyddol ar y sgorau a geir gan y grwpiau gwahanol ar yr eitemau anghyfatebol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir ymateb negyddol (Cyfanswm =  $M=73.32$ ,  $SD=11.47$ ) o'i gymharu ac ymateb cadarnhaol (Cyfanswm =  $M=66.73$ ,  $SD=15.55$ ), Wilks Lambda = .57 [ $F(1, 122) = 92.91$ ,  $p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared = 0.43). Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ym mherfformiad y plant ar yr eitem anghyfatebol yn ôl oed [ $F(1, 122) = 17.19$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.12, ac iaith [ $F(2, 122) = 33.42$ ,  $p < .0005$ ], eta squared = 0.35, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) (gweler Ffigwr 14 uchod). Darganfuwyd rhyngweithiadau arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) hefyd rhwng, eitem

cadarnhaol neu negyddol anghyfatebol ac oed, Wilks Lambda = .91, [ $F(2, 122)=11.49$ ,  $p=.001$ ], eta squared =.09 ac rhyngweithiadau arwyddocaol rhwng eitem cadarnhaol neu negyddol anghyfatebol ac iaith y cartref, Wilks Lambda = .90, [ $F(2, 122)=4.03$ ,  $p=.001$ ], eta squared =.10. Ni chafwyd rhyngweithiad dair ffordd rhwng eitem cadarnhaol neu negyddol anghyfatebol x iaith y cartref x oed (Wilks Lambda = .97, [ $F(2, 122)=1.91$ ,  $p=.152$ ]).

Yn dilyn y rhyngweithiadau a geir uchod gwnaethpwyd dadansoddiadau pellach unwaith eto ar y grwpiau oed ar wahân lle darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith yn y grŵp iau [ $F(2, 54) =8.20$ ,  $p=.001$ ], eta squared = .23 ac yn y grŵp hŷn [ $F(2, 68) =20.11$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .37, pan gafwyd eitem anghyfatebol negyddol. Er yr arddangosir yr un patrwm blaenorol gan y grŵp hŷn unwaith eto (blwyddyn 5 a 6), (Cymraeg > Saesneg a Cymysg) darganfuwyd patrwm gwahanol yn sgorau y grŵp iau (blynyddoedd 3 a 4), lle cafwyd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y grŵp Cymysg yn unig (Cymraeg > Saesneg)(gweler y ffigyrau yn Nhabl 45 isod). Yn ogystal, wrth edrych ar y grwpiau iaith ar wahân unwaith eto, darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith ar berfformiad plant yn y grŵp iau [ $F(2, 54) =14.33$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .35 a'r grŵp hŷn [ $F(2, 68) =18.23$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .35, pan gafwyd eitem anghyfatebol cadarnhaol. Ond y tro hwn arddangoswyd yr un patrwm arferol rhwng y grwpiau iaith ar gyfer y ddau grŵp oed (Cymraeg > Saesneg a Cymysg) (gweler y ffigyrau yn Nhabl 46 isod).

**Tabl 45 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau anghyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol a'r gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.**

Math o eitem	Iaith y cartref a Grŵp Oed					
	Cymraeg		Saesneg		Cymysg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Anghyfatebol Negyddol	77.50	84.91	64.11	69.55	70.00	72.55
Anghyfatebol Cadarnhaol	73.23	82.68	50.78	64.93	58.94	65.65
1. Gwahaniaethau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.						

Anghyfatebol Negyddol	7.41	5.44	2.55
Anghyfatebol Cadarnhaol	9.45	14.15	6.71

**Tabl 46 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer eitemau anghyfatebol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) ac ac os yw'r eitem yn negyddol neu'n gadarnhaol.**

Math o eitem	Gwahaniaethau yn sgorau iaith y cartref					
	Cymraeg v Saesneg		Saesneg v Cymysg		Cymysg vs Cymraeg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Anghyfatebol Negyddol	13.39	15.36	5.89	2.50	7.50	4.95
Anghyfatebol Cadarnhaol	22.45	17.75	8.16	0.72	14.29	17.03

Ceir patrwm tebyg (ond nid yr un fath) yn y dadansoddiadau a wneir ar yr eitemau anghyfatebol (negyddol neu gadarnhaol) i'r hyn a welir ar yr eitemau cyfatebol (negyddol neu gadarnhaol). Awgryma'r dadansoddiadau uchod a'r ffigyrau yn nhablau 45 a 46 uchod fod plant o gartrefi cymysg yn perfformio'n debyg i'r plant o gartrefi Cymraeg ar eitemau anghyfatebol negyddol yn y grŵp iau ond nid ar eitemau anghyfatebol cadarnhaol. Yn ogystal, er nad yw'r grŵp Saesneg i'w gweld yn perfformio'n uwch na'r plant o gartrefi cymysg yn y grŵp iau nac ychwaith yn y grŵp hŷn y tro hwn, mae'r cynnydd a wneir gan blant o gartrefi cymysg (Cynnydd = 2.55 a 6.71) i'w gweld yn llawer llai na'r hyn a wnaed gan blant o gartrefi Saesneg (Cynnydd = 5.4, 14.15) a hyd yn oed plant o gartrefi Cymraeg (Cynnydd = 7.41, 9.45). Oherwydd bod y grŵp Cymraeg yn sgorio'n eithaf uchel ac yn arwyddocaol uwch na'r grwpiau eraill disgwylir i'r grwpiau eraill arddangos fwy o gynnydd (fel yn y canlyniadau blaenorol) na'r grŵp Cymraeg.

### **6.1.7.7 Crynodeb - Eitemau Cadarnhaol a Negyddol vs Ciwiau Cyfatebol ac Anghyfatebol**

Arddangosa Ffigwr 14 yn glir fod sgorau unigolion ar draws grwpiau iaith yn cynyddu yn gyffredinol pan y cafwyd ymatebion negyddol yn hytrach na ymatebion cadarnhaol a

phan fo'r eitem yn un cyfatebol a nid yn un anghyfatebol. Ond fe awgryma dadansoddiadau pellach y ceir patrymau gwahanol wrth edrych ar y grwpiau oed ar wahân ac fe drafodir hyn ymhellach ym Mhennod 10.

## 6.1.8 Dadansoddiad o eitemau penodol

Wedi edrych ar y tri prif newidyn a geir ar gyfer pob eitem (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar wahân a'u cymharu â'i gilydd, penderfynwyd cymharu sgorau plant ar y cyfuniadau amrywiol o'r newidynnau a geir o fewn un eitem (ceir cyfanswm o wyth cyfuniad, gweler Tabl 47). Gwnaethpwyd hyn er mwyn archwilio ar draws ystod y mathau gwahanol o ymatebion er mwyn adnabod pa eitemau oedd hawsaf a pha rai oedd yn peri'r anawsterau mwyaf i'r plant (ac a oedd gwahaniaeth yn ôl oed ac iaith y cartref).


**Tabl 47 – Yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol).**

	<b>Cadarnhaol neu Negyddol</b>	<b>Nifer Giwiau 1 neu 2</b>	<b>o Cyfatebol neu Anghyfatebol</b>
<b>1</b>	Cadarnhaol	1	Anghyfatebol
<b>2</b>	Cadarnhaol	1	Cyfatebol
<b>3</b>	Cadarnhaol	2	Anghyfatebol
<b>4</b>	Cadarnhaol	2	Cyfatebol
<b>5</b>	Negyddol	1	Anghyfatebol
<b>6</b>	Negyddol	1	Cyfatebol
<b>7</b>	Negyddol	2	Anghyfatebol
<b>8</b>	Negyddol	2	Cyfatebol

Yn gyntaf gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad plant ar draws grwpiau iaith ac oed ar yr wyth math gwahanol o eitem. Darganfuwyd effaith arwyddocaol o'r math o eitem (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y

grwpiau, Wilks Lambda = .16 [ $F(7, 116) = 86.57, p < .0005$ ], ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared=0.84).

Yn ogystal amlygwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o grŵp oed [ $F(1, 122) = 20.03, p < .0005$ ], eta squared = 0.14, ac iaith [ $F(2, 122) = 27.85, p < .0005$ ], eta squared=0.31, ac fe ddilynwyd yr un patrymau blaenorol unwaith eto (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) (gweler Ffigwr 15 isod.).



**Ffigwr 15 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw).**

Gweler cynnydd amlwg ym mherfformiad y plant pan geir eitemau sy'n cynnwys ciwiau negyddol, cyfatebol a lle ceir 2 giw o'i gymharu â eitemau lle ceir eitemau cadarnhaol, anghyfatebol ac 1 ciw yn unig. Mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd â'r dadansoddiadau blaenorol a gafwyd ar y ciwiau gwahanol. Er fod pob grŵp iaith yn dilyn yr un patrwm gweler gwahaniaethau amlwg unwaith eto ym mherfformiad y grŵp Cymraeg i'w cymharu â'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg (gweler Tabl 48 isod).



Tabl 48- Sgorau cyfartalog plant yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) a grŵp iaith (Cymraeg; Saesneg a Cymysg) ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol).

		Iaith y Cartref a Grŵp Oed					
		Cymraeg		Saesneg		Cymraeg a Saesneg	
		Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
1	Cadarn1CiwAng	70.23	80.91	44.50	61.52	56.41	67.31
2	Cadarn1CiwCyf	72.00	80.64	47.28	67.48	60.47	67.25
3	Cadarn2GiwAng	76.32	84.32	55.44	67.38	60.76	70.25
4	Cadarn2GiwCyf	77.18	83.09	54.72	73.97	63.41	74.25
5	Negydd1CiwAng	75.64	82.95	64.50	68.83	68.35	69.65
6	Negydd1CiwCyf	81.09	88.68	71.39	75.52	78.06	76.15
7	Negydd2GiwAng	87.23	96.55	71.78	78.69	79.82	83.80
8	Negydd2GiwCyf	83.09	89.91	74.50	83.34	79.88	82.15

Darganfuwyd rhyngweithiadau arwyddocaol hefyd (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y math o eitem ac oed, Wilks Lambda = .88,  $[F(7, 116)=2.35, p=.028]$ , eta squared =.12, a'r math o eitem ac iaith y cartref, Wilks Lambda = .67,  $[F(14, 232)=4.03, p<.0005]$ , eta squared =.18. Ni amlygwyd rhyngweithiad dair ffordd rhwng y math o eitem x iaith y cartref x oed (Wilks Lambda = .65,  $[F(14, 232)=1.42, p=.144]$ ). Yn dilyn hyn edrychwyd ar y patrwm a geir ym mherfformiad y plant ar yr eitemau unigol yn ogystal yn ôl grwpiau oed a grwpiau iaith i weld pa eitemau oedd yn arddangos y gwahaniaethau mwyaf rhwng grwpiau. Wrth ddefnyddio prawf-t(sampl annibynnol) darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol yn y grwpiau oed ar eitemau 1, 2, 3, 4, 7, ac 8 ond nid ar eitemau 5 a 6 (gweler Tabl 49) gyda sgorau'r grŵp iau yn is na sgorau'r grŵp hŷn bob tro. Ond pan gafwyd gwahaniaeth arwyddocaol roedd y gwahaniaeth (fel a gyfrifwyd yn defnyddio eta squared) yn fychan iawn.

**Tabl 49 – Sgorau cyfartalog plant yn ôl grŵp oed Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn= 9;9 - 11;9) a grŵp iaith (Cymraeg; Saesneg a Cymysg) ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol). mae \* yn nodi gwahaniaeth arwyddocaol.**

	Math o eitem	Prawf t-sampl annibynnol	Grŵp Iau		Grŵp Hŷn		Eta Squared	*
			Cymedr	Gwyriad Safonol	Cymedr	Gwyriad Safonol		
1	Cadarn1CiwAng	( $t(126)=-3.07, p=.003$ )	57.98	18.09	62.31	16.24	.03	*
2	Cadarn1CiwCyf	( $t(126)=-3.43, p=.001$ )	60.75	19.80	71.49	15.60	.03	*
3	Cadarn2GiwAng	( $t(126)=-3.17, p=.002$ )	65.09	16.62	73.44	13.17	.02	*
4	Cadarn2GiwCyf	( $t(126)=-3.59, p<.0005$ )	65.98	20.24	76.87	14.00	.03	*
5	Negydd1CiwAng	( $t(126)=-1.65, p=.102$ )	69.95	11.49	73.44	12.21	-	-
6	Negydd1CiwCyf	( $t(126)=-1.29, p=.198$ )	77.12	10.72	79.77	12.13	-	-
7	Negydd2GiwAng	( $t(126)=-2.33, p=.021$ )	80.14	14.22	85.66	12.54	.02	*
8	Negydd2GiwCyf	( $t(126)=-3.16, p=.002$ )	79.42	10.78	85.04	9.33	.03	*


Cynhaliwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) unffordd rhyng-gyfrannol hefyd, er mwyn darganfod effaith posib iaith y Cartref ar berfformiad y grwpiau ar yr eitemau unigol a restrwyd yn Nhabl 47. Yma ni ystyriwyd oed y plant ond ymrannwyd y plant i grwpiau ieithyddol yn unig (gweler Tabl 49). Darganfuwyd effaith arwyddocaol mawr (sy'n gyfystyr â  $p<.05$ ) rhwng y grwpiau ar gyfer yr eitemau unigol, eitem 1 [ $F(2,125)=22.96, p<.0005$ ] (eta squared = 0.37); eitem 2 [ $F(2,125)=11.42, p<.0005$ ] (eta squared = 0.18); eitem 3 [ $F(2,125)=21.88, p<.0005$ ] (eta squared = 0.35); eitem 4 [ $F(2,125)=7.95, p=.001$ ] (eta squared = 0.13); eitem 5 [ $F(2,125)=16.25, p<.0005$ ] (eta squared = 0.26); eitem 6 [ $F(2,125)=12.65, p<.0005$ ] (eta squared = 0.20); eitem 7 [ $F(2,125)=20.64, p<.0005$ ] (eta squared = 0.33) ac eitem 8 [ $F(2,125)=5.39, p=.006$ ] (eta squared = 0.09). Awgrymai profion Post-hoc Tukey HSD fod gwahaniaeth arwyddocaol i'w cael yn y sgorau, gyda sgôr cyfartalog y grŵp Cymraeg yn uwch ac yn gwahaniaethu'n arwyddocaol rhwng sgorau cyfartalog is y grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg bob tro (gweler Ffigwr 15).

Ceir rhai gwahaniaethau arwyddocaol yn ogystal yn y gwahaniaethau rhwng y gwahanol math o eitemau wrth gymharu'r eitemau sydd agosaf i'w gilydd o ran sgorau a geir (gweler Tabl 50).

**Tabl 50 – Sgorau plant ar yr cymariaethau rhwng yr sgorau agosaf a gafwyd ar yr wyth math o gyfuniadau a geir o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol). Mae \* yn nodi lle ceir gwahaniaeth arwyddocaol.**

Cymhariaeth	Math o eitem	Wilks Lambda	Sgor F	Eta Squared	*
1 vs 2	Cadarn1CiwAng vs. Cadarn1CiwCyf	.91	[F(1,122)=11.88, $p$ =.001]	.09	*
2 vs 3	Cadarn1CiwCyf vs. Cadarn2GiwAng	.90	[F(1,122)=13.26, $p$ <.0005]	.10	*
3 vs 4	Cadarn2GiwAng vs. Cadarn2GiwCyf	.97	[F(1,122)=3.85, $p$ =.05]	.03	*
4 vs 5	Cadarn2GiwCyf vs. Negydd1CiwAng	.10	[F(1,122)=0.16, $p$ =.69]	-	-
5 vs 6	Negydd1CiwAng vs. Negydd1CiwCyf	.65	[F(1,122)=66.73, $p$ <.0005]	.35	*
6 vs 7	Negydd1CiwCyf vs. Negydd2GiwAng	.86	[F(1,122)=20.56, $p$ <.0005]	.14	*
7 vs 8	Negydd2GiwAng vs. Negydd2GiwCyf	.99	[F(1,122)=0.98, $p$ =.32]	-	-
8 vs 1	Negydd2GiwCyf vs. Cadarn1CiwAng	.26	[F(1,122)=343.57, $p$ <.0005]	.74	*

Mae'r gwahaniaeth arwyddocaol a geir yn yr eitem lle ceir y sgôr uchaf (eitem 8) a'r sgôr isaf (eitem 1) yn uchel iawn (gweler Tabl 50 a Ffigwr 16). Mae'r bwlch rhwng y grwpiau iaith hefyd yn wahanol, gyda'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg yn perfformio dim llawer mwy na siawns (50%) i'w cymharu â'r grŵp Cymraeg sydd ar 75% ar eitem 1 = Cadarn1CiwAng (bwlch oddeutu 20%). Fodd bynnag mae'r bwlch yn lleihau rhwng y grwpiau iaith ar eitem 8 = Negydd2GiwCyf gyda sgorau'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg yn debycach i sgôr y grŵp Cymraeg sydd oddeutu 80% (bwlch oddeutu 5%). Fe drafodir goblygiadau'r canlyniadau hyn yn ymhellach yn y bennod canlynol.



Ffigwr 16 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer eitem 1 ac eitem 8 sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (eitem 1 = Cadarnhaol, 1 Ciw ac Anghyfatebol; eitem 8 = Negyddol, 2 Giw ac Cyfatebol).

### 6.1.9 I Gloi – Crynodeb o'r sgorau cyfunol a gafwyd

Mae'r sgorau cyfunol (h.y., cyfuniad o'r sgorau ar draws y gwahanol fathau o brofion a gynhaliwyd – llafar, ysgrifenedig, cynhyrchio a barnu) yn awgrymu fod plant hŷn yn gwneud yn well na phlant iau a bod unigolion sy'n derbyn Cymraeg yn unig yn y cartref yn perfformio'n well, yn gyffredinol, ar y profion hyn o'r system ateb yn y Gymraeg i'w cymharu ag unigolion sydd un ai yn derbyn Saesneg yn unig neu cymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn y cartref. Yn ogystal roedd yr unigolion oedd yn siarad Cymraeg gyda'u mam, tad, brodyr/chwiorydd a ffrindiau yn gwahaniaethu'n arwyddocaol ac yn arddangos sgorau uwch i'w cymharu â'r rhai oedd yn siarad Saesneg gyda'u mam, tad, brodyr/chwiorydd a ffrindiau. Yn arwyddocaol iawn, allan o'r holl newidynnau defnydd iaith, yr iaith a siaredir gyda ffrindiau oedd yr unig newidyn i arddangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oedd yn defnyddio un ai'r ddwy iaith (Cymraeg a Saesneg) neu Saesneg yn unig. Dangosodd

y dadansoddiad fod plant oedd yn siarad Cymysg gyda'i ffrindiau yn perfformio'n well na'r rhai oedd yn siarad Saesneg yn unig gyda'u ffrindiau.

Arsylwyd hefyd ar batrymau diddorol yn y canlyniadau gyda sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan geir eitem negyddol yn hytrach na eitem cadarnhaol; 2 giw o'i gymharu ac 1 ciw ac eitem cyfatebol yn hytrach nag eitem anghyfatebol. Fodd bynnag wrth edrych yn fanylach ar y sgorau hyn gellid nodi fod y gwahaniaeth yn y sgorau a geir yn llai ar draws grwpiau iaith pan geir 2 giw o'i gymharu â 1 ciw ac pan geir un ai ciw cyfatebol neu giw anghyfatebol. Felly (fel a nodwyd eisoes) mae'n bosib bod hyn yn awgrymu fod y bwlch a geir rhwng perfformiad y plant sydd yn dod o gartrefi di-Gymraeg neu Cymysg a pherfformiad y plant o gartrefi Cymraeg yn lleihau (i ryw raddau) pan geir nifer fwy o giwiau a phan geir pan geir ciw cyfatebol o'i gymharu â chiw anghyfatebol. Pam y ceir y gwahaniaeth hyn? Mae sgorau'r plant yn y grŵp Cymraeg yn eithaf uchel yn barod ac felly mae'n bosib nad oes disgwyl gweld cymaint â hynny o gynnydd ond ar y llaw arall mae'r gwahaniaethau hyn yn awgrymu bod siawns i'r grwpiau iaith Saesneg a Cymysg wella eu perfformiad os ceir 2 giw ac fe drafodir goblygiadau'r darganfyddiadau hyn ar gyfer patrymau addysgu yn y bennod olaf. Mae'r tueddiad yma i wneud yn well pan geir dau giw yn parhau hyd yn oed pan geir 2 giw anghyfatebol o'i gymharu ag 1 ciw anghyfatebol. Felly, mae posib bod hyn yn awgrymu fod y nifer o giwiau (nifer fwy o giwiau) a geir yn bwysicach nac os ydy'r ciw yn un cyfatebol neu anghyfatebol.

Ar y llaw arall fe amlygir patrymau eraill lle gwelir gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad plant y grŵp iau (blynyddoedd 3 a 4) o'i gymharu â pherfformiad plant y grŵp hŷn (blynyddoedd 5 a 6) – e.e. roedd rhai dadansoddiadau yn amlygu lle, ar adegau, gwelwyd gwahaniaeth arwyddocaol (dair ffordd) rhwng pob grŵp iaith (nifer o giwiau ar

eitemau cadarnhaol); gwahaniaeth arwyddocaol ddwy ffordd (nifer o giwiau ar eitemau negyddol ac nifer o giwiau ar eitemau cyfatebol ac anghyfatebol) ond, ar adegau eraill gwahaniaeth un ffordd rhwng dau grŵp iaith yn unig (eitemau cyfatebol negyddol a chadarnhaol ac eitem anghyfatebol negyddol)). Mae'r gwahaniaethau hyn yn ymwneud gyda patrymau lle ar rai adegau, mae plant o gartrefi Saesneg yn ymdebygu i'r hyn a wneir gan blant o gartrefi Cymysg; mae plant o gartrefi Cymysg yn ymdebygu i'r hyn a wneir gan blant o gartrefi Cymraeg ac lle mae plant o gartrefi Saesneg i'w gweld yn perfformio'n well na phlant o gartrefi Cymysg ar rai eitemau yn y grŵp hŷn.

Mae'r holl ganlyniadau hyn yn adlewyrchiad o'r canlyniadau a gafwyd wrth edrych ar yr eitemau penodol lle rheolir ar gyfer y tri newidyn (h.y. un ai cadarnhaol/negyddol; 1 ciw/2 giw neu cyfatebol neu anghyfatebol) (gweler Tabl 47 am restr cyflawn). Yn y dadansoddiadau hyn roedd yr eitem â'r sgôr uchaf yn cynnwys eitemau negyddol a chyfatebol gyda 2 giw, a'r eitem gyda'r sgôr isaf yn cynnwys eitemau cadarnhaol ac anghyfatebol gyda 1 ciw. Wrth edrych ar yr eitemau penodol mae'r gwahaniaeth arwyddocaol a geir yn yr eitem lle ceir y sgôr uchaf (eitem 8) a'r sgôr isaf (eitem 1) yn uchel iawn ac mae'r bwlch rhwng y grwpiau iaith hefyd yn wahanol, gyda'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg yn perfformio dim llawer mwy na siawns (50%) i'w cymharu â'r grŵp Cymraeg sydd ar 75% ar eitem 1 = Cadarn1CiwAng (bwlch o oddeutu 20%). Fodd bynnag mae'r bwlch yn lleihau rhwng y grwpiau iaith ar eitem 8 = Negydd2GiwCyf gyda sgorau'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg yn debycach i sgôr y grŵp Cymraeg sydd oddeutu 80% (bwlch o oddeutu 5%).

## 6.1.10 Casgliadau

Yn gryno, felly, mae'r canlyniadau hyn yn peri i ni nodi'r casgliadau isod, ac fe drafodir y casgliadau hyn, ac unrhyw oblygiadau, ymhellach yn y bennod olaf:

- Mae tuedd i blant (o bob cefndir iaith) berfformio yn well pan geir:
  1. Nifer fwy o giwiau
  2. Ciw Cyfatebol yn hytrach na chiw Anghyfatebol
  3. Ciw Negyddol yn hytrach na chiw Cadarnhaol.
  
- Mae patrymau perfformio yn amrywio yn ôl oed a chefnidir iaith lle y gwelir:
  - I. Sgôr uwch gan blant o gartrefi Cymraeg ac yna plant o gartrefi cymysg ac yna plant o gartrefi Saesneg (ar gyfartaledd).
  - II. Sgôr uwch gan blant sy'n siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau.
  - III. Mae plant o gartrefi cymysg yn y grŵp hŷn (blynyddoedd 5 a 6 o gartrefi Saesneg ar adegau) yn ymdebygu i blant o gartrefi Cymraeg yn y grŵp iau (blynyddoedd 3 a 4).
  - IV. Ceir adegau pan mae plant o gartrefi Saesneg yn ymdebygu neu hyd yn oed yn perfformio'n well na phlant o gartrefi cymysg.
  - V. Gwelir cynnydd uwch rhwng y grwpiau oed gan plant o gartrefi Saesneg a chartrefi cymysg, ar gyfartaledd.
  - VI. Ceir cynnydd yn sgorau pob grŵp rhwng oedrannau (er fod y grŵp Cymraeg i'w weld yn sgorio'n eithaf uchel beth bynnag) sy'n awgrymu fod dal lle i wella ar berfformiad plant ifanc o'r system hon erbyn diwedd yr ysgol gynradd.

- VII. Ceir gwahaniaeth mawr ym mherfformiad grwpiau iaith wrth gymharu eitemau tryloyw (hawdd) ac afloyw (anodd).

Mae'r rhain oll yn ddarganfyddiadau diddorol, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r damcaniaethau llosg ym maes datblygiad iaith a dwyieithrwydd, ac felly yn destun trafodaeth bellach yn y bennod olaf (y Drafodaeth).



# Pennod 7: Canlyniadau Profion Unigol

## 7.1 Sgorio eitemau fesul prawf

Yn y bennod hon disgrifir y dadansoddiadau a wnaethpwyd ar y profion Cynhyrchu Llafar ac Ysgrifenedig a'r Prawf Barnu ar Lafar ar wahân. Amciah y bennod hon felly yw cymharu perfformiad y plant ar y profion gwahanol h.y. oes gwahaniaethau i'w cael ac yn lle mae darganfod y gwahaniaethau hynny. Mae'n bwysig cynnal dadansoddiadau pellach i'n galluogi i amlygu pa agweddau sy'n peri'r anawsterau mwyaf i'r plant er mwyn gallu awgrymu dulliau addysgol posib i annog sgiliau'r plant. Yn ogystal, mae'r dadansoddiadau hyn yn ein galluogi o'i gymharu sgiliau llafar ac ysgrifenedig – h.y. Ydy un agwedd yn 'cario'r' agwedd arall wrth gyfuno sgorau, ac ydy un agwedd angen mwy o ymyrraeth addysgol.


Cymharwyd sgorau plant unigol o fewn grwpiau oed ac iaith ac ar draws y profion gwahanol (defnyddir N i nodi nifer bob tro). Roedd pob plentyn wedi cwblhau y profion cynhyrchu yn ysgrifenedig ac ar lafar (N=134) gyda nifer ychydig yn llai ar gyfer y prawf barnu ar lafar (N=128). Er mwyn ein galluogi i gymharu perfformiad unigolion ar draws profion defnyddiwyd sgorau canrannol ar gyfer y dadansoddiadau canlynol. Nid yw'r sgorau hyn yn cynnwys yr eitemau rheoli a drafodwyd eisoes gyda'r profion cyfunol (Nifer o eitemau rheoli yn ôl prawf: Prawf barnu ar lafar, N=164; Prawf cynhyrchu ysgrifenedig, N=53; Prawf cynhyrchu ar lafar, N=67). Fel yn y profion cyfunol ymrannwyd y grwpiau i'r ddau grŵp oed a'r tri grŵp a ymrannwyd yn ôl iaith y cartref (gweler Tabl 51).

Tabl 51- Nifer o blant yn ôl grwpiau oed ac iaith y cartref.

Ystod Oedran	Iaith y Cartref			Cyfanswm
	Cymraeg	Saesneg	Cymysg	
7;1-9;8	23	18	17	58
9;9-11;9	24	29	23	76
<b>Cyfanswm iaith</b>	<b>47</b>	<b>47</b>	<b>40</b>	<b>134</b>


## 7.2 Dadansoddiad o'r profion ar wahân

Yn gyntaf, cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau cymysg er mwyn darganfod a oedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w cael rhwng perfformiad y plant ar y tri prawf gwahanol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o'r sgorau a gafwyd ar y tri prawf gwahanol, Wilks Lambda = .50 [ $F(2, 122) = 60.81, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared = 0.50). Awgryma dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau pellach fod effaith anferth rhwng y sgorau a gafwyd ar y Prawf Barnu ar Lafar a'r Prawf Ysgrifenedig, Wilks Lambda = .52 [ $F(2, 122) = 111.46, p < .0005$ ], eta squared = 0.47 a'r prawf Barnu ar lafar a'r prawf Cynhyrchu llafar, Wilks Lambda = .62 [ $F(2, 122) = 74.97, p < .0005$ ], eta squared = .38. Fodd bynnag darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol llai rhwng y sgorau a gafwyd ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf cynhyrchu llafar, Wilks Lambda = .90 [ $F(2, 128) = 14.32, p < .0005$ ], eta squared = .10 (gweler Ffigwr 17). Awgryma'r ystadegau hyn a'r patrwm a welir yn Ffigwr 17 fod plant wedi cael mwy o anawsterau gyda'r prawf barnu ar lafar i'w cymharu a'r profion cynhyrchu ysgrifenedig ac ar lafar.



**Ffigur 17 - Sgorau canrannol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a prawf cynhyrchu llafar ar y system ateb yn y Gymraeg.**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) o oed [ $F(1, 122) = 14.69, p < .0005$ ] ac iaith [ $F(2, 122) = 28.63, p < .0005$ ] (eta squared = 0.11 a 0.32) (oedd yn dilyn yr un patrymau blaenorol a welwyd ym mhennod 5.2 (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg) gweler Ffigur 18). Ni ddarganfuwyd unrhyw ryngweithiad (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng oed a iaith [ $F(2, 122) = 2.25, p = .110$ ]; y math o brawf ac iaith y cartref Wilks Lambda = .95, [ $F(2, 242) = 1.55, p = .189$ ], eta squared = .03, nac ychwaith rhwng y math o brawf ac oed, Wilks Lambda = .97, [ $F(2, 121) = 1.96, p = .146$ ], eta squared = .03. Fodd bynnag, fe amlygwyd rhyngweithiad dair ffordd rhwng y math o brawf x iaith y cartref x oed, Wilks Lambda = .91, [ $F(4, 242) = 2.90, p = .023$ ], eta squared = .05.



**Ffigur 18 - Sgorau canrannol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, prawf cynhyrchu ysgrifenedig a prawf cynhyrchu llafar ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) a grwpiau oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).**

**Tabl 52 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9) yn ôl y math o brawf a gafwyd (barnu ar lafar, cynhyrchu ysgrifenedig, cynhyrchu ar lafar) a'r gwahaniaethau a welir yn y sgorau o fewn y grwpiau iaith yn ôl oed.**

Math o Brawf	Iaith y Cartref a Grŵp Oed					
	Cymraeg		Saesneg		Cymysg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Barnu ar Lafar	66.14	74.55	53.44	62.55	58.00	64.70
Cynhyrchu Ysgrifenedig	81.95	88.55	58.28	76.93	75.94	73.90
Cynhyrchu ar Lafar	79.73	83.95	61.39	68.55	67.76	70.20
	Gwahaniaethau o fewn y grwpiau oed yn ôl y grwpiau iaith					
Barnu ar Lafar	8.41		9.11		6.7	
Cynhyrchu Ysgrifenedig	6.6		18.65		-2.04	
Cynhyrchu ar Lafar	4.22		7.16		2.44	

Amlygwyd rhyngweithiad rhwng oed ac iaith y cartref, ar y prawf ysgrifennu yn unig, [ $F(2,128)=5.02$ ,  $p=.008$ ], eta squared=0.29. Mae'r rhyngweithiad hyn i'w weld yn glir yn Ffigur 18 a Thabl 52, lle mae'r grŵp Saesneg yn y grŵp iau i'w gweld yn sgorio'n llawer is na'i cyfoedion yn y grwpiau Cymraeg a Cymysg ond lle mae'r grŵp hŷn yn arddangos

cynnydd syfrdanol yn ei sgôr sy'n golygu eu bod yn sgorio'n uwch na phlant o gartrefi cymysg o'r un oed. Ar y llaw arall mae'r plant o'r grŵp cymysg i'w gweld yn sgorio'n waeth ar y prawf ysgrifenedig yn y grŵp hŷn o gymharu â'r sgorau a gafwyd gan y grŵp iau (gweler Tablau 52 a 53). Oherwydd hyn nid os modd nodi i sicrwydd os mae cynnydd yn sgôr y grŵp Saesneg neu diffyg cynnydd digonol ym mherfformiad y grŵp cymysg, neu'r ddau ffactor sy'n gyfrifol am y newid a gafwyd yn y patrwm.

**Tabl 53 Ystadegau disgrifiadol ar gyfer y gwahaniaethau yn y sgorau cyfartalog ar gyfer iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ac grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9) yn ôl y math o brawf a gafwyd (barnu ar lafar, cynhyrchu ysgrifenedig, cynhyrchu ar lafar). Nodir cyfeiriad gwahaniaeth gyda saethau ↓ = gostyngiad yn y gwahaniaeth rhwng grwpiau iaith a ↑ = cynnydd yn y gwahaniaeth rhwng grwpiau iaith).**

Math o Brawf	Gwahaniaethau yn sgorau iaith y cartref					
	Cymraeg v Saesneg		Saesneg v Cymysg		Cymysg vs Cymraeg	
	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn	Grŵp Iau	Grŵp Hŷn
Barnu ar Lafar	12.7	↓ 12	4.56	↓ 2.15	8.14	↑ 9.85
Cynhyrchu Ysgrifenedig	23.67	↓11.62	17.66	↓-3.03	6.01	↑14.65
Cynhyrchu ar Lafar	18.34	↓ 15.4	6.37	↓1.65	11.97	↑13.75

Fodd bynnag, er mai yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn unig y cafwyd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng oed ac iaith y cartref, gweler yr un patrwm yn ymddangos yn y sgorau a gafwyd yn y profion eraill yn ogystal (lle mae'r bwlch rhwng y grwpiau iaith yn lleihau'n sylweddol yn y grŵp hŷn). Mae hyn o ganlyniad i (yn fwy na dim) y cynnydd yn sgorau'r plant o gartrefi Saesneg ym mhob prawf (Cynnydd = 9.11; 18.65; 7.16). Er y gweler cynnydd yn y plant o gartrefi cymysg yn ogystal, cynnydd tila (neu negyddol) iawn sydd i'w weld mewn cymhariaeth (Cynnydd= 6.7; -2.04; 2.44); cynnydd a ragorir gan y rhai o gartrefi Cymraeg hefyd (Cynnydd = 8.41; 6.6; 4.22). Adlewyrchir hyn yn y gwahaniaeth a gafwyd rhwng grwpiau iaith yn Nhabl 53 lle mae'r gwahaniaeth rhwng grwpiau iaith yn lleihau rhwng y grŵp Saesneg a grwpiau eraill yn y grŵp hŷn oherwydd y cynnydd yn sgôr y

grŵp Saesneg. Ar y llaw arall gweler gwahaniaeth mwy rhwng y grŵp Cymysg a'r grŵp Cymraeg ar draws y tri prawf yn y grŵp hŷn (Gwahaniaeth = 9.85; 14.65; 13.75) na'r hyn a welir gan y grŵp iau (Gwahaniaeth = 8.14; 6.01; 11.97).

I gloi felly dangosir y canlyniadau hyn bod y plant i'w gweld yn perfformio'n well ar y profion cynhyrchu i'w gymharu â'r prawf barnu a'u bod (ar gyfartaledd) yn dilyn yr un patrwm ar gyfer oed (hŷn > iau) ac iaith (Cymraeg > Saesneg a Cymysg). Fodd bynnag fe gafwyd amrywiadau ym mherfformiad y plant ar draws profion (yn arbennig yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig) ac felly fe edrychwyd ar ddefnydd y plant o'r iaith Gymraeg gyda aelodau eraill o'r teulu a'i ffrindiau, yn enwedig gan fod ymchwil blaenorol wedi adnabod pa mor bwysig yw derbyn amlygiad digonol i iaith leiafrifol (y Gymraeg yn benodol) wrth gaffael iaith (e.e. Gathercole a Thomas, 2005).


### **7.2.1 Effaith defnydd iaith: rhieni, brodyr/chwiorydd, a ffrindiau**

Fel a wnaethpwyd ar gyfer y sgorau cyfunol ym Mhennod 6, gwnaethpwyd dadansoddiadau un ffordd pellach i ddarganfod a oedd y gwahaniaeth arwyddocaol a gafwyd rhwng grwpiau iaith yn parhau i fodoli ar y profion unigol pan edrychwyd ar yr iaith a siaradir gyda'r fam a'r tad, iaith a siaradir gyda brodyr/chwiorydd ac iaith a siaradir gyda ffrindiau ar wahân. Roedd pob dadansoddiad i'w weld yn arwyddocaol ar draws yr holl brofion. Yn gyntaf darganfuwyd effaith arwyddocaol o'r iaith a siaradir gyda'r fam ar y prawf barnu ar lafar [ $F(2,124)=8.22, p<.0005$ ] (eta squared=0.13); y prawf cynhyrchu ar lafar [ $F(2,130)=15.51, p<.0005$ ] (eta squared=0.23); prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2,130)=9.98, p<.0005$ ] (eta squared=0.15) (gweler Ffigwr 19) a'r iaith a siaradir gyda'r tad ar y prawf barnu ar lafar [ $F(2,121)=17.34, p<.0005$ ] (eta squared=0.29); y prawf cynhyrchu ar lafar


[ $F(2,125)=30.54, p<.0005$ ] (eta squared=0.48); prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2,127)=13.08, p<.0005$ ] (eta squared=0.21) (gweler Ffigwr 20). Gweler Tabl 54 ar gyfer yr allwedd ar gyfer y ffigyrau isod.

Tabl 54– Allwedd yn cynnwys y lliwiau cyfatebol ar gyfer Ffigyrau 19, 20, 21 ac 22 isod.

laith	
Cymraeg	
Saesneg	
Cymysg	



Ffigwr 19 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y fam (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.




Ffigwr 20 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y tad (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.

Yn y dadansoddiadau uchod roedd y plant oedd yn siarad Cymraeg gyda’u mamau neu eu tadau, yn gwahaniaethu’n arwyddocaol ymhob prawf ac yn arddangos sgorau uwch


i'w cymharu â'r rhai oedd yn siarad Saesneg gyda'i mam neu ei tad (Cymraeg > Saesneg). Yn ogystal roedd yr iaith a siaradir gyda'r tad yn arddangos gwahaniaethau arwyddocaol pellach yn y mwyafrif o brofion gyda unigolion oedd yn siarad Cymraeg â'i gilydd yn perfformio'n well i'w cymharu â'r unigolion oedd yn siarad gyda'i gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, (Cymraeg > Cymysg).

Darganfuwyd effaith arwyddocaol hefyd o'r iaith a siaradir gyda brodyr/chwiorydd ar y prawf barnu ar lafar [ $F(2,110)=13.75, p<.0005$ ] (eta squared=0.25); y prawf cynhyrchu ar lafar [ $F(2,116)=22.78, p<.0005$ ] (eta squared=0.39); prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2,116)=14.37, p<.0005$ ] (eta squared=0.25) (gweler Ffigwr 21) yn ogystal â'r iaith a siaradir gyda ffrindiau ar y prawf barnu ar lafar [ $F(2,123)=11.53, p<.0005$ ] (eta squared=0.19); y prawf cynhyrchu ar lafar [ $F(2,129)=17.97, p<.0005$ ] (eta squared=0.29); prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2,129)=14.54, p<.0005$ ] (eta squared=0.23) (gweler Ffigwr 22).



**Ffigwr 21 – Sgorau Canrannol ar gyfer iaith brodyr a chwiorydd (Cymraeg Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.**





**Ffigwr 22– Sgorau Canrannol ar gyfer iaith y ffrindiau (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar y profion unigol.**

Unwaith eto roedd y plant oedd yn siarad Cymraeg gyda'i brodyr/chwiorydd a ffrindiau yn gwahaniaethu'n arwyddocaol ymhob prawf ac yn arddangos sgorau uwch i'w cymharu â'r rhai oedd yn siarad Saesneg gyda'i brodyr/chwiorydd a ffrindiau (Cymraeg > Saesneg). Yn ogystal roedd yr iaith a siaradir gyda'r brodyr a'r chwiorydd yn arddangos gwahaniaethau arwyddocaol pellach gyda unigolion oedd yn siarad Cymraeg â'i gilydd yn perfformio'n well i'w cymharu â'r unigolion oedd yn siarad gyda'i gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, (Cymraeg > Cymysg). Fodd bynnag, yr iaith a siaradir gyda ffrindiau oedd yn arddangos yr unig wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oedd yn siarad un ai Saesneg neu Cymysg gyda'i gilydd, gydag unigolion oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg gyda'i ffrindiau yn perfformio'n well na'r rheiny oedd yn siarad Saesneg yn unig gyda'i ffrindiau, (Cymysg > Saesneg).

Fel yn y profion cyfunol nid yw'r canlyniadau a gafwyd yn ôl iaith a siaradir gyda thad, mam a brodyr chwiorydd yn annisgwyl gan fod hyn yn adlewyrchiad o'r iaith a siaradir yn y cartref ond mae'r gwahaniaeth yn y sgorau wrth edrych ar yr iaith a siaradir gyda ffrindiau yn adlewyrchu pwysigrwydd defnydd yr iaith y tu allan i'r cartref ac oriau ysgol

(trafodir hyn ymhellach yn y bennod olaf). Yn y dadansoddiadau sy'n weddill gwnaethpwyd dadansoddiadau amrywiol er mwyn cymharu perfformiad plant yn ôl y newidynnau gwahanol a gafwyd ar bob prawf ar wahân.

## 7.2.2 Eitemau Cadarnhaol a Negyddol – Profion Unigol

Fel y gwnaethpwyd gyda'r eitemau cyfunol oherwydd bod modd i unigolion ymateb yn gywir yn negyddol drwy ddefnyddio'r negydd *Na* yn unig, disgwylir i unigolion sgorio'n uwch ar yr eitemau sy'n ysgogi ymateb negyddol o'i gymharu â'r eitemau sy'n ysgogi ymateb cadarnhaol (yn ôl y ffeithiau ddarparwyd) lle mae'n rhaid dewis o blith nifer fawr o ymatebion posib. Aethpwyd ati i gymharu perfformiad unigolion ar yr eitemau negyddol a'r eitemau cadarnhaol ar wahân ar y profion unigol a cheisio darganfod a oedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w canfod rhwng y grwpiau yn y nifer o ymatebion safonol a gafwyd. Cyflwynir y canlyniadau ar gyfer perfformiad y plant ar ymatebion cadarnhaol a negyddol ar y profion ar wahân isod.


### 7.2.2.1 Eitemau Negyddol

Gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad grwpiau iaith ar draws y tri prawf gwahanol ar yr eitemau negyddol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol rhwng y sgorau negyddol a gafwyd ar draws y profion gwahanol, Wilks Lambda = .43,  $[F(2,121)=81.63, p<.0005]$ , eta squared = .57. Roedd hyn o ganlyniad i well perfformiad ar y prawf barnu ar lafar na'r prawf cynhyrchu ar lafar Wilks Lambda = .47,  $[F(1,122)=139.34, p<.0005]$ , eta squared = .53 a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig (Wilks Lambda = .52,  $[F(1,122)=114.72, p<.0005]$ , eta squared = .49. Nid oedd gwahaniaeth ym mherfformiad y plant ar y sgorau negyddol ar y prawf cynhyrchu

ysgrifenedig a'r prawf cynhyrchu llafar Wilks Lambda =1.00, [ $F(1,128)=0.64$ ,  $p=.425$ ], eta squared = .005. Yn dilyn hyn darganfuwyd effaith arwyddocaol wrth gymharu'r perfformiad unigolion ar yr eitemau negyddol ar y prawf barnu ar lafar gyda'r prawf cynhyrchu llafar, Wilks Lambda =.47, [ $F(1,122)=139.34$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .53 a'r y prawf barnu ar lafar a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig, Wilks Lambda =.52, [ $F(1,122)=114.72$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .49. Ond ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol wrth gymharu sgorau negyddol ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf cynhyrchu llafar Wilks Lambda =1.00, [ $F(1,128)=0.64$ ,  $p=.425$ ], eta squared = .005. Fel y gweler yn Ffigwr 23 mae plant yn dilyn y patrwm canlynol pan gafwyd eitem negyddol ar gyfartaledd:

#### **Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig a Prawf Cynhyrchu Llafar > Prawf Barnu ar Lafar**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o iaith y cartref [ $F(2,122)=16.48$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .21 ac roedd y gwahaniaeth iaith o ganlyniad Cymraeg > Saesneg a Cymysg unwaith eto (gweler Ffigwr 23). Ond, yn wahanol i ddadansoddiadau blaenorol, ni chafwyd effaith arwyddocaol o oed [ $F(1,122)=2.30$ ,  $p=.150$ ], eta squared = .57. Fodd bynnag fe ddarganfuwyd rhyngweithiad rhwng y math o brawf ac oed Wilks Lambda =.89, [ $F(2,121)=7.66$ ,  $p=.001$ ], eta squared = .11 a'r math o brawf ac iaith y cartref Wilks Lambda =.43, [ $F(4,242)=3.12$ ,  $p=.016$ ], eta squared = .05.



**Ffigwr 23 - Sgorau canrannol negyddol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Er mwyn archwilio'r rhyngweithiad arwyddocaol a gafwyd rhwng y math o brawf x oed ac math o brawf x iaith y cartref ymhellach gwnaethpwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVAs) rhyng-gyfrannol ddwy-ffordd ar yr eitemau negyddol yn unig i ddechrau ar y prawf barnu ar lafar (N=84), prawf cynhyrchu ar Lafar (N=34) a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig (N=26). Darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol (sy'n gyfystyr a  $p < .05$ ) yn y sgorau rhwng y ddau grŵp oed ar y prawf barnu ar lafar, [ $F(1,122)=19.89, p < .0005$ ], (eta squared=0.14) oedd yn dilyn y patrwm blaenorol (hŷn > iau). Fodd bynnag ni ddarganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol yn y sgorau negyddol a gafwyd rhwng y ddau grŵp oedran ar y prawf cynhyrchu llafar, [ $F(1,122)=.052, p=.820$ ] nac ychwaith ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig, [ $F(1,122)=.089, p=.767$ ] (gweler Tabl 55 isod).

Tabl 55 – Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog unigolion ar eitemau negyddol y profion unigol yn ôl grŵp oed a'r gwahaniaeth a gafwyd rhwng grwpiau oed.

		Prawf Barnu ar lafar*		Prawf Cynhyrchu Llafar		Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig	
		Cymedr	Gwyriad Safonol	Cymedr	Gwyriad Safonol	Cymedr	Gwyriad Safonol
Negyddol	Grŵp Iau	65.79	13.95	86.51	11.39	87.84	18.73
	Grŵp Hŷn	73.76	11.72	85.08	11.88	86.37	14.18
Gwahaniaeth		<b>7.97</b>		<b>-1.43</b>		<b>-1.47</b>	


Mae'r darganfyddiad uchod yn ddiddorol gan fod y grŵp hŷn i'w gweld yn perfformio'n arwyddocaol uwch yn gyson wrth eu cymharu gyda sgorau'r grŵp iau yn y mwyafrif o'r dadansoddiadau blaenorol. Amlyga'r canlyniadau hyn y pwysigrwydd o gynnal dadansoddiadau ar wahân er mwyn sicrhau bod yr effeithiau a gafwyd un ai yn debyg neu'n wahanol i'r dadansoddiadau cyfunol a wnaethpwyd ym mhennod 6. Awgryma'r darganfyddiadau hyn fod y plant iau wedi deall anghenion atebion negyddol yn eithaf cynnar, sydd ddim yn annisgwyl oherwydd natur dryloyw y system ateb negyddol o'i gymharu â'r dewis amrywiol o ymatebion cadarnhaol a gafwyd (rhaid cofio bod posibil ymateb gyda *Na* yn unig yn negyddol bob tro). Yn ychwanegol i hyn darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau iaith ar y prawf barnu ar lafar [ $F(2,122)=19.29, p < .0005$ ], eta squared=.24 a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2,128)=7.19, p = .001$ ] eta squared=0.10 a'r gyda profion Post-hoc Tukey HSD yn awgrymu fod Cymraeg > Saesneg + Cymysg bob tro. Ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau ar y prawf cynhyrchu llafar [ $F(2,128)=2.49, p = .087$ ] (gweler Ffigur 23).

### 7.2.2.2 Eitemau Negyddol Gwahanol = *Na* yn unig vs *Na* + *Berf*

Er mwyn ein galluogi i archwilio'r gwahaniaeth mewn perfformiad plant ar yr eitemau negyddol ar y tri phrawf gwahanol edrychwyd a chymharwyd y canran o'r math gwahanol o ymatebion negyddol a gafwyd ar y profion ar wahân. Yn gyntaf cymharwyd

perfformiad y plant ar y prawf barnu ar lafar ar y ffurfiau *Na* + berf a ffurfiau *Na* yn unig. Roedd yr ymatebion *Na* + berf yn cynnwys y ffurfiau presennol, dyfodol, amherffaith ac amhendant o'r ferf *bod* tra cysidrwyd ffurfiau di-adlais yn ymatebion lle defnyddiwyd *Na* yn unig. Darganfuwyd effaith arwyddocaol yn y defnydd a wnaethpwyd gan unigolion o'r ffurfiau gwahanol ar y prawf barnu ar lafar, Wilks Lambda = .76,  $[F(1,122)=38.46, p<.0005]$ , eta squared = .24, lle roedd y sgorau am ymatebion cywir ar gyfer amrywiadau o *Na* yn unig yn uwch ( $M=75.23, SD=17.94$ ) na'r defnydd o'r canran o sgorau a gafwyd ar gyfer ymatebion cywir *Na* + berf ( $M=68.59, SD=12.77$ ).

Yn ogystal cymharwyd defnydd y plant ar y ffurfiau negyddol *Na* a *Na* + berf ar y profion lle roedd angen i'r plant gynhyrchu'r ymatebion sef y prawf cynhyrchu llafar a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig. Gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu'r nifer o weithiau defnyddir *Na* yn unig i'w cymharu â *Na* + Berf. Darganfuwyd effaith arwyddocaol yn y defnydd a wnaethpwyd gan unigolion o'r ffurfiau gwahanol, Wilks Lambda = .82,  $[F(1,128)=28.16, p<.0005]$ , eta squared = .18, gyda'r defnydd o *Na* yn llawer uwch ( $M=53.78, SD=28.75$ ) na'r defnydd o *Na* + berf ( $M=32.62, SD=25.42$ ). Unwaith eto, mae'r canlyniadu hyn yn amlygu pwysigrwydd cynnal nifer o ddadansoddiadau pellach ar eitemau penodol er mwyn cael ddealltwriaeth cyflawn o batrwm ymatebion plant. Yn dilyn hyn, darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol o oed yn y defnydd a wnaethpwyd o'r ffurfiau gwahanol Wilks Lambda = .92,  $[F(1,128)=11.24, p=.001]$ , eta squared = .08 gyda'r grŵp iau (Bl 3 a 4:  $M= 62.19; SD=26.99$ ) yn gwneud mwy o ddefnydd o *Na* yn unig wrth ymateb o'i gymharu â'r grŵp hŷn (Bl 5 a 6:  $M= 47.37; SD=28.56$ ) (gweler Ffigur 24). Ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol o iaith y cartref Wilks Lambda = .99,  $[F(2,128)=.85, p=.431]$ .



**Ffigwr 24 - Defnydd canrannol Na yn unig vs Na + Berf ar gyfer y prawf cynhyrchu llafar a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau=7;1-9;8; Grŵp Hŷn = 9;9-11;9).**


Mae'r darganfyddiadau hyn yn awgrymu fod y grŵp hŷn yn ymdrechu i ddefnyddio'r ffurfiau mwy afloyw o *Na* + Berf na'r plant iau ac bod hyn gyda'r gallu i esbonio'r canlyniadau a gafwyd lle roedd y grŵp hŷn i'w gweld yn perfformio'n is na'r grŵp iau ar y profion cynhyrchu.

### 7.2.2.3 Eitemau Cadarnhaol

Gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad grwpiau iaith ar draws y tri prawf gwahanol ar yr eitemau cadarnhaol. Darganfuwyd effaith arwyddocaol rhwng y sgorau cadarnhaol a gafwyd ar y profion gwahanol, Wilks Lambda = .53,  $[F(2,121)=53.52, p<.0005]$ , eta squared = .50, gan amlygu'r patrwm Prawf Barnu ar lafar > Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig > Prawf Cynhyrchu Llafar (Wilks Lambda  $\geq$ .54  $[F(1,122) \geq 16,40, p<.0005]$  ar draws y dadansoddiadau).

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed  $[F(1,122)=20.43, p<.0005]$ , eta squared = .14 ac effaith arwyddocaol o iaith y cartref  $[F(2,122)=24.96, p<.0005]$ , eta squared = .29 lle dilynwyd y patrwm adnabyddus o hŷn > iau ac Cymraeg > Saesneg + Cymysg. Yn

ychwanegol i'r canlyniadau hyn amlygwyd rhyngweithiad ar yr eitemau cadarnhaol rhwng math o brawf ac iaith y cartref Wilks Lambda =.85,  $[F(4, 242)=5.21, p<.0005]$ , eta squared = .08 (gweler Ffigur 25).




**Ffigur 25 - Sgorau canrannol cadarnhaol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Ni chafwyd rhyngweithiad rhwng oed ac iaith y cartref,  $[F(2, 122)=2.49, p=.087]$ , eta squared = .04; math o brawf ac oed Wilks Lambda =.96,  $[F(2, 121)=2.82, p=.064]$ , eta squared = .05 nac ychwaith rhwng y math o brawf, oed ac iaith y cartref, Wilks Lambda =.93,  $[F(4, 242)=2.12, p=.079]$ , eta squared = .03 (er fod y sgorau yn agosáu tuag at bod yn arwyddocaol ar rai adegau). Er y darganfuwyd rhyngweithiad rhwng y math o brawf ac iaith y cartref amlyga dadansoddiadau dilynol bod y grwpiau iaith yn dilyn yr un patrwm ym mhob prawf Cymraeg > Saesneg + Cymysg. Fodd bynnag mae Ffigur 26 yn awgrymu bod y rhyngweithiad hyn yn deillio o'r bwllch uwch a gafwyd rhwng grwpiau iaith ar y profion cynhyrchu i'w cymharu a'r prawf barnu ar lafar.



## 7.2.3 Crynodeb Cad vs Neg



**Ffigwr 26 - Sgorau canrannol cadarnhaol a negyddol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Fel y disgwylir ac fel y gweler yn Ffigwr 26 mae'r sgorau ar yr eitemau cadarnhaol ar y tri prawf yn is na'r sgorau a gafwyd ar yr eitemau negyddol.

Mae'n amlwg felly bod:

- 1) Unigolion (ar draws grwpiau iaith ac oed) yn defnyddio ymatebion negyddol yn fwy cyson a chywir yn y tri prawf i'w cymharu ag ymatebion cadarnhaol
- 2) Mae'r gwahaniaeth hyn yn fwy arwyddocaol yn y profion cynhyrchu o'i gymharu â'r prawf barnu.
- 3) Er fod sgorau'r plant o gartrefi Cymraeg yn gyson uwch na'r grwpiau iaith eraill mae perfformiadau amrywiol wedi cael eu hamlygu yn y dadansoddiadau hyn, yn enwedig wrth gymharu perfformiad plant o gartrefi Saesneg a phlant o gartrefi Cymysg.

4) Mae patrymau gwahanol i'w gweld ym mherfformiad plant yn ôl y math o brawf:

i. Eitemau Negyddol

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig a Prawf Cynhyrchu Llafar > Prawf Barnu ar Lafar

ii. Eitemau Cadarnhaol

Prawf Barnu ar lafar > Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig > Prawf Cynhyrchu Llafar


Yn yr adran nesaf edrychir ar bwysigrwydd y nifer o ciwiau a gafwyd ar y profion gwahanol. Roedd hwn i'w weld yn ffactor bwysig yn y sgorau cyfunol ac felly mae'r dadansoddiadau canlynol yn ceisio darganfod a y cafwyd yr un patrwm wrth edrych ar bob un prawf ar wahân ynteu a oedd y ciwiau yn fwy o gymorth ar gyfer rhai profion na'i gilydd.

## 7.2.4 Nifer o Giwiau – Profion Unigol

Yn dilyn y canlyniadau a gafwyd ar y sgorau cyfunol disgwyliwyd i blant berfformio'n well ar y profion ar wahân pan gafwyd 2 giw mewn cymhariaeth ag 1 ciw yn unig. Er mwyn profi'r rhagdybiaeth yma cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod effaith posib nifer o giwiau (1 neu 2) ar y sgorau a gafwyd gan y grwpiau gwahanol ar y profion unigol.

Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) yn sgorau'r grwpiau pan gafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y prawf barnu ar lafar, Wilks Lambda = .66 [ $F(1, 122) = 63.18$ ,  $p < .0005$ ] eta squared = 0.34; ac ar y prawf cynhyrchu llafar, Wilks Lambda = .64 [ $F(1, 128) = 72.45$ ,  $p < .0005$ ] eta squared = 0.36, gyda'r sgorau yn cynyddu (ar draws grwpiau iaith ac oed) pan gafwyd 2 giw o'i gymharu ac 1 ciw. Ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol yn y sgorau pan gafwyd eitemau gyda 1 ciw neu 2 giw ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig Wilks


Lambda =.98 [ $F(1, 128) = 72.45, p = .153$ ] eta squared = .02. Er nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn y prawf ysgrifenedig roedd y grwpiau iaith Saesneg a Chymysg yn dueddol ddilyn yr un patrwm o wneud yn well pan gafwyd 2 giw ond roedd sgorau'r grŵp Cymraeg ychydig yn uwch pan gafwyd 1 ciw (gweler Ffigur 27).



**Ffigur 27 - Sgorau canrannol lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed ar y prawf cynhyrchu llafar [ $F(1, 128) = 5.90, p = .017$ ] eta squared = .04, y prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(1, 128) = 12.28, p = .001$ ] eta squared = 0.9 a'r prawf barnu ar lafar [ $F(1, 122) = 21.90, p < .0005$ ] eta squared = .15, gyda'r plant hŷn yn gwneud yn well na'r plant iau bob tro. Amlygwyd hefyd wahaniaeth arwyddocaol o iaith y cartref ar bob prawf: y prawf barnu ar lafar [ $F(1, 122) = 19.180, p < .0005$ ] eta squared = .24; y prawf cynhyrchu llafar [ $F(2, 128) = 25.54, p < .0005$ ] eta squared = .28 a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2, 128) = 17.82, p < .0005$ ] eta squared = .22.

Fodd bynnag, dim ond ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig y cafwyd rhyngweithiad rhwng oed ac iaith y cartref [ $F(2, 128) = 5.07, p = .008$ ] eta squared = .07; nifer o giwiau ac iaith y cartref Wilks Lambda = .94 [ $F(2, 128) = 4.12, p = .018$ ] eta squared = 0.06 a nifer o giwiau x oed x iaith y cartref Wilks Lambda = .93 [ $F(2, 128) = 4.52, p = .013$ ] eta squared = .07. Dangosa dadansoddiadau pellach ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig fod plant hŷn (blynyddoedd 5 a 6) yn arddangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith [ $F(2, 73) = 8.24, p = .001$ ] eta squared = .18, lle mae Cymraeg > Saesneg + Cymysg ond fod y plant iau yn arddangos gwahaniaeth arwyddocaol [ $F(2, 55) = 11.19, p < .0005$ ] eta squared = .29 lle mae Cymraeg + Cymysg > Saesneg. Yn ogystal amlygwyd patrymau arwyddocaol gwahanol pan gafwyd 1 Ciw Cymraeg > Saesneg + Cymysg [ $F(2, 131) = 15.63, p < .0005$ ] i'w cymharu â phan gafwyd 2 giw Cymraeg > Saesneg [ $F(2, 131) = 7.03, p = .001$ ] (gweler Ffigwr 28).



**Ffigwr 28 - Sgorau canrannol lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar gyfer y prawf ysgrifennu yn unig yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Yn olaf awgryma'r rhyngweithiad dair ffordd ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig (nifer o giwiau x iaith y cartref x oed) fod plant o wahanol oed a gefndiroedd iaith yn arddangos

patrymau gwahanol o ymateb pan gafwyd un ai 1 neu 2 giw. Yn y grŵp iau roedd y plant i'w gweld yn dilyn y drefn Cymraeg + Cymysg > Saesneg pan gafwyd:

1 ciw [ $F(2, 55) = 11.23, p < .0005$ ], eta squared = .29 neu

2 giw [ $F(2, 55) = 9.14, p < .0005$ ], eta squared = .25.

Fodd bynnag amlygwyd y patrwm blaenorol o Cymraeg > Saesneg + Cymysg gan y grŵp hŷn pan gafwyd 1 ciw [ $F(2, 73) = 12.90, p < .0005$ ], eta squared = .26 ac dim gwahaniaeth arwyddocaol o gwbl rhwng grwpiau iaith pan gafwyd 2 giw [ $F(2, 73) = 2.51, p = .088$ ]. Yn ogystal, mae'r grŵp Cymraeg hŷn yn arddangos sgorau is ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig pan geir 2 giw o'i gymharu â 1 ciw.


#### **7.2.4.1 Crynodeb 1 vs 2 giw**

Mae'r canlyniadau hyn (fel yn y profion cyfunol) yn awgrymu bod y gwahaniaethau arwyddocaol o ran iaith ac oed yn parhau i fodoli pan gafwyd un ai 1 neu 2 giw. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiadau unigol yn awgrymu:

- 1)       Fod plant ar draws grwpiau iaith ac oed i'w gweld yn perfformio'n well ar yr holl brofion pan gafwyd 2 giw o'i gymharu ag 1 ciw (heblaw am y grŵp Cymraeg ar y Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig)
- 2)       Mae sgorau'r plant o gartrefi Cymraeg yn gyson uwch na'r grwpiau iaith eraill ond fe amlygwyd anghysondebau (diffyg cynnydd digonol ym mherfformiad y plant o gartrefi Cymysg yn enwedig) sy'n golygu fod y plant o gartrefi Saesneg yn ymdebygu (neu perfformio'n well) i'r hyn a wna'r grŵp Cymysg.

## 7.2.5 Eitemau Cyfatebol ac Anghyfatebol - Profion Unigol

Fel y disgwylir ac fel y gweler yn Ffigwr 29 mae'r sgorau ar yr eitemau anghyfatebol ar y tri prawf yn is na'r sgorau a gafwyd ar yr eitemau cyfatebol. Mae'r gwahaniaeth hyn rhwng sgorau ar eitemau cyfatebol neu anghyfatebol, fel y cyfrifwyd drwy ddefnyddio dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau, yn arwyddocaol ond yn eithaf bach yn y prawf barnu ar lafar, Wilks Lambda = .97, [ $F(1, 122)=4.37$ ,  $p=.039$ ], eta squared = .04. Cafwyd gwahaniaeth mawr ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig, Wilks Lambda = .61, [ $F(1, 128)=83.55$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .40, a'r prawf cynhyrchu llafar Wilks Lambda = .83, [ $F(1, 128)=26.28$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .17.



**Ffigwr 29 - Sgorau canrannol ar gyfer eitemau cyfatebol ac anghyfatebol ar gyfer y profion unigol o'r system ateb yn y Gymraeg (prawf barnu ar lafar; prawf cynhyrchu llafar a prawf cynhyrchu ysgrifenedig) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg)**

Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o math o oed ar y prawf cynhyrchu llafar [ $F(1, 128)=5.99$ ,  $p=.016$ ], eta squared = .05; y prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(1, 128)=10.40$ ,  $p=.002$ ], eta squared = .08, a'r prawf barnu ar lafar [ $F(1, 122)=22.41$ ,  $p<.0005$ ], eta squared = .16, gyda'r plant hŷn yn well na'r plant iau bob tro. Amlygwyd hefyd

gwahaniaeth arwyddocaol o y cartref ar y prawf cynhyrchu llafar [ $F(2, 128)=24.81$ ,  $p<.0005$ ], eta squared =.28; y prawf cynhyrchu ysgrifenedig [ $F(2, 128)=20.15$ ,  $p<.0005$ ], eta squared =.24 a'r prawf barnu ar lafar [ $F(2, 122)=18.40$ ,  $p<.0005$ ], eta squared =.23, lle roedd pob prawf yn dilyn y drefn flaenorol o Cymraeg > Saesneg + Cymysg. Dim ond ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig y darganfuwyd rhyngweithiad rhwng iaith y cartref ac oed [ $F(2, 128)=4.76$ ,  $p=.010$ ], eta squared =.07. Fodd bynnag, darganfuwyd rhyngweithiad rhwng y math o eitem (cyfatebol neu anghyfatebol) ac iaith y cartref ar y prawf barnu ar lafar Wilks Lambda = .93, [ $F(2, 122)=.63$ ,  $p=.012$ ], eta squared =.07 a'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig Wilks Lambda = .94, [ $F(2, 128)=4.09$ ,  $p=.019$ ], eta squared =.06.

Dangosa dadansoddiadau pellach ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig batrymau tebyg i'r hyn a gafwyd ar y dadansoddiadau pan gafwyd 1 neu 2 giw. Felly, roedd y plant hŷn (blynyddoedd 5 a 6 ) yn arddangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau iaith [ $F(2, 73) =10.51$ ,  $p<.0005$ ] eta squared=.22, lle mae Cymraeg > Saesneg + Cymysg ond plant iau yn arddangos gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau gwahanol [ $F(2, 55) =11.70$ ,  $p<.0005$ ] eta squared=.30 lle mae Cymraeg + Cymysg > Saesneg. Yn ogystal amlygwyd patrymau arwyddocaol gwahanol pan gafwyd eitem Cyfatebol Cymraeg > Saesneg + Cymysg [ $F(2, 131) =17.79$ ,  $p<.0005$ ] i'w cymharu â phan gafwyd eitem anghyfatebol Cymraeg > Saesneg [ $F(2, 131) =6.42$ ,  $p=.002$ ] ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig. Yn olaf amlygwyd yr union un patrymau arwyddocaol ar y prawf barnu ar lafar pan gafwyd eitem Cyfatebol [ $F(2, 125) =7.93$ ,  $p=.001$ ] ac eitem anghyfatebol [ $F(2, 125) =18.65$ ,  $p<.0005$ ] Cymraeg > Saesneg + Cymysg.

### **7.2.5.1 Crynodeb Cyfatebol vs. Anghyfatebol**

Awgryma'r canlyniadau hyn fod:

Unigolion (ar draws grwpiau iaith ac oed) yn defnyddio ymatebion cyfatebol yn fwy cyson a chywir yn y tri prawf i'w cymharu ag ymatebion anghyfatebol.

- 1) Er fod y gwahaniaeth o ran iaith i'w weld ym mherfformiad unigolion ar y profion unigol ar yr eitemau cyfatebol mae perfformiad unigolion ar eitemau anghyfatebol ar y profion unigol yn aros yn eithaf cyson.
- 2) Cafwyd patrwm anghyson ym mherfformiad a chynnydd ym mherfformiad y grŵp Cymysg erbyn blwyddyn 5 a 6 (y grŵp hŷn) 'w weld ar eitemau cyfatebol ac anghyfatebol ar draws yr holl brofion (ond y profion cynhyrchu mwy na dim).
- 3) Mae plant yn perfformio'n well ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig pan cafwyd eitemau cyfatebol ond nid pan y cafwyd eitemau anghyfatebol. Mae hyn (o bosib) yn ymwneud gyda absenoldeb y ffurf ymatebol yn y cwestiwn.

I gloi'r bennod hon fe wnaethpwyd dadansoddiadau er mwyn adnabod pa gyfuniadau o'r newidynnau penodol oedd hawsaf i'w caffael ar y gwahanol fathau o brofion.

## 7.3 Cyfuniadau Newidynnol fesul prawf

Penderfynwyd cymharu sgorau'r plant ar y cyfuniadau amrywiol o'r newidynnau a gafwyd o fewn un eitem ar y profion unigol (cafwyd cyfanswm o wyth cyfuniad, gweler Tabl 56).

**Tabl 56 – Yr wyth math o gyfuniadau a gafwyd o'r tri newidyn gwahanol (eitem Cadarnhaol neu Negyddol; 1 neu 2 giw, eitem Cyfatebol neu Anghyfatebol).**

	<b>Cadarnhaol neu Negyddol</b>	<b>Nifer o Giwiau (1 neu 2)</b>	<b>Cyfatebol neu Anghyfatebol</b>
<b>1</b>	Cadarnhaol	1	Anghyfatebol
<b>2</b>	Cadarnhaol	1	Cyfatebol
<b>3</b>	Cadarnhaol	2	Anghyfatebol
<b>4</b>	Cadarnhaol	2	Cyfatebol
<b>5</b>	Negyddol	1	Anghyfatebol
<b>6</b>	Negyddol	1	Cyfatebol
<b>7</b>	Negyddol	2	Anghyfatebol



### 7.3.1 Prawf Barnu ar Lafar

Yn gyntaf gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad plant ar yr wyth math gwahanol o eitem â gafwyd ar y prawf barnu ar lafar. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, Wilks Lambda = .27 [ $F(7, 116) = 45.05, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared = 0.73) (gweler Ffigwr 30). Dangosa cymhariaeth o'r sgorau cymedrol fesul pâr (Pairwise Comparison) fod gwahaniaeth arwyddocaol i'w cael rhwng y rhan fwyaf o'r eitemau (Amrediad o wahaniaethau cymedrol = 2.08 – 16.75,  $p < .05$ ). Fodd bynnag ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng yr eitemau canlynol:

Eitem 1 (Cadarn 1CiwAng) ac Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf) =  $p = 1.66$ ;

Eitem 1 (Cadarn 1CiwAng) ac Eitem 6 (Negydd1CiwCyf) =  $p = 1.73$


Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) ac Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf) =  $p = 1.92$ ;

Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) ac Eitem 8 (Negydd2GiwCyf) =  $p = 0.75$

Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf) ac Eitem 8 (Negydd2GiwCyf) =  $p = 1.17$ ;

Eitem 5 (Negydd1CiwAng) ac Eitem 6 (Negydd1CiwCyf) =  $p = 0.70$ .

Awgryma'r canlyniadau hyn a'r patrwm a welwyd yn Ffigwr 30 fod patrwm gwahanol i'w weld ym mherfformiad plant ar yr eitemau gwahanol o gymharu â'r hyn a gafwyd ar y sgôr cyfunol (Pennod 6, Ffigwr 15) gan nad oedd yr un cynnydd clir i'w weld yn sgorau'r plant o'r eitem hawdd (Cadarn1CiwAng) i'r eitem anoddaf (Negydd2GiwCyf). Yn hytrach cafwyd perfformiad eithaf amrywiol ar draws eitemau, ond patrwm sydd i'w weld yn eithaf cyson ar draws grwpiau iaith ac yn amlygu pwysigrwydd y nifer o giwiau a gafwyd wrth ymateb.



**Ffigwr 30 - Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tri newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf barnu ar lafar yn unig.**

Yn ogystal, fe ddarganfuwyd effaith arwyddocaol o oed [ $F(1, 122) = 22.10, p < .0005$ ], eta squared = 15 ac effaith arwyddocaol o iaith y cartref [ $F(2, 122) = 18.12, p < .0005$ ], eta squared = 0.23 gyda'r un patrymau disgwylidig yn ymddangos un waith eto (hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg). Yn olaf, fe ddarganfuwyd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng y math o eitem benodol ac iaith y cartref Wilks Lambda = .81, [ $F(14, 232) = 1.84, p = .034$ ], eta squared = .10 ac fe awgryma dadansoddiadau pellach fod sgorau'r plant ar y rhan fwyaf o'r eitemau yn dilyn yr un drefn blaenorol: Cymraeg > Saesneg + Cymysg [ $F(2, 125) = 3.86 - 16.14, p < .05$ ]. Fodd bynnag, amlygwyd batrwm ychydig yn wahanol ar Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf) [ $F(2, 125) = 5.17, p = .007$ ] lle roedd y grŵp Cymraeg yn perfformio'n arwyddocaol well na'r grŵp Saesneg yn unig (gweler Ffigwr 30).

## 7.3.2 Prawf Cynhyrchu Llafar

Yn ail, gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad plant ar yr wyth math gwahanol o eitem â gafwyd ar y prawf cynhyrchu llafar. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y grwpiau, Wilks Lambda = .20 [ $F(7, 122) = 69.33, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared = 0.80) (gweler Ffigwr 31). Dangosa cymhariaeth o'r sgorau cymedrol fesul pâr (Pairwise Comparison) fod gwahaniaeth arwyddocaol i'w cael rhwng y rhan fwyaf o'r eitemau (Amrediad o wahaniaethau cymedrol = 3.35 – 41.99,  $p < .02$ ). Fodd bynnag ni chafwyd gwahaniaeth ar yr eitemau canlynol:

Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) ac Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf) =  $p = 1.06$

Yn ogystal darganfuwyd wahaniaeth arwyddocaol o oed [ $F(1, 128) = 6.30, p = .013$ ], eta squared = .05 ac iaith y cartref [ $F(2, 128) = 25.19, p < .0005$ ], eta squared = .28 a rhyngweithiad rhwng eitemau penodol ac iaith y cartref Wilks Lambda = .65, [ $F(14, 242) = 4.23, p < .0005$ ], eta squared = .20.


Amlyga dadansoddiadau pellach patrwm gwahanol i'r hyn a gafwyd a'r y prawf barnu ar lafar. Dilynwyd yr un drefn blaenorol Cymraeg > Saesneg + Cymysg ar gyfer eitemau cadarnhaol:

Eitem 1 (Cadarn1CiwAng), Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf)

Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) ac Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf)

[ $F(2, 131) = 14.66 - 21.42, p = > .0005$ ]

Trefn Cymraeg > Cymysg ar gyfer Eitem 5 (Negydd1CiwAng) [ $F(2, 131) = 3.78 - 21.42, p = .025$ ] a trefn Cymraeg > Saesneg ar gyfer Eitem 7 (Negydd2GiwAng) [ $F(2, 131) = 3.55 - 21.42, p = .032$ ]. Ni chafwyd gwahaniaethau rhwng grwpiau iaith yn Eitemau 6 (Negydd1CiwCyf) ac 8 (Negydd2GiwCyf) (gweler Ffigwr 31).



Ffigwr 31– Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tair newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf cynhyrchu llafar yn unig.

Dangosa Ffigwr 31 batrwm gwahanol iawn i'r hyn a gafwyd yn y prawf barnu ar lafar.

Er fod y plant yn parhau i wneud yn well ar y 4 eitem haws (4 eitem negyddol) gwelwyd cynnydd mawr a chynnydd fwy cyson o eitemau hawdd i anodd. Yn ogystal mae'r patrwm o sgorau yn arddangos naid anferth (yn y grwpiau Saesneg a Cymysg yn enwedig) rhwng y 4ydd ar 5ed eitem lle newidiwyd o eitemau cadarnhaol i eitemau negyddol. Pan gafwyd eitem cadarnhaol mae perfformiad y plant o gartrefi Cymysg a plant o gartrefi Saesneg yn enwedig un ai yn agos iawn i neu yn is na siawns.

### 7.3.3 Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig

Yn olaf gwnaethpwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn cymharu perfformiad plant ar yr wyth math gwahanol o eitem â gafwyd ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) rhwng y

grwpiau, Wilks Lambda =.27 [ $F(7, 116) = 47.17, p < .0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared=0.73) (gweler Ffigur 32). Dangosa cymhariaeth o'r sgorau cymedrol fesul pâr (Pairwise Comparison) fod gwahaniaeth arwyddocaol i'w cael rhwng y rhan fwyaf o'r eitemau (Amrediad o wahaniaethau cymedrol = 6.67 – 38.01,  $p < .05$ ). Fodd bynnag ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng yr eitemau canlynol:


Eitem 1 (Cadarn 1CiwAng) ac Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) = $p = -3.57$ ;

Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf) ac Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf) = $p = -1.82$ ;

Eitem 5 (Negydd1CiwAng) ac Eitem 7 (Negydd2GiwAng) =  $p = 2.69$ ; ac

Eitem 6 (Negydd1CiwCyf) ac Eitem 8 (Negydd2GiwCyf) = $p = 2.11$ .

Unwaith eto darganfuwyd wahaniaeth arwyddocaol a o iaith y cartref, [ $F(2, 128) = 19.52, p < .0005$ ], eta squared=0.23 a rhyngweithiad arwyddocaol o eitem penodol ac iaith y cartref Wilks Lambda =.74, [ $F(14, 244) = 2.90, p < .0005$ ], eta squared=0.14.



**Ffigur 32 – Sgorau canrannol cyfunol yn ôl grŵp iaith (Cymraeg, Saesneg a Cymysg) ar gyfer yr wyth math gwahanol o eitemau sy'n cynnwys tri newidyn gwahanol (cadarnhaol/negyddol; cyfatebol/anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) ar gyfer y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn unig.**

Unwaith eto, ni ddatgelodd y rhyngweithiad rhwng math o eitem ac iaith y cartref yr union yr un patrwm ym mherfformiad y plant ar yr eitemau penodol ag a welwyd yn y profion eraill (gweler Ffigwr 32). Dilynwyd yr un drefn blaenorol Cymraeg > Saesneg + Cymysg ar gyfer:

Eitem 1 (Cadarn1CiwAng) ac Eitem 3 (Cadarn2GiwAng)

[F (1, 131) = 21.47 + 4.72,  $p = < 0.1$ ]

Ond y drefn Cymraeg + Cymysg > Saesneg ar gyfer

Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf), Eitem 5 (Negydd1CiwAng),

Eitem 6 (Negydd1CiwCyf), Eitem 7 (Negydd2GiwAng)

ac Eitem 8 (Negydd2GiwCyf) [F (1, 131) = 3.24-5.95,  $p > .05$ ].

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol i'w canfod rhwng y grwpiau iaith ar Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf).

Yn ogystal, darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol o oed [F(1, 128) = 10.69,  $p = .001$ ], eta squared=0.08 a rhyngweithiad arwyddocaol rhwng eitem penodol ac oed, Wilks Lambda =.74, [F(7, 122) = 3.27,  $p = .003$ ], eta squared=0.16 (gweler Tabl 57).

**Tabl 57 - Ystadegau disgrifiadol ar gyfer sgorau cyfartalog eitemau penodol ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn ôl grŵp oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9).**

	Grŵp Oed			
	Grŵp Iau		Grŵp Hŷn	
	Cymedr	Gwyriad Safonol	Cymedr	Gwyriad Safonol
Cadarn1CiwAng*	49.16	33.09	61.14	26.41
Cadarn1CiwCyf*	65.52	32.44	79.33	21.01
Cadarn2GiwAng*	49.57	32.27	68.09	26.33
Cadarn2giwCyf*	64.48	32.57	80.96	18.67
Negydd1CiwAng	84.14	22.14	78.87	25.29
Negydd1CiwCyf	90.28	19.97	90.83	16,28
Negydd2GiwAng	81.47	25.36	76.32	22.32
Negydd2GiwCyf	84.34	15.15	84.76	13.98

Dangosa dadansoddiadau dilynol ar y rhyngweithiad rhwng oed a'r math o eitem fod y patrwm o sgorau rhwng grwpiau oed yn amrywio yn ôl y math o eitem gyda'r patrwm blaenorol o hŷn > iau yn arddangos gwahaniaeth arwyddocaol ar gyfer yr holl eitemau cadarnhaol (Eitemau 1-4):

Eitem 1 (Cadarn1CiwAng), Eitem 2 (Cadarn1CiwCyf),

Eitem 3 (Cadarn2GiwAng) ac Eitem 4 (Cadarn2GiwCyf)

(Amrediad sgorau  $t = t(132) = -2.33 - 3.69, p \leq 0.2$ )

Fodd bynnag, ni ddarganfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol ar gyfer yr un o'r eitemau negyddol (Eitemau 5-8):

Eitem 5 (Negydd1CiwAng), Eitem 6 (Negydd1CiwCyf),

Eitem 7 (Negydd2GiwAng) ac Eitem 8 (Negydd2GiwCyf)

Er fod tueddiad i'r grŵp iau wneud yn well na'r grŵp hyn ar yr eitemau hyn (gweler Tabl X).

Mae Tabl 57 yn arddangos unwaith eto y cynnydd mawr a gafwyd yn sgorau'r plant yn y grŵp hŷn, gyda'r plant o gartrefi Saesneg yn perfformio'n is na siawns ar yr eitemau anoddaf na'r grŵp iau. Mae hyn yn awgrymu fod yr eitemau anoddaf yn eitemau afloyw sy'n gallu achosi anawsterau i blant sy'n ceisio eu caffael am y tro cyntaf. Fodd bynnag mae'r trawsnewid a welwyd yn y grŵp hŷn yn awgrymu bod posibil i blant arddangos cynnydd yn eu dealltwriaeth o sut mae defnyddio rhai o'r strwythurau hyn yn effeithlon. Mae hyn gyda goblygiadau pwysig ar gyfer targedu strategaethau dysgu penodol pan yn caffael strwythurau cymhleth yn yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gynradd.

Y tro hwn, er fod plant yn parhau i berfformio'n well ar eitemau negyddol yn hytrach nac eitemau cadarnhaol, mae eitemau cyfatebol i'w gweld yn bwysicach na'r nifer o giwiau a gafwyd h.y. Cadarn1CiwCyf > Cadarn2GiwAng ac Negydd1CiwCyf > Negydd2GiwAng. Mae hyn yn wahanol i'r patrymau blaenorol a gafwyd ar gyfer y profion cyfunol a'r profion eraill

ar wahân. Cynigiwyd fod hyn yn ymwneud gyda elfen weladwy a gafwyd yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig h.y. os y cafwyd ciw cyfatebol, does ond angen i'r plentyn gopio'r union un ymateb a gafwyd yn y cwestiwn. Yn wir mae plant o gartrefi Cymraeg yn enwedig i'w gweld yn perfformio'n waeth pan gafwyd 2 giw os yw'r eitem hwnnw'n anghyfatebol sy'n awgrymu fod cael dau giw anghyfatebol gyda'r gallu i achosi ansicrwydd ac anawsterau pellach ar adegau. Yn ogystal mae plant o gartrefi Saesneg a Cymysg i'w gweld yn perfformio'n isel iawn ar yr eitemau cadarnhaol anghyfatebol (ychydig mwy neu'n is na siawns) gyda sgorau yn codi i dros 60% pan gafwyd eitem cyfatebol.

### **7.3.4 Crynodeb – Dadansoddiad o eitemau penodol**

Nid yw'r patrymau a gafwyd ar yr eitemau penodol wrth edrych ar y profion ar wahân yn union yr un fath a gafwyd yn y dadansoddiadau cyfunol. Mae tueddiad i'r plant arddangos cynnydd yn eu sgorau yn ôl tryloywder neu afloywder yr eitem benodol dan sylw (Hawdd > Anodd). Fodd bynnag, mae'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn arddangos y ceir sgorau uwch ar eitemau cyfatebol; y prawf barnu ar lafar yn arddangos sgorau uwch ar eitemau gyda 2 giw a'r prawf cynhyrchu llafar yn arddangos sgorau uwch ar eitemau negyddol. Yn yr un modd, er fod pob grŵp iaith yn dueddol o ddilyn yr un patrwm (Cymraeg > Saesneg + Cymysg) a'r grŵp hŷn yn gwneud yn well na'r grŵp iau ar gyfartaledd mae rhai anghysondebau i'w gweld o dro i dro. Trafodir rhai o brif ddarganfyddiadau'r adran hon a'r bennod yn ei chyfanrwydd yn y rhan nesaf.

### **7.3.5 I Gloi – Crynodeb o'r sgorau unigol**

I gloi felly dangosai'r canlyniadau hyn bod y plant i'w gweld yn perfformio'n well ar y profion cynhyrchu ysgrifenedig ac ar lafar o'i gymharu â'r prawf barnu ar lafar, a'u bod (ar



gyfartaledd) yn dilyn yr un patrwm ar gyfer oed (hŷn > iau) ac iaith (Cymraeg > Saesneg + Cymysg). Fodd bynnag fe gafwyd amrywiadau ym mherfformiad y plant ar draws profion wrth edrych yn fanylach ar y grwpiau oed a'r grwpiau iaith yn arbennig. Yn ogystal, amlygwyd cynnydd eithaf cyson ym mherfformiad y plant yn y grŵp hŷn, gyda'r cynnydd hwn i'w weld amlycaf ym sgorau'r grŵp Saesneg. Cafwyd cynnydd llai ond cyson yn sgorau'r grŵp Cymraeg hefyd ond cafwyd esiamplau o ostyngiad yn aml ym mherfformiad y grŵp Cymysg ac mi fydd angen ystyried hyn ymhellach yn y man. Ond, yr iaith a siaradwyd gyda ffrindiau oedd yn arddangos yr unig wahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau ar bob prawf yn unigol oedd yn siarad un ai Saesneg neu Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd, gyda unigolion oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg gyda'i ffrindiau yn perfformio'n well na'r rheiny oedd yn siarad Saesneg yn unig gyda'i ffrindiau.

Arddangosa'r profion cynhyrchu yn enwedig batrwm tebyg o sgorio uchel ar yr eitemau negyddol o'i cymharu â'r bwlch uwch a gafwyd rhwng grwpiau oed ac iaith pan gafwyd eitem cadarnhaol. Yn ogystal, yn wahanol i'r canlyniadau blaenorol, roedd plant iau i'w gweld yn perfformio'n well na'r plant hŷn ar y profion cynhyrchu ysgrifenedig a llafar pan gafwyd eitem negyddol. Cynigwyd bod hyn yn ymwneud gyda'r newid yn strategaeth y plant yn y grŵp iau (blwyddyn 3 a 4) a'r grŵp hŷn (blwyddyn 5 a 6) oedd yn fwy tebygol o gynnig ymateb gyda ffurfiau *Na* + Berf yn hytrach na ffurfiau *Na* yn unig. Atgyfnerthir hyn gan ddadansoddiadau ychwanegol oedd yn dangos bod plant iau yn llawer mwy tebygol o wneud defnydd o ffurf *Na* yn unig tra bod y grŵp hŷn yn gwneud mwy o ddefnydd o ffurfiau *Na* + Berf. Amlyga hyn yr angen ar gyfer ymyrraeth benodol ar ffurfiau *Na* + Berf ac fe drafodir hyn ymhellach yn y bennod olaf.

Yn wahanol i'r patrwm a gafwyd ar yr eitemau negyddol mae plant i'w gweld yn perfformio orau ar y prawf barnu ar lafar pan gafwyd eitemau cadarnhaol. Y grŵp Saesneg (gyda'r grŵp Cymysg i ddilyn) sy'n arddangos y cynnydd mwyaf yn y sgorau ac yn ymdebygu i'r hyn a wnaed gan y grŵp Cymysg (ac yn gwneud yn well ar y prawf barnu ar lafar) yn y grŵp hŷn ac mae'r cynnydd hwn yn uchel iawn (Cynnydd = 30.92) gan fod perfformiad y grŵp iau yn is na siawns (Sgôr Cyfartalog = 39.56). Felly mae patrymau gwahanol i'w cael ar yr eitemau negyddol a chadarnhaol ar y profion gwahanol:

i. Eitemau Negyddol

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig + Prawf Cynhyrchu Llafar > Prawf Barnu ar Lafar

ii. Eitemau Cadarnhaol

Prawf Barnu ar lafar > Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig > Prawf Cynhyrchu Llafar

Mae plant ar draws grwpiau iaith ac oed i'w gweld yn perfformio'n well ar yr holl brofion pan gafwyd 2 giw o'i gymharu ag 1 ciw (heblaw am y grŵp Cymraeg ar y Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig). Amlygwyd patrymau gwahanol ym mherfformiad plant yn ôl y math o brawf:

i. 1 Ciw

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig > Prawf Cynhyrchu Llafar + Prawf Barnu ar Lafar

ii. 2 giw

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig + Prawf Cynhyrchu Llafar > Prawf Barnu ar Lafar.

Yn wahanol i'r dadansoddiadau ar yr eitemau cyfatebol ni ddarganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y profion pan gymharwyd y sgorau ar yr eitemau

anghyfatebol. Yn ogystal, darganfuwyd bod plant yn perfformio'n well ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn benodol pan cafwyd eitemau cyfatebol ond nid pan y cafwyd eitemau anghyfatebol. Cynigwyd bod hyn yn gysylltiedig gyda elfen weladwy y prawf ysgrifenedig ac felly pan gafwyd eitem cyfatebol dim ond angen copio'r union un ffurf sydd angen wrth ymateb. Efallai bod hyn hefyd yn cynorthwyo wrth esbonio'r sgorau is a gafwyd ar yr eitemau anghyfatebol, lle mae'r union ffurf o ymateb yn absennol ac felly mae angen i'r plant ddewis y ffurf mwyaf addas o'r hyn a wyddon nhw eisoes am y system ateb. Unwaith eto fe amlygwyd patrymau gwahanol ym mherfformiad y plant ar y profion gwahanol:

i. Cyfatebol

Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig > Prawf Cynhyrchu Llafar > Prawf Barnu ar Lafar

ii. Anghyfatebol

Prawf Barnu ar Lafar = Prawf Cynhyrchu Ysgrifenedig = Prawf Cynhyrchu Llafar

Yn olaf mae'r dadansoddiadau a wnaed ar y profion ar wahân wrth edrych ar eitemau penodol yn arddangos patrymau gwahanol rhwng y profion. Nid yw'r patrymau a gafwyd yn union yr un fath a'r hyn a gafwyd yn y dadansoddiadau cyfunol er fod tueddiad i'r plant arddangos cynnydd yn eu sgorau yn ôl tryloywder neu afloywder yr eitem penodol o dan sylw (Hawdd > Anodd). Fodd bynnag (fel a nodwyd eisoes) mae'r prawf cynhyrchu ysgrifenedig yn arddangos sgorau uwch ar yr eitemau cyfatebol ac cynigwyd fod hyn yn ymwneud gyda elfen weladwy a gafwyd yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig h.y. os y cafwyd ciw cyfatebol, does ond angen i'r plentyn gopio'r union un ymateb a gafwyd yn y cwestiwn. Yn wir mae plant o gartrefi Cymraeg yn enwedig i'w gweld yn perfformio'n waeth pan gafwyd 2 giw os yw'r eitem hwnnw'n anghyfatebol, sy'n awgrymu fod cael dau giw

anghyfatebol gyda'r gallu i achosi ansicrwydd ac anawsterau pellach ar adegau. Yn ogystal mae sgorau ar y prawf barnu ar lafar yn dangos ffafriaeth tuag at eitemau gyda 2 giw gyda'r cynnydd mwyaf i'w weld yn sgorau'r grŵp Saesneg yn y pedwar eitem cadarnhaol cyntaf (heblaw am yr eitem lle cafwyd 2 giw anghyfatebol). Ar y llaw arall gwelwyd tueddiad i'r grŵp Cymraeg arddangos fwy o gynnydd pan gafwyd eitem negyddol (heblaw lle cafwyd 1 ciw anghyfatebol). Er y disgwyliwyd i'r grŵp Saesneg arddangos cynnydd uwch yn yr eitemau anoddaf (oherwydd bod mwy o le i wella) nid oedd disgwyl gweld cymaint o gynnydd yn sgôr y grŵp Cymraeg ar yr eitemau hawsaf, gyda rhai eitemau yn agosáu tuag at 100%. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchiad tryloywder yr eitemau hynny ac yn arddangos bod plant yn arddangos dealltwriaeth uchel (yn y prawf barnu yn benodol) o rai o nodweddion y system ateb yn y Gymraeg ac yn gallu dewis ymatebion safonol. Yn olaf mae'r sgorau a gafwyd ar y prawf cynhyrchu llafar yn arddangos sgorau uwch ar yr eitemau negyddol, yr un patrwm a welwyd ar gyfer yr eitemau cyfunol. Yma mae'r grŵp Saesneg yn arddangos sgorau uchel iawn ar yr eitemau haws (yr eitemau negyddol) yn y grŵp iau ond yn gweld gostyngiad (bychan ar y cyfan) yn eu perfformiad yn y grŵp hŷn. Efallai bod modd damcaniaethu unwaith eto bod hyn yn gysylltiedig gyda'u hymgais i ddefnyddio mwy o ffurfiau *Na* + Berf yn hytrach na ffurfiau *Na* yn unig. Yn yr un modd, er fod pob grŵp iaith yn dueddol o ddilyn yr un patrwm (Cymraeg > Saesneg + Cymysg) a'r grŵp hŷn yn gwneud yn well na'r grŵp iau ar gyfartaledd mae rhai anghysondebau i'w gweld o dro i dro. Trafodir rhai o brif ddarganfyddiadau'r adran hon ymhellach yn y bennod olaf.

# Pennod 8: Ffurfiâu unigol o'r ferf

---

## 8.1 Cyflwyniad

Yn dilyn y dadansoddiadau blaenorol roedd hi'n amlwg fod dadansoddiadau manylach yn amlygu patrymau penodol ar gyfer rhai profion yn fwy nag eraill. Amcan y bennod hon felly yw i ddadansoddi a oedd gwahaniaethau rhwng ffurfiâu/amser gwahanol o'r ferf a'r ffurfiâu di-adlais ddefnyddiwyd ar draws y profion gwahanol h.y. y ffurfiâu Presennol, N=65; Dyfodol, N=48; Amherffaith, N=48; Amhendant, N=56 a di-adlais, N=67. Gobeithir y bydd hyn (yn unol a'r canfyddiadau yn y pennodau blaenorol) yn arddangos bod plant yn sgorio'n uwch ar y y ffurfiâu granmadegol hynny sy'n cynnwys ffurfiâu fwy tryloyw (hawdd) i'w cymharu â ffurfiâu afloyw (anodd). Unwaith eto er mwyn ein galluogi i wneud cymariaethau ar draws profion cyfunwyd sgorau canrannol ar gyfer y dadansoddiadau canlynol. Yn ogystal, nid yw'r sgorau hyn ychwaith yn cynnwys yr eitemau rheoli a drafodwyd eisoes. Fel yn y profion cyfunol ymrannwyd y grwpiau i'r ddau grŵp ac i'r tri grŵp iaith a ymrannwyd yn ôl iaith y cartref.


## 8.2 Dadansoddiad o Ffurf y Ferf ac Iaith y Cartref

I ddechrau, cynhaliwyd dadansoddiad amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod a oes gwahaniaethau arwyddocaol i'w cael rhwng perfformiad cyfranwyr ar y pum ffurf wahanol a gafwyd. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ar y sgorau a gafwyd ar y pum ffurf wahanol, Wilks Lambda = .27,  $[F(4, 119) = 79.18, p < .0005]$  ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn (eta squared=0.73) (gweler Ffigwr 33). Cynhaliwyd

dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau pellach er mwyn darganfod rhwng pa brofion y cafwyd effaith arwyddocaol ac fe nodir y canlyniadau hyn yn Nhabl 58.

**Tabl 58 – Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda \*.**


Math o gymhariaeth	Wilks Lambda	Sgor F	Eta Squared	*
Presennol vs Dyfodol	.71	[ $F(1,122)=49.60, p<.0005$ ]	.30	*
Presennol vs Amherffaith	.80	[ $F(1,122)=30.69, p<.0005$ ]	.20	*
Presennol vs Amhendant	.70	[ $F(1,122)=51.45, p<.0005$ ]	.30	*
Presennol vs Di-Adlais	.90	[ $F(1,122)=12.98, p<.0005$ ]	.10	*
Dyfodol vs Amherffaith	.96	[ $F(1,122)=0.59, p=.443$ ]	.00	
Dyfodol vs Amhendant	.34	[ $F(1,122)=239.48, p<.0005$ ]	.66	*
Dyfodol vs Di-Adlais	.48	[ $F(1,122)=134.38, p<.0005$ ]	.52	*
Amherffaith vs Amhendant	.44	[ $F(1,122)=153.15, p<.0005$ ]	.56	*
Amherffaith vs Di-Adlais	.61	[ $F(1,122)=76.96, p<.0005$ ]	.39	*
Amhendant vs Di-Adlais	.87	[ $F(1,122)=18.41, p<.0005$ ]	.13	*



**Ffigwr 33 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf gwahanol o'r ferf 'bod' (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).**

Yr unig lle lle na chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol oedd rhwng ffurfiau dyfodol ac amherffaith ac fe gysidrir hyn mewn mwy o fanylder yn y man. At hynny, darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed [ $F(1, 122) = 19.60, p<.0005$ ], eta squared = .14, ac iaith y cartref

[ $F(2, 122) = 27.72, p < .0005$ ], eta squared = .31. Awgryma'r canlyniadau hyn fod y gwahaniaethau yn dilyn y drefn flaenorol o hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg ac bod unigolion yn dilyn y patrwm dilynol o berfformiad (ar draws grwpiau iaith) ar gyfartaledd: Ffurf Amhendant > Ffurf Di-adlais > Ffurf Presennol > Ffurf Dyfodol + Ffurf Amherffaith (gweler Ffigur 34).



**Ffigur 34 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf Gymraeg (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais) yn ôl iaith y cartref (Saesneg, Cymraeg a Cymysg).**

Awgryma'r canlyniadau hyn felly mai dewis a dethol ffurfiau berfol safonol pan yn ymateb i ffurfiau Dyfodol ac Amherffaith sy'n peri'r anhawster mwyaf i bob un o'r plant, o bob cefndir iaith. Effeithiwyd y canlyniadau hyn ymhellach gan ryngweithiad rhwng ffurf berfol ac iaith y cartref Wilks Lambda = .86 [ $F(8, 238) = 2.29, p = .022$ ], eta squared = 0.07.


Er mwyn archwilio'r rhyngweithiad yma ymhellach gwnaethpwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau. Arddangosir y canlyniadau ac unrhyw wahaniaeth arwyddocaol a gafwyd mewn tablau penodol.

## 8.2.1 Grŵp Cymraeg

Tabl 59 – Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar y grŵp Cymraeg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffraith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda \*.

Math o gymhariaeth	Wilks Lambda	Sgor F	Eta Squared	*
Presennol vs Dyfodol	.58	[ $F(1, 42) = 30.48, p < .0005$ ]	.42	*
Presennol vs Amherffraith	.66	[ $F(1, 42) = 21.93, p < .0005$ ]	.34	*
Presennol vs Amhendant	.43	[ $F(1, 42) = 56.34, p < .0005$ ]	.57	*
Presennol vs Di-Adlais	.71	[ $F(1, 42) = 17.17, p < .0005$ ]	.29	*
Dyfodol vs Amherffraith	1.00	[ $F(1, 42) = .10, p = .757$ ]	.00	-
Dyfodol vs Amhendant	.20	[ $F(1, 42) = 165.49, p < .0005$ ]	.80	*
Dyfodol vs Di-Adlais	.31	[ $F(1, 42) = 91.69, p < .0005$ ]	.69	*
Amherffraith vs Amhendant	.23	[ $F(1, 42) = 140.95, p < .0005$ ]	.77	*
Amherffraith vs Di-Adlais	.31	[ $F(1, 42) = 92.57, p < .0005$ ]	.69	*
Amhendant vs Di-Adlais	.88	[ $F(1, 42) = 5.53, p = .023$ ]	.12	*

Arddangosa'r tabl uchod batrwm tebyg iawn i'r hyn a welwyd pan gyfunwyd y grwpiau iaith lle mae pob cymhariaeth i'w weld yn arwyddocaol heblaw am y gymhariaeth rhwng y ffurfiau dyfodol ac amherffraith (gweler Ffigur 35 yn ogystal).



Ffigur 35 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffraith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Cymraeg yn unig.



Mae'r canlyniadau hyn a gafwyd yn ôl ffurf y ferf unigol a'r hyn a welwyd yn Ffigur 35 yn awgrymu fod unigolion yn y grŵp Cymraeg yn dueddol o ddilyn y patrwm dilynol o berfformiad ar gyfartaledd.

Ffurf Amhendant > Ffurf Di-adlais > Ffurf Presennol > Ffurf Dyfodol + Ffurf Amherffaith

## 8.2.2 Grŵp Saesneg


Tabl 60– Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar y grŵp Saesneg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda \*.

Math o gymhariaeth	Wilks Lambda	Sgor F	Eta Squared	*
Presennol vs Dyfodol	.77	[F(1, 45) =12.92, p=.001]	.22	*
Presennol vs Amherffaith	.81	[F(1, 45) =10.50, p=.002]	.19	*
Presennol vs Amhendant	.81	[F(1, 45) =10.81, p=.002]	.19	*
Presennol vs Di-Adlais	.98	[F(1, 45) =0.90, p=.346]	.00	-
Dyfodol vs Amherffaith	1.00	[F(1, 45) =0.04, p=.952]	.00	-
Dyfodol vs Amhendant	.40	[F(1, 45) =66.43, p<.0005]	.60	*
Dyfodol vs Di-Adlais	.60	[F(1, 45) =29.48, p<.0005]	.40	*
Amherffaith vs Amhendant	.51	[F(1, 45) =42.69, p<.0005]	.49	*
Amherffaith vs Di-Adlais	.75	[F(1, 45) =14.90, p<.0005]	.25	*
Amhendant vs Di-Adlais	.80	[F(1, 45) =11.34, p=.002]	.20	*

Arddangosa'r Tabl 60 batrwm ychydig yn wahanol i'r hyn a gafwyd yn flaenorol gan bod pob cymhariaeth i'w weld yn arwyddocaol heblaw am y gymhariaeth rhwng y ffurfiau dyfodol ac amherffaith a'r gymhariaeth rhwng ffurfiau presennol a di-adlais (gweler Ffigur 36 yn ogystal).

Mae'r canlyniadau hyn a gafwyd yn ôl ffurf y ferf unigol a'r hyn a welwyd yn Ffigur 36 yn awgrymu fod unigolion yn y grŵp Saesneg yn dueddol o ddilyn y patrwm dilynol o berfformiad ar gyfartaledd:

Ffurf Amhendant > Ffurf Di-adlais + Ffurf Presennol > Ffurf Dyfodol + Ffurf Amherffaith



Ffigwr 36 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Saesneg yn unig.


### 8.2.3 Grŵp Cymysg

Tabl 61– Sgorau a gafwyd ar gyfres o dadansoddiadau ar gyfer y grŵp Cymysg yn unig er mwyn gweld yn lle y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau berfol (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais). Nodwyd gwahaniaeth arwyddocaol gyda \*

Math o gymhariaeth	Wilks Lambda	Sgor F	Eta Squared	*
Presennol vs Dyfodol	.75	[F(1, 35) =11.42, p=.002]	.25	*
Presennol vs Amherffaith	.91	[F(1, 35) =3.66, p=.064]	.00	-
Presennol vs Amhendant	.74	[F(1, 35) =12.03, p=.001]	.26	*
Presennol vs Di-Adlais	.94	[F(1, 35) =0.22, p=.147]	.00	-
Dyfodol vs Amherffaith	.97	[F(1, 35) =1.28, p=.266]	.00	-
Dyfodol vs Amhendant	.43	[F(1, 35) =45.96, p<.0005]	.57	*
Dyfodol vs Di-Adlais	.57	[F(1, 35) =26.39, p<.0005]	.43	*
Amherffaith vs Amhendant	.60	[F(1, 35) =23.40, p<.0005]	.40	*
Amherffaith vs Di-Adlais	.78	[F(1, 35) =9.92, p=.003]	.22	*
Amhendant vs Di-Adlais	.91	[F(1, 35) =3.55, p=.07]	.00	-

Arddangosa'r tabl uchod batrwm gwahanol unwaith eto, lle na chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol mewn pedwar o'r cymariaethau a welwyd yn Nhabl 60. Yn ychwanegol i'r cymhariaeth rhwng ffurfiau dyfodol ac amherffaith a'r gymhariaeth rhwng

ffurfiau Presennol a di-adlais ni chafwyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ffurfiau Presennol ac amherffaith a ffurfiau amhendant a di-adlais yn ogystal (gweler Ffigur 37).



**Ffigur 37 - Sgorau canrannol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) ar gyfer y grŵp Cymysg yn unig.**

Felly, mae'r canlyniadau a gafwyd yn ôl ffurf y ferf unigol yn awgrymu fod unigolion yn y grŵp cymysg yn dueddol o ddilyn y patrwm dilynol o berfformiad ar gyfartaledd:

Ffurf Amhendant + Ffurf Di-adlais >/+ Ffurf Presennol > Ffurf Amherffaith + Ffurf Dyfodol

(Noda'r defnydd o >/+ fod gwahaniaeth arwyddocaol i'w canfod rhwng y ffurf cyntaf a restrwyd ond dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ail ffurf a restrwyd).

## 8.2.4 Casgliad – Ffurf y Ferf ac Iaith y Cartref

Felly yn gryno mae:

1. PAWB yn perfformio waethaf ar y ffurfiau Dyfodol ac Amherffaith
2. PAWB i'w gweld yn sgorio orau ac yn arwyddocaol uwch ar y ffurf Amhendant.
3. Grwpiau Saesneg a Chymysg hefyd yn sgorio'n is ar ffurfiau Presennol a di-adlais
4. Grŵp Cymraeg yn arddangos cynnydd cryfach ar y Presennol a'r di-adlais

## 8.3 Ffurf y Ferf a Gwahanol Newidynnau

Datgelwyd ym Mhenodau 6 ac 7 fod y plant i'w gweld yn talu sylw i'r math o giw a gafwyd yn y mewnbwn gan iddynt berfformio'n gyson well ar gyfartaledd ar eitemau ble cyflwynwyd eitemau negyddol yn hytrach nag eitem cadarnhaol; 2 giw yn hytrach nag 1 ciw; ac eitemau cyfatebol yn hytrach nac eitemau anghyfatebol. Yn dilyn y darganfyddiadau hyn penderfynwyd ymchwilio i weld a oedd y plant yn arddangos yr un math o batrymau ar draws y 5 math o ffurf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-Adlais) gan y gallai hyn fod a goblygiadau penodol wrth edrych ar strategaethau dysgu a drafodir ym mhennod 10 – h.y. ar ba ffurfiau penodol mae angen i'r plant a'r athro athrawes ganolbwyntio arnynt.

Yn gyntaf, er mwyn ceisio darganfod a oedd y math gwahanol o newidynnau (cadarnhaol neu negyddol; cyfatebol neu anghyfatebol ac 1 neu 2 giw) yn arddangos patrymau tebyg neu rhywbeth gwahanol i'r hyn ddarganfuwyd yn y dadansoddiadau a wnaethpwyd ym Mhenodau 6 a 7, cynhaliwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) ailadrodd mesurau pellach er mwyn cyfrifo unrhyw wahaniaethau a gafwyd yn ôl y pum ffurf gwahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-adlais).

### 8.3.1 Cadarnhaol vs Negyddol


Fel yn y dadansoddiadau blaenorol ym mhenodau 6 a 7 darganfuwyd effaith o arwyddocaol pan gafwyd un ai eitem cadarnhaol neu eitem negyddol, gyda pob ffurf yn arddangos sgorau arwyddocaol uwch (sy'n gyfystyr a  $<.05$ ) pan gafwyd eitem negyddol. Darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar y ffurfiau Presennol Wilks Lambda =.96 [ $F(1, 122) = 70.34, p < .0005$ ], eta squared = 0.36; y ffurfiau Dyfodol, Wilks Lambda =.69 [ $F(1, 122) = 54.94, p < .0005$ ], eta squared = 0.31; y ffurfiau amherffaith Wilks Lambda =.89 [ $F(1, 122)$

=15.89,  $p < .0005$ ], eta squared =0.12; y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.57,  $[F(1, 122) = 91.82, p < .0005]$ , eta squared =0.43 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =.23  $[F(1, 122) = 412.78, p < .0005]$ , eta squared =0.77. Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed ac iaith ar bob un o'r ffurfiau oedd yn dilyn y patrwm arferol o hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg (gweler Tabl 62).

**Tabl 62 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau negyddol vs cadarnhaol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).**

<b>Ffurf y Ferf</b>	<b>Oed/laith</b>	<b>Sgôr F</b>	<b>Eta Squared</b>
<b>Presennol</b>	Oed	$[F(1, 122) = 17.95, p < .0005]$	.26*
	laith	$[F(2, 122) = 20.95, p < .0005]$	.27*
<b>Dyfodol</b>	Oed	$[F(1, 122) = 15.66, p < .0005]$	.11*
	laith	$[F(2, 122) = 16.04, p < .0005]$	.21*
<b>Amherffaith</b>	Oed	$[F(1, 122) = 9.24, p < .0005]$	.07*
	laith	$[F(2, 122) = 16.92, p < .0005]$	.22*
<b>Amhendant</b>	Oed	$[F(1, 122) = 15.14, p < .0005]$	.11*
	laith	$[F(2, 122) = 21.16, p < .0005]$	.26*
<b>Di-adlais</b>	Oed	$[F(1, 122) = 12.83, p < .0005]$	.10*
	laith	$[F(2, 122) = 26.23, p < .0005]$	.30*

Yn dilyn hyn darganfuwyd rhyngweithiad rhwng oed x eitemau cadarnhaol a negyddol ar y pum ffurf o'r ferf, y ffurfiau Presennol Wilks Lambda =.95  $[F(1, 122) = 6.35, p = .013]$ , eta squared =0.49; y ffurfiau dyfodol Wilks Lambda =.97  $[F(1, 122) = 4.01, p = .047]$ , eta squared =0.03; y ffurfiau amherffaith Wilks Lambda =.93  $[F(1, 122) = 9.85, p = .002]$ , eta squared =0.08; y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.94  $[F(1, 122) = 7.25, p = .008]$ , eta squared =0.06 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =.95  $[F(1, 122) = 6.90, p = .010]$ , eta squared =0.05 (gweler Ffigwr 38).



**Ffigwr 38-** Sgorau canrannol ar gyfer eitemau Cadarnhaol a Negyddol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais) yn ôl oed (Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9).


Er mwyn adnabod ble roedd y rhyngweithiad rhwng oed x eitem cadarnhaol neu negyddol, cynhaliwyd amryw o ddadansoddiadau prawf *t* (gweler Tabl 63). Er yr arddangoswyd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau iaith yn y rhan fwyaf o'r dadansoddiadau (lle roedd plant hŷn yn arddangos sgorau uwch na phlant iau bob tro), ni ddarganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar y sgorau negyddol ar y ffurfiau Presennol ac amherffaith.

**Tabl 63 –** Ystadegau arwyddocaol a gafwyd ar gyfer oed ar eitemau negyddol vs cadarnhaol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).

Ffurf y Ferf	Cadarnhaol / Negyddol	Sgôr <i>t</i>
Presennol	Cadarnhaol	$t(126) = 3.65, p > .0005$
	Negyddol	$t(126) = 1.92, p = .06^*$
Dyfodol	Cadarnhaol	$t(126) = 3.01, p = .002$
	Negyddol	$t(126) = 2.21, p = .029$
Amherffaith	Cadarnhaol	$t(126) = 2.95, p = .004$
	Negyddol	$t(126) = .91, p = .363^*$

<b>Amhendant</b>	Cadarnhaol	$t(126) = 3.29, p = .001$
	Negyddol	$t(126) = 2.03, p = .045$
<b>Di-adlais</b>	Cadarnhaol	$t(126) = 2.87, p = .005$
	Negyddol	$t(126) = 2.04, p = .043$

Dim ond ar y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.92 [ $F(2, 122) = 5.26, p = .006$ ], eta squared =.08 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =.92 [ $F(2, 122) = 5.06, p = .008$ ], eta squared =.08 yr amlygwyd rhyngweithiad rhwng iaith y cartref ac un ai eitem cadarnhaol neu negyddol.



**Ffigur 39 - Sgorau canrannol pan gafwyd un ai eitem negyddol neu cadarnhaol ar gyfer y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant a Di-adlais) ar y system ateb yn y Gymraeg yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Fodd bynnag ni ddarganfuwyd unrhyw batrymau gwahanol wrth edrych ar ffurfiau cadarnhaol [ $F(2, 128) = 15.10, p < .0005$ ], eta squared =.20 neu negyddol [ $F(2, 129) = 10.37, p < .0005$ ], eta squared =.14 y ffurf Amhendant ar wahân nac ychwaith ffurfiau cadarnhaol [ $F(2, 128) = 19.01, p < .0005$ ], eta squared =.23 neu negyddol [ $F(2, 128) = 19.84, p < .0005$ ],

eta squared =.24 y ffurf Amherffaith ar wahân. Fodd bynnag awgryma Ffigwr 39 fod sgorau'r grwpiau Cymysg a Saesneg yn ymdebygu i'w gilydd ar y ffurfiau Amhendant o'i cymharu â'r ffurfiau eraill. Yn ogystal mae'r bwlch rhwng sgorau'r grŵp Cymraeg a'r grwpiau eraill i'w weld yn llawer uwch ar y ffurf di-adlais nac ar y ffurfiau eraill.

Yn ychwanegol i hyn, darganfuwyd rhyngweithiad dair ffordd pellach ar y ffurf Presennol yn unig rhwng un ai eitem cadarnhaol neu negyddol x iaith y cartref x oed Wilks Lambda =.95 [ $F(2, 122) = 3.08, p = .05$ ], eta squared =0.05. Er mwyn mynd i'r afael a'r rhyngweithiad hwn gwnaethpwyd nifer o ddadansoddiadau prawf *t* ar y grwpiau iaith ar wahân er mwyn canfod unrhyw wahaniaethau posib yn ôl oed ar y ffurfiau cadarnhaol a negyddol. Gwnaethpwyd y dadansoddiadau canlynol gyda'r ferf Presennol yn unig. Edrychwyd ar y grŵp Cymraeg yn unig yn gyntaf ac fe darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed ar y sgorau cadarnhaol  $t(42) = 2.30, p = 0.27$  a'r sgorau negyddol  $t(42) = 3.53, p = .001$ . Yn dilyn hyn edrychwyd ar y grŵp Saesneg yn unig ac fe ddarganfuwyd effaith arwyddocaol o oed ar y sgorau cadarnhaol  $t(45) = 4.11, p < .0005$ , ond nid ar y sgorau negyddol  $t(45) = 1.07, p = .289$ . I orffen edrychwyd ar y grŵp Cymysg yn unig ac ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol o oed ar y sgorau cadarnhaol  $t(35) = 1.47, p = .150$ , nac ychwaith ar y sgorau negyddol  $t(35) = .45, p = .652$ . Awgryma'r darganfyddiadau hyn nad yw'r gwahaniaethau oed i'w gweld yn gyson ar draws grwpiau iaith ar y ffurf Presennol wrth gymharu un ai eitem cadarnhaol neu negyddol.

### 8.3.2 1 Ciw vs 2 Giw

Unwaith eto, fel yn y dadansoddiadau blaenorol ym Mhenodau 6 a 7 darganfuwyd effaith o arwyddocaol pan gafwyd un ai eitem 1 neu 2 giw, gyda'r rhan fwyaf o ffurfiau yn arddangos sgorau arwyddocaol uwch (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) pan gafwyd 2 giw.




Darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar y ffurfiau Presennol Wilks Lambda =.92 [ $F(1, 122) = 11.14, p = .001$ ], eta squared =0.08; y ffurfiau Dyfodol, Wilks Lambda =.54 [ $F(1, 122) = 106.02, p < .0005$ ], eta squared =0.47; y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.84, [ $F(1, 122) = 23.76, p < .0005$ ], eta squared =0.16 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =.47 [ $F(1, 122) = 139.90, p < .0005$ ], eta squared =0.53. Fodd bynnag ni ddarganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar y ffurfiau amherffaith Wilks Lambda =.100 [ $F(1, 122) = 0.01, p = .935$ ], eta squared =.00. Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed a iaith ar bob un o'r ffurfiau oedd yn dilyn y patrwm arferol o hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg (gweler Tabl 64).

**Tabl 64 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau pan gafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).**

Ffurf y Ferf	Oed/ laith	Sgôr F	Eta Square d
Presennol	Oed	[ $F(1, 122) = 17.97, p < .0005$ ]	.13*
	laith	[ $F(2, 122) = 21.07, p < .0005$ ]	.27*
Dyfodol	Oed	[ $F(1, 122) = 15.81, p < .0005$ ]	.12*
	laith	[ $F(2, 122) = 15.98, p < .0005$ ]	.21*
Amherffaith	Oed	[ $F(1, 122) = 9.80, p = .002$ ]	.07*
	laith	[ $F(2, 122) = 16.23, p < .0005$ ]	.21*
Amhendant	Oed	[ $F(1, 122) = 15.28, p < .0005$ ]	.11*
	laith	[ $F(2, 122) = 21.29, p < .0005$ ]	.26*
Di-adlais	Oed	[ $F(1, 122) = 12.79, p < .0005$ ]	.10*
	laith	[ $F(2, 122) = 25.18, p < .0005$ ]	.29*

Yn dilyn hyn darganfuwyd rhyngweithiad rhwng oed ac un ai un 1 neu 2 giw ar y ffurfiau dyfodol yn unig Wilks Lambda =.96 [ $F(1, 122) = 4.53, p = .035$ ], eta squared =.06. Er mwyn adnabod ble roedd y rhyngweithiad rhwng oed x 1 neu 2 giw, cynhaliwyd dadansoddiadau prawf *t* pellach ar y ffurf dyfodol. Fe ddarganfuwyd gwahaniaeth yn

sgorau'r grŵp oed pan gafwyd un ai 1 ciw  $t(126) = 2.09$ ,  $p=.039$  a phan gafwyd 2 giw  $t(126) = 3.40$ ,  $p=.001$  (gweler ffigwr 40). Fodd bynnag, er fod y grŵp hyn i'w gweld yn sgorio'n uwch ar bob eitem, awgryma Ffigwr 40 fod y bwllch rhwng y grwpiau oed yn llawer mwy pan gafwyd 2 giw o'i gymharu a 1 ciw.




**Ffigwr 40 - Sgorau canrannol yn ôl oed (Grŵp Iau= 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9) lle gafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y ffurf Dyfodol yn unig.**

Yn ogystal darganfuwyd rhyngweithiad rhwng iaith y cartref pan gafwyd un ai 1 un 2 giw ar y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.94 [ $F(2, 122) =3.62$ ,  $p=.030$ ], eta squared =.06 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =. 92 [ $F(2, 122) =5.17$ ,  $p=.007$ ], eta squared =.08 (gweler Ffigwr 41).

Fodd bynnag, ni amlygwyd unrhyw wahaniaethau rhwng grwpiau iaith yn y profion dilynol. Felly, ni ddarganfuwyd unrhyw batrymau gwahanol wrth edrych ar ffurfiau lle gafwyd 1 ciw [ $F(2, 128) =16.58$ ,  $p<.0005$ ], eta squared =.21 neu 2 giw  $F(2, 128) =12.60$ ,  $p<.0005$ ], eta squared =.17 ar y ffurf Amhendant ar wahân nac ychwaith ffurfiau lle gafwyd

1 ciw [ $F(2, 128) = 23.88, p < .0005$ ], eta squared = .28 neu 2 giw [ $F(2, 128) = 12.68, p < .0005$ ], eta squared = .17 y ffurf Di-Adlais ar wahân.



Ffigwr 41- Sgorau canrannol yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg) lle cafwyd un ai 1 neu 2 giw ar y ffurfiau di-adlais ac Amhendant yn unig.

Y ogystal, awgryma Ffigwr 41 fod sgorau'r grwpiau Cymysg a Saesneg yn ymdebygu i'w gilydd ar y ffurfiau Amhendant ac mae'r bwlch rhwng sgorau'r grŵp Cymraeg a'r grwpiau eraill i'w weld yn llawer uwch ar y ffurfiau di-adlais.

### 8.3.3 Cyfatebol vs Anghyfatebol

Yn olaf edrychwyd ar eitemau cyfatebol ac anghyfatebol ac, fel yn y dadansoddiadau blaenorol ym Mhenodau 6 a 7, darganfuwyd effaith o arwyddocaol pan gafwyd un ai eitem cyfatebol neu eitem anghyfatebol, gyda'r holl ffurfiau yn arddangos sgorau arwyddocaol uwch (sy'n gyfystyr a  $< .05$ ) pan gafwyd eitem cyfatebol. Darganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol ar y ffurfiau Presennol Wilks Lambda = .54 [ $F(1, 122) = 105.38, p < .0005$ ], eta squared = .46; y ffurfiau Dyfodol, Wilks Lambda = .50 [ $F(1, 122) = 122.62, p < .0005$ ], eta squared = 0.50; ffurfiau amherffaith Wilks Lambda = .76 [ $F(1, 122) = 38.72, p < .0005$ ], eta


squared =.24; y ffurfiau amhendant Wilks Lambda =.97, [ $F(1, 122) = 3.94, p = .049$ ], eta squared =.03 a'r ffurfiau di-adlais Wilks Lambda =.90 [ $F(1, 122) = 12.96, p < .0005$ ], eta squared =0.10. Yn ogystal darganfuwyd effaith arwyddocaol o oed a iaith ar bob un o'r ffurfiau oedd yn dilyn y patrwm arferol o hŷn > iau a Cymraeg > Saesneg + Cymysg (gweler Tabl 65).

**Tabl 65 – Ystadegau arwyddocaol a gafwyd yn ôl oed ac iaith ar eitemau pan gafwyd un ai eitem cyfatebol neu anghyfatebol ar y pum ffurf wahanol o'r ferf (Presennol, Dyfodol, Amherffaith, Amhendant, Di-Adlais).**

<b>Ffurf y Ferf</b>	<b>Oed/ Iaith</b>	<b>Sgôr F</b>	<b>Eta Squared</b>
<b>Presennol</b>	Oed	[ $F(1, 122) = 18.85, p < .0005$ ]	.13*
	Iaith	[ $F(2, 122) = 21.02, p < .0005$ ]	.26*
<b>Dyfodol</b>	Oed	[ $F(1, 122) = 12.84, p < .0005$ ]	.10*
	Iaith	[ $F(2, 122) = 18.18, p < .0005$ ]	.23*
<b>Amherffaith</b>	Oed	[ $F(1, 122) = 6.46, p = .012$ ]	.05*
	Iaith	[ $F(2, 122) = 15.87, p < .0005$ ]	.21*
<b>Amhendant</b>	Oed	[ $F(1, 122) = 15.75, p < .0005$ ]	.11*
	Iaith	[ $F(2, 122) = 21.64, p < .0005$ ]	.26*
<b>Di-adlais</b>	Oed	[ $F(1, 122) = 8.54, p = .004$ ]	.07*
	Iaith	[ $F(2, 122) = 17.24, p < .0005$ ]	.22*

Yn dilyn hyn darganfuwyd rhyngweithiad rhwng oed ac eitemau cyfatebol ac anghyfatebol ar y ffurfiau dyfodol Wilks Lambda =.96 [ $F(1, 122) = 4.69, p = .032$ ], eta squared =.04, a'r ffurfiau amherffaith Wilks Lambda =.96 [ $F(1, 122) = 5.81, p = .017$ ], eta squared =.05. Er mwyn adnabod ble roedd y rhyngweithiad rhwng oed x eitem cyfatebol neu anghyfatebol, cynhaliwyd dadansoddiadau prawf *t* pellach ar y ffurfiau dyfodol a'r ffurfiau amherffaith. Fe ddarganfuwyd gwahaniaeth yn sgorau'r grŵp oed ar y ffurf dyfodol pan gafwyd eitem cyfatebol  $t(126) = 3.50, p = .001$  ond nid pan gafwyd eitem anghyfatebol  $t(126) = 1.00, p = .31$ . Yn yr un modd darganfuwyd gwahaniaeth yn sgorau'r grŵp oed ar y ffurf amherffaith pan gafwyd eitem cyfatebol  $t(126) = 3.13, p = .002$  ond nid pan gafwyd eitem anghyfatebol  $t$

(126) = .34,  $p=.912$  (gweler Ffigwr 42). Fodd bynnag os y cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol ai peidio roedd y sgorau yn parhau i ddilyn yr un patrwm o hŷn > iau bob tro.



**Ffigwr 42-** Sgorau canrannol ar gyfer ffurfiau Dyfodol ac Amherffaith pan geir eitemau Cyfatebol neu Anghyfatebol yn ôl oed(Grŵp Iau = 7;1 - 9;8; Grŵp Hŷn = 9;9 - 11;9).

Yn ogystal darganfuwyd rhyngweithiad rhwng iaith y cartref pan gafwyd un ai eitem cyfatebol neu anghyfatebol ar y ffurfiau di-adlais yn unig Wilks Lambda = .91 [ $F(2, 122) = 5.80, p=.004$ ], eta squared =.08. Awgryma dadansoddiadau dilynol ar y ffurf di-adlais yn unig fod Cymraeg > Saesneg a Cymysg pan gafwyd eitem anghyfatebol [ $F(2, 128) = 22.00, p<.0005$ ], eta squared =.26 ond Cymraeg > Saesneg yn unig pan gafwyd eitem cyfatebol [ $F(2, 128) = 5.47, p=.005$ ], eta squared =.08.

### 8.3.4 Crynodeb – Dadansoddiad o ffurfiau'r ferf

Ar y pum ffurf wahanol o'r ferf gellid gweld patrwm eithaf cyson o sgorau ar draws grwpiau iaith ar gyfartaledd. Mae cyfranwyr yn dueddol o sgorio'n uwch ar eitemau lle

cafwyd ffurfiau Amhendant o'i cymharu a ffurfiau eraill, gyda'r ffurfiau Dyfodol ac Amherffraith yn arddangos y sgorau isaf:

Ffurf Amhendant > Ffurf Di-adlais > Ffurf Presennol > Ffurf Dyfodol a Ffurf Amherffraith

Yn ogystal, roedd tuedd i'r grwpiau Saesneg a Chymysg hefyd fod yn wan o ran ffurfiau Presennol a di-adlais tra roedd y grŵp Cymraeg yn arddangos cynnydd cryfach ar y ffurfiau Presennol a'r di-adlais. Fodd bynnag, pan edrychwyd ar y ffurfiau gwahanol (Presennol, Dyfodol, Amherffraith, Amhendant a Di-adlais) mewn cyfuniad â newidynnau unigol (1 ciw, 2 giw; Cyfatebol, Anghyfatebol; Cadarnhaol a Negyddol) mae'r patrwm hwn i'w weld yn amrywio rhywfaint. Yn yr un modd er fod pob grŵp iaith yn dueddol o ddilyn yr un patrwm gweler gwahaniaethau amlwg yn y nifer o wahaniaethau arwyddocaol a welwyd ym mherfformiad y grŵp Cymraeg i'w cymharu â'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg. Trafodir y rhesymau posib a goblygiadau'r canlyniadau hyn yn y bennod olaf.

## Pennod 9: Eitemau Cyntaf ac Olaf a Phrawf Ymyrraeth

---

Tra'n cynnal ac yn arsylwi ar ymatebion y plant ar y profion yn ystod yr ymchwil, tybiwyd fod cynnydd i'w weld ym mherfformiad y plant o fewn y profion unigol, lle roedd y plant i'w gweld yn perfformio'n well ar yr eitemau olaf yn y profion i'w gymharu â'r eitemau cychwynnol. Hynny yw, drwy dderbyn amlygiad pwrpasol a chyson i nodweddion y system drwy'r profion, roedd perfformiad y plant i'w weld yn cynyddu. Er mai arsylwadau anecdotaidd oedd y rhain, gall unrhyw wahaniaethau o fewn y profion, os yn bodoli, fod â goblygiadau diddorol ar gyfer manteision amlygiad tymor byr i ddefnydd plant ifanc o'r system gymhleth hon. Arweiniodd yr arsylwadau hyn at greu prawf byr i brofi effaith hyfforddiant cyson ond pwrpasol ar adnabyddiaeth plant ifanc o'r system ateb. Fodd bynnag, cyn trafod y canlyniadau a gafwyd ar y prawf ymyrraeth, cynhaliwyd dadansoddiadau ar yr holl brofion yn gyfunol ac yn unigol i weld, yn unol a'r arsylwadau a wnaethpwyd, os oedd cynnydd arwyddocaol i'w cael ym mherfformiad y plant ar yr eitemau olaf a roddwyd yn y profion i'w cymharu â'r eitemau cychwynnol. Bwriad y bennod hon, felly, yw archwilio'r patrymau ymateb ar draws eitemau cychwynnol ac eitemau olaf y profion, a gwerthuso effeithiolrwydd rhaglen ymyrraeth bwrpasol i gynyddu ymwybyddiaeth plant o reolau'r system. Bydd y bennod hon, felly, yn trafod canlyniadau'r dadansoddiadau ar y gwahaniaethau rhwng ymatebion y plant i'r eitemau cyntaf vs. yr eitemau olaf ar y profion yn gyntaf, gan ddilyn gyda disgrifiad o'r rhaglen ymyrraeth a roddwyd i grŵp newydd o blant a thrafodaeth o ganlyniadau'r rhaglen honno.


## 9.1 Eitemau cychwynnol ynteu olaf

Er mwyn cymharu perfformiad plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf a geir yn y profion ymrannwyd sgorau'r profion yn ddau. Mae Tabl 66 yn dangos y nifer yr eitemau cychwynnol ac olaf a gafwyd yn gyfunol ac ym mhob un o'r profion ar wahân.

Tabl 66 - Nifer o eitemau cychwynnol ac olaf ym mhob prawf (prawf cynhyrchu llafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar).

Prawf	Eitemau		Cyfanswm Eitemau
	Cychwynnol	Olaf	
Cynhyrchu Llafar	33	34	<b>67</b>
Cynhyrchu Ysgrifenedig	26	27	<b>53</b>
Barnu ar Lafar	82	82	<b>164</b>
<b>Cyfanswm Eitemau</b>	<b>141</b>	<b>143</b>	<b>284</b>

At bwrpasau sicrhau cysondeb a chymharu perfformiad unigolion ar draws profion defnyddiwyd canrannau ar gyfer y dadansoddiadau. Cynhaliwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVA) rhyng-gyfrannol dwy-ffordd er mwyn darganfod gwahaniaethau posib yn sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol a'r eitemau olaf yn y profion. Yn gyntaf cymharwyd sgorau cyfunol y plant ar draws y profion ond ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol rhwng y sgorau cychwynnol ac olaf a gafwyd, Wilks Lambda =1.00 [ $F(1, 125) = .08, p = .08$ ] (gweler Ffigwr 43).



Ffigwr 43 – Sgorau canrannol y plant ar yr holl eitemau wedi ei ymrannu i un ai eitem cychwynnol neu olaf ym mhob prawf (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar). Nodir gwahaniaeth arwyddocaol gyda \*.




Fodd bynnag wrth gymharu sgorau cychwynnol ac olaf ar y profion unigol gwelwyd effaith arwyddocaol ar gyfer y prawf cynhyrchu llafar, Wilks Lambda =.89 [ $F(1, 131) = 15.55$ ,  $p < .0005$ ], ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr (eta squared=0.11). Roedd y gwahaniaethau arwyddocaol ar y prawf cynhyrchu llafar yn awgrymu fod plant yn dueddol o sgorio'n uwch ar yr eitemau olaf ( $M=74.33\%$ ,  $SD=14.38\%$ ) i'w cymharu a'r eitemau cychwynnol ( $M=71.21\%$ ,  $SD=15.06\%$ ). Yn ogystal darganfuwyd effaith lled-arwyddocaol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, Wilks Lambda =.97 [ $F(1, 125) = 3.85$   $p=.05$ ] ond roedd maint y gwahaniaeth yn fychan y tro hyn (eta squared=.03). Yn wahanol i'r canlyniadau blaenorol roedd y gwahaniaethau arwyddocaol ar y prawf Barnu ar lafar yn awgrymu fod plant yn dueddol o sgorio'n uwch ar yr eitemau cychwynnol ( $M=71.87\%$ ,  $SD=11.91\%$ ) i'w cymharu a'r eitemau olaf ( $M=70.39\%$ ,  $SD=15.25\%$ ). Ni ddarganfuwyd gwahaniaeth arwyddocaol yn y sgorau cychwynnol ac olaf ar gyfer y prawf cynhyrchu ysgrifenedig, Wilks Lambda =.97 [ $F(1, 131) = .49$ ,  $p=.49$ ], (gweler Ffigwr 43). Mae'r canlyniadau a welir yn y Ffigwr uchod yn arddangos patrwm cymysglyd o berfformiad gan blant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf yn y profion. Er mwyn ceisio esbonio rhai o'r patrymau hyn edrychwyd a oedd gwahaniaethau i'w gweld yn ôl cefndiroedd iaith y plant (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg yn y cartref).

### 9.1.1 Cefndir Iaith


Yn y dadansoddiad cyfunol darganfuwyd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf ac iaith y cartref, Wilks Lambda =.91 [ $F(2, 125) = 6.44$ ,  $p=.002$ ], ac roedd maint y gwahaniaeth yn ganolig (eta squared=.09). Yn ogystal, dangosai Ffigwr 44 sut mae patrwm sgorau'r grwpiau iaith yn amrywio, gyda sgôr y grŵp Cymraeg nid yn unig yn gwahaniaethu'n arwyddocaol o sgorau cyfartalog y grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg ond hefyd yn arddangos patrymau gwahanol i'r rhai a welir gan y grwpiau iaith

eraill. Yn wahanol i'r grŵp Cymraeg mae'r grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg i'w gweld yn sgorio'n uwch ar yr eitemau cychwynnol o'i gymharu gyda'r eitemau olaf (gweler Ffigwr 44).



**Ffigwr 44 – Sgorau canrannol y plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf yn y cyfuniad o'r profion (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

Edrychwyd yn fanylach ar ddadansoddiadau amrywiant y profion unigol yn ogystal er mwyn ceisio'r esbonio'r rhyngweithiad arwyddocaol rhwng sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf x iaith y cartref. Ni ddarganfuwyd rhyngweithiad arwyddocaol rhwng sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf ac iaith y cartref ar y prawf cynhyrchu ar lafar, Wilks Lambda =1.00 [ $F(2, 131) =.30, p=.74$ ] nac ychwaith ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig, Wilks Lambda =1.00 [ $F(2, 131) =.37, p=.01$ ]. Fodd bynnag, fe ddarganfuwyd effaith arwyddocaol ar gyfer y prawf barnu ar lafar, Wilks Lambda =.90 [ $F(2, 125) =3.85, p=.001$ ], ac roedd maint y gwahaniaeth yn ganolig (eta squared=0.10). Roedd patrwm y sgorau yma yn adlewyrchu'r rhai a gafwyd yn y sgorau cyfunol lle roedd y grŵp Saesneg a'r grŵp Cymysg i'w gweld yn sgorio'n uwch ar yr eitemau cychwynnol o'i gymharu gyda'r eitemau olaf lle roedd y grŵp Cymraeg i'w gweld yn sgorio'n uwch ar yr eitemau olaf bob tro (gweler Ffigwr 45).



**Ffigwr 45 – Sgorau canrannol y plant ar yr eitemau cychwynnol ac olaf yn y profion unigol ar wahân (prawf cynhyrchu ar lafar; prawf cynhyrchu ysgrifenedig a'r prawf barnu ar lafar) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg, Saesneg neu Cymysg).**

## 9.1.2 Casgliad

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu nad oes gwahaniaethau cyson nac amlwg i'w gweld rhwng sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol i'w cymharu a'r eitemau olaf ar y profion gwahanol. Mae'n debyg felly fod yr arsylwad wnaethpwyd (oedd yn tybio fod plant yn arddangos cynnydd yn eu perfformiad) yn argraffiadol ac yn gamarweiniol yn yr achos yma. Efallai bod hyn yn awgrymu nad yw'r amlygiad hwn yn ddigonol i hyrwyddo defnydd safonol o'r system hon gan blant. Os felly mae'n bosib y buasai ymyrraeth fwy strwythuredig yn fwy buddiol ac fe drafodir canlyniadau prawf ymyrraeth arbrolfol a wnaethpwyd gyda sampl bychan o blant yn y rhan ddilynol.

## 9.2 Prawf Ymyrraeth

Ar gyfer y prawf ymyrraeth casglwyd data gan nifer fechan o blant (N=20) ar ddiwedd y cyfnod o gasglu data. Oherwydd y niferoedd bychain ni wahanwyd y grwpiau yn ôl oed ond yn hytrach fe ymrannwyd y grwpiau i ddau grŵp iaith oedd yn cynnwys canran uwch o un ai (i) Cymraeg yn y cartref neu (ii) Saesneg yn y cartref. Yn ogystal ymrannwyd y cyfranwyr i ddau grŵp ychwanegol yn nodi a oeddynt i dderbyn ymyrraeth ai peidio (gweler Tabl 67). Unwaith eto oherwydd bod y broses o gasglu data yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd gan yr ysgol a'r rhieni roedd cadw'r niferoedd yn hollol debyg yn anodd.

**Tabl 67 = Nifer o gyfranwyr a geir yn ôl yr ymyrraeth a dderbyniwyd ac iaith y cartref.**

	Iaith y Cartref		Cyfanswm Ymyrraeth
	Cymraeg	Saesneg	
<b>Ymyrraeth</b>			
Ymyrraeth	5	5	<b>10</b>
Dim Ymyrraeth	7	3	<b>10</b>
<b>Cyfanswm iaith</b>	<b>12</b>	<b>8</b>	<b>20</b>

Bwriad yr prawf ymyrraeth dechreuol hwn oedd ymchwilio i weld os y buasai ymyrraeth o ryw fath yn cynorthwyo perfformiad plant ar eu defnydd o'r system ateb yn y Gymraeg. Defnyddiwyd cynllun rhyng-gyfranwyr ar gyfer yr ymchwil unwaith eto yma er mwyn fy ngalluogi i gymharu perfformiad unigolion ar draws grwpiau.

### 9.2.1 Strwythur y Prawf

Oherwydd natur profion ymyrraeth roedd angen mesur gallu'r plant dros gyfnod a amser cyn ac ar ôl iddynt dderbyn ymyrraeth. Cynhaliwyd y prawf dros gyfnod o bedair wythnos lle rhoddwyd un set o brofion dechreuol yn yr wythnos gyntaf i'r holl gyfranwyr a'r ail set o brofion cyfatebol yn y bedwaredd wythnos i'r holl gyfranwyr. Yn ogystal, roedd yr

unigolion yn y Grŵp ymyrraeth yn derbyn sesiynau hyfforddi byr ar y system ateb yn y Gymraeg dros y cyfnod o 4 wythnos yn ystod wythnosau 2 a 3.

### **9.2.1.1 Creu'r prawf**

Roedd y profion ymyrraeth a grëwyd yn cynnwys rhai cynhyrchiol yn unig ac wedi selio yn fras ar y profion cynhyrchu llafar ac ysgrifenedig a grëwyd ar gyfer y prif astudiaeth. O ganlyniad crëwyd dau set o brofion gyffelyb i'w cynnal yn wythnos 1 ac yn wythnos 4 oedd yn cynnwys 40 o eitemau profi yr un (roedd 20 yn y prawf cynhyrchu llafar ac 20 yn y prawf ysgrifenedig, gweler Atodiadau 13 ac 14). Fodd bynnag fe ddefnyddiwyd yr un eitemau ar gyfer y ddau math o brawf (prawf cynhyrchu llafar ac ysgrifenedig) gan newid ffurf y prawf o lafar i ysgrifenedig bob yn ail. Ni ddefnyddiwyd eitemau rheoli ar gyfer y profion hyn. Roedd yr eitemau hyn wedi ei selio ar luniau o anifeiliaid neu blant a roddwyd i'r cyfranwyr (gweler Atodiad gweler atodiadau 13 a 14). Yn ogystal nid oedd yr eitemau a ddefnyddiwyd wedi ei rheoli ar gyfer y newidynnau gwahanol yn yr un modd. Fodd bynnag, roedd esiamplau gwahanol o'r holl ferfau gydag esiamplau cadarnhaol a negyddol o bob berf ac tua'r un nifer o eitemau cyfatebol ac anghyfatebol. Ond yn wahanol i'r profion gwreiddiol defnyddiwyd eitemau gydag un ciw yn unig ac ni ddefnyddiwyd cwestiynau negyddol ar gyfer y profion hyn ychwaith.

Ar gyfer yr unigolion hynny oedd yn rhan o'r grŵp ymyrraeth (N=10) crëwyd dau set o gwestiynau yr oedd rhaid i'r plant eu hateb (gweler atodiadau 15 a 16). Roedd y cwestiynau hyn wedi cael eu llunio ar gardiau unigol er mwyn iddynt gael eu cyflwyno i'r plentyn bob yn un. Yn ogystal rhoddwyd set o ymatebion posib ar gardiau unigol i'r plant gael dewis o'u plith er mwyn nodi'r ymateb safonol (gweler Atodiad 17). Gofynnwyd i'r plentyn ateb y cwestiynau hyn amryw o weithiau i wneud yn siŵr eu bod yn cael y cwestiwn

yn gywir gyda'r gobraith y byddant yn dechrau adnabod y patrymau a geir yn y math posib o ymatebion y gelid eu rhoi.

### **9.2.1.2 Dull gweinyddu'r prawf**

Cynhaliwyd y profion hyn mewn ystafell ar wahân gyda'r cyfranwyr bob yn un. Roedd y profion yn ystod wythnos 1 a 4 yn cymryd oddeutu 20-25 munud i'w cwblhau gyda pob cyfrannwr. I'r rhai hynny oedd yn derbyn ymyrraeth roedd y rhain yn sesiynau byrrach ac yn cymryd oddeutu chwarter awr i'w cwblhau gyda pob cyfrannwr.

#### **9.2.1.2.1 Wythnos 1**

Ar gyfer y prawf hwn esboniwyd i'r cyfranwyr ein bod am wneud prawf bach syml lle roedd gofyn iddynt ateb cyfres o gwestiynau. Nodwyd nad oedd y rhain yn gwestiynau anodd ac bod angen iddynt ymateb yn y ffordd roeddynt yn gysidro'n gywir i wneud. Gofynnwyd i'r cyfrannwr ar ddechrau'r prawf os oedd ef neu hi yn hapus i ateb y cwestiynau hyn cyn dechrau.

Wedi sicrhau bod y plentyn yn cytuno i barhau gyda'r prawf , rhoddwyd un ai y prawf llafar neu'r prawf ysgrifenedig i'r plentyn ei gwblhau yn gyntaf (fe newidiwyd trefn y profion wedi pob cyfrannwr). Ar gyfer y prawf cynhyrchu ar lafar rhoddwyd llun o un ai anifeiliaid neu blant yn chwarae i'r plentyn gan esbonio fy mod i (yr ymchwilydd) yn mynd i ofyn cwestiynau iddo am y llun ac iddo/i geisio eu hateb mor gywir a phosib. Roedd yr ymatebion a gafwyd yn cael eu nodi gan yr ymchwilydd ar daflen pwrpasol oedd yn cynnwys y rhestr o gwestiynau (Gweler atodiadau 13 a 14). Ar gyfer y prawf cynhyrchu ysgrifenedig rhoddwyd pensil i'r plentyn ac yna rhestr o gwestiynau a llun cyffelyb (un ai anifeiliaid neu blant yn chwarae). Gofynnwyd i'r plentyn ddarllen y cwestiynau ac ysgrifennu'r ymateb ar y daflen

cwestiynau lle y gwelir bwloch penodol ar gyfer ymateb. Wedi i'r plentyn orffen y ddau brawf fe ddiolchwyd i'r plentyn ac fe aeth y plentyn yn ôl i'r dosbarth.

### **9.2.1.2.2 Wythnosau 2 a 3**

Roedd hanner y plant (N=10) yn derbyn ymyrraeth yn ystod wythnosau 2 a 3. Wedi sicrhau fod y plentyn yn barod ac yn fodlon i barhau gyda'r profion fe ddechreuwyd y prawf. Yn ystod wythnos 2 atgoffwyd y plentyn o'r hyn a wnaeth yn ystod yr wythnos flaenorol (wythnos 1 o brofion) ac esboniwyd y bydd angen iddo ef neu hi ymateb i gwestiynau tebyg unwaith eto. Y tro hyn fodd bynnag esboniwyd i'r plentyn bod angen dewis yr ateb addas o blith nifer o atebion ar gardiau unigol. Rhoddwyd y detholiad o atebion posib ar ffurf cardiau unigol i'r plentyn ac yna cyflwynwyd bob cwestiwn i'r plentyn bob yn un ar gardiau unigol eraill. Gofynnwyd wedyn i'r plentyn ddewis yr ymateb addas i'r cwestiwn o blith yr atebion yr oedd ganddynt o'u blaenau. Rhoddwyd cyngor i'r plentyn drwy gydol y prawf gan sicrhau fod y plentyn yn gwneud y dewis addas bob tro. Os na ddewiswyd yr ateb addas gan y plentyn gofynnwyd y cwestiwn eto ac gofynnwyd i'r plentyn ail gysidro'r ateb. Fod bynnag os oedd y plentyn yn parhau i fod yn ansicr rhoddwyd cyngor ac anogaeth i'r plentyn er mwyn sicrhau fod ef neu hi yn dewis yr ateb addas. Ailadroddwyd y broses gyda'r holl gwestiynau hyd at dair gwaith er mwyn sicrhau bod y plentyn yn dewis yr ymateb addas bob tro. Yn ogystal, wrth iddynt ddewis a dethol o'r atebion o'u blaenau ceisiwyd sicrhau fod y plentyn yn dechrau adnabod patrymau yn yr atebion a rhoddwyd i'r cwestiynau penodol e.e. cwestiwn yn dechrau gyda oedd = ateb yn oedd neu oedden/oeddech/oeddent ayyb. Wedi i'r prawf ddod i ben diolchwyd i'r plentyn ac fe aeth y plentyn yn ôl i'r dosbarth.

Yn wythnos 3 dilynwyd yr un drefn a nodwyd uchod ar gyfer wythnos 2 gan nodi ar y dechrau y byddwn yn gofyn i'r plentyn gwblhau tasg gyffelyb i'r hyn a wnaeth yn ystod yr wythnos flaenorol.

### **9.2.1.2.3 Wythnos 4**

Ar gyfer y prawf hwn esboniwyd i'r cyfranwyr ein bod am wneud prawf bach syml lle roedd gofyn iddynt ateb cyfres o gwestiynau fel a wnaethant yn ystod wythnos 1. Dilynwyd yr un drefn a nodir ar gyfer wythnos 1 ac 2 wedi i'r plentyn orffen y ddau brawf fe ddiolchwyd i'r plentyn ac fe aeth y plentyn yn ôl i'r dosbarth. Y tro hwn roedd y plentyn yn cael cadw'r pensil lliwgar o a roddwyd iddo ef neu hi i gwblhau'r prawf er mwyn diolch iddynt am eu cymorth.


## **9.2.2 Canlyniadau: Prawf Ymyrraeth**

Yma, disgrifir y dadansoddiadau a wnaethpwyd ar y prawf ymyrraeth arbrofol a gynhaliwyd gyda nifer fechan o gyfranwyr ( $N=20$ ). Nid oedd y plant hyn yn rhan o'r prif ddadansoddiadau ond yn mynychu dwy ysgol gyfagos yn Ne Gwynedd.

Cynhaliwyd dadansoddiadau amrywiant (ANOVAs) ailadrodd mesurau er mwyn darganfod a oedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w canfod ym mherfformiad cyfranwyr ar y profion cyfatebol ond gwahanol a gynhaliwyd yn wythnos 1 o'i gymharu â wythnos 4. Darganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p<.05$ ) ar y sgorau a gafwyd ar prawf ymyrraeth llafar a gynhaliwyd yn wythnos 1 o'i gymharu â sgorau wythnos 4, Wilks Lambda =.31 [ $F(1, 16) =35.13, p<.0005$ ] ac roedd maint y gwahaniaeth yn fawr iawn ( $\eta^2=0.69$ ). Yma roedd yn amlwg fod y sgorau a gafwyd yn ystod wythnos 4 yn uwch ( $M=17.40; SD=1.88$ ) na'r rhai a gafwyd yn wythnos 1 ( $M=14.60; SD=2.44$ ) ar gyfartaledd. Ond ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p<.05$ ) ar y sgorau a gafwyd ar prawf




ymyrraeth ysgrifenedig a gynhaliwyd yn wythnos 1 o'i gymharu â sgorau wythnos 4, Wilks Lambda = .91 [ $F(1, 16) = 1.60, p = .224$ ] (gweler Ffigwr 46).



**Ffigwr 46 – Sgorau crai y cyfranwyr ar y profion ymyrraeth gwahanol (Llafar ac Ysgrifenedig) yn Wythnos 1 (W1LLAFAR a W1YSGRIFEN) ac yn wythnos 4 (W4LLAFAR a W4YSGRIFEN) yn ôl iaith y cartref (Cymraeg neu Saesneg).**

Er y cynnydd mewn sgorau ar gyfer y plant a dderbyniodd hyfforddiant pwrpasol gyda'r system, ni ddarganfuwyd gwahaniaethau arwyddocaol ym mherfformiad cyfranwyr oedd yn derbyn ymyrraeth a'r rhai nad oedd yn derbyn ymyrraeth ar y ddau brawf a ddefnyddiwyd. Ni ddarganfuwyd effaith arwyddocaol (sy'n gyfystyr â  $p < .05$ ) ar y sgorau a gafwyd ar prawf ymyrraeth llafar a gynhaliwyd yn wythnos 1 o'i gymharu â sgorau wythnos 4, Wilks Lambda = .99 [ $F(1, 16) = .17, p = .737$ ] nac ychwaith ar y sgorau a gafwyd ar prawf ymyrraeth ysgrifenedig a gynhaliwyd yn wythnos 1 o'i gymharu â sgorau wythnos 4, Wilks Lambda = .86 [ $F(1, 16) = 2.58, p = .128$ ] (gweler Ffigwr 47).



**Ffigwr 47–** Sgorau crai y cyfranwyr ar y profion ymyrraeth gwahanol (Llafar ac Ysgrifenedig) yn Wythnos 1 (W1LLAFAR a W1YSGRIFEN) ac yn wythnos 4 (W4LLAFAR a W4YSGRIFEN) ac yn ôl y grwpiau oedd un ai yn derbyn neu ddim yn derbyn ymyrraeth.

### 9.2.3 Crynodeb – Prawf Ymyrraeth

Yn wahanol i'r disgwyl felly nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol i'w cael ym mherfformiad unigolion oedd yn derbyn ymyrraeth i'w cymharu â'r rhai oedd yn derbyn ymyrraeth. Fodd bynnag mae Ffigwr 47 yn arddangos cynnydd bychan yn sgôr y cyfranwyr oedd yn derbyn ymyrraeth ar y prawf ysgrifenedig gyda sgôr y grŵp nad oedd yn derbyn ymyrraeth yn aros yr un fath ar gyfartaledd. Yn ogystal ac yn fwy diddorol, fel a y gweler yn Ffigwr 47, mae sgôr cyfranwyr ar y prawf cynhyrchu llafar ar gyfartaledd (os yn y grŵp ymyrraeth ai peidio) yn cynyddu erbyn yr wythnos olaf o brofion. Trafodir rhesymau posib am y diffyg gwahaniaeth arwyddocaol a goblygiadau'r canlyniadau hyn yn y bennod nesaf.

# Pennod 10:Trafodaeth

---

## 10.1 Cyflwyniad i'r bennod

Pwrpas yr ymchwil hwn oedd edrych ar ba ffactorau sy'n effeithio caffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg. Mae'r system hon yn system gymhleth ar yr olwg gyntaf, lle gellir gwneud defnydd o nifer o ymatebion posib (gweler Pennod 2). Yn unol â'r ymchwil blaenorol a wnaethpwyd ar gaffaeliad plant ifanc o strwythurau cymhleth (gweler Pennod 3) canolbwyntiwyd ar bwysigrwydd y mewnbwn ieithyddol wrth hyrwyddo defnydd a gallu plant ifanc i ddefnyddio'r system yn effeithlon. Nid oedd yr ymchwil hwn yn mesur y defnydd naturiol a wneir o'r system hon gan blant. Yn hytrach, mesura'r ymchwil wybodaeth plant ifanc o nodweddion a rheolau'r system ateb yn y Gymraeg – h.y. ydy plant ifanc yn ymwybodol o'r ymatebion addas mewn cyd-destunau ieithyddol gwahanol er nad ydynt o reidrwydd yn cydymffurfio â'r rheolau hyn mewn iaith ddyddiol (gweler Penodau 4 a 5 am drafodaeth o'r fethodoleg). Trafodwyd y canlyniadau yn fanwl ym Mhenodau 6 - 10.

Yma cynigir trosolwg o oblygiadau'r canlyniadau hynny yn fwy cyffredinol, yn enwedig o ran sut maent yn ychwanegu at yr hyn a wyddom eisoes am gaffaeliad plant ifanc o strwythurau cymhleth (yn enwedig mewn ieithoedd lleiafrifol) a beth yw goblygiadau'r canlyniadau hyn i ymchwil a strategaethau dysgu i'r dyfodol. Yn ogystal, trafodir lle gellid datblygu'r gwaith hwn ac addasu technegau methodolegol ymhellach er mwyn ymhelaethu ar ein gwybodaeth o ddefnydd plant ifanc, nid yn unig o'r system ateb yn y Gymraeg, ond o systemau cymhleth eraill yn ogystal.

## 10.2 Cwestiynau Ymchwil

Roedd cwestiynau ymchwil yr astudiaeth bresennol fel a ganlyn:

1. Pa mor bwysig ydy amlygiad ieithyddol i gaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg?
  - a. Oes perthynas glir i'w chael rhwng caffaeliad o elfennau penodol o fewn y system a thryloywder neu diffyg tryloywder y system? Sut mae hyn yn gysylltiedig gyda'r mewnbwn ieithyddol a dderbynnir?
  - b. A yw plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn gwneud defnydd o giwiau wrth gaffael y system ateb yn y Gymraeg? (e.e. y defnydd o dagiau neu'r gallu i adnabod patrwm yn yr ymatebion)
2. Oes tystiolaeth i awgrymu fod elfennau o drosglwyddiad ieithyddol i'w gweld yn ymatebion y plant? H.y. ydy siaradwyr ail iaith Cymraeg yn dueddol o fapio'r wybodaeth sydd ganddynt o'r system ateb syml sy'n bodoli yn Saesneg ar y system llawer mwy cymhleth a geir yn Gymraeg?
3. I ba raddau mae'r modelau a'r damcaniaethau caffael iaith drafodwyd (Pennod 3) gyda'r gallu i esbonio darganfyddiadau'r ymchwil presennol?

Trafodir y rhain yn eu tro yn yr adran dilynol.

## 10.3 Trafodaeth o'r Canlyniadau

Yn gyffredinol (ar draws yr holl ddadansoddiadau) dangosa'r canlyniadau fod:

- a) plant hŷn yn cynhyrchu ac yn dewis y ffurfiau targed yn fwy cyson na phlant iau;
- b) plant sy'n derbyn Cymraeg yn unig yn y cartref yn cynhyrchu ac yn dewis y ffurfiau targed yn fwy cyson na phlant oedd un ai yn derbyn Saesneg yn unig neu gymysgedd o Gymraeg a Saesneg yn y cartref;
  - a
- c) plant ar draws cefndiroedd iaith ac oed yn cynhyrchu ac yn dewis y ffurfiau targed yn fwy cyson pan yn delio gydag eitem dryloyw i'w chymharu ag eitem afloyw.

Mae'r darganfyddiad cyntaf yn arwyddocaol gan ei fod yn atgyfnerthu dilysrwydd y profion ac yn fy ngalluogi i nodi, gyda pheth sicrwydd, nad yw unrhyw wahaniaethau a ddarganfuwyd rhwng y grwpiau o ganlyniad i amwysedd y profion, ond yn hytrach yn adlewyrchiad o lefel datblygiadol a gallu gwybyddol y plentyn. Mae'r ail ddarganfyddiad yn awgrymu fod iaith y cartref yn hollbwysig wrth ystyried gallu plant ifanc dwyieithog Cymraeg/Saesneg i sgorio'n uchel ar brofion o'r system gymhleth hon. Ar y llaw arall, mae'r trydydd darganfyddiad yn awgrymu fod natur y system yn dylanwadu ar batrwm y caffaeliad

– h.y. bod tryloywder yr eitem dan sylw gael effaith ar gyflymder y caffaeliad. Trafodir hyn mewn mwy o fanylder isod mewn ymateb i'r cwestiwn ymchwil cyntaf.

### **10.3.1 Cwestiwn Ymchwil 1: Pa mor bwysig ydy amlygiad ieithyddol i gaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg?**

Fel yr awgrymir uchod mae amlygiad ieithyddol digonol yn y cartref i'w weld yn gysylltiedig gyda pherfformiad plant ar y system ateb yn y Gymraeg, gyda'r rhai oedd yn siarad Cymraeg yn unig yn y cartref (ac felly yn derbyn yr amlygiad mwyaf i'r Gymraeg yn y cartref) yn sgorio'n uwch na'r plant oedd yn dod o gartrefi di-Gymraeg neu gartrefi cymysg. Mae hyn i'w weld yn adlewyrchu'r patrwm a gafwyd yn Jones (1999) lle roedd plant o gartrefi Cymraeg yn gwneud mwy o ddefnydd o'r system ateb na phlant o gartrefi di-Gymraeg.

Yn ogystal, cytuna'r darganfyddiad hwn gydag ymchwil wnaethpwyd y tu hwnt i Gymru sydd wedi adnabod pwysigrwydd yr amlygiad ieithyddol a geir yn y cartref wrth gaffael strwythurau penodol (gweler, e.e., Gathercole, 2002a/2002b; Oller a Eilers, 2002; Rodina a Westergaard, 2013). Yn y cyd-destun Cymraeg, atgyfnertha'r canlyniadau presennol ddarganfyddiadau tebyg am gaffaeliad strwythurau eraill yn yr iaith Gymraeg (e.e. Gathercole, Thomas a Laporte, 2001; Gathercole a Thomas, 2005; Sharp 2013, gweler hefyd Thomas a Mayr, 2010 am drosolwg). At ei gilydd, mae'r ymchwiliadau hyn oll yn cydnabod pwysigrwydd iaith y cartref ac yn nodi bod perthynas gref i'w gael rhwng lefel yr amlygiad yr oedd plant yn ei dderbyn i'r iaith Gymraeg a'u perfformiad ar brofion ieithyddol Cymraeg: po fwyaf oedd yr amlygiad, y gorau oedd eu sgôr ar y profion. Yn yr ymchwil hwn aed gam ymhellach gan ddangos fod hyn yn wir am yr iaith a siaradir gyda'r fam, y tad, brodyr /chwirydd a ffrindiau yn ogystal. Mae'r cynnydd a ddarganfuwyd ym mherfformiad

y plant sy'n defnyddio o leiaf rhywfaint o Gymraeg gyda'u ffrindiau (yn hytrach na Saesneg yn unig) yn adlewyrchu pwysigrwydd defnydd yr iaith mewn cyd-destunau rhyngbersonol, tu allan i'r cartref ac oriau ysgol. Mae hyn yn cyd-fynd gyda darganfyddiadau Thomas a Roberts (2011) sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith mae plant yn siarad gyda'u cyfoedion.

Yn ôl ymchwil Thomas a Roberts (2011), mae tuedd i blant wneud defnydd helaeth o Saesneg yn hytrach na Chymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth h.y. yn iard yr ysgol, yn enwedig pan mai Saesneg yw iaith naturiol y mwyafrif. Os oedd y mwyafrif yn dod o gartrefi cyfrwng Saesneg, roeddynt yn fwy tebygol o gyfathrebu yn naturiol drwy gyfrwng yr iaith honno ond mewn sefyllfaoedd lle roedd y mwyafrif o blant yn dod o gartrefi cyfrwng Cymraeg, roedd y plant yn fwy tebygol o gyfathrebu yn naturiol yn Gymraeg. Gyda'r canran o ddisgyblion sy'n dod o gefndir lle ceir Cymraeg yn unig yn y cartref yn gostwng i gymharu'r a'r canraon sy'n dod o gartrefi di-Gymraeg (Lewis, 2006), mae hyn yn arddangos patrwm pryderus o ddefnydd iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, noda'r ymchwilwyr fod defnydd y plant o Saesneg o fewn y dosbarth hefyd yn peri pryder gyda 30% o blant o gartrefi Cymraeg yn nodi eu bod yn defnyddio Saesneg yn yr ystafell ddosbarth a mwy fyth o gartrefi Saesneg (67%) a chartrefi cymysg (58%). Oherwydd mai'r ysgol yw prif ffynhonnell mewnbwn ieithyddol Cymraeg rhai o'r plant (y rhai a ddaw o gartrefi Saesneg yn enwedig) mae Thomas a Roberts (2011) yn nodi bod y defnydd cynyddol o Saesneg gyda'u cyfoedion yn gallu achosi anawsterau i rai plant wrth geisio cyrraedd hyfedredd brodorol yn yr iaith. Mae i'r arsylwad hwn gysylltiad uniongyrchol gyda darganfyddiadau'r ymchwil presennol lle darganfuwyd cysylltiad cryf rhwng sgorau'r plant ar y profion a'r duedd i siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau.

Yn ychwanegol i hyn mae gwaith ymchwil blaenorol yn dangos bod diffyg hyder a hyfedredd ieithyddol yn gallu bod yn ffactor sy'n atal unigolion rhag defnyddio'r iaith

Gymraeg yn y dyfodol (Baker, 1992). Mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn awgrymu nad yw plant o gartrefi Saesneg wedi cyrraedd lefelau plant iaith gyntaf Cymraeg ar agweddau penodol o'r system ateb yn y Gymraeg (eu hail iaith) erbyn iddynt ymadael â'r ysgol gynradd, er fod y plant yn dangos ymwybyddiaeth o'r rheolau yn gyffredinol. Os yw'r plant yn ymwybodol o'u diffygion, gall hyn ddylanwadu ar eu parodrwydd i ddefnyddio'r iaith (Baker, 1992). Gwyddom fod llawer o blant (neu rhieni plant) o gartrefi Saesneg (hyd yn oed y rhai sydd wedi dilyn eu haddysg gynradd drwy gyfrwng y Gymraeg) yn dewis dilyn eu haddysg uwchradd drwy gyfrwng y Saesneg, "Bilingual development for some parents does not become so important during the secondary years" (Baker, 2014 tud. 148). O ganlyniad i hyn, gellid hyd yn oed awgrymu bod rhai plant yn dechrau cyfnod o golli iaith (language attrition; cf. y syniad o 'incomplete acquisition' – Montrul, 2008) yn ystod yr ysgol uwchradd, oherwydd y gostyngiad yn y mewnbwn Cymraeg, gan nad Cymraeg yw iaith yr addysgu nac ychwaith iaith y cartref a chymdeithasu i rai plant. Yn ogystal, oherwydd y gall hyn gael effaith andwyol ar y sgiliau gramadegol gaffaelwyd (gweler Schmid, 2011 am drafodaeth pellach) mae hyn yn ystyriaeth bwysig ar gyfer ymchwil dilynol. Atgyfnertha hyn y farn fod angen dilyniant ieithyddol (language continuity) yn iaith yr addysgu wrth gaffael iaith a chynyddu hyfedredd ieithyddol (Baker, 2014).

Fodd bynnag, gan nad yw rhai plant, o bosib, yn mynd i gael amlygiad digonol na chyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg llawer wedi gadael yr ysgol gynradd mae'n debyg na fyddant yn ennyn y más critigol angenrheidiol ar gyfer caffael y system ateb yn ei chyfanrwydd (Marchman a Bates, 1994; Marastos, 2000; Gathercole 2002a/2002b; Paradis, Nicoladis a Crago, 2007). Fel a nodwyd eisoes (gweler pennod 3), mae'r más gritigol yn ymwneud â chael amlygiad digonol i'r strwythur penodol o dan sylw er mwyn galluogi'r unigolyn i ddefnyddio'r strwythur hwnnw'n effeithiol (Conti-Ramsden a Jones, 1997;



Gathercole a Hoff, 2007). Felly, yn ôl y syniad hwn mae plant hŷn yn sgorio'n uwch ar brofion o'r system hon oherwydd eu bod wedi cael mwy o gyfle ac amser i gaffael y más critigol angenrheidiol er mwyn defnyddio'r system yn effeithlon. Yn ogystal, oherwydd bod perfformiad plant sy'n derbyn Cymraeg yn unig yn y cartref yn gyson uwch na'r grwpiau eraill mae posib damcaniaethu bod hyn yn ymwneud â'r gallu i gyrraedd y más critigol o strwythurau penodol yn y system ateb ynghynt oherwydd y mewnbwn ieithyddol uwch a geir yn y cartref –“*more input means more rapid development*” (Gathercole a Hoff, 2007: 117). Hynny yw, cafwyd mwy o gyfle i glywed a defnyddio'r iaith Gymraeg ymysg plant o gartrefi Cymraeg ac felly mae'r plant yn caffael strwythurau Cymraeg ynghynt gan eu bod yn clywed, e.e., patrymau strwythurol tebyg lle adleisir y ferf, mewn sefyllfa cwestiwn ac ateb (gweler rhai esiamplau posib isod):

A. Cwestiwn	<b>Ydy swper yn barod?</b> Bod.3U.Pres
Ymateb	<b>Ydy/Nac Ydy</b> Bod.3U.Pres/NEG Bod.3U.Pres
B. Cwestiwn	<b>Oes gen ti ymarfer côr nos yfory?</b> Bod.3U.Pres
Ymateb	<b>Oes/Nac Oes</b> Bod.3U.Pres/NEG Bod.3U.Pres
C. Cwestiwn	<b>Wyt ti'n mynd i nofio yfory?</b> Bod.2U.Pres
Ymateb	<b>Ydw/Nac Ydw</b> Bod.1U.Pres/NEG Bod.1U.Pres

Mae'r syniad hwn o fâs critigol hefyd yn cyd-fynd gyda phatrwm sgorau'r grwpiau eraill gan fod y grŵp Cymysg, sydd wedi derbyn ryw faint o Gymraeg yn y cartref, yn dueddol o sgorio'n uwch na'r grŵp Saesneg ar gyfartaledd. Fodd bynnag, arddangosa dadansoddiadau pellach ar y grŵp Cymysg, ym mlwyddyn 5 a 6 yn benodol, batrwm o

sgorau cyfnewidiol. Ymdebyga sgorau'r grwpiau Cymysg (a Saesneg ar adegau) ym mlwyddyn 5 a 6 i'r hyn a wneir gan y grŵp Cymraeg ym mlwyddyn 3 a 4. Felly, er fod y grŵp Saesneg i'w weld yn arddangos cynnydd da iawn i ymdebygu i sgorau'r grŵp Cymysg erbyn blwyddyn 5 a 6 nid yw'r grŵp Cymysg yn arddangos cynnydd digonol yn eu sgorau i leihau'r bwlch rhyngddyn nhw a'r grŵp Cymraeg, gyda'r grŵp Saesneg i'w weld yn sgorio ychydig yn uwch na'r grŵp Cymysg ar nifer o adegau erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Fe all hyn awgrymu fod yna elfen o arafu wedi bod yn natblygiad plant o gartrefi cymysg o'r system hon mewn cymhariaeth â'r grwpiau iaith eraill sydd o bosib yn gallu cael ei esbonio gan eu hanallu i hel y más critigol angenrheidiol o strwythurau ieithyddol penodol i ymestyn eu gwybodaeth ymhellach, yn enwedig wrth edrych ar eitemau mwy afloyw. Mae'n bosib bod hyn yn deillio o'r canlynol:

- i. Bod gostyngiad posib yn y mewnbwn a gafwyd: un ai yn y cartref neu yn gymdeithasol. Mae Baker, 2014 yn cyfeirio at waith Fred Genesse (gweler Genesse 2008 am drafodaeth ond mae amryw o erthyglau eraill ar gael) sy'n awgrymu fod angen i blant dwyieithog dderbyn canran eithaf cyfartalog yn gyson yn eu mewnbwn ieithyddol yn yr ieithoedd caffaelir os am sichau datblygiad llawn yn y ddwy iaith.
- ii. Efallai bod rhieni'r plant o gartrefi Saesneg ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hwn yn gefnogol o'r Gymraeg ac felly yn fwy tebygol o hyrwyddo defnydd eu plant o'r Gymraeg oherwydd eu bod yn ymwybodol o'r diffyg mewnbwn ieithyddol cyfrwng Cymraeg yn y cartref, "A positive parent tends to breed a successful child...this is particularly true of a child's language development." (Baker, 2014 tud. 39). Fodd bynnag, oherwydd bod plant o gartrefi Cymysg yn ystyried Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd cyntaf efallai nad yw rhieni yn

gweld yr angen i ymdrechu'n ormodol neu wella eu safonau ieithyddol ymhellach.

- iii. Yn ogystal, gall fod plant o gartrefi Cymysg yn ceisio efelychu'r patrwm a geir yn y cartref. Atgyfnerthir hyn gan ganlyniadau'r profion geirfa lle roedd y plant o gartrefi Cymraeg ymhell ar y blaen i'r grwpiau iaith eraill yn y prawf geirfa Cymraeg a'r plant o'r gartrefi Saesneg ymhell ar y blaen i'r grwpiau iaith eraill yn y prawf geirfa Saesneg erbyn blwyddyn 5 a 6. Ar y llaw arall roedd sgorau y plant Cymysg yn is ac yn ymdebygu i sgorau'r plant o gartrefi Saesneg ar y prawf geirfa Cymraeg ond yn ymdebygu i sgorau'r plant o gartrefi Cymraeg ar y prawf geirfa Saesneg (gweler pennod 5). Ategir hyn gan ymchwil Lightfoot a Westergaard (2007) sy'n nodi fod plentyn yn datblygu eu rheolau ieithyddol unigryw hwy o'r iaith a geir o'u cwmpas.
- iv. Yn ychwanegol i hyn roedd tuedd i blant o gartrefi Cymysg ddewis siarad Saesneg gyda'u ffrindiau. Mae plant o gartrefi Cymysg wedi arfer gwneud defnydd cyson o'r iaith Saesneg yn y cartref ac o bosib gyda'u brodyr a chwiorydd, ac felly yn fwy parod o wneud defnydd o'r Saesneg. Er fod hyn hefyd yn wir am blant o gartrefi Cymraeg i raddau, lle nad yw'n cymryd llawer o berswâd i gyfathrebu drwy gyfrwng y Saesneg (Thomas a Roberts, 2011), mae'n bosib rhagdybio fod plant o gartrefi Cymysg (oherwydd eu amlygiad cyson i'r ddwy iaith yn y cartref) yn fwy parod i newid i'r Saesneg

Yn olaf, efallai bod angen ystyried yn union yr amrywiadau niferus a geir yn y mewnbwn ieithyddol oddi mewn i gartrefi Cymysg. Felly, er fod y plant o gartrefi Cymysg i'w gweld yn perfformio'n gyson debyg ar y profion ac yn dueddol o sgorio rywle rhwng y ddau grŵp iaith arall, mae'n bosib y cafwyd amrywiadau mawr yn y mewnbwn ieithyddol a

dderbyniwyd gan un plentyn o'i gymharu a plentyn arall. Yn dilyn hyn, mae'n debyg y byddai gwahanu'r grŵp Cymysg yn ddau, dri neu fwy yn arddangos graddfa o berfformiad rhwng plant o gartrefi Cymraeg a gartrefi Cymysg ac felly yn adlewyrchiad tecach o alluoedd yr unigolyn (fe ellid ehangu hyn i gynnwys grwpiau niferus o gartrefi Saesneg neu Gymraeg yn ogystal). Mae hyn yn cyd-fynd gyda symudiad cyfredol yn maes dwyieithrwydd sy'n ystyried yr angen i ymdrin â, ac i ystyried pob unigolyn dwyieithog ar wahân (e.e. de Houwer, 2009/2013; Garcia, 2011/2013; Grosjean, 2013).

Yn ychwanegol i'r arsylwadau uchod, mae'r canlyniadau hyn yn herio'r pwysigrwydd y mae rhai ymchwilyr yn ei roi ar oed caffael iaith a'r gwahaniaeth a nodir yn y maes rhwng siaradwyr dwyieithog cydamserol (lle bydd siaradwyr yn caffael dwy iaith ar yr un pryd) sy'n dueddol o berfformio'n well na siaradwyr dwyieithog dilynol (sy'n caffael un iaith o'r crud a'r llall o tua 4 oed ymlaen) (gweler Paradis, 2008 am drafodaeth pellach). Yn hytrach mae'r canlyniadau hyn yn cyd-fynd gyda ymchwil Montrul a Potowski (2007) ar ieithoedd brodorol y cartref e.e. Sbaeneg yn yr Unol Daleithiau, lle mae siaradwyr dwyieithog cydamserol (y grŵp cymysg fel y'i gelwir yn yr ymchwil bresennol) yn fwy tebygol o arddangos patrymau o gaffaeliad anghyflawn pan yn oedolion (Montrul, 2002) o'u cymharu â siaradwyr dwyieithog dilynol (plant o gartrefi Saesneg yn y cyd-destun hwn). Yn ogystal adnabu ymchwil gan Sebastián-Gallés, Echeverría, a Bosch, 2005 (yn unol â darganfyddiadau'r ymchwil hwn), fod gwahaniaethau pellach i'w cael rhwng siaradwyr dwyieithog cynnar (y plant o gartrefi Cymraeg yn yr ymchwil hwn) a siaradwyr dwyieithog cydamserol (y plant o gartrefi Cymysg) lle nad yw plant o gartrefi Cymysg yn arddangos yr un hyfedredd yn eu hiaith cyntaf o'i chymharu â siaradwyr dwyieithog cynnar. Fodd bynnag, mae'r drafodaeth uchod ar ddwyieithrwydd cydamserol a dilynol angen ystyried ei fod yn bosib i unigolion arddangos gwahaniaethau oherwydd y mewnbwn amrywiol dderbynnir yn

y ieithoedd dan sylw e.e. ydy'r plentyn yn caffael iaith fwyafrifol neu iaith leiafrifol (mae hyn yn gysylltiedig gyda gwaith Genesse (2008) sy'n nodi fod rhaid ystyried canran yr amlygiad ieithyddol geir i'r ddwy iaith).

Awgryma Hawkins a Franceschina (2004) os nad yw plant ail iaith (disgrifiad a all fod yn berthnasol i'r plant o gartrefi Saesneg yn y cyd-destun hwn) wedi caffael nodweddion strwythurol penodol yn eu hiaith gyntaf nid ydynt â'r gallu i ddatblygu'r nodweddion hynny yn effeithlon yn eu hail iaith (Cymraeg yn nghyd-destun yr ymchwil bresennol). Er nad oedd mesur o sgiliau'r plant gyda'r system ateb dryloyw yn Saesneg yn rhan o'r ymchwil bresennol, gellid rhagdybio bod y plant wedi caffael y system yn Saesneg, tra, ar yr un pryd, yn arddangos sgorau uchel ar gyfartaledd ar y system Gymraeg. Yn ogystal, darganfu ymchwil Montrul a Potowski (2007) mai'r grŵp ail iaith oedd yn dueddol o ddangos y cynnydd mwyaf gydag oed (fel yn y grŵp Saesneg erbyn diwedd yr ysgol gynradd), er fod y grŵp ail iaith yn eu hymchwil nhw (fel yn yr ymchwil presennol) yn sgorio'n is ar brofion strwythurol ar gyfartaledd. Nid yw'n glir a fydd y cynnydd hwn gan y grŵp ail iaith (fel a ddarganfuwyd yn yr ymchwil bresennol) yn parhau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol uwchradd ac fe ragdybir bod hyn yn ddibynnol ar eu dewis o'r cyfrwng addysgu yn yr ysgol uwchradd; unrhyw newidiadau yn eu sefyllfa teuluol; cyfleodd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymdeithas yn ogystal â'r iaith a siaradir gyda ffrindiau. Mae'n debyg fod yr iaith a siaradir gyda ffrindiau yn debyg o fod yn elfen hanfodol a phwysicach yn ystod cyfnod llencyndod lle mae mwy o bwyslais ar yr angen i gydymffurfio ac i gyd-fynd gyda chredoau, patrymau cymdeithasol yn ogystal â dewis ieithyddol plant eraill (gweler Wigfield, Byrnes, a Eccles, 2006 am drafodaeth pellach). Gobeithir fynd i'r afael â'r rhagdybiaeth hyn mewn ymchwil dilynol.

Felly, wrth ymateb i'r cwestiwn ymchwil cyntaf, gellid nodi fod amlygiad ieithyddol digonol yn bwysig iawn er mwyn caffael y system ateb yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, er

fod y plant o gartrefi Cymysg a chartrefi Saesneg i'w gweld yn sgorio'n arwyddocaol is ar y profion hyn o'r system ateb yn Gymraeg mae eu perfformiad yn eithaf uchel ar gyfartaledd (dros 50% yn y grŵp iau: Bl 3 a 4=7;1-9;8; a dros 60% yn y grŵp hŷn: Bl 5 a 6=9;9-11.9) o'i gymharu â'r sgorau a geir ar brofion o strwythurau cymhleth eraill yn yr iaith Gymraeg – e.e. profion ar genedl-enwi a threigladau (Sharp, 2013; Gathercole, Thomas a Laporte, 2001; Thomas & Gathercole, 2007). Yn ogystal, awgryma'r canlyniadau fod y grwpiau Saesneg a Chymysg yn ei chael hi'n anodd i gyrraedd yr un lefel â'r grŵp Cymraeg erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol gynradd. Mae nifer o resymau pam y gall hyn fod, gan gynnwys:

- (i) Diffyg amlygiad digonol i strwythurau penodol sydd efallai yn llai cyffredin yn y mewnbwn ieithyddol ac lefel tryloywder/afloywder y strwythur penodol o dan sylw (mae hyn yn cyd-fynd gyda ymchwil Gathercole a Thomas (2005) a drafodwyd ym mhennod 3 ac fe ymhelaethir ar y posibilrwydd hyn mewn ymateb i'r cwestiwn ymchwil nesaf).
- (ii) Defnydd y plant o'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol, sy'n ymestyn y tu hwnt i'r defnydd o wneir yn yr ysgol ac hyd yn oed gyda'u rhieni (Thomas a Roberts, 2011 a gweler hefyd waith Coupland, Bishop, Williams, Evans a Garrett, 2005 sy'n edrych ar blant hŷn). Mae hyn yn gysylltiedig gyda statws y Gymraeg fel iaith leiafrifol a'r angen neu'r diffyg cyfle i dderbyn mewnbwn digonol os am gyrraedd lefelau siaradwyr brodorol.
- (iii) Yr angen i dargedu rhai o elfennau anoddaf y system ateb a rhoi hwb bellach iddynt yn yr ysgol er mwyn datblygu eu hymwybyddiaeth o nodweddion mwy afloyw'r system yn ystod blynyddoedd 5 a 6 yn enwedig (trafodir hyn ymhellach wrth drafod goblygiadau addysgol yr ymchwil hwn ac sut mae'n

cysylltu gyda strategaeth addysgol llywodraeth Cymru ar ddiwedd y bennod hon).

Fodd bynnag, mae'n debyg fod yr holl ffactorau uchod yn cyfrannu at y cwestiwn o bwysigrwydd amlygiad ieithyddol ac fe drafodir perthnasedd yr amlygiad ieithyddol a geir i dryloywder neu afloywder yr eitem o dan sylw mewn mwy o fanylder isod.

**10.3.1.1 Cwestiwn Ymchwil 1a: Oes perthynas glir i'w weld rhwng caffaeliad o elfennau penodol o fewn y system a thryloywder neu diffyg tryloywder y system? Sut mae hyn yn gysylltiedig gyda'r mewnbwn ieithyddol a dderbynnir?**

- Roedd patrymau clir i'w gweld ym mherfformiad plant ar yr eitemau gwahanol, lle gwelid tuedd i sgorio'n uwch ar eitemau tryloyw (lle cafwyd nifer llai o opsiynau ac amrywiadau yn y dewis o ymatebion a geir) i'w cymharu ag eitemau afloyw (lle cafwyd nifer fwy o opsiynau ac amrywiadau posib wrth ymateb). O ganlyniad, roedd yr eitemau fwy tryloyw oedd yn cynnwys eitemau negyddol /cyfatebol a 2 giw (enghraifft D isod) yn sgorio'n uwch nag eitemau mwy afloyw lle cafwyd eitemau cadarnhaol/anghyfatebol ac 1 ciw yn unig (enghraifft E isod):

D. Cwestiwn: **Ydy'r gath yn rhochian, ydy?**  
Bod.3U.Pres x2

Ymateb: **(Nac) Ydy**  
NEG (Bod.3U.Pres)

E. Cwestiwn: **Oeddet ti'n gallu gweld yr eliffant yn nofio?**  
Bod.2U.Amh

Ymateb: **Oeddwn**  
Bod.1U.Amh

Yn ogystal roedd y dadansoddiadau a wnaethpwyd o eitemau penodol yn amlygu bwlch rhwng y grwpiau iaith wrth gymharu eu perfformiad ar yr eitem mwyaf tryloyw (eitem 8) a'r eitem mwyaf afloyw (eitem 1) . Roedd perfformiad y grwpiau Saesneg a Chymysg yn is (oddeutu 50%) ar eitem 1 (yr eitem mwyaf afloyw) o'i gymharu â'r grŵp Cymraeg oedd 75% yn gywir. Ar y llaw arall, roedd pob grŵp yn perfformio'n dda (oddeutu 80%) ar eitem 8 (yr eitem mwyaf tryloyw).

Mae hyn yn cyd-fynd gydag ymchwil Paradis, Nicoladis a Crago (2007) yng Nghanada oedd yn nodi fod plant ifanc dwyieithog Ffrangeg/Saesneg, Saesneg/Ffrangeg a phlant uniaith Ffrangeg i'w gweld yn perfformio'n well ar ferfau tryloyw na berfau afloyw yn Ffrangeg. Yn ogystal rhaid cofio fod hyn yn gysylltiedig ag amllder y mewnbwn a geir ar gyfer y ffurfiau tryloyw ac afloyw, oherwydd "...if a learner is to apply a pattern productively to forms not necessarily encountered before, he/she must have encountered the pattern with a number of different forms in it" (Bybee, 2009:221). Felly yn unol â'r ymchwil a drafodwyd ym mhennod 5.3 mae caffael strwythurau penodol yn ddibynnol ar y mewnbwn a geir (Goldberg a Casenheiser, 2009) ac os clywir ffurf yn aml mae plant yn fwy tebygol o'i gaffael ynghynt (Naigles, a Hoff\_Ginsberg, 1998; Theakston, 2004). Atgyfnerthir hyn gan Bybee (2009), sy'n nodi fod "...members of categories that are more frequent in the environment are taken to be the central members of categories; they are more accessible and in many cases more generalised in their meaning. When children are forming categories, frequent exposure helps them to set up the category with a central member" (Bybee, 2009:228). Awgryma hyn bod unrhyw eitemau anghyffredin a geir yn y system ateb yn cael eu caffael yn hwyrach na rhai o'r ffurfiau mwy cyffredin. Fodd bynnag, mae'r cartref hefyd yn gyfoeth o ffurfiau amrywiol sy'n rhoi cyfle i'r plentyn glywed a defnyddio strwythurau gwahanol i'r



cyffredin yn fwy aml, sy'n dod â ni yn ôl at effaith amlygiad iaith yn y cartref, e.e. gweler enghreifftiau o eitemau fysai'n cael eu cysidro yn afloyw isod:

F. Cwestiwn	<b>Wyt</b> ti isio swper? Bod.2U.Pres +eisiau
Ymateb	<b>Oes/Nac Oes</b> Bod.3U.Pres/NEG Bod.3U.Pres
G. Datganiad	<b>Mae'n</b> amser gwely Bod.3U.Pres
Ymateb	<b>Ydy/Nac Ydy</b> Bod.3U.Pres/NEG Bod.3U.Pres

Yn anffodus, heb yr amlygiad digonol i holl ffurfiau'r system gall caffaeliad llawn o'r system gan blant o gartrefi Cymysg a Saesneg fethu o ganlyniad i redeg allan o amser - "timed 'off the map'" - yng nghyd destun caffaeliad llawn o iaith (Gathercole a Thomas, 2005: 213). Awgryma hyn fod sicrhau amlygiad digonol a chynnar i strwythurau penodol yn hollbwysig pan geir systemau cymhleth, tra bo ymchwilyr yn nodi fod systemau tryloyw yn cyrraedd y más critigol sy'n angenrheidiol er mwyn dysgu rheolau'r system yn gyflymach, (Cain, Weber-Olsen a Smith, 1987) o'i gymharu â strwythurau afloyw (Gathercole, Thomas a Laporte, 2001; Gathercole a Thomas 2005; Thomas a Gathercole, 2007). Mae gostyngiad yn y mewnbwn neu diffyg mewnbwn digonol yn ystod cyfnod plentyndod yn gallu arwain at ddefnydd anghyflawn (pan yn oedolyn), yn enwedig o systemau mwy cymhleth, patrwm a elwir yn *incomplete acquisition* (Montrul, 2008). Dadleuai ymchwilyr sydd o blaid y syniad o gaffaeliad anghyflawn fod ffurfiau anghyffredin yn y mewnbwn yn arwain at "...simplification of the grammar by letting go of the non-core options, while retaining the core functional structure"(Montrul a Bowles, 2009:363). Awgryma hyn fod diffyg mewnbwn

digonol yn un o'r ffactorau<sup>12</sup> all arwain at ymgais i symleiddio systemau ieithyddol pan fo mwy nag un opsiwn i'w gael, syniad sydd o bosib yn rhannol esbonio'r sgorau is a gafwyd gan y grwpiau Saesneg a Cymysg ar yr eitemau anoddaf, mwy afloyw.

Wrth edrych ar eitemau penodol, roedd perfformiad plant yn dueddol o ddilyn y patrwm canlynol, lle roedd plant yn sgorio'n uwch ar rai eitemau nag eraill oherwydd tryloywder neu afloywder yr eitem o dan sylw:

Eitemau Negyddol	>	Eitemau Cadarnhaol
Eitemau Cyfatebol	>	Eitemau Anghyfatebol
Eitemau gyda 2 giw	>	Eitemau gyda 1 ciw

Trafodir y patrymau hyn yn eu tro isod.

### **10.3.1.1.1 Eitemau Negyddol > Eitemau Cadarnhaol**

Roedd pob grŵp iaith yn dueddol o sgorio'n uwch ar yr eitemau negyddol na'r eitemau cadarnhaol, ond nid yw hyn yn ddarganfyddiad annisgwyl oherwydd bod modd ymateb yn negyddol gyda'r geiryng *Na* yn unig. O ganlyniad, mae hyn yn ei wneud yn opsiwn dryloyw, lle y cafwyd gwared o unrhyw opsiynau ychwanegol ac amrywiadau ymatebol posib wrth ddefnyddio'r ffurf hon. Mae hyn yn cyd-fynd gyda darganfyddiadau blaenorol Jones (1999) lle nododd bod "the form *Na* by itself emerges as a general responsive in place of all types of responsive" (tud.237). Fodd bynnag mae dadansoddiadau pellach a wnaethpwyd o ddefnydd plant o ymatebion lle cafwyd dewis o ymateb gyda *Na* + Berf neu *Na* yn unig yn arddangos patrymau sy'n ymdebygu i'r hyn a welir gydag ymatebion cadarnhaol: roedd plant yn dueddol o wneud defnydd addas o *Na* yn unig yn fwy cyson na defnydd o ffurfiau *Na* + berf. Gellid damcaniaethu felly fod y canlyniadau is ar y ffurfiau *Na* +

<sup>12</sup> Ceir ffactorau eraill e.e. ymchwil ar gyswllt iaith (language contact) gweler ymchwil gan Silva-Corvalán (1994) am drafodaeth pellach)

Berf yn ymdebygu i'r sgorau is a geir ar yr eitemau cadarnhaol oherwydd y nifer fwy o opsiynau ar gyfer yr ymatebion negyddol pan ddefnyddir y ffurfiau cyflawn o *Na* + berf (yr opsiwn afloyw) o'i gymharu â *Na* yn unig (yr opsiwn tryloyw) wrth ymateb.

Fodd bynnag, wrth edrych ar y prawf barnu ar lafar roedd tuedd i'r plant berfformio'n well ar yr eitemau cadarnhaol o gymharu ag eitemau negyddol ar gyfartaledd (gweler pennod 7). Mae hyn yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd yn y profion cynhyrchu lle y gwelwyd sgorau llawer uwch ar yr eitemau negyddol o'i cymharu â'r eitemau cadarnhaol. Mae'n debyg fod y gwahaniaeth hwn yn gysylltiedig â natur y prawf dan sylw gan mae ffurfiau adleisiol negyddol cyflawn a ddefnyddiwyd fel ymatebion safonol bob tro ar gyfer y prawf barnu lle cafwyd *NA* + Berf e.e.

H. Cwestiwn: ***Wyt ti'n hoffi ffrwythau?***  
Bod.2U.Pres

Ymateb: ***Nac Ydw***  
NEG Bod.2U.Pres

Ni ddefnyddiwyd *Na* yn unig fel ymateb i unrhyw un o'r eitemau (er y parhawyd i ddefnyddio y ffurfiau di-adlais *Nage* a *Naddo*).

Ar y prawf cynhyrchu, ar y llaw arall, roedd y plant yn rhydd i ymateb fel y mynnent gyda *Na* neu *Na* + Berf. Ond, oherwydd bod tuedd i ddefnyddio *Na* yn unig wrth ymateb yn negyddol i lawer o'r ffurfiau adleisiol (yn enwedig ar lafar) mae'r ffurfiau adleisiol negyddol o *Na* + Berf yn debygol o fod yn llawer llai cyffredin yn y mewnbwn na'r ymatebion cadarnhaol (lle mae rhaid ymateb gyda'r ffurf adleisiol safonol bob tro). O ganlyniad, mae'n bosib iawn bod y sgorau is ar yr eitemau negyddol ar y prawf barnu yn gysylltiedig unwaith eto gyda'r lefel o amlygiad ieithyddol (neu diffyg amlygiad digonol yn yr achos hwn) i'r strwythur *Na* + Berf. Pwysleisia hyn unwaith eto yr angen i hyrwyddo'r defnydd o'r

strwythur hwn yn fwy cyson yn yr ystafell ddosbarth ac fe drafodir hyn ymhellach yn y rhannau dilynol.

Roedd y plant yn sgorio'n uwch ar yr eitemau negyddol na'r eitemau cadarnhaol ar y profion cynhyrchu ar lafar ac ysgrifenedig. Roedd y gwahaniaeth rhwng sgorau negyddol a chadarnhaol yn fwy amlwg yn y sgorau a gafwyd ar gyfer y prawf cynhyrchu ar lafar, yn enwedig ar gyfer plant o gartrefi Saesneg a chartrefi Cymysg. Cafwyd sgorau is neu ddim llawer gwell na siawns ar yr eitemau cadarnhaol ar y prawf cynhyrchu ar lafar (Cymraeg = 75%, Saesneg= 48%, Cymysg 55%) gyda sgorau ychydig yn uwch ar y prawf cynhyrchu ysgrifenedig (Eitemau Cadarnhaol: Cymraeg = 78%, Saesneg= 59%, Cymysg 65%) a'r sgorau gorau oll ar y prawf barnu (Cymraeg = 80%, Saesneg = 68%, Cymysg = 70%). Mae nifer o resymau pam y gall hyn fod:

- i. Nid oedd angen dewis ymateb (o'r holl ymatebion cadarnhaol posib) ar gyfer y prawf barnu. Yn hytrach, rhaid oedd nodi os oedd yr ymateb unigol a gynhigiwyd yn gywir neu'n anghywir – h.y. oedd yr ymateb yn swnio'n gywir yn y cyd-destun a osodwyd.
- ii. Efallai bod y plant yn well ar y prawf ysgrifenedig gan fod posib gweld ac felly ailddarllen y cwestiwn yn fwy gofalus. Roedd yr elfen weladwy yn sbarduno gwybodaeth am strwythurau ac yn eu galluogi i adnabod ciwiau penodol o fewn y cwestiwn (yn enwedig gyda ymatebion cyfatebol). Ni chafwyd yr un cyfle i wneud hyn gydag ymatebion ar lafar.

Yn gryno felly mae ffurfiau negyddol > cadarnhaol yn gyffredinol, ond oherwydd fod  $Na > Na + Berf$ , mae'r canlyniadau lle mae negyddol > cadarnhaol yn gamarweiniol. O edrych yn fanylach, mae  $Na + Berf$  yn ymddangos fel pe bai yn achosi yr un math o

broblemau i blant â'r ffurfiau berfol cadarnhaol, felly mae elfennau o ffurfiau cadarnhaol a negyddol yn peri problemau i'r plant.

### **10.3.1.1.2 Eitemau Cyfatebol > Eitemau Anghyfatebol**

Awgryma'r canlyniadau fod unigolion (ar draws grwpiau iaith ac oed) yn cynhyrchu ymatebion cyfatebol yn fwy cyson a chywir i'w cymharu ag ymatebion anghyfatebol ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod eitemau cyfatebol (fel mae'r term yn awgrymu) yn cynnwys eitemau lle mae angen adleisio'r union ffurf a ddefnyddiwyd yn y cwestiwn – e.e. yn aml ffurfiau 3ydd person:

I. Cwestiwn **Ydy** *lestyn yn dod i'r ddarlith heddiw?*  
Bod.3U.Pres

Ymateb **Ydy / Nac Ydy**  
Bod.3U.Pres / NEG Bod.3U.Pres

O ganlyniad, mae posib ystyried eitemau cyfatebol yn rhai mwy tryloyw nag eitemau anghyfatebol lle na ddefnyddir yr union un ffurf wrth ymateb – e.e. ffurfiau ail berson a ffurfiau person cyntaf:

J. Cwestiwn **Wyt** *ti'n mynd i'r llyfrgell?*  
Bod.2U.Pres

Ymateb **Ydw / Nac Ydw**  
Bod.1U.Pres / NEG Bod.1U.Pres

Mae'n bosib y gall hyn esbonio'r cynnydd uwch a welwyd ym mherfformiad y plant (ar draws cefndiroedd iaith) ar yr eitemau cyfatebol erbyn blwyddyn 5 a 6 – h.y. maent wedi adnabod y patrwm lle mae angen adleisio'r ferf. Fodd bynnag NID ydynt yn hollol glir eto pryd mae angen newid ffurf y ferf, ac felly maent yn gwneud defnydd o ymatebion fwy rheolaidd sy'n esbonio'r sgorau ychydig yn is a gafwyd ar yr eitemau anghyfatebol erbyn blwyddyn 5 a 6, “;cf...the more exposure a learner has to irregular forms, the greater the

chance that he/she will produce them correctly. Less frequent irregular forms are more likely to be treated as regular” (Bybee, 2009: 219). Mae'r gwahaniaeth yma yn fwy amlwg ymysg y plant o gartrefi Cymysg a chartrefi Saesneg yn enwedig gan fod y grŵp Cymraeg yn sgorio dros 80% ar eitemau cyfatebol ac anghyfatebol erbyn blwyddyn 5 a 6. Pwysleisia hyn unwaith eto bwysigrwydd yr amlygiad ieithyddol a dderbyniwyd yng nghyd-destun strwythurau tryloyw ac afloyw, a'r angen ar gyfer más critigol mwy ar gyfer caffaeliad llawn o strwythurau afloyw.

Er fod plant hefyd yn sgorio'n uwch ar yr holl brofion unigol pan gafwyd eitem cyfatebol o'i gymharu ag eitem anghyfatebol mae'r gwahaniaeth yn y sgorau rhwng eitemau cyfatebol neu anghyfatebol yn llawer mwy yn y prawf cynhyrchu ysgrifenedig (Gwahaniaeth = 13.13%) o'i gymharu â'r sgôr cyfunol a gafwyd ar yr holl brofion (Gwahaniaeth = 4.96%). Mae'n bosib y gall hyn fod yn gysylltiedig gydag absenoldeb yr union ffurf ymatebol oedd ei angen yn y cwestiwn h.y. fe all eitem cyfatebol gynnwys y ffurf *Ydy* yn y cwestiwn a'r ateb tra ceir dau ffurf wahanol mewn eitem anghyfatebol e.e. *Wyt* yn y cwestiwn ac *Ydw* fel ateb. Ar un llaw, mewn ffurfiau cyfatebol (wedi adnabod y patrwm o ymatebion adleisiol) mater o gopïo'r union un ffurf a gafwyd yn ysgrifenedig sydd angen er mwyn ymateb yn gywir. Ar y llaw arall, mae angen bod â gwybodaeth parod am y ffurf ymatebol gwahanol sydd ei angen wrth ymateb i eitemau anghyfatebol. Mae hyn yn broses llawer mwy llafurus os nad yw'r ymateb yn dod i law yn syth yn enwedig o ystyried yr angen i ddiystyru'r holl ffurfiau ymatebol eraill posib yn eu tro. Awgryma'r arsylwad hyn fod angen mewnbwn ieithyddol cyson yn ysgrifenedig yn ogystal ac ar lafar er mwyn hyrwyddo defnydd effeithlon o elfennau llai tryloyw y system hon. Unwaith eto mae i hyn oblygiadau pellach ar gyfer strategaethau dysgu penodol ac fe drafodir hyn ymhellach ar ddiwedd y bennod hon.

Arsylwad diddorol arall yw'r hyn a gafwyd wrth edrych ar ffurfiau gwahanol y ferf. Y grŵp Cymraeg oedd yn perfformio orau ar ffurfiau amhendant (sgôr o tua 2% yn fwy) a llawer uwch ar y ffurfiau di-adlais (tua 10% yn well) pan yn cynhyrchu neu'n barnu ffurf anghyfatebol o'i gymharu â'r ffurf gyfatebol. Mae hwn yn batrwm gwahanol i'r hyn a welwyd ar y ffurfiau berfol gan y grwpiau iaith eraill (lle roedd y sgorau yn uwch ar yr eitemau cyfatebol). Nid yw'n glir pam bod y patrwm hwn yn bodoli ond mae'n bosib bod y grŵp Cymraeg yn ceisio defnyddio'r patrwm adleisiol gyda'r eitemau cyfatebol lle nad yw hyn yn berthnasol i'r ffurfiau di-adlais. Ar y llaw arall, oherwydd mai gwahaniaeth bychan iawn a gafwyd ar y ffurfiau amhendant ac oherwydd bod y sgôr yn agosáu at 90% beth bynnag gellid nodi fod y gwahaniaeth hwn yn ymwneud â chamgymeriadau perfformio gan y grŵp Cymraeg.

Yn gryno felly, mae plant yn sgorio'n uwch ar eitemau lle cafwyd ciwiau cyfatebol o'i gymharu ag eitemau lle ceir ciw anghyfatebol. Yng nghyd-destun ymchwil blaenorol gellid cymharu hyn i ymchwil ar genedl enwau yn Gymraeg (Thomas, 2001; Gathercole, Thomas a Laporte, 2001) lle mae plant i'w gweld yn ymateb yn well i giwiau amlwg (overt) yn hytrach na ciwiau cudd (covert). Fodd bynnag, mae'r ciwiau cyfatebol a geir yn y system ateb yn y Gymraeg yn llawer mwy tryloyw na'r syniad o giwiau amlwg yn yr ymchwil blaenorol ar genedl enwi (Thomas, 2001; Gathercole, Thomas a Laporte, 2001) neu systemau cymhleth eraill, nid yn unig yn y Gymraeg (e.e. treigladau, Thomas a Gathercole, 2007) ond ieithoedd eraill yn ogystal (e.e. ffurfiau morffolegol yn Sbaeneg, Gathercole 2002a/2002b a berfau yn Ffrangeg, Paradis, Nicoladis a Crago, 2007). Deillia hyn o'r defnydd cyson o'r ciw yn y system ateb yn y Gymraeg nid yn unig fel ciw ond fel yr union ffurf ymatebol sydd ei angen.

Yn dilyn yr arsylwadau hyn mae'r ymchwil presennol â'r gallu i ehangu ar ddarganfyddiadau ymchwil blaenorol drwy:

- i. ymestyn ein dealltwriaeth o sut mae plant yn gwneud defnydd o giwiau gramadegol, a
- ii. pwysleisio pwysigrwydd tryloywder y ciwiau a gafwyd yn y mewnbwn.

Yn ogystal mae'r ymchwil bresennol yn manylu ar system na ymchwiliwyd mewn manylder o'r blaen (o bersbectif seico-ieithyddol yn enwedig). O ganlyniad, cynigwyd cyflwyniad yma i faes cyffroes sy'n codi cwestiynau newydd am yr hyn gall ymchwil ar y system hon (mewn ieithoedd eraill yn ogystal) ychwanegu at ein dealltwriaeth o gaffaeliad strwythurau cymhleth. Yn dilyn hyn, mae unrhyw wybodaeth newydd gyda'r posibilrwydd o gael goblygiadau diddorol a chyfredol ar gyfer hysbysu addysgwyr o'r strategaethau gorau i'w defnyddio wrth hyrwyddo caffaeliad o strwythurau cymhleth. Fodd bynnag cyn mynd ati i drafod y goblygiadau addysgol ar ddiwedd yr adran hon trafodir pwysigrwydd amllder ffurfiau cyffredin ac effaith ciwiau niferus isod.

### **10.3.1.2 Ffurf y Ferf**

Yma ystyriwyd y patrwm o sgorau a gafwyd yn ôl ffurf y ferf a brofwyd. Ystyriwyd hyn yng nghyd-destun amllder y ffurfiau gwahanol yn y mewnbwn fel a gyfrifwyd gan y Corpws Siarad (CS) a'r Corpws CEG (CC) ym mhennod 2 (tablau 25, 26, 27 a 28). Yn gyffredinol roedd plant i'w gweld yn dilyn y drefn dilynol:

Ffurf Amhendant<sup>13</sup> > Ffurf Di-adlais > Ffurf Presennol > Ffurf Dyfodol & Ffurf Amherffaith

Felly roedd pob un o'r plant (ar draws grwpiau iaith ac oed) yn cynhyrchu a barnu llai o ffurfiau safonol Dyfodol ac Amherffaith a mwy ar y ffurf Amhendant. Mae nifer o resymau pam y gall hyn fod:

---

<sup>13</sup> Fel a nodwyd ym mhennod 2 a 4 ffurf amhendant presennol a gyfeirir ato yma.



- i. Er nad yw'r Amhendant yn un o'r ffurfiau mwyaf cyffredin yn y mewnbwn (Niferoedd: CS = 1789 a CC = 1333), roedd angen ateb yn gadarnhaol gyda *Oes* neu yn negyddol gyda *Nac Oes* bob tro (roedd ymateb yn Negyddol gyda *Na* hefyd yn dderbyniol ar y profion cynhyrchu). Awgrymwyd bod hyn yn ei wneud yn opsiwn dryloyw sy'n ymofyn llai o bwysau gwybyddol.
- ii. Ar y llaw arall, er y patrwm a amlygwyd gan y canlyniadau presennol, awgryma'r niferoedd yn y ddau gorpws fod y ffurf dyfodol yn cael ei ddefnyddio yn eithaf aml yn y mewnbwn (Niferoedd: CS = 1259 a CC = 2626) gyda'r ffurf amherffaith yr un mwyaf cyson yn y mewnbwn (Niferoedd: CS = 8627 a CC = 11,542). Fel all hyn gwestiynu arsylwadau ymchwil blaenorol fod eitemau cyffredin yn y mewnbwn yn dueddol o gael eu caffael ynghynt (e.e. Schwartz, Kozminsky a Leikin, 2009). Fodd bynnag, mae canran uchel iawn o'r ffurfiau hyn yn cynnwys ffurfiau 3ydd person unigol yn unig (Niferoedd Dyfodol: CS = 825 a CC = 1881; Niferoedd Amherffaith: CS = 6833 a CC = 10,759) ac yn amlygu nifer llawer llai o ffurfiau ail berson lluosog (Niferoedd Dyfodol : CS = 24 a CC = 172; Niferoedd Amherffaith: CS = 98 a CC = 28) ac ail berson unigol yn enwedig (Niferoedd Dyfodol : CS = 28 a CC = 63; Niferoedd Amherffaith: CS = 47 a CC = 11). Felly, oherwydd nad oedd llawer o eitemau oedd yn cynnwys ffurfiau trydydd person unigol yn unig (yn enwedig pan gafwyd eitemau anghyfatebol) mae'n debyg fod y plant yn cael anawsterau wrth ddefnyddio'r ffurfiau hyn oherwydd nad yw'r eitemau a gafwyd ar y profion yn adlewyrchu'r hyn a geir yn y mewnbwn.
- iii. Ychwanegwyd ôl-ddodiaid i wreiddiau'r ffurfiau amherffaith a dyfodol wrth ymateb er mwyn dynodi person a nifer fel yr oedd angen. Fodd bynnag nid yw'r ôl-ddodiaid hyn o reidrwydd yr un fath ac felly mae'n rhaid i'r unigolion fod yn ymwybodol o ba ôl-ddodiad sy'n gymwys i'w ddefnyddio gyda ffurf benodol. Ond oherwydd nad yw'r

ffurfiau amrywiol o ôl-ddodiaid yn gyffredin yn y mewnbwn, mae'n debyg fod angen mwy o amser ar y plant i gaffael y más critigol o amrywiadau posib fydd yn eu galluogi i gynhyrchu'r ymateb safonol (Gathercole a Hoff, 2007).

Yn ogystal, roedd y grwpiau Saesneg a Chymysg hefyd i'w gweld yn wannach ar y ffurfiau presennol a di-adlais. Mae'r sgorau gwanaf ar y ffurfiau presennol yn ddisgwyliedig oherwydd bod yr ymatebion hyn yn ymdebygu i'r rhai amherffaith a dyfodol, nid o ran y patrwm o ymatebion ond oherwydd y nifer fwy o ffurfiau ad-leisiol posib sydd ar gael. Ar y llaw arall, mae'n bosib i'r sgorau uwch ar y ffurf presennol gael ei esbonio gan y nifer fwy o ffurfiau ail berson presennol a ddefnyddiwyd yn y mewnbwn (Niferoedd Unigol = 557 a 370; Niferoedd Lluosog = 123 a 251).

I grynhoi, mae dadansoddiadau ar ffurfiau'r ferf yn awgrymu fod eitemau penodol sy'n fwy cyffredin yn y mewnbwn yn cael eu caffael ynghynt nag eitemau eraill. Yn yr adran nesaf ymhelaethir ar y darganfyddiadau hyn gan ofyn a yw 2 giw yn fwy buddiol na 1 ciw.

### ***10.3.1.3 Cwestiwn 1b: A yw plant dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn gwneud defnydd o giwiau wrth gaffael y system ateb yn Gymraeg? (e.e. y defnydd o dagiau neu'r gallu i adnabod patrymau berfol yn yr ymatebion<sup>14</sup>)***

#### ***10.3.1.3.1 Eitemau gyda 2 giw > Eitemau gyda 1 ciw***

Ar yr olwg gyntaf, mae'r holl ddadansoddiadau a wnaethpwyd yn awgrymu bod plant yn gwneud defnydd o'r ciwiau sydd ar gael wrth ddewis ymateb o'r holl amrywiadau posib. Mae hyn, yn benodol, oherwydd y duedd i sgorio'n uwch pan gafwyd 2 giw o'i gymharu ag 1

---

<sup>14</sup> Ni wahaniaethir rhwng y math o giw dderbyniwyd yn yr ymchwil hwn h.y. tag fel ciw neu patrwm fel ciw oherwydd bod yr ymchwil hwn yn rheoli'r nifer o newidynnau ddefnyddiwyd ar gyfer pwrpas dadansoddi. Mi fysai ychwanegu newidyn ychwanegol wedi dwblu'r nifer o eitemau oedd eu hangen gan wneud y profion yn rhy hir. Fodd bynnag, mae hyn yn ystyriaeth posib ar gyfer ymchwil dilynol.

ciw. Yn ogystal mae'r darganfyddiad fod perfformiad gwell ar ffurfiau adleisiol (lle mae'r ffurfiau berfol yr un peth) i'w cymharu â sgorau adleisiol (sydd yn cynnwys ffurfiau berfol gwahanol) hefyd yn dangos bod nhw yn talu sylw i batrymau berfol (sydd fel ciw). Amlygwyd hyn gan sgorau plant o gartrefi Cymraeg oedd yn sgorio'n is pan geir 2 giw pan fo'r ciw hwnnw'n anghyfatebol - h.y. yn wahanol i'r ymateb sydd ei angen. Felly nid yw presenoldeb 2 giw o reidrwydd yn gwneud yr eitem yn haws nag eitemau lle cafwyd 1 ciw yn unig. Felly er fod y defnydd o giwiau niferus â'r gallu i fod yn fuddiol pan mae'r ciwiau yn guddiedig ("...aspects of linguistic structure that are not overtly marked in the input can be derived by efficiently combining multiple probabilistic cues", Christiansen, Allen, a Seidenberg, 1998:221), awgryma'r darganfyddiad hwn y gall 2 giw achosi dryswch ychwanegol. Mae'n bosib y deillia hyn o'r disgwyliad gan y grŵp o gartrefi Cymraeg (yng nghyd destun y system ateb yn benodol) y bydd y ciw yn un fwy tryloyw ac â chysylltiad uniongyrchol gyda'r union ffurf ymatebol sydd ei angen. Ar y llaw arall, fe all hyn hefyd fod yn arwydd o danberfformio gan y grŵp Cymraeg (fel a awgrymwyd eisoes) lle maent yn penderfynu peidio ag ymdrechu i ddewis y ffurf safonol oherwydd eu gwybodaeth parod o'r system beth bynnag. Mae hyn yn cyd-fynd gyda ymchwil gan Saffran a Thiessen (2007), sy'n awgrymu pan fo plant wedi gallu adnabod patrymau cyffredin (sy'n deillio o amlygiad digonol i'r iaith), maent yn fwy tebygol o ddisgwyl ymatebion penodol. Fodd bynnag, roedd y bwlch rhwng y grwpiau iaith yn lleihau pan gafwyd 2 giw sy'n awgrymu fod y ciw ychwanegol yn cynorthwyo plant o gartrefi Cymysg a Saesneg i ddewis yr ymateb safonol a chynorthwyo i leihau'r bwlch rhyngddyn nhw a'r grŵp Cymraeg.

Yn gyffredinol felly, awgryma'r darganfyddiadau hyn fod plant yn cymryd sylw o'r ciwiau gramadegol sydd wedi eu dosrannu yn y cwestiwn, ac, o ganlyniad i hyn, eu bod yn defnyddio'r ciwiau hyn fel sail ar gyfer dewis o blith yr holl ymatebion posib. Mae hyn yn

cyd-fynd gydag ymchwil Shady a Gerken (1999) a St Clair, Monaghan a Christiansen (2010) sy'n awgrymu fod ciwiau dosrannol yn awyrgylch ieithyddol y plentyn yn gallu eu cynorthwyo gyda chaffaeliad strwythurau gramadegol. Yn ogystal, cytuna hyn gydag ymchwil Mintz (2003) a'r syniad o fframiau cyson (frequent frames) sy'n galluogi i'r dysgwr iaith adnabod patrymau tebyg mewn brawddegau/cwestiynau er mwyn hyrwyddo'r broses o gaffael strwythurau penodol<sup>15</sup>.

Oherwydd bod yr ail giw bob amser i'w weld ar ffurf tag (ar ddiwedd y cwestiwn) mae hyn hefyd yn cyd-fynd gyda ymchwil sy'n dangos fod plant yn cymryd mwy o sylw o ffurfiau pan maent yn ymddangos yn y safle terfynol yn yr ynganiad (utterance final position) (e.e. Fernald a Mazzie, 1991; Slobin, 1973). Mae hyn yn ychwanegu at y duedd gan blant, o bob cefndir iaith a grŵp oed, i gynyddu eu sgorau pan gafwyd 2 giw. O ganlyniad i'r arsylwadau hyn, a'r hyn drafodwyd eisoes mewn ymateb i'r cwestiynau ymchwil blaenorol, mae posib nodi gyda pheth sicrwydd bod plant yn cymryd sylw o batrymau a chiwiau gramadegol o fewn y system ateb yn y Gymraeg (yn enwedig os yw'r ciwiau hynny yn giwiau cyfatebol). Unwaith eto, mae hyn yn cyd-fynd gyda darganfyddiadau ymchwil blaenorol ar ddefnyddioldeb ciwiau yn gyffredinol (e.e. Naigles a Hoff-Ginsberg, 1995; Saffran, Aslin a Newport, 1996; Saffran a Thiesen, 2007). Yn ogystal mae'r canlyniadau hyn yn fwy amlwg ac felly yn gryfach na'r hyn a arsylwyd gan ymchwil blaenorol ar gaffael strwythurau cymhleth (Thomas, 2001; Gathercole, Thomas a Laporte 2001; gweler hefyd drafodaeth o fodel cystadleuol MacWhinney a Bates, 1989 mewn ymateb i gwestiwn ymchwil 3 ar dudalen 277).

Yn dilyn y darganfyddiadau hyn, mae posib mynd gam ymhellach a nodi bod yr ymchwil hwn yn awgrymu bod plant yn defnyddio'r wybodaeth sydd ganddynt am

---

<sup>15</sup> Trafodir ciwiau dosrannol a fframiau cyson mewn mwy o fanylder ym mhennod 3.

batrymau'r ffurfiau hyn h.y. sut mae'r ciwiau hyn yn cael eu strwythuro a lle maent yn ymddangos yn y frawddeg/cwestiwn i'w cynorthwyo wrth ddewis ymateb addas. Mae'n bwysig nodi fod hyn hyd yn oed yn wir am y plant o gartrefi Saesneg, sy'n awgrymu fod tryloywder y system yn gallu cynnig mynediad rhwydd i batrymau'r system a'i gwneud yn agored i bawb.

Yn unol â'r darganfyddiadau hyn, aethpwyd ati i geisio darganfod tystiolaeth o gydnabod neu ddysgu rheol . Cymharwyd sgorau'r plant ar yr eitemau cychwynnol a'r eitemau olaf a gafwyd yn y profion (Pennod 5.5) er mwyn gweld a oedd y plant yn fwy tebygol o adnabod rhyw fath o batrwm yn yr ymatebion ac felly yn sgorio'n uwch ar yr eitemau olaf. Fodd bynnag er fod y grŵp Cymraeg i'w gweld yn sgorio'n uwch erbyn cyrraedd yr eitemau olaf (oedd, mae'n debyg yn deillio o'u gwybodaeth parod o'r system beth bynnag), nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y sgorau cychwynnol ac olaf ar gyfer plant grŵp Saesneg a Chymysg. Mae'n bosib iawn bod y diffyg cynnydd yn sgorau'r grwpiau Saesneg a Cymysg yn gysylltiedig â'r cymysgedd o ffurfiau berfol, patrymau brawddegol ac amryw newidynnau a ddefnyddiwyd o fewn y profion unigol – h.y. nid yw'r union math o eitemau yn cael eu hailadrodd drosodd a throsodd. O ganlyniad, er fod y plant i'w gweld yn cymryd sylw o rai patrymau penodol nid ydynt yn cael amlygiad digon cyson i'r un math o batrwm o fewn un prawf i gysoni'r rheol yn glir yn eu pennau ac i wella eu sgôr. Mae hyn yn cyd-fynd gyda darganfyddiadau Ambridge, Theakston, Lieven a Tomasello (2006) sy'n awgrymu fod amlygiad tymor byr 'on mass' yn llai effeithiol na amlygiad dros gyfnod o amser pan yn caffael strwythur gramadegol cymhleth. Yn ogystal, mae hyn â'r gallu i esbonio'r canlyniadau a gafwyd ar y prawf ymyrraeth, a'r angen ar gyfer amlygiad wedi ei dargedu ar strwythurau penodol yn hytrach na chwmpasu pob ffurf bosib. Mae i hyn oll ystyriaethau pellach ar gyfer addysg ac fe drafodir hyn ymhellach ar ddiwedd y bennod hon.

### **10.3.2 Cwestwin 2: Oes tystiolaeth i awgrymu fod elfennau o drosglwyddiad ieithyddol i'w gweld yn ymatebion y plant? H.y. Ydy siaradwyr ail iaith Saesneg yn dueddol o fapio'r wybodaeth sydd ganddynt o'r system ateb syml sy'n bodoli yn Saesneg ar y system llawer mwy cymhleth a geir yn y Gymraeg?**

Nid yw'r ymchwiliwr presennol wedi darganfod unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu fod yna elfen o drosglwyddiad ieithyddol yn bodoli yn ymatebion y plant. I ddangos trosglwyddiad ieithyddol, disgwyliwyd y byddai rhai plant (yn benodol y rhai hynny a ddysgodd Gymraeg ar ôl dysgu Saesneg) yn gwneud defnydd cyson o un ffurf ymatebol yn unig wrth ymateb er mwyn symleiddio'r system (Montrul a Bowles, 2009). Byddai hynny'n awgrymu fod diffyg mewnbwn digonol yn arwain at ymgais i symleiddio systemau ieithyddol pan fo mwy nag un opsiwn i'w gael, neu i ymdebygu i'r system unffurf *yes/no* yn Saesneg gan fod ymchwiliwr yn awgrymu fod unrhyw drosglwyddiad ieithyddol yn fwy tebygol o ddigwydd o'r iaith gryfa i'r iaith wanaf (Notley, Wan der Lin a Hulk, 2005; Poulin-Dubois a Goodz, 2001). Yr hyn a welwyd oedd bod plant ar draws cefndiroedd iaith ac oed, er y gwahaniaeth a gafwyd rhwng grwpiau, yn sgorio'n dda ar y system hon ar gyfartaledd ac felly yn ymgeisio i ddefnyddio'r ffurf ymatebol addas (o'i gymharu â sgorau gwael plant ar brofion cenedl enwi yn Gymraeg gweler ymchwiliwr Gathercole a Thomas, (2005)). Ar y llaw arall, mae sgorau is y plant o gartrefi Saesneg a Chymysg o bosib yn awgrymu eu bod yn gwneud llai o ddefnydd o ffurfiau ymatebol, ond nid yw hyn o reidrwydd yn arwydd o drosglwyddiad iaith. Yn hytrach, mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd yr angen i gaffael yr ymatebion amrywiol yn eu tro, dros gyfnod o amser.

### 10.3.3 Cwestiwn 3: I ba raddau mae'r modelau a'r damcaniaethau caffael iaith drafodwyd (Pennod 3) gyda'r gallu i esbonio darganfyddiadau'r ymchwil presennol?

#### 10.3.3.1 Modelau Caffael iaith

Mae'r model cystadlu (Bates a MacWhinney, 1989) neu'r model cystadlu unedig (MacWhinney, 2009) yn canolbwyntio ar argaeledd (presenoldeb) a dibynadwyedd y ciwiau a geir oddi mewn i ffurfiau ieithyddol a'u defnyddioldeb ar gyfer y broses o gaffael iaith. Cyfeiria argaeledd ciw at y nifer o weithiau y defnyddir ciw penodol. Yng nghyd-destun y system ateb yn y Gymraeg fe all argaeledd ciw gyfeirio at y math o giw sydd ar gael – e.e.

- Tag *'s gen ti waith cartref heno, oes?*

*Wyt ti am fynd allan heno, wyt?*

*Ath Iwan i siopa, do?*

- Ffurf y ferf *Fyddi di'n mynd i'r briodas?*

*Oeddet ti'n hoffi sgïo?*

*Ydy Rhys yn mynd i'r capel?*

neu hyd yn oed

- Gystrawen y cwestiwn Dim y chdi sydd pia hwnne?

(Ai) Megan sydd wedi torri'r gwydr yma?

ayyb.

Ar y llaw arall, cyfeiria dibynadwyedd ciw at y graddau mae bodolaeth ciw yn arwain at yr ymateb safonol – h.y., pa mor ddibynnol y gall unigolyn fod ar y ciw er mwyn llwyddo. Yn

gyffredinol, o ran y system ateb yn y Gymraeg, gellid tybio'r canlynol yn seiliedig ar yr ymchwil hwn:

- Mae ciw tryloyw ar ffurf tag neu ffurf y ferf yn arwain at gynnydd ym mherfformiad y plant.
- Mae ciw afloyw, un ai ar ffurf tag, ffurf y ferf neu gystrawen y cwestiwn yn gallu achosi cwmp ym mherfformiad y plant.

Wrth ystyried rhai o'r esiamplau uchod mae posib adnabod patrymau penodol yn yr ymatebion – e.e. y defnydd o dagiau fel ciwiau. Fodd bynnag, yr hyn sy'n achosi'r anhawster mwyaf yng nghyd-destun y system hon yw'r angen i ystyried pob ffurf yn unigol oherwydd yr holl amrywiadau posib a geir yn ôl amser, person a nifer. Golyga hyn fod angen amlygiad digonol i'r holl ffurfiau gwahanol ar wahân er mwyn cael cyfle i adnabod a chaffael y patrwm penodol sy'n perthyn i'r ffurf honno. Felly er fod cryfder y ciw cyffredinol yn eithaf uchel ac yn dilyn patrwm cyson, gwan iawn yw'r ciwiau a geir ar gyfer eitemau penodol sy'n hollol ddibynnol ar eu cysondeb yn y mewnbwn ieithyddol. O ganlyniad i hyn, fel a nodwyd ym Mhennod 3, mae'r model yma yn disgwyl bod eitemau fwy tryloyw yn cael eu caffael yn gynt oherwydd argaeledd a chysondeb y ciwiau. Yn unol â'r disgwyliadau hyn dangosa'r canlyniadau fod plant yn sgorio'n uwch ar ffurfiau Amhendant (sef y ffurf adleisiol mwyaf tryloyw) lle cafwyd ond 2 ymateb posib *Oes* neu *Nac Oes* ac felly mae'r model hwn yn cyd-fynd â darganfyddiadau'r ymchwil hwn.

Ystyriwyd hefyd y model llwybr unigol (Bybee, 1995; 2001) a'r model llwybr deuol (Pinker, 1991; Pinker ac Ullman, 2002). Mae'r model llwybr unigol yn pwysleisio pwysigrwydd amllder y mewnbwn lle mae eitemau cyffredin neu anghyffredin yn cael eu cadw gyda'i gilydd. Felly yn ôl y model hwn mae cryfder yr eitem yn ddibynnol ar amllder yr eitem yn y mewnbwn ieithyddol a geir, ac mae hyn i'w weld yn cyd-fynd gyda



darganfyddiadau'r ymchwil hwn wrth ystyried y niferoedd a gyfrifwyd gan gorpws CEG a'r corpws Siarad (gweler pennod 2 tablau 26 a 28). Ar y llaw arall mae'r model llwybr deuol, sydd eto yn pwysleisio pwysigrwydd amlder y mewnbwn, yn nodi fod ffurfiau cyffredin ac anghyffredin yn cael eu cadw ar wahân. Er fod y model hwn eto gyda'r gallu i esbonio rhai o'r canlyniadau presennol nid yw'n glir pam fod eitemau anghyffredin yn cael eu cadw ar wahân yn y model hwn gan y tybiwyd fod y broses o gael amlygiad digonol (neu o gasglu'r más critigol angenrheidiol) yr un peth ar gyfer eitemau cyffredin ac anghyffredin. O ganlyniad i hyn, ac oherwydd y diffyg pwyslais roir ar amlygiad mae darganfyddiadau'r ymchwil bresennol yn anghytuno gyda rhai o nodweddion elfennol y model cynhenid hyn.

### ***10.3.3.2 Damcaniaethau Caffael iaith***

Yn ogystal, ystyriwyd yn fras sut mae rhai o nodweddion pennaf y ddwy brif ddamcaniaeth caffael iaith yn cyd-fynd gyda rhai o brif ddarganfyddiadau'r ymchwil presennol, sy'n cynnwys:

1. bod mewnbwn yn bwysig,
2. bod tryloywder a chiwiau yn bwysig, a
3. hyd yn oed ar eitemau tryloyw, mae mewnbwn yn dylanwadu.

O ran y darganfyddiadau uchod, mae'r damcaniaethau gwybyddol yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd y mewnbwn yn hytrach na'r angen ar gyfer amlygiad digonol a chyson os am ddefnyddio strwythurau penodol yn effeithlon (gweler Ambridge a Lieven, 2011; Gathercole a Hoff, 2007; Thomas a Mayr, 2010 am drosolwg o'r maes). Ar y llaw arall, er fod y cynhenidwyr yn derbyn mai y mwyaf yw'r mewnbwn y gorau yw'r allbwn, nid yw hwn yn elfen sy'n arwain meddylfryd ymchwilwyr yn y maes. Yn hytrach rôl y mewnbwn yw gweithio fel sbardun cychwynnol er mwyn sbarduno'r system ramadegol fewnol sy'n

datblygu i fod yn sylfaen i iaith y plentyn waith (gweler waith Chomsky, 1981; 1986; 1991;1995 a Guasti, 2004 am drosolwg neu Pennod 3 am fanylion pellach).

Yn ogystal mae'r cynhenidwyr a'r damcaniaethwyr gwybyddol yn cytuno fod plant yn debygol o gaffael eitemau tryloyw ( y rhai lle mae yna reol pendant) cyn rhai afloyw. Ond yn ychwanegol i hyn, mi fydda'r cynhenidwyr hefyd yn disgwyl i bawb ddysgu'r eitemau tryloyw ar yr un pryd (a'r un cyflymder) ond nid yw'r ymchwil presennol i'w weld yn cefnogi'r safbwynt hon (gweler Thomas, Williams, Jones, Davies a Binks ,2013 am drafodaeth pellach). Yn hytrach mae'r canlyniadau yn cefnogi'r pwyslais ar amlygiad digonol i strwythurau penodol os yn dryloyw neu'n afloyw, a geir yn y ddamcaniaeth gwybyddol (e.e. Gathercole 2002a/2002b; Paradis, Nicoladis a Crago, 2007). Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r syniad o fâs critigol a'r amser ychwanegol sydd ei angen wrth gaffael eitemau anghyffredin er mwyn casglu'r mäs critigol o fewnbwn ieithyddol angenrheidiol er mwyn defnyddio strwythurau penodol yn effeithlon (Oller a Eilers, 2002; Lanza, 1997; Paradis, 2010).Ni chymharwyd y ddwy ddamcaniaeth mewn unrhyw ddyfnder yma ond mae'r ddamcaniaeth gwybyddol i'w gweld yn fwy perthnasol wrth geisio esbonio rhai o ganlyniadau cyffredinol yr ymchwil hwn.

### **10.3.4 I Gloi – Cwestiynau ymchwil**

Yn unol â'r ymchwil blaenorol yn y maes, mae amlygiad yn ffactor elfennol bwysig yng nghaffaeliad plant ifanc o'r system ateb yn y Gymraeg : System gymhleth ar yr un llaw ond system sydd ag iddi nifer o batrymau ieithyddol ar y llaw arall – patrymau mae posib i blant eu defnyddio i'w cynorthwyo i ddewis ymateb addas o'r holl ymatebion posib a geir ar yr olwg gyntaf. Awgryma'r ddadansoddiadau fod plant yn gwneud defnydd o giwiau amrywiol ac yn cynhyrchu'r ymateb disgwylidig pan yn cynhyrchu neu farnu eitemau mwy

tryloyw, eitemau negyddol cyfatebol, ac eitemau lle cafwyd 2 giw . Mae'r patrwm yma'n cyd-fynd gyda'r ymchwil blaenorol sy'n nodi fod eitemau tryloyw yn cael eu caffael ynghynt ac yn cyflawni'r más critigol angenrheidiol yn gyflymach nag eitemau afloyw lle gall eu caffaeliad fod yn broses hir (yn enwedig os yw'r eitemau yn rhai llai cyffredin yn y mewnbwn). O ganlyniad, mae'r darganfyddiadau'n awgrymu fod plant dwyieithog (o bob cefndir iaith ond y plant o gartrefi Saesneg a Chymysg yn enwedig) angen mwy o amlygiad a chyfleoedd i ddefnyddio'r strwythurau mwy afloyw hynny i'w galluogi i'w defnyddio'n effeithiol. Mae i hyn oblygiadau addysgol pellach lle mae posib edrych ar addasu strategaethau dysgu er mwyn cynnig cyfleoedd digonol i blant ddefnyddio'r strwythurau hyn yn yr ystafell ddosbarth ac fe drafodir hyn mewn mwy o fanylder yn yr adran nesaf.

## 10.4 Goblygiadau Addysgol

Mae canlyniadau'r ymchwil presennol yn nodi nifer o oblygiadau penodol ar gyfer strategaethau dysgu, yng nghyd-destun caffaeliad strwythurau cymhleth yn enwedig. Yn yr adran hon ystyrir rhai o'r goblygiadau hynny mewn mwy o fanylder. Yn ogystal, trafodir rhai o'r canlyniadau yng nghyd-destun strategaethau dysgu ail iaith a sut gall rhai o'r strategaethau hyn daflu goleuni ar dechnegau y byddai modd eu defnyddio gyda phlant sy'n caffael y system ateb yn y Gymraeg.

Rhaid cofia fodd bynnag, mae sail ieithyddol a chymdeithasol sydd i'r ymchwil yma ac er fod yr argymhellion dilynol yn tynnu sylw i faterion allweddol nid yw'n ceisio rhoi rhaglen ddysgu na chynnig atebion penodol (yn wir mi fysai angen ystyried yn ofalus sut mae rhai o'r argymhellion hyn yn cyfuno neu yn bwydo i mewn i'r cwricwlwm addysg fel ag y mae ar hyn o bryd). O ganlyniad i'r ystyriaethau hyn, mae'r ymchwil hyn yn codi'r arwyddocâd ar gyfer ymchwil addysgiadol pellach yn y dyfodol. Yn ogystal, gobeithir y bydd

y trafodaeth dilynol yn pwysleisio'r angen i gefnogi gwaith cyrff ac asiantaethau amrywiol wrth hyrwyddo'r Gymraeg nid yn unig fel iaith yr addysgu ond fel iaith gyfartal yn y gymuned yn ehangach. Fe drafodir hyn ymhellach yn y man ond yn y cyfamser mae'r canlyniadau'r ymchwil presennol yn amlygu:

1. Yr angen ar gyfer amlygiad digonol a chyson i strwythur benodol os am ddefnyddio'r strwythur hwnnw'n effeithiol, sy'n berthnasol o fewn ac y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth).
2. Yr angen i ganolbwyntio ar strwythurau afloyw a chymhleth sy'n achosi mwy o anawsterau i blant na strwythurau tryloyw/syml.
3. Yr angen i blant ddefnyddio Cymraeg gyda'u ffrindiau ac felly yr angen i hyrwyddo (ac o bosib rheoli'r) defnydd o Gymraeg a ddefnyddir yn y dosbarth ac ar iard yr ysgol.
4. Yn dilyn hyn yr angen i ehangu'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol, nid yn unig mewn clybiau ar ôl ysgol ond yn y gymdeithas, drwy gyfrwng chwaraeon a chwarae.
5. Yr angen i athrawon fod yn ymwybodol o'r strwythurau hynny all achosi anawsterau a chynorthwyo a chywiro'r plant (drwy ddulliau sensitif) yn gyson.
6. Gwneud defnydd o ymarferion sgysiol ar lafar ac yn ysgrifenedig i hyrwyddo dealltwriaeth y plant.
7. Yr angen i dynnu sylw athrawon a phlant at y ciwiau parod sydd ar gael iddynt yn y mewnbwn wrth ddewis a dethol ymateb.

Y ffactor cyffredin a welwir yn y canlyniadau yw pwysigrwydd amlygiad a'r angen ar gyfer amlygiad cyson ar gyfer casglu'r más critigol angenrheidiol o fewnbwn strwythurol. Mae hyn yn awgrymu yr angen ar gyfer strategaeth dysgu a all gynnwys:

- Cyfnod penodol yn yr ystafell ddosbarth sy'n targedu ac yn hyrwyddo defnydd y plant o strwythurau penodol, nid yn unig yn y system ateb yn y Gymraeg ond mewn strwythurau eraill yn ogystal e.e. treigladau, cenedl enwi. Fe all y cyfnodau hyn wneud defnydd o ymarferion penodol dyddiol neu wythnosol wedi ei ffocysu sy'n targedu'r strwythurau mwy cymhleth. Er fod yr ymyrraeth gyffredinol ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hwn ddim wedi cael effaith arwyddocaol mae'n debyg y buasai ymarferion penodol a selog yn fwy tebygol o helpu nac ambell i ymarfer cyffredinol. Yn ogystal, mae'n debyg y buasai'r strategaeth yma yn cyd-fynd gyda strategaethau penodol ddefnyddir mewn rhai canolfannau iaith<sup>16</sup> wrth addysgu hwyrddyfodiaid i'r system addysg cyfrwng Cymraeg (fe drafodir yr angen i ystyried strategaethau canolfannau iaith wrth gynnal ymchwil pellach ar ddiwedd y bennod hon).
- Strategaeth sy'n cwmpasu'r holl gwricwlwm lle mae athrawon yn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd cyson ac yn cynnig esiamplau o ffurfiau strwythurol amrywiol ym mhob pwnc a maes addysgu. Nid yw hyn o reidrwydd yn dod o enau'r athrawon yn unig (o bosib un o brif gyfranwyr i'r mewnbwn ieithyddol) ond drwy ddefnyddio gwaith ymarferol neu brofion lle mae angen i'r plant drafod, ysgrifennu, ayyb. Mae'r awgrym hwn yn cyd-fynd gyda'r

---

<sup>16</sup> "Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol." (Cyngor Gwynedd 2014, tud 10-11).

blaenoriaeth bresennol mae llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynyddu llythrennedd ar draws y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2013).

Yn ychwanegol i hyn mae posib gwneud defnydd o strategaethau dysgu ail iaith eraill fydd yn galluogi'r addysgwyr i dargedu rhai o'r strwythurau penodol hynny sydd â'r gallu i achosi anhawster. Noda Schwartz, Kozminsky a Leikin (2009) ei fod yn bwysig ystyried awyrgylch dwyieithog ynghyd â chefnidir addysgol yr unigolyn dwyieithog gan fod hyn â'r gallu i effeithio ar y datblygiad gramadegol, yn enwedig os yw'r iaith honno yn ail iaith. Ychwanega Bybee (2009) fod angen rhoi ystyriaeth i ba raddau mae amlygiad ail iaith yn y dosbarth yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd naturiol neu gyffredin. Yn dilyn hyn awgryma Bybee (2009) fod angen digon o gyfleoedd i blant wneud defnydd naturiol o iaith yn y dosbarth drwy sgwrsio, a.y.b., er mwyn eu galluogi i angori strwythurau morffolegol cyffredin ("In order for the L2 learner to acquire native like patterns of productivity, regular patterns must be taught by methods that mirror to some extent natural exposure to the L2 patterns", tud. 225). Er fod gan rai plant ac oedolion y gallu i adnabod ffurf newydd ar ôl tri munud o hyfforddiant (gweler Goldberg a Casenhiser, 2009 am drafodaeth pellach) arddangosa ymchwil fod angen amlygiad cyson dros gyfnod o amser i alluogi plant i ddefnyddio'r strwythur hwnnw'n effeithlon (Ambridge, Theakston, Lieven a Tomasello, 2006). Atgyfnerthir hyn gan yr arsylwad fod y broses o ailadrodd yn cryfhau'r cof ar gyfer ffurfiau ieithyddol a'i gwneud yn haws i'w cyrchu (Bybee, 2009).

Arweinia hyn at yr angen (yn achos ail iaith yn benodol) i'r mewnbwn gael ei deilwra i anghenion y dysgwr iaith, a'r mantais o gyflwyno mewnbwn wedi ei dargedu sy'n cynnwys nifer o enghreifftiau cyffredin (Goldberg a Casenheiser, 2009). Cynigai (Bybee, 2009) y dylai caffaeliad morffoleg ddilyn y patrwm canlynol:

1. Ffocws ar un ynganiad geiriol sy'n enghraifft o'r patrwm cynrychioladol

Yna, wedi dod yn gyfarwydd ar cam cyntaf e.e.

Cwestiwn                      Wyt ti'n hoffi mynd i'r ysgol?

Ymateb                         Ydw/Nac Ydw

2. Ehangu'r patrwm gan ei ddefnyddio gyda ffurfiau geiriol eraill e.e.

Cwestiwn                      Fyddi di'n mynd i'r sinema heno?

Ymateb                         Bydda/Na fydda

Yn ogystal, rhaid ystyried y lefel o amlygiad a geir o safbwynt iaith leiafrifol (Cymraeg) yn erbyn effaith cyson yr iaith fwyafrifol (Saesneg yn yr achos hwn) ar lefel yr amlygiad hwnnw. Noda Montrul (2010) ei fod yn hollbwysig i siaradwyr ieithoedd treftadol (heritage) dderbyn mewnbwn digonol yn ystod y cyfnod critigol os ydynt am gyrraedd lefelau siaradwyr naturiol, iaith gyntaf. Atgyfnerthir hyn gan de Houwer (2007) a nododd fod caffael iaith fwyafrifol, fel arfer, yn hawdd, ond mewn sefyllfa lle ceir iaith leiafrifol, ei fod yn hollbwysig i'r plentyn dderbyn mewnbwn ieithyddol yn yr iaith leiafrifol gan y ddau riant os yn bosib. Cysyllta hyn gyda gwaith Thomas a Gathercole (2005) a Gathercole a Thomas (2009) lle darganfuwyd fod iaith y gymuned yn hollbwysig (h.y. faint o Gymraeg/Saesneg a ddefnyddir yn y gymuned) wrth gaffael strwythurau cymhleth yn yr iaith Gymraeg. Pwysleisia hyn oll yr angen i sicrhau fod plant (yn enwedig plant o gartrefi di-Gymraeg) yn cael cyfle digonol i glywed a defnyddio'r strwythurau amrywiol a geir yn y system ateb yn y Gymraeg yn yr ysgol gynradd.

Fodd bynnag, er fod y system addysg yn ymdrin a sgiliau ieithyddol nid yw'r unigolyn/sefydliadau sy'n rhan o'r system addysgol gyda'r pŵer neu dylanwad angenrheidiol i roi sylw i gefndiroedd ieithyddol y plant yn yr ysgol. Yn hytrach, ceir amryw o gyrff eraill sy'n ceisio hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o Gymraeg ar draws Cymru. Mae'r cyrff hyn yn rhanddeiliad allweddol yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru yn ôl dogfen Llywodraeth

Cymru (2012) *laith fyw:laith Byw*. Cyfeiria'r ddogfen hon at gyrff megis y Mudiad Meithrin a rhaglen Twf yn benodol sy'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a trosglwyddiad iaith yn y cartref (gweler wefan Twf <http://twfcymru.com/?lang=cy> am fanylion pellach). Yn ogystal, mae'r Mentrau iaith (<http://www.mentrauiath.cymru/>) yn mynd ati i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn ehangach o fewn y gymuned. Mae Mudiad Urdd Gobaith Cymru (<http://www.urdd.cymru/cy/>) ar y llaw arall yn cydweithio'n agos gyda ysgolion ac unigolion wrth alluogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chystadlaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ychwanegol i hyn ceir mudiadau megis Clybiau ffermwyr Ifanc Cymru (<http://www.yfc-wales.org.uk/cymraeg>), Merched y Wawr (<http://merchedywawr.cymru/>), Clybiau drama a chymdeithasu amrywiol sy'n cynnig cyfleoedd i blant a phobl hyn i gymdeithasu a chystadlu drwy gyfrwng y Gymraeg. Adnabyddir hefyd bwysigrwydd yr elfen weladwy/clywadwy o'r iaith yn y cyfryngau e.e. rhaglenni Cyw ar S4C.

Yn gysylltiedig â'r rhanddeiliad uchod cyfeiria dogfen Llywodraeth Cymru *laith fyw: laith Byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-2017* at 6 nod penodol wrth drafod yr angen i hyrwyddo'r iaith Gymraeg (arddangosir y nodau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru, 2013):

- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc a chynyddu eu hymwybyddiaeth o werth yr iaith
- cryfhau safle'r Gymraeg o fewn y gymuned
- cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cynyddu a gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion
- cryfhau'r seilwaith ar gyfer yr iaith, gan gynnwys technoleg digidol.

Mae'r nodau uchod â'r cyfeiriadau amlwg at gyrff penodol yn awgrymu fod y llywodraeth yn ceisio mynd i'r afael a'r angen i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol ar draws darpariaethau a chymunedau. Er y gall y system addysg cyfrwng Cymraeg gynorthwyo gyda'r



broses hyn (gweler ddogfen Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* am fanylion pellach) mae'n amlwg fod angen edrych y tu hwnt i addysg ac addysgu os am gynyddu amlygiad plant i'r Gymraeg ac i strwythurau penodol yn y Gymraeg (yn enwedig plant o gartrefi Saesneg a Chymysg). Nid dros nos mae newid cefndir ieithyddol disgyblion a'u teuluoedd ac er fod y cyn weinidog ar gyfer Addysg a Sgiliau, yr Aelod Cynulliad Leighton Andrews, yn cydnabod (Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith Fyw:Iaith Byw*) fod gwaith i'w wneud mae ei nodau hefyd yn awgrymu fod y Llywodraeth yn uchelgeisiol yn eu gweledigaeth.

## 10.5 Ystyriaethau Methodolegol ac Ymchwil Pellach

Mae ymchwil yn broses parhaus a di-ben-draw lle mae unrhyw waith yn codi cwestiynau pellach am y maes dan sylw. O ganlyniad i hyn nodir rhai ystyriaethau ar gyfer datblygu'r ymchwil yma ymhellach isod.

Fel a nodwyd ym Mhennod 3 mae'n bwysig ystyried amllder yr amlygiad ieithyddol wrth gynnal ymchwil gyda phlant dwyieithog (Grosjean, 2007; Yip 2013). Yn yr ymchwil presennol defnyddiwyd iaith y cartref fel y mesur pennaf o amlygiad ieithyddol, yn unol ag ymchwil cyfredol eraill yn y maes (e.e. Gathercole a Thomas, 2005; Thomas, Williams, Jones, Davies a Binks ,2013). Yn ogystal, cyfeiriwyd at iaith y defnyddir gyda ffrindiau yn ystod yr astudiaeth yma ac mae'n debyg fod modd ehangu ymhellach ar yr agwedd yma e.e. casglu data gan yr athrawon a'r plant eu hunain am eu defnydd o iaith gyda ffrindiau oddi mewn a thu allan i'r ysgol. Fodd bynnag mae ymchwil blaenorol hefyd wedi mesur amlygiad iaith drwy edrych ar y defnydd o iaith, cyd-destun caffael iaith, sefydlogrwydd iaith, neu hyd yn oed drwy gwblhau profion iaith (gweler Grosjean 2007 am drafodaeth pellach ar astudio

unigolion dwyieithog). Ar y llaw arall mae rhai ymchwilwyr yn mynd ati i wneud defnydd o ddata mwy ansoddol yn ogystal sy'n ceisio mesur yr holl fewnbwn ieithyddol a geir gan y plentyn (gweler Unsworth a Blom 2010 am drafodaeth pellach). Mae'r anghysondebau yma yn y modd y diffinnir a chesglir data gan unigolion dwyieithog yn gallu arwain at ganlyniadau anghyson ar adegau. Yn dilyn hyn, pwysleisia Grosjean (2007) yr angen i ymchwilwyr gytuno ar ba wybodaeth sy'n bwysig i'w chasglu wrth gynnal ymchwil gydag unigolion dwyieithog. Felly, er fod y data presennol yn cyd-fynd gyda'r hyn a gasglwyd mewn ymchwil cyfatebol, mae'n debyg y byddai modd gwneud defnydd o ddulliau ymchwil eraill yn ogystal er mwyn cyfoethogi'r data presennol. Fe all hyn gynnwys:

1. Y defnydd o ddulliau ansoddol lle ystyrir holl fewnbwn y plentyn a holl gyd-destunau'r mewnbwn hwnnw.
2. Cynllunio ymchwil hydrefol (longitudinal) lle mae posib dilyn yr un plentyn dros gyfnod o amser a nodi unrhyw newidiadau l'r iaith/ieithoedd mae o/hi yn eu defnyddio/clywed yn ystod y cyfnod hwnnw.
3. Cyfuno dull arbrofol efo gwaith corpws i gael gwell syniad o ddefnydd naturiol y plant o'r system ochr-yn-ochr gyda'u dealltwriaeth o'r rheolau.
4. Ehangu'r ymchwil i ardaloedd a siroedd eraill er mwyn darganfod a oes gwahaniaethau yn y math o ymatebion a geir ar draws Cymru.
5. Oherwydd bod yr ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar ymatebion adleisiol o'r ffurf *bod* fe all ymchwil pellach edrych ar y defnydd o ffurfiau eraill.
6. Gall ymchwil pellach hefyd ystyried sut y diffinnir y mewnbwn dderbynnir un ai yn nhermau (i) iaith a ddewisir yn y rhyngweithiadau neu (ii) dadansoddiadau corpws.

Yn ychwanegol i hyn fe all ymchwil dilynol ganolbwyntio ar un ai blant iau er mwyn edrych ar batrwm datblygiad y rheolau neu ar blant hŷn er mwyn darganfod a yw eu gwybodaeth o'r system yn cynyddu, yn gostwng neu yn aros yn stond yn ystod cyfnod llencyndod. Yn ogystal, ac yn gysylltiedig gyda'r ystyriaethau blaenorol mae lle i ystyried sut mae iaith oedolion yn cymharu gyda iaith plant h.y. Fydd perfformiad oedolion yn ymdebygu i'r hyn a welir yng nghanlyniadau plant ifanc neu a fydd oedolion yn arddangos patrymau gwahanol o ymatebion?

Ystyriaeth diddorol arall y gellid ei harchwilio ymhellach ydy edrych ar y strategaethau addysgu iaith ddefnyddir gan ganolfannau iaith i drochi hwyrddyfodiad i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg. Tybir y buasai casglu gwybodaeth gynhwysfawr am strategaethau'r canolfannau hyn yn cynorthwyo cynghorau i ystyried strategaethau addysgu effeithiol mewn canolfannau trochi, i fesur llwyddiant y cynllun ac i rannu arfer da ymysg rhyngddeiliaid eraill. Yn ogystal (ac yn bwysicach yng nghyd-destun darganfyddiadau'r ymchwil hwn), mi fysai posib i ymchwil o'r math hwn ystyried a oes posib trosglwyddo ac hyrwyddo rhai o'r strategaethau ddefnyddir ar lawr y dosbarth mewn ysgolion cyffredin ledled Cymru.

Un ffactor arall a all effeithio ar y canlyniadau hyn yn ogystal yw agweddau rhieni a phlant tuag at ddefnyddio'r Gymraeg (gweler Coupland et al (2005) am drafodaeth pellach). Ni archwiliwyd y ffactor yma mewn unrhyw fanylder yn yr ymchwil presennol ond fe all agweddau gael effaith niweidiol neu ffafriol ar berfformiad plant ar brofion ieithyddol (Kennedy, 2013):

“The child learner acquires language as part of learning how to be a human being in the culture in which he/she is being raised...The L2 learner...is trying to communicate. He or she may not want to fit into the target culture. In my opinion

this factor is a strong determinant of the degree to which the grammar of the target language is successfully acquired.”

(Bybee, 2009:232)

## 10.6 Casgliad

Dyma’r astudiaeth gyntaf i edrych ar yr agwedd yma o gaffaeliad plant o’r system ateb o ochr seico-ieithyddol; system gymhleth o ran amrywiaeth ymatebion ond sydd â rheolau pendant. Yn ogystal hi yw’r gyntaf i adnabod fod amllder y mewnbwn yn dyngedfennol hyd yn oed pan fod y system ei hun yn llawn ciwiau. O ganlyniad mae’r ymchwil hwn yn cyfrannu negeseuon pwysig i’r maes caffael iaith gan blant dwyieithog, yn enwedig o safbwynt caffael strwythurau cymhleth. Mae tryloywder cyffredinol y system ateb yn y Gymraeg yn cynnig mynediad rhwydd i batrymau’r system a’i gwneud yn agored i bawb. Mae hyn yn chwa o awyr iach o fewn maes lle mae ymchwil blaenorol yn arddangos perfformiad anghyson gan blant ar brofion o systemau cymhleth eraill yn y Gymraeg.

## Cyfeirnodau

- Abbot-Smith, K., Lieven, E., & Tomasello, M. (2008). Graded representations in the acquisition of English and German transitive constructions. *Cognitive Development*, 23(1), 48-66.
- Abbot-Smith, K., & Tomasello, M. (2010). The influence of frequency and semantic similarity on how children learn grammar. *First Language*, 30(1), 79-101.
- Akiyama, M. M. (1979) Yes-no answering systems in young children. *Cognitive Psychology*, 11(4), 585-504.
- Ambridge, B. a Lieven, E. V. M. (2011). *Child Language Acquisition: Contrasting Theoretical Approaches*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Ambridge, B., Pine, J. M., Rowland, C. F., a Young, C. R. (2008). The effect of verb semantic class and verb frequency (entrenchment) on children's and adults' graded judgements of argument-structure overgeneralization errors. *Cognition*, 106(1), 87-129.
- Ambridge, B., Theakston, A. L., Lieven, E. V. M. a Tomasello, M. (2006). The distributed learning effect for children's acquisition of an abstract syntactic Construction. *Cognitive Development*, 21, 174-193.
- Ayoun, D. (2005). *Parameter Setting in Language Acquisition*. Llundain: Continuum.
- Baker, C. (1992). *Attitudes and language* (No. 83). Bryste: Multilingual Matters.
- Baker, C. (2014). *A parents' and teachers' guide to bilingualism* (Vol. 18). Multilingual Matters.
- Gardner, R. C., Lalonde, R. N., Moorcroft, R., & Evers, F. T. (1987). Second language attrition: The role of motivation and use. *Journal of Language and Social Psychology*, 6(1), 29-47.
- Bates, E. a MacWhinney, B. (1989). Functionalism and the Competition Model. Yn B. MacWhinney & E. Bates (Gol.), *The crosslinguistic study of sentence processing* (tud. 3-73). Efrog Newydd: Cambridge University Press.
- Ben-Zeev, S. (1977). The influence of bilingualism on cognitive strategy and cognitive development. *Child development*, 1009-1018.
- BERA *Ethical Guidelines for Educational Research 2011*. Llawrlwythwyd o <http://www.bera.ac.uk/>, Medi 2013.
- Bialystok, E. (2009). Bilingualism: The good, the bad, and the indifferent. *Bilingualism: Language and Cognition*, 12(01), 3-11.

- Bosch, L., & Sebastián-Gallés, N. (1997). Native-language recognition abilities in 4-month-old infants from monolingual and bilingual environments. *Cognition*, 65(1), 33-69.
- Bosch, L. & Sebastian-Galles, N. (2001). In J. Cenoz & F. Genesee (Eds.), *Trends in Bilingual Acquisition*, (pp.71-94). Amsterdam: John Benjamins.
- Bosch, L. & Sebastian-Galles, N. (2003). Simultaneous bilingualism and the perception of a language-specific vowel contrast in the first year of life. *Language and Speech*, 46, 217-243.
- Broca, P. (1865). Sur le siège de la faculté du langage articulé. *Bulletins de la société d'anthropologie de Paris*, 6, 377-393.
- Brown, R. (1973). *A first language: The early stages*. Llundain: George Allen & Unwin.
- Bybee, J. (1995). Regular morphology and the lexicon. *Language and cognitive processes*, 10(5), 425-455.
- Bybee, J. (2001). Frequency effects on French liaison. *Typological studies in language*, 45, 337-360.
- Bybee, J. (2009). Usage-based grammar and second language acquisition. In P. Robinson, & N. C. Ellis (Eds.), *Handbook of Cognitive Linguistics and Second Language Acquisition*, 216-236. Oxon: Routledge
- Cain, J., Weber-Olsen, M. & Smith, R. (1987). Acquisition strategies in a first and second language: Are they the same? *Journal of Child Language*, 14, 333-352.
- Chomsky, N (1957). *Syntactic Structures*. Mouton: The Hague.
- Chomsky, N. (1981). *Lectures on government and binding*. Dordrecht: Foris.
- Chomsky, N. (1986). *Knowledge of Language: Its Nature, Origin, and Use*. Ithaca: Cornell University Press.
- Chomsky, N. (1991). Linguistics and cognitive science: Problems and mysteries. In A. Kasher (ed.), *The Chomskyan turn*. Caergrawnt, MA: Blackwell.
- Chomsky, N. (1995). *The minimalist programme*. Caergrawnt, MA: MIT Press.
- Chomsky, N.(2001). *The Architecture of Language*. New Delhi: Oxford University Press.
- Christiansen, M. H., Allen, J., & Seidenberg, M. S. (1998). Learning to segment speech using multiple cues: A connectionist model. *Language and cognitive processes*, 13(2-3), 221-268.

- Christophe, A. a Morton, J. (1998). Is Dutch native English? Linguistic analysis by 2-month-olds. *Developmental Science*, 1, 215-219.
- Christophe, A., Nespors, M., Teresa Guasti, M., a Van Ooyen, B. (2003). Prosodic structure and syntactic acquisition: the case of the head - direction parameter. *Developmental Science*, 6(2), 211-220.
- Cline, T. (Gol.) (1992). *The Assessment of Special Educational Needs: An International Perspective*. Llundain: Routledge.
- Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru Llawrlwythwyd o (<http://www.yfc-wales.org.uk/cymraeg>) Rhagfyr 2015.
- Colunga, E., a Smith, L. B. (2005). From the lexicon to expectations about kinds: a role for associative learning. *Psychological Review*, 112(2), 347.
- Comeau, L., Genesse, F. a Lapaquette, L. (2003). The modelling hypothesis and child bilingual code-mixing. *International Journal of Bilingualism*, 7, 113-126.
- Conti-Ramsden, G. a Jones, M. (1997). Verb use in specific language impairment. *Journal of Speech, Language and Hearing Research*, 40, 1298-1313.
- Cook, V. J. (1991). The poverty-of-the-stimulus argument and multi-competence. *Second Language Research*, 7(2), 103-117.
- Cook, V. J. (2002). Language Teaching methodology and the L2 user perspective. In V. J. Cook (ed.), *Portraits of the L2 user*. Clevedon: Multilingual Matters, 325-44.
- Cook, V. J. a Newson, M. (2007). *Chomsky's Universal Grammar: An Introduction* (Third Edition). Rhydychen: Blackwell Publishing.
- Croft, W. (2001). *Radical construction grammar: Syntactic theory in typological perspective*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Curtiss, S., Fromkin, V., Krashen, S., Rigler, D., & Rigler, M. (1974). The linguistic development of Genie. *Language*, 528-554.
- Cyngor Gwynedd (2014; diwygwyd Mawrth 2015) *Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llawrlwythwyd* o <https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Strategol-Y-Gymraeg-mewn-Addysg.pdf> Rhagfyr 2015.
- Dahl, O. (2008). Grammatical resources in linguistic complexity. Yn F. Karlsson, M. Miestamo a K. Sinnemäki (Gol.), *Language Complexity: Typology, Contact, Change*, (tud. 3-22). Amsterdam: John Benjamins.

- Dammel, A. a Kürschner, S. (2008). Complexity in nominal plural allomorphy: A contrastive survey of ten Germanic languages. Yn F. Karlsson, M. Miestamo & K. Sinnemäki (Gol.), *Language Complexity: Typology, Contact, Change*, (tud. 3-22). Amsterdam: John Benjamins.
- Davies, P. G. C. (2010). *Identifying word-order convergence in the speech of Welsh-English bilinguals* (Traethawd Hir ar gyfer Doethuriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor).
- DeCasper, A. J. a Spence, M.J. (1986). Prenatal Maternal Speech Influences Newborns' Perception of Speech Sounds. *Infant Behaviour and Development*, 9, 133-150.
- Dehaene-Lambertz, G., Dehaene, S. a Hertz-Pannier, L. (2002). Functional Neuroimaging of Speech Perception in Infants. *Science*, 298, 2013-15.
- De Houwer, A. (1990). *The Acquisition of Two Languages from Birth: A Case Study*. Caergrawnt: Cambridge University Press.
- De Houwer, A. (1995). Bilingual Language acquisition. In P. Fletcher & B. Mac Whinney (Gol.), *The handbook of child language* (tud. 219-250). Rhydychen: Blackwell.
- De Houwer, A. (2005). Early bilingual acquisition: Focus on morphosyntax and the separate development hypothesis. Yn J. Kroll & A. De Groot (Gol.), *The handbook of bilingualism* (tud.30-48). Rhydychen: Oxford University Press.
- De Houwer, A. (2007). Parental language input patterns and children's bilingual use. *Applied psycholinguistics*, 28(3), 411.
- De Houwer, A. (2009). *Bilingual First Language Acquisition*. Clevedon, DU: Multilingual Matters.
- Deuchar, M, Davies, P, Herring, J, Parafita Couto, MC a Carter, D (yn y wasg) "Building Bilingual Corpora." Yn: E.Thomas a I. Mennen (GOL.) *Unravelling Bilingualism: A Cross-Disciplinary Perspective*. Bryste: Multilingual Matters.
- Deuchar, M. a Quay, S. (2000). *Bilingual Acquisition: Theoretical Implications of a Case Study*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Dodds, R. W. (1977). *Teach Yourself Malay*. Hodder and Staughton, London.
- Döpke, S. (1998). Competing language structures: The acquisition of verb placement by bilingual German-English children. *Journal of child language*, 25(03), 555-584.
- Döpke, S. (Gol.). (2000). *Cross-linguistic Structures in Simultaneous Bilingualism*. Amsterdam: John Benjamins.
- Dulay, H. a Burt, M. (1974). A new perspective on the creative construction process in children. *Language Learning*, 24, 253-278.



- Dunn, L. M., Dunn, L. M., Whetton, C. W., a Burley, J. (1997). *British Picture Vocabulary Scale* (2nd ed.). Windsor: NFER-Nelson.
- Ellis, N. C., O'Dochartaigh, C., Hicks, W., Morgan, M., a Laporte, N. (2001). *Cronfa Electroneg o Gymraeg (CEG): Cronfa ddata eirfaol, miliwn o eiriau, sy'n cyfrif amlder defnydd geiriau yn y Gymraeg*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/ceg.php.cy>
- Ellis, N. C. a Robinson, P. (2009). An Introduction to Cognitive Linguistics, second language instruction and language instruction. Yn P. Robinson, a N. C. Ellis (Gol.). *Handbook of Cognitive Linguistics and Second language Acquisition*, 3-24. Oxon: Routledge.
- Elman, J. L., Bates, E., Johnson, M. H., Karmiloff-Smith, A., Parisi, D. a Plunkett, K. (1996). *Rethinking Innateness: A Connectionist Perspective on Development*. Caergrawnt: MIT Press.
- Fernald, A., & Mazzie, C. (1991). Prosody and focus in speech to infants and adults. *Developmental psychology*, 27(2), 209.
- Flynn, S. (1989). Spanish, Japanese and Chinese speakers' acquisition of English relative clauses: New evidence for the head-direction parameter. *Bilingualism across the life span. Aspects of acquisition, maturity and loss*, 116-131.
- Fodor, J. (1983). *The Modularity of Mind: An essay on faculty psychology*. Caergrawnt, Map: MIT Press.
- Francis, N. (2012). *Bilingual Competence in Child Development*. Llundain: MIT Press.
- García, O. (2011). *Bilingual education in the 21st century: A global perspective*. Wiley. com.
- García, O. (2013). Students and Teachers Translanguaging: Mas allá de la heteroglosia. Cyflwynwyd yn y 9fed Symposiwm Rhyngwladol ar Ddwyieithrwydd (ISB9). Singapore, 10<sup>fed</sup>-13<sup>eg</sup> o Fehefin.
- Gasser, M., a Smith, L. B. (1998). Learning nouns and adjectives: A connectionist account. *Language and cognitive processes*, 13(2-3), 269-306.
- Gathercole, V. C. M. (2002a). Command of the mass/count distinction in bilingual and monolingual children: An English morphosyntactic distinction. Yn D. K. Oller a R. E. Eilers (Gol.), *Language and Literacy in Bilingual children* (tud.175-206). Clevedon: Multilingual Matters.
- Gathercole, V. C. M. (2002b). Grammatical gender in bilingual and monolingual children: A Spanish morphosyntactic distinction. Yn D. K. Oller a R. E. Eilers (Gol.), *Language and Literacy in Bilingual children* (tud.207-219). Clevedon: Multilingual Matters.

- Gathercole, V. C. Mueller, a Hoff, E. (2007). Input and the Acquisition of Language: Three Questions. Yn E. Hoff a M. Shatz (Gol.), *Blackwell Handbook of Language Development*, ( 107-127). Rhydychen: Blackwell.
- Gathercole, V. C. M., Sebastián, E., & Soto, P. (1999). The early acquisition of Spanish verbal morphology: Across-the-board or piecemeal knowledge? *International Journal of Bilingualism*, 3(2-3), 133-182.
- Gathercole, V. C. Mueller a Thomas, E. M. (2005). Minority language survival:input factors influencing the acquisition of Welsh. Yn J. Cohen, K. T.McAlister, K. Rolstad a J. MacSwan (eds), *Proceedings of the 4thInternational Symposium on Bilingualism*. Somerville, MA: Cascadilla Press.
- Gathercole, V. C. M., a Thomas, E. M. (2007). Prawf Geirfa Cymraeg: Fersiwn 7-11: Prifysgol Bangor.
- Gathercole, V. C. M., & Thomas, E. M. (2009). Bilingual first-language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition*, 12(2), 213-237.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M., a Evans, D. (2000). What's in a noun? English-, Welsh-, and Spanish-speaking children see it differently. *First Language*, 20, 55 – 90.
- Gathercole, V. C. Mueller, Mon Thomas, E., a Hughes, E. (2008). Designing a normed receptive vocabulary test for bilingual populations: A model from Welsh. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 11(6), 678-720.
- Gathercole, V. C. Mueller, Thomas, E. M. a Laporte, N. I. (2001). The acquisition of grammatical gender in Welsh. *Journal of Celtic Language Learning*, 6, 53-87.
- Genesee, F. (1989). Early Bilingual Language Development: one language or two? *Journal of Child Language*, 16-, 161-79.
- Genesee, F. (2001). Bilingual first language acquisition: Exploring the limits of the language faculty. In M. McGroarty (Gol.) *21st Annual Review of Applied Linguistics* (tud. 153-168). Caergrawnt: Cambridge University Press.
- Genesee, F. (2003). Rethinking bilingual acquisition. Yn J. M. deWaele (Gol.) *Bilingualism: Challenges and directions for future Research* (tud. 158-182).Clevedon: Multilingual Matters.
- Genesee, F. (2008). Early dual language learning. *Zero to Three*, 29(1), tud 17-23.
- Genesee, F. a Nicoladis, E. (2007). Bilingual First Language Acquisition. Yn E. Hoff A M. Shatz (Gol.), *Blackwell Handbook of Language Development*. Rhydychen: Blackwell.

- Gerken, L.A., Jusczyk, P.W., a Mandel, D.R. (1994). When prosody fails to cue syntactic structure: Nine month olds sensitivity to phonological vs. Syntactic phrases. *Cognition*, 51, 237-265.
- Goldberg, A. E. a Casenhiser, D. (2009). Construction Learning and Second Language Acquisition. Yn P. Robinson, a N. C. Ellis (Gol.). *Handbook of Cognitive Linguistics and Second laanguage Acqusiution*, 197 -215 Oxon: Routledge
- Golberg, H., Paradis, J. a Crago, M. (2008). Lexical acquisition over time in minority first language children learning English as a second language. *Applied Psycholinguistics*, 29, 41-65.
- Goodglass, H.(1993). *Understanding Aphasia*. San Diego: Academic Press.
- Graveter, F. J. a Wallnau, L. B. (2000). *Statistics of the Behavioural Sciences*, (5ed Argraffiad). Belmont, CA, Yr Unol Daleithiau: Wadsworth.
- Greig, A. D., Taylor, J., a MacKay, T. (2013). *Doing Research with Children: A Practical Guide*. Llundain: SAGE.
- Griffiths, B. a Jones, D. G. (2008). *The Welsh Academy English-Welsh Dictionary*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.
- Grosjean, F. (2007). *Studying Bilinguals*. Rhydychen: Oxford University Press.
- Grosjean, F. (2010). *Bilingual: Life and Reality*. Caergrawnt, Massachusetts: Cyhoeddwr Prifysgol Harvard.
- Grosjean, F. a Li, P. (2013) *The Psycholinguistics of Bilingualism*. Chichester: Wiley-Blackwell.
- Guasti, M. T. (2004). *Language Acquisition: The Growth of Grammar*. Caergrawnt, MA: MIT Press.
- Guasti, M. T., Christophe, A., van Ooyen, B., a Nespors, M. (2001). Pre-lexical setting of the head: Complement parameter through prosody. *Language acquisition and language disorders*, 23, 231-248.
- Hakulinen, A. (2001). Minimal and non-minimal answers to yes-no questions, *Pragmatics* 11(1), tud 1-15.
- Hakuta, K. (1986). *The Mirror of Language*. Efrog Newydd: Basic Books.
- Hakuta, K., Bialystok, E. a Wiley, E. (2003). Critical Evidence: A Test of the Critical-Period Hypothesis for Second-Language Acquisition. *Psychological Science*, 14(1), 31-38.

- Hawkins, R., a Franceschina, F. (2004). Explaining the acquisition and non-acquisition of determiner-noun gender concord in French and Spanish. *Language acquisition and language disorders*, 32, 175-206.
- Hesketh, S., Christophe, A., a Dehaene-Lambertz, G. (1997). Non-nutritive sucking and sentence processing. *Infant Behaviour and Development*, 20, 263-269.
- Hoff, E. (2005). *Language Development: Third Edition*. Thomson: Wadsworth.
- Hoff, E., Core, C., Place, S., Rumiche, R., Señor, M. a Parra, M. (2012). Dual language exposure and early bilingual development, *Journal of Child Language*, 39(01), 1-27.
- Hoff, E, a Elledge, C. (2005). Bilingualism as One of Many Environmental Variables that Affect Language Development. Yn J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad, a J. MacSwan (Gol.), *Proceedings of the 4<sup>th</sup> International Symposium on Bilingualism*. Somerville, MA: Cascadilla Press.
- Hoff, E. & McKay, J. (2005). Phonological Memory Skill in Monolingual and Bilingual 23-Month-Olds. Yn J. Cohen, K. T. McAlister, K. Rolstad, a J. MacSwan (Gol.), *Proceedings of the 4<sup>th</sup> International Symposium on Bilingualism*. Somerville, MA: Cascadilla Press.
- Hoff, E., a Luz Rumiche, R. (2012). Studying children in bilingual environments. Yn E. Hoff (Gol.) *Research methods in child language: A practical guide*, 300-316. Oxford: Wiley-Blackwell.
- Holmberg, A. (2012). On the syntax of yes and no in English. *Newcastle Working Papers in Linguistics* 18, 152.
- Hulk, A. C., a Linden, V. D. E. (1996). Language mixing in a French-Dutch bilingual child. *Toegepaste taalwetenschap in Artikelen*, 55(2), 89-103.
- Jarvis, S. a Pavlenko, A. (2012). *Crosslinguistic Influence in language and Cognition*. Efrog Newydd: Routledge.
- Jones, B. M. (1987/88). The Discourse Acts of Five-Year-Olds Speaking Welsh. *Studia Celtica*, 176-199.
- Jones, B. M. (1993). *Ar Lafar ac ar Bapur*. Astudiaethau Addysg Aberystwyth. Aberystwyth: Argraffwyr Cambrian.
- Jones, B. M. (1999). *The Welsh Answering System*. Berlin ac Efrog Newydd: Mouton de Grutyer.
- Jusczyk, P.W., a Kemler-Nelson, D.G. (1994). Syntactic units, prosody, and psychological reality during infancy. Yn J.L. Morgan & K. Demuth (Gol), *Signal to syntax*. Hillsdale, NJ: Erlbaum.

- Karmiloff-Smith, A. (2007). Atypical Epigenesis. *Developmental Science*, 10(1), 84-88.
- Kegl, J. (2002). Language emergence in a language-ready brain. Yn G. Morgan a B. Woll (Gol.), *Directions in Sign Language Acquisition* (tud.207-54). Amsterdam and Philadelphia: John Benjamins.
- Kempe, V., a MacWhinney, B. (1998). The acquisition of case marking by adult learners of Russian and German. *Studies in Second Language Acquisition*, 20(4), 543-587.
- Kennedy, I. A. (2012). *Irish medium education: cognitive skills, linguistic skills, and attitudes towards Irish* (Traethawd Hir ar gyfer Doethuriaeth, Prifysgol Cymru, Bangor).
- King, G. (2003). *Modern Welsh: A Comprehensive Grammar (Ail Argraffiad)*. Llundain: Routledge.
- Kitagawa, C. (1980). Saying "yes" in Japanese. *Journal of Pragmatics*, 4(2), 105-120.
- Kuhl, P. K., Stevens, E., Hayashi, A., Deguchi, T., Kiritani, S. a Iverson, P. (2006). Infants show a facilitation effect for native language phonetic perception between 6 and 12 months. *Developmental Science*, 9(2), F13-F21.
- Lenneberg, E. H. (1967). *Biological Foundations of Language*. Efrog Newydd: Wiley.
- Lewis, D. G. (2013). *Y Llyfr Berfau*. Llandysgul: Gwasg Gomer.
- Lewis, G.W (2006) Welsh-medium primary education: the challenges and opportunities of the twenty-first century. Yn *WELSH-MEDIUM AND BILINGUAL EDUCATION* CATRIN REDKNAP W. GWYN LEWIS SIAN RHIANNON WILLIAMS JANET LAUGHARNE, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor.
- Lieven, E. V., Pine, J. M., a Baldwin, G. (1997). Lexically-based learning and early grammatical development. *Journal of child language*, 24(01), 187-219.
- Lieven, E. a Tomasello, M. (2009). Children's first language acquisition from a usage based perspective. Yn P. Robinson a N. C. Ellis, (Gol.), *Handbook of Cognitive Linguistics and Second Language Acquisition*, 168-196. Oxon: Routledge.
- Luk, G., & Bialystok, E. (2013). Bilingualism is not a categorical variable: Interaction between language proficiency and usage. *Journal of Cognitive Psychology* (Hove, England), 25(5), 605–621. <http://doi.org/10.1080/20445911.2013.795574>
- Llywodraeth Cymru (2010) *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*. Llawrlwythwyd o <http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf>, Rhagfyr 2015.

- Llywodraeth Cymru (2012). *Cyfrifiad 2011: Canlyniadau Cyntaf ar yr Iaith Gymraeg*.  
Llawrlwythwyd o <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/population2012/121211/?lang=cy>  
Medi 2013.
- Llywodraeth Cymru (2012) *Iaith fyw: iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17*.  
Llawrlwythwyd o <http://gov.wales/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf>  
[Rhagfyr 2015](#).
- Llywodraeth Cymru (2013) *Strategaeth ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd*. Llawrlwythwyd o  
<http://gov.wales/topics/welshlanguage/policy/living/?lang=cy>, Rhagfyr 2015.
- Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Llawrlwythwyd  
o <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?lang=cy>. Rhagfyr 2015.
- MacWhinney, B. (2004). A unified model of language acquisition. *Handbook of bilingualism*,  
49.
- MacWhinney, B. (2009). A Unified Model. Yn P. Robinson a N. C. Ellis, (Gol.), *Handbook of  
Cognitive Linguistics and Second Language Acquisition*, 341-371. Oxon: Routledge.
- MacWhinney, Brian (2010). The CHILDES Project: Tools for Analyzing Talk. Electronic Edition.  
Part 1: The CHAT Transcription Format. Part 2: The CLAN  
Programs.<<http://childes.psy.cmu.edu/manuals/>>
- Maratsos, M. (2000). More overregularizations after all: new data and discussion on Marcus,  
Pinker, Ullman, Hollander, Rosen & Xu. *Journal of Child Language*, 27(1), 183-212.
- Marchman, V. A., & Bates, E. (1994). Continuity in lexical and morphological development: A  
test of the critical mass hypothesis. *Journal of child language*, 21, 339-339.
- Marcus, G. F., Pinker, S., Ullman, M., Hollander, M., Rosen, T. J., Xu, F., a Clahsen, H. (1992).  
Overregularization in language acquisition. *Monographs of the Society for research in  
child development*, 1-178.
- McClelland, J. L., & Patterson, K. (2002). Rules or connections in past-tense inflections: What  
does the evidence rule out? *Trends in Cognitive Sciences*, 6(11), 465-472.
- McKercher, D. A., a Jaswal, V. K. (2011). Using Judgment Tasks to Study Language  
Knowledge. Yn E. Hoff, (Gol.) *Research Methods in Child Language: A Practical Guide*,  
149-161. Oxford: Wiley-Blackwell.
- McMurray, B. a Aslin, R. N. (2005). Infants are sensitive to within-category variation in  
speech perception. *Cognition*, 95(2), B15-B26.

- Meisel, J. M. (Gol.). (1994). *Bilingual first language acquisition: French and German grammatical development* (Rhif. 7). John Benjamins Publishing.
- Meisel, J. M. (2001). The simultaneous acquisition of two first languages: Early differentiation and subsequent development of grammars. Yn J. Cenoz a F. Genesse (Gol.), *Trends in bilingual acquisition* (tud.11-42). Amsterdam: John Benjamins.
- Mentrau iaith. Llawrlwythwyd o <http://www.mentrauiaith.cymru/>, Rhagfyr 2015.
